



Bodleian Libraries

UNIVERSITY OF OXFORD

This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.

For more information see:

<http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks>



This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.



~~4/3~~ 36


H. H. B. Somerset

8/3/11

14731



600100829Q



~~1/2~~ 36

H. H. B. Somerset

8/3/11

14731



600100829Q

Y PER GANIEDYDD;

SEF

DETHOLIAD

O

HYMNAU W. WILLIAMS,

GYNT O BANT-Y-CELYN:

GYDAG

ATDDODIAD,

YN CYNNWYS

PIGION O HYMNAU AMRYWIOL AWDWYR;

A RHAI ANTHEMAU.

GAN Y PARCH. WILLIAM REES.

LIVERPOOL:

ARGRAFFWYD GAN G. W. JONES & CO. LORD STREET,

DROS Y DETHOLYDD.



RHAGYMADRODD.

Y MAE weithian uwchlaw ugain mlynedd er pan feithrinais gyntaf awydd a bwriad i grynöi a chyhoeddi detholion o Hymnau y "Per Ganiedydd" o Bant-y-Celyn. Mynych gyhoeddiad llyfrau Hymnau, o bryd i bryd, yn yr ystod hwnw o amser, a'm hattaliodd i osod y bwriad mewn gweithrediad hyd yn bresenol. Annogaethau cyfeillion, ac addewidion calonog o gefnogaeth, a weithiodd y bwriad hwnw o'r diwedd i benderfyniad; ac wele ef yn awr, mewn ffurf a sylwedd, yn cael ei gyflwyno i sylw y cyhoedd. Llafur mwy nag a ddichon nemawr o'i dderbynwyr amgyffred, a mwy nag a feddyliais i fy hun, cyn dechreu ar y gwaith, ydoedd ei gasglu at ei gilydd yn y drefn y gwelir ef wedi ei gyflëu. Gorfu i mi fyned drwy yr holl waith ugeiniau o weithiau, a chymeryd pennill oddiyma ac arall o draw, er crynöi Emyr ar y naill fater a'r llall. Pe caniatasai amgylchiadau i mi roddi fy holl amser a'm sylw at y gwaith, odid na allaswn ei gyflawni yn fwy trefnus; ond gan nad ydoedd ddichonadwy i mi ond rhedeg ato yn awr a phryd arall, fel y dygwyddau hamdden, nid rhyfedd os gwel darlennyddion o graffder a chwaeth, lawer o ddiffygion ac amherffeithrwydd yn ei drefniad.

Cynwysa y Casgliad hwn amrywiol o Hymnau rhagorol, o gyfansoddiad Williams, nad ydynt i'w cael mewn un o'r detholion a gyhoeddwyd o'r blaen. A chan nad yw y gwaith gwreiddiol yn meddiant ond ychydig mewn

cymhariaeth, ac na ddefnyddir ef ond yn anamliawn yn yr addoliad cyhoeddus yn Nghymru, y mae y cyfryw Hymnau, o angenrheidrwydd, yn dra anadnabyddus i'r cyffredin. Gobeithiaf y bydd i'r ymdrech hwn i gloddio allan, a dwyn i'r golwg y trysorau gwerthfawr o feddyliau efengylaidd a gynnwysa yr Hymnau hyny, yn foddion i "gyffroi meddwl puraidd" Cristionogion ein gwlad, a'u cynnorthwyo i brofi a mwynhau gradd helaeth o'r wledd nefolaidd a raid fod yr Awdwr yn fwynhau wrth eu cyfansoddi, ac a brofodd y detholydd, i raddau, wrth eu casglu.

Ni wnaed ond can lleied o gyfnewidiadau ag oedd bosibl, sef lle y gofynai y mesur, ac eglurdeb iaith; a gofelid yn yr ychydig gyfnewidiadau hyny, beidio gwyro oddiwrth feddwl yr awdwr.

Hyderir fod y llyfr ar y cyfan, yn gyfryw ag y gall pob plaid grefyddol yn Nghymru ei ddefnyddio, os mynant. Ni chynnygir ef at wasanaeth neillduol unrhyw blaid mwy na'i gilydd; o herwydd y mae Hymnau Williams yn gymeradwy, ac yn cael eu harfer, gan y naill fel y llall. Y mae yn yr Atddodiad amrywiol o Hymnau na fuant yn argraffedig o'r blaen, ynghyd a detholion o gyfansoddiadau gwahanol awdwyr.

Yr wyf yn cyflwyno hyn o lafur i fendith y nef, ac i sylw fy nghydwladwyr: a bydded i nifer y rhai a allant mewn gwirionedd ddatgan y syniadau a geir ynddo, oddiar gywir grediniaeth a phrofiad o honynt, amlhau yn wastadol. "I'r rhai uniawn gweddus yw mawl."

W. REES.

Liverpool, Rhagfyr 1, 1847.

H Y M N A U.

DOSPARTH I.

HANFOD A PHRIODOLIAETHAU DUW.

1. *Y Drindod.* (M. H.)

- 1 UN wyt, fy Nuw, ac etto Tri,
Dirgelwch sy'n rhy fawr i mi :
Goguwch trag'wyddol, felly 'th gair
Wedi 'th ddatguddio yn dy air.
- 2 Fel d'wed dy air, fy nyled yw
Credu dy hanfod di, fy Nuw ;
Anghofio 'm rheswm, mae'n rhy wàn,
Ni fedd ef nerth i'm tynu i'r lan.
- 3 Tad yn y Mab, Mab yn y Tad,
Ac yr un wedd mae'r Ysbryd rhad ;
Y man b'o un, y lleill y sy—
O ryfedd Fod ! can's Un yw Tri !
- 4 Y perffeithderau maith diball,
A geir yn un, geir yn y llall ;
Fy Nhad, fy Iesu, a'r Ysbryd cun,
Sy Dduw ; ni fedda'i etto ond un.
- 5 A chan y Drindod yma mae
Yr unig allu i'm hiachau :
Tair swydd yn angenrheidiol sy
Cyn gallu 'm dwyn i'r nefoedd fry.
- 6 Rhaid oedd fy ngharu gan y Tad,
A Iesu i farw troswy'n rhad ;
A'i Ysbryd i gymhwyso 'i gyd
Ei iechydwriaeth werthfawr ddrud.

2.

Mawl i'r Drindod. (M. 8, 8, D.)

1 MAE yno Dri Pherson yn bod,
 Ac etto mewn sylwedd ond Un ;
 Gogyfuwch mewn gallu a chlod—
 I wared plant Adda 'n gytun :
 Yn hyn rhyw ddyfnderoedd y sy,
 Rhy fawrion i'w chwilio hwy 'mlaen,
 Yn drech na hwynt-hwythau sy fry,
 I'w gwybod hwy allan yn lan.

2 Caniadau newyddion sy fry,
 Tebygwn o glywed eu llef ;
 Fy enaid blinedig i sy,
 Am ddysgu cerddoriaeth y nef :
 'R anrhydedd, a'r gallu, a'r clod,
 A'r parch, a'r gogoniant, a'r bri,
 Yr awrhon fel ag y bu erioed
 I'n Harglwydd yn Un ac yn Dri !

3 Aed ein Haleluia ni i'r lan,
 Trwy'r awyr anfeidrol ei maint,
 Cymysged caniadau rhai gwan
 A thyrfa luosog o saint :
 Ni gawsom gan cymaint â'r byd,
 Can cymaint drachefen â hyn,
 Can cymaint â'r nefoedd i gyd,
 Brydnhawngwaith ar Galfari fryn.

3. *Cariad Duw :—Ei rinweddol effeithiau.* (M. H.)

1 Y mae dy gariad mawr ei rin,
 Yn llawer gwell na'r melus win ;
 Fe ddwg, fe gyfyd f' enaid gwan,
 O ddyfnder ofnau maith i'r lan.

- 2 Pan byddwyf mewn tywyllwch du,
Y'nghanol torf elynol hy;
Fe dyn dy gariad pur fi ma's,
I ganu 'r gwaredigol râs.
- 3 Pan fyddo ofnau o bob gradd,
Yn gwasgu arnaf bron fy lladd,
Rhyw nerth sydd gan dy gariad cun
I ddod a'm henaid atto 'i hun.
- 4 Nid ofnaf ddim o'r diluw mawr,
Sy'n bygwth i orchuddio'r llawr,
Na'r afon gref, na'r môr â'i dôn,
Ond bod dy gariad dan fy mron.
- 5 Mi allaf aros wrthyf f' hun,
Heb gwmni 'r byd, heb gwmni dyn,
Heb unrhyw gysur tan y nef,
Ond huno yn ei gariad ef.

4. *Mawredd cariad Duw.* (M. C.)

- 1 UWCH pob rhyw gariad îs y nef,
Yw cariad pur fy Nuw;
Anfeidrol foroedd, dyfnion, maith,
Heb fesur arno, yw.
- 2 Dechreuodd draw cyn creu y byd,
Fe bery byth ymla'n,
Heb un cyfnewid, ac heb drai,
Pan elo 'r byd yn dân.
- 3 O deuwch, gwelwch, chwiliwch ef,
Anfeidrol gariad mawr,
Ag sydd yn maddeu miloedd myrdd
O feiau, yn yr awr!
- 4 Rhyw gariad, a ffyddlondeb maith,
A thrugareddau 'n un,

Ydyw yr enwau a garodd ef
I roddi arno 'i hun.

5. *Rhyfeddodau cariad Duw.* (M. 8, 7, D.)

- 1 O ddyfnderoedd! O ddoethineb!
O oludoedd maith o râs!
O ddirgelion anchwiliadwy!
Fythol uwch eu chwilio i ma's:
Mae seraphiaid nef yn edrych,
Gyda syndod, bob yr un,
Ar ddyfnderoedd cariad dwyfol,
Duw yn marw tros y dyn!
- 2 O anfeidrol berffaith gariad!
Cariad na's gall gras na dawn
Dynion, na'r angylion penaf,
Fyth ei adrodd ef yn llawn:
Cariad fydd yn sylfaen gadarn
I bob anthem yn y nef;
Seintiau ac angylion draphlith
Ganant am ei gariad ef.

6. *Gallu cariad.* (M. H.)

- 1 ANFEIDROL felus yw dy hedd,
A chryf yw'th gariad fel y bedd;
Lle carost ti, 'does dŵr na thân,
Nac unrhyw rwystr, saif o'th flaen.
- 2 Dy gariad neidiodd uwchder mawr,
O faith eithafoedd nef i lawr;
Fe lamodd dros fynyddau maith,—
Ni all'sai dim ei attal chwaith.
- 3 Mae'n lleibio'r dŵr, mae'n diffodd tân,
Mae'n difa'r cwbl oll o'i flaen;

Y mae yn cario yn ei wedd,
Ryw beth ag sydd yn concro'r bedd.

- 4 Rhyw fflam angherddol gadarn gref
O fewn i'm hysbryd ydyw ef ;
Gwreichionen yw, mawr iawn ei rhin,
O'r fflamau sy' ynot ti dy hun.
- 5 Mae'th gariad gwrethfawrocaf drud
Yn fwyd, yn ddiod, i mi o hyd ;
Mae'n heddwch a llawenydd llawn,
Mae'n bobpeth imi fore a nawn.

7. *Anghyfnewidioldeb a Ffyddlondeb Duw.* (M. C.)

- 1 DOED uffern, angau, a holl rym
Fy mechod, yn gytun ;
Cryfach, a thrymach lawer yw
Ffyddlondeb Duw ei hun.
- 2 Anghyfnewidiol ydyw Ef,
Ond cyfnewidiol fi ;
Am hyn mi safaf, doed a ddel,
Mae'r afael sicra' fry.
- 3 Mae'n para'n ffyddlon byth heb drai,
P'odd bynag try y byd ;
A phe cymysgai'r tir a'r môr,
Yr un yw Duw o hyd.
- 4 Pan syrthio'r sêr fel ffigys îr,
Fe bery gras fy Nuw ;
A'i faith ffyddlondeb tra fo'r nef ;
Anghyfnewidiol yw.

8. *Ar yr un testun.* (M. B. D.)

- 1 RWY' yn terfynu 'nghred
'Nol pwyso oll ynghyd,

Mai cyfnewidiol ydyw dyn,
 Ond Duw sy'r un o hyd :
 Ar ei ffyddlondeb ef,
 Sy'n noddfa gref i'r gwan,
 Mi greda' do'i 'mhen gronyn bach,
 Or tônau'n iach i'r làn.

2 'Run nerth sydd gan fy Nuw,
 A'r un yw geiriau'r nef ;
 'Run grâs, a'r un ffyddlondeb sy'
 'N cartrefu ynddo Ef :
 Fy ngwendid o bob math,
 A'm llygredigaeth cry',
 Ni allant ddiffodd, er mo'r gâs,
 Hyd fyth, mo'r grâs sy' fry.

3 Cyflawnir gair fy Nuw,
 A doed hi fel y del ;
 Can's holl amcanion nefoedd fry,
 Bob sillaf, sy' tan sêl :
 Ac ar ei air a'i nerth,
 A dwyfol werth ei waed,
 Mi af trwy bob gelynion hŷ
 I mewn i dŷ fy Nhâd.

9.

Ar yr un testun.

(M. N.)

1 FFYDDLONDEB mawr y nef
 A bery yn dilyth ;
 Nid oes a'i newid ef
 O'r nef i uffern byth ;
 Mae'i arfaeth fawr â'i air yn un,
 A gwaed y groes, oll yn gytun.

2 Cyfnewid y mae dyn,
 Tröedig yw erioed ;

Ond digyfnewid Duw,
 Fel haul neu sêr y rhod :
 Ac ar ei faith ffyddlondeb ef,
 Y try gogoniant nef y nef.

- 3 Oddiwrtho'n unig daw
 'Nghorfoledd a fy hedd ;
 Oddiyno rhed yn llif
 Tu hwn a thraw i'r bedd :
 Er darfod haul a ser y nef,
 Ni dderfydd ei ffyddlondeb ef.

10. *Holl ddigonedd hanfod a gras Duw.* (M. 8, 8, 8.)

- 1 'DOES bleser dâl tu yma i'r ne,
 Nac un dyddanwch yn dy le,
 A leinw'm dymuniadau'n un :
 'Does eisiau dim lle b'o fy Nuw,
 Gwagder a thlodi o unrhyw,
 Mae'n llanw'r nefoedd fawr ei hun.
- 2 Y sawl a'th gaffont, gwynfyd hwy,
 Ni allant byth ddymuno mwy ;
 Ti lenwi'u heisiau oll o'r bron :
 Mae môr a thir, a da a dyn,
 Oll yn dy heddwch di dy hun,
 A mwy nag fedd y ddaear hon.
- 3 Anghenus wyf, bechadur gwan,
 Am hyn rwy'n tynu tu a'r lan,
 Yn gweled digon gan fy Nuw :
 Trysorau, pe cawn eu mwynhau,
 A laddai'm gofid, laddai'm gwae,
 Ac a'm gwnei'n llawen tra fawn byw.

11. *Ar yr un testun.* (M. 8, 7, D.)

- 1 LLAWEN ydwyf fod dy hanfod
 Fawr yn ddedwydd ynddi'i hun,
 Ac na raid i ti ymddiried
 Mewn creadur, na raid un :
 O teyrnasa fel y myni,
 Doed dy amcan mawr i ben ;
 Seiniad pawb mewn nef a daear,
 Haleluia fyth, Amen.
- 2 Ynot llenwir fy nymuniad,
 Er ei faint ac er ei gri ;
 Fy holl wagter wneir i fynu
 O gyflawnder Un yn Dri :
 Mi gaf yfed o ffynnonau
 Bleser ac a'm dwfrhâ ;
 A datguddiad pur o fywyd
 Yn drag'wyddol a barhâ.
- Dyma ddyfnder o drysorau,
 Dyma ryw anfeidrol rodd,
 Dyma wrthddrych ge's o'r diwedd,
 Ag sy'n hollol wrth fy modd :
 Nid oes arnaf syched mwyach
 Am drysorau gwag y byd ;
 Holl ddigonedd Duw ei hunan
 A ddigona'm henaid drud.
- 4 Môr sydd ynot o fendithion,
 Heb waelodion iddo'n bod ;
 Y mae'n llenwi 'mlaen bob mynyd,
 Nid oes diwedd ar dy glod :
 D'enw beunydd sy'n helaethu,
 Beunydd yn ymdaenu'n fawr ;

Bydd telynau'n canu iddo
Fel rhifedi gwellt y llawr.

12.

Ar yr un testun.

(M. C.)

- 1 Ti, Arglwydd, ydwyt oll dy hun
Fy meddiant ar y llawr ;
A thi dy hunan fydd fy oll
O fewn i'r nefoedd fawr.
- 2 Rhyw ffynnon trugareddau maith,
Diderfyn yw dy rês ;
I ro'i trysorau pena'r nef
I'r tlotaf un i ma's.
- 3 Ac ynot mi ymffrostia'n hy
Mod i'n gyfoethog iawn ;
Am fod trysorau maith fy ngrês
Fel ti'n anfeidrol lawn.
- 4 Ac mae pob peth yn eiddo im',
Heb eisieu, ac heb drai ;
Ac nid oes diffyg ddaw i'r lle
Y ceffir dy fwynhau.
- 5 Mae pob dymuniad, a phob chwant,
Fyth yno'n eitha' llawn ;
A thystio'r wyf nad oes ond Duw
A'm gwna yn ddedwydd iawn.
- 6 D'oed y tymhestloedd pena ddêl,
Digonol gallu'r ne' ;
A rhüed moroedd dros y tir,
Anfeidrol yw Efe.

13.

Ar yr un testun.

(M. 8, 7, 4, 7.)

- 1 NID oes eisiau un creadur
Yn bresenol lle bo'm Duw ;

- Mae e'n fwyd, y mae e'n ddiöd,
 Mae e'n iechydwriaeth wiw :
 Pob happusrwydd, &c.
 Sydd yn aros ynddo'i hun.
- 2 Gyrwch fi i eitha' t'wllwch,
 Hwnt i derfyn oll sy'n bod,
 I ryw wagle dudew anial,
 Lle na sangodd dyn erioed :
 Happus, happus, &c.
 Fyddwn yno gyda thi.
- 3 Rho'f ffarwel i'r holl gre'digaeth,
 Ffarwel feusydd gwych eu rhyw ;
 Ffarwel deiau, ffarwel diroedd,
 Ffarwel dynion goreu'n fyw :
 Gwych gyfnewid, &c.
 Duw ei hunan yn lle'r byd.
- 4 Nid oes unman imi'n gartref,
 Nid oes drigfan o un rhyw,
 Allaf alw yn hyfrydwch
 Imi'n awr, ond mynwes Duw :
 Yn ei fynwes, &c.
 Mae fy naear i a'm nef.
- 5 Beth wyf gwaeth, pe llyngcai'r moroedd
 Ddaear äang yn eu croth ?
 Beth wyf gwaeth pe d'ai gwaelodion
 Dyfnder mawr yn berffaith noeth ?
 Beth yw colli, &c.
 Môr a daear, ond cael Duw ?
14. *Hollalluogrwydd ac Awdurdod Duw.* (M. 8, 7, D.)
- 1 NID yw'r holl gre'digaeth helaeth,
 Daear, awyr, dŵr, a môr,

Gyda'u llwythau maith diderfyn,
 'Nghyda'u hannherfynol stôr,
 Ond dy weision gyda'u gilydd—
 Fel y mynost, felly gwnân',
 A hwy dro'nt er pob gwrth'nebrwydd,
 I fyn'd a'th enw yn y blaen.

- 2 Ti wnai'r hyn fo'n wenwyn perffaith,
 Rai amserau i wella clwy' ;
 Ti wnai'r feddyginiaeth oreu,
 Rai amserau i glwyfo mwy :
 Ti wnai haf, a pharch a gwynfyd,
 Losgi'r llyisiau gan y gwres ;
 Ti wnai rew a chystudd diried,
 Fyn'd a mi i'r nef yn nês.
- 3 Tân dry'n ddŵr, a dŵr dry'n wenfflam,
 Os d'ewyllys iddo bair ;
 Gwnai i'r morfil mawr esgyrnog,
 I lesmeirio wrth dy air :
 Beth yw mhechod it' ond gwyfyn,
 Er ei rüad, er ei rym ?
 Gwna fe gwymp ond ar dy amnaid—
 Ni raid iti ddywedyd dim.

15.

Ar yr un testun.

(M. 8, 7, D.)

- 1 NI all rhaid, ac ni all natur,
 I wrth'nebu dim o'th air ;
 Saif yr haul, a'r holl blanedau,
 Os fy Arglwydd iddynt bair :
 Esmwyth it' yw gwneyd a fyni,
 D'wed y gair, a thyna fi
 'Mhell uwchlaw fy holl elynion,
 Ar y bryniau hyfryd fry.

2 D'wed "Goleuni boed," fe fydda;
 D'wed "Dysgleired sêr y ne',"
 Fe ddysgleiria haul a lleuad
 Oll yn hyfryd yn eu lle:
 Edrych arnaf, bydd tangnefedd,
 Derfydd stŵr y storom fawr,
 Tawel hedd fel boreu hyfryd,
 A dywyna arna'i lawr.

3 Gwena arnaf, Dywysog bywyd,
 Yna gwged arnai'r byd;
 Ynot f'enaid sy'n ymddiried
 Uwchlaw meibion Adda'i gyd;
 Rho addewid byddi gydaf—
 Unrhyw rwystr îs y nef,
 Doed o'r ddae'r, neu uffern gadarn,
 Ofna'i ddim o hono ef.

16.

Ar yr un testun.

(M. 8, 7, 4, 7.)

- 1 MAE gelynion imi 'n chwerw,
 Cedyrn y'nt, a mawr eu grym;
 Ond y rhai wy'n ofni fwyaf
 I ti, f' Arglwydd, nid y'nt ddim:
 Gair o'th enau, &c.
 Gwympa fyrdd mewn mynyd awr.
- 2 Moab ffy wrth rym dy gleddyf,
 Midian gwymp, pan dd'wedost air;
 Sŵn dy daran ddychrynadwy,
 I Philistia grynu bair:
 Ti dy hunan, &c.
 Yn mhob brwydyr bia 'r dydd.
- 3 Mae dy enw mor ardderchog,
 Fel y'ngrym y 'storom gref,

Llaesa 'r gwyntoedd, llaesa 'r tonau,
 Dim ond imi ei enwi ef:
 Noddfa gadarn, &c.
 Yw yn eitha' grym y dŵr.

4 Nid oes elyn îs y nefoedd
 Ddichon roddi imi glwy;
 Yn dy gwmni nid oes gallu,
 Gan un gelyn cadarn mwy:
 Ar dy deyrnas, &c.
 Nid oes diwedd, nid oes tranc.

5 Daear, nef, ac uffern greulon,
 Sydd yn hollol dan dy law;
 Dy ddoethineb sydd yn trefnu
 'R dwyrain, de, a'r gogledd draw:
 Ti bia'r cwbl, &c.
 Cymer f'enaid it' dy hun.

17.

Doethineb Duw.

(M. C.)

- 1 HYD yma ni ddych'mygodd dyn
 O dan yr awyr lân,
 Y fath ddoethineb hyfryd sy
 Mewn gwardigol râs.
- 2 Ni fu doethineb maith, na grâs,
 Na chariad îs y nef,
 Ymhlith angylion ucha'u gradd
 Gyffelyb sy ynddo ef.
- 3 O annherfynol fôr didrai,
 O ddyfais ac o râs,
 Na ddichon tragwyddoldeb maith,
 Eu chwilio byth i maes!

18.

Ar yr un testun.

(M. 8, 7, D.)

- 1 NID oes angel, nid oes seraph,
 Yn y nefoedd wen yr un,
 All'sai chwilio allan foddion,
 I waredu euog ddyn ;
 Mae yma ddyfnder o ddirgelion
 Maith, goruchel iawn eu rhyw,
 A ddyfeisiwyd cyn bod amser
 Gan ddoethineb bur fy Nuw.
- 2 Yma mae perffeithiau'r Duwdod
 Oll yn cael eu cyflawn le ;
 Ei gyfiawnder, ei wirionedd,
 A'i sancteiddrwydd perffaith E ;
 Y mae cariad a thrugaredd,
 A doethineb wnaeth y plan,
 Yn cael hyfryd ymgusanu
 Yn achubiaeth f'enaid gwan.
- 3 Fyth i'r Tad y b'o'r gogoniant,
 'Ro'i a derbyn y fath rodd ;
 Fyth i'r Mab y b'o'r un moliant,
 Am dd'od yma 'i lawr o'i fodd ;
 Fyth i'r Ysbryd bo'r anrhydedd,
 Am ddatguddio'r ddyfais ddrud,
 Drefnwyd gan ddoethineb ddwyfol
 Cyn sylfaenu bryniau'r byd.

19.

Ar yr un testun.

(M. 11, 11.)

- 1 ANGELION gadd wybod peth guddiwyd o hyd,
 Dirgelion doethineb cyn seiliad y byd ;
 Maent o'r drugareddfa yn edrych i lawr,
 I'r arch, i gael gweled dirgelion mor fawr.

- 2 I ninnau, plant Adda, fe dynwyd y llen,
I weled dirgelion hen arfaeth y nen ;
Cael nofio yn moroedd doethineb ein Duw,
I'w caru, a'u credu, a'u canu, tr'om byw.
- 3 O ryfedd ddirgelion, anfeidrol eu rhyw,
Ddyfeisiodd, ddatguddiodd doethineb fy Nuw!
Ni fydd tragwyddoldeb ddim gormod ei hun,
I chwilio dyfnderoedd y drefn gadw dyn.

20. *Holl wybodaeth a holl brësenoldeb Duw.* (M. C.)

1 Gwyddit fy Nuw, (ond rhyfedd hyn,)
Fath fyddwn cyn fy ffurfio ;
A pha fath fydda i bob dydd
O'r amser sydd i'm dreulio.

2 A chwilia nghalon trwyddi'n lan,
Agor hi o flaen dy wyneb ;
Pa'm cadwaf fai 'ddiwrth un barhâ
Yn frawd i dragwyddoldeb ?

3 Mae'n dda im', fod fy na a'm drwg
O fewn dy olwg beunyddâ ;
I'th wydd mi ddeuaf yn ddinag,
Ni 'mguddiaf rhag fy Arglwydd.

4 Rheola'm calon, Arglwydd cun,
I ti dy hun maen perthyn ;
Ar ei stafelloedd bob yr un,
Gosod dy hun yn frenin.

21. *Ar yr un testun.* (M. 8, 7, 4, 7.)

1 Duw anfeidrol yw dy enw,
Llanw'r nefoedd, llanw'r llawr ;

Ac mae'th lwybrau anweledig
 Yn nyfnderoedd moroedd mawr :
 Mae'th feddyliau, &c.
 'N is nag uffern, uwch na'r nef.

- 2 Er dy fod yn uwchder nefoedd,
 Uwch cyrhaeddiad meddwl dyn.
 Etto mae'th gre'duriaid lleiaf
 Yn dy olwg bob yr un :
 Nid oes meddwl, &c.
 Nad yw'n oleu o dy flaen.

22.

Ar yr un testun.

(M. H.)

- 1 CREAWDWR doeth y ddaear lawr,
 Ffurfafen lās, a'r nefoedd fawr ;
 Edrych o rhwng y sêr i'r byd
 'Rwyt ti ar feibion Adda i gyd.
- 2 Dal sylw craff wnai ar bob un,
 Gan chwilio dyfnder calon dyn ;
 Nid oes un bod trwy'r nef a'r llawr,
 Nas gwyddi ei feddwl ef bob awr.
- 3 Mae'r holl gre'digaeth yn dy law,
 Ti sy'n ei threfnu yma thraw ;
 A'th bresenoldeb leinw hon,
 Ac oll sy'n amlwg ger dy fron.
- 4 O nertha'm henaid gwan ei ffydd,
 Ro'i ofal arnat ti bob dydd ;
 Heb flino 'nghylch amseroedd draw,
 Y rhai o bosibl byth ni ddaw.

23.

Tosturi grasol, a Maddeugarwch Duw. (M. C.)

- 1 PAROD yw'n Duw i faddeu bai
 Sy yn ei rai anwyla' ;

Fel ffyddlon ffrind neu dirion Dad,
Yn wastad fe a'u cara.

2 Canfod y mae ef yn mhob man,
Ein bai a'n hannoethineb ;
Ei feibion y'm, ei ras barhâ,
I eitha tragwyddoldeb.

3 Mae ynddo ddwfwfn fôr di drai
O gariad a thosturi ;
Mae wrth ei fodd yn trugarhau,
Er maint yw ein trueni.

24.

Ar yr un testun.

(M. B D.)

- 1 AR grasdir crindir cras,
Dysgynodd gras ein Duw,
Yn loyw ffrwd, afonydd ddaeth,
Mewn anial gwaetha'i ryw :
Maddeuant rhyfedd rhad,
I'r gwaetha' gaed is nen,
Yr hwn a gredo yn yr Iawn
Fu un prydawn ar bren.
- 2 O boed maddeuant rhad
Yn hyfryd waed yr Oen,
Yn destun moliant yn mhob man,
I mi sydd dan fy mhoen :
Yr anthem faith ei hyd
F'o i gyd am Galfari,
A'r iechydwriaeth fawr ei dawn,
Ddaeth un prydawn i ni.
- 3 A doed breninoedd byd
Yn unfryd ato ef ;
A rhoddant eu coronau lawr
O flaen ei orsedd gref :

Ei enw ledled sydd,
 A'i glod ef fydd uwchlaw
 Y cwbl ag sy' yma i gyd,
 Ac yn y byd a ddaw.

25.

Ar yr un testun.

(8, 7. D.)

- 1 FFYNNON wyt o bob tosturi,
 Nid oes gwybod faint dy rês ;
 Dy haelioni sydd yn cynnal
 Pobpeth dan yr awyr lês :
 Dal fy ysbryd gwan i fynu,
 Edrych ar y bryniau mawr,
 Sydd yn pwyso ar fy nghalon,
 Ac yn ceisio'm doddi lawr.
- 2 Mae ei glustiau yn agored
 I bob rhyw ddrylliedig lef ;
 Ac mae'r drom ochenaid glwyfus
 Yn cyrhaeddyd ato ef :
 Pan b'o t'wyllwch ac anobaith
 Yn amgylchu'm llwybrau cudd,
 Fe ddaw 'mlaen, fe dry y cyfnos
 Can goleuach hanner dydd.
- 3 Maith drugaredd a gwirionedd,
 A'r tiriondeb mwya'i maes,
 Sy' fel heulwen haf yn ddysglaer,
 Trwy holl ranau pur ei rês :
 Boed fy nhafod fyth tra fyddwyf
 Gerdded ar yr anthem hyn,
 Cariad pur yn dyoddef marw
 Tros bechadur ar y bryn.

26.

Ar yr un testun.

(8, 8. D.)

- 1 DATGUDDIWYD dirgelion i maes,
 Dirgelion cuddiedig i'r byd,

Meddyliau trugaredd a grâs,
 I'r penaf bechadur i gyd ;
 A glow'd mewn addewid sy gref,
 Na welir fyth fythoedd ei hail,
 O ddyfnder y ddaear i'r nef,
 Mor gywir, mor sicr ei sail.

2 Fe'm boddwyd mewn syndod yn lân
 Wrth chwilio eu natur hwy maes :
 'Does angel na seraph a gân
 Am ddyfnder anorphen ei râs :
 Pwy bwysa'i ddyoddefaint ar bren ?
 Pwy bwysa lawn haeddiant ei loes ?
 Tra tafod yn chwarae'n fy mhen,
 Mi ganaf am goncwest ei groes.

3 'R anrhydedd, a'r gallu, a'r clod,
 Y moliant, a'r parch yn gytun,
 O'r nefoedd i'r ddaear gaiff fod
 Yn gyfan i'm Harglwydd ei hun :
 Aed sŵn dy drugaredd i maes,
 O'r dwyrain luosog i'r dê ;
 Helaethed terfynau dy râs
 Mor belled ag cyrhaedd y ne'.

27. *Gogoniant Duw yn ei holl Briodoliaethau
 yn nhrefn Iachawdwriaeth.* (8, 7.)

1 LLAWN yw, O Dad, y nefoedd wen,
 A'r ddaearen o'th foliant ;
 Mil o arwyddion bob yr awr
 Sy'n canu 'th fawr ogoniant.

2 D'weyd mae y sêr a'u troion serth,
 Dy air a'th nerth yn rhyfedd ;

Yn sgrifenedig ar bob awr
Y cair dy fawr amynedd.

- 3 Ond gwel'd dy ddyfais pan y cawn,
At rai sy'n llawn o bechod ;
Cyfiawnder llym a grâs ynghyd,
Sy'n taro i gyd-gyfarfod.

28.

Ar yr un testun.

(8, 7.)

- 1 PAN tor'som gyfraith bur ein Tad,
Mab yn ei waed yn dadleu :
O'r fath ddirgelwch sy'n ei groes !
Fath rin sy o'i loes â'i glwyfau !
- 2 O'th Dduwdod mawr, yma y cawn
Ryw hyfryd lawn agoriad ;
Pwy feiddia dd'weyd, dysgleiriach yw
Cyfiawnder Duw na'i gariad ?
- 3 Yn awr mae ei ogoniant ef
Yn llanw nef y nefoedd ;
Llu'r nef a ddysgai 'i enw mawr
A'i ganu 'n awr yn gyhoedd.

29. *Llywodraeth a Phenarglwyddiaeth Duw.* (M. H.)

- 1 CLODFORWCH frenin nefoedd fry,
Fe'n Arglwydd yr Arglwyddi sy ;
Creawdwr bywyd pawb a'u bod,
Fe sydd, fe fydd, fe oedd erioed.
- 2 Creawdwr y ffurfafen fawr,
Sy'n crogi uwch y ddaear lawr ;
Yr haul, y lloer, y sér y sy
Yn gwibio yn entrych nefoedd fry.
- 3 Trwy 'i air y gwnaeth y ddaear gron,
Ynghyd a'r môr sy'n rhuo 'i don ;

- Dyffrynoedd, a'r mynyddoedd maith,
Plant Adda o bob llwyth a iaith.
- 4 Fe sy'n berchenog ar y stôr,
Mewn awyr, daear, dŵr a môr;
Yr holl gre'duriaid mân a'u hil,
Sy'n eiddo ef ar fryniau fil.
- 5 Myn barch, ac i'w ei enw glod,
Oddiwrth yr oll ag sydd yn bod;
Ei bur ogoniant dddwg i ben
O uffern ddu a'r nefoedd wen.
- 6 Mae moroedd mawr, mynyddoedd maith,
Yn seinio 'i glod mewn eglur iaith;
A'r holl gre'duriaid o bob rhyw,
Sy'n d'weyd—mai rhyfedd iawn yw Duw.

 DOSPARTH II.

 IESU GRIST YN EI BERSON, EI SWYDDAU,
EI WAITH, &c.

30. *Rhyfeddodau Person Crist.* (8, 7.)
- 1 BACHGEN a aned, Mab ro'ed in';
Ei enw sy'n Rhyfeddol:
Llywodraeth ar ei ysgwydd gaed,
Duw cadarn, Tad tragwyddol.
- 2 Myfyrio 'i Berson hardd a'i waith,
Sy'n orchwyl maith anfeidrol;
Gelwir yma ac yn y ne'
Ei enw E'n Rhyfeddol.
- 3 Deonglwch hyn, ddysgedig rai,
Rhyfeddu mae'r cenedloedd,

P'odd gallsai Mair ei gynnwys ef
Na chynnwys nef y nefoedd ?

4 Duw mawr, Creawdwr môr a thir,
I gael ei wir genedlu,
O forwyn wnaethpwyd ganddo 'i hun,
Ac ar ei glân ei fagu.

5 Mae holl ddoethineb Duw ynghyd,
Yn cwrddydd yn ei Berson ;
Nid rhyfedd bod myrddiynau'r nef,
I'w foli ef yn gyson.

31.

Ar yr un testun.

(8, 7.)

1 MAE doniau Duw i gyd, fel môr,
Dygyfor, uwch eu rhifo ;
Gynt oll ynghudd, ond y pryd hyn
Yn Iesu yn dysgleirio.

2 Yr Hen-ddihenydd yn ddyn gwan,
Mewn preseb dan ei rwymau ;
Y Gair tragwyddol ar lîn Mair,
Heb fedru gair o'i enau !

3 'Dyw gwaith y ddae'r a'r nefoedd frŷ
Er bod hwy'n ddirifedi,
I'r peth yn Mherson Iesu sy,
Un gronyn i gymharu.

32.

Ar yr un testun.

(8, 7. D.)

1 WELE Iesu, Duw tragwyddol,
Gwir a sanctaidd berffaith ddyn,
Dwy ryw natur mewn un person,
Syndod nefoedd fawr ei hun ;
A phob natur a'i phriodoledd
Etto 'n hollol gadw 'u lle,

Dyndod heb gymysgu a'r Duwdod ;—
 Priod f' enaid byth yw E'.

- 2 Holl angelion nef gwmpasog,
 Sydd o nifer gwlyth y wawr,
 Pe ba'i 'u tegwch a'u rhinweddau
 Oll mewn un rhyw angel mawr ;
 Tywyllai 'i harddwch mewn mynydyn,
 Toddai 'i ddoniau maith yn un,
 Wrth ymddangos i gymharu
 A fy Nuw yn natur dyn.

33.

Ar yr un testun.

(7, 6, D.)

- 1 ANGELION do'ent yn gyson,
 Rifedi gwlyth y wawr,
 Rho'ent eu coronau auraidd,
 O flaen y fainc i lawr ;
 Chwareuent eu telynau,
 Ynghyd â'r saint yn un,—
 Fyth, fyth, ni chanant ddigon
 Am Dduwdod yn y dyn.
- 2 Cymhwyswyd pabell iddo,
 Sef corff o lwch y byd,
 'Run natur oedd gan Adda
 A'i feibion oll i gyd ;
 Gwir ddyn o sylwedd dyndod,
 Heb bechod o un rhyw,
 Ac ynddo yn cartrefu
 Yr Hollalluog Dduw !
- 3 Emmanuel—creadur
 A'r Duwdod mawr yn un,
 Dysgleirdeb ei ogoniant,
 Ei ddelw ef ei hun ;

Ordeiniwyd iddo ddoniau,
 Grususau o bob rhyw,
 Fel y pelydrai ynddo
 Ogoniant Person Duw.

- 4 O foroedd o ddoethineb,
 Oedd yn y Duwdod mawr,
 Fel hyn gyfranu 'i gariad
 I bryfed gwael y llawr!
 I wneuthur i'w drugaredd
 A'i dostur maith 'ynghyd,
 I redeg megis afon
 Lifeiriol tros y byd!

34. *Gosodiad Crist yn Gyfryngwr mewn Cyfammod. (7, 6.)*

- 1 CYN etto greu un angel,
 Na seraph sydd uwch ben,
 Na gosod yn y dyfnder,
 Sylfeini'r nefoedd wen;
 Jehofah oedd yn ddedwydd
 Erioed cyn bod y byd,
 Ac 'nol ei fyn'd yn danllwyth,
 A bery felly o hyd.
- 2 Yn nyfnder tragwyddoldeb,
 Ymddygodd Duw ei hun
 Ar arfaeth faith ddiderfyn,
 A'i rhanau yn gytun;
 A fyddai mewn rhyw oesoedd,
 Er clod i'w enw ef,
 I gael ei chyflawn esgor
 Mewn creadigaeth gref.
- 3 Am hyn ei Fab etholodd,
 Uniganedig sy'

I wisgo natur ddynol,
 Fath wed'yn wisgem ni ;
 Fel byddai yn ddechreuad,
 A sylfaen gadarn gref,
 O bob cymundeb eilwaith,
 F'ai fyth rhwng dae'r a nef.

- 4 Messiah yw ei enw,—
 Efe eneinniodd Nêr
 Yn Frenin mawr tragwyddol,
 Ar luoedd uwch y sêr ;
 Y lluoedd ar y ddaear,
 A hwythau hefyd sy
 Yn rhwym yn y cadwynau,
 Yn nyfnder uffern ddu.

35.

Ar yr un testun.

(8, 7.)

- 1 YR hên gyfammod hwnw
 Am bwrcas dynolryw,
 Gyfammod newydd bywiol
 Yn awr ei enw yw ;
 Lle mae'r holl addewidion
 Yn cael eu cadw ynghyd,
 Ac wedi'u tyngu'n sier
 Cyn gosod sylfaen byd.
- 2 A thyma un o'r enwau
 Dymunol, arno gawn,
 Ei roi'n Gyfammod pobloedd,
 A ieithoedd lawer iawn :
 Goleuni i'r cenedloedd,
 I feibion Adda'i gyd,
 A iechydwriaeth lawen
 I gyrau pella'r byd.

- 3 Wel dyma'r pryd y rhoddwyd
 Y cyfan yn ei law,
 Y fu, y sy', neu etto
 Hyd ddiwedd byd a ddaw :
 A thyna'r pryd addawodd
 Ef gynta' roddi'i waed,
 A thalu lawr bob iota
 Am bechod du i'w Dad.
- 4 Ac yno tyngwyd Iesu
 Yn Archoffeiriad mawr,
 I wneuthur aberth cymmod
 Troseddwyr ar y llawr ;
 Y Tad ei hun a'i tyngodd,
 " Offeiriad wyt i mi,
 Ac ni bydd 'difar genyf
 Byth bythol d'osod di."
- 5 I'w lân sancteiddrwydd tyngodd,-
 'Doedd priodoledd fwy
 Ymhlith y rhai a feddai,
 Er amled oeddynt hwy ;
 A llw yw fyth nas torir,
 Pe bai i'r nefoedd wen
 I losgi fil o weithiau
 Yn wenfflam uwch ein pen.

36.

Ar yr un testun.

(7, 4.)

GWNAED cyfammod gwerthfawr rhâd, â'n Gwar-
 Iesu drefnwyd gan y Tad, yn Gyfryngwr ; [edwr ;
 Ar ammodau cedyrn clud, n'all ond hyny,
 Satan, uffern fawr a'r byd—eu diddymu.
 'Roedd ei bleser cyn bod byd, gyda dynion ;
 Ac yn caru 'roedd o hyd, ei gaseion ;

Ac fe dalodd trostynt Iawn, pan oe'nt etto
 Mewn tywyllwch dudew llawn, heb ddihuno.
 Cyn rho'i bod i'r ddaear gron, na dim arni,
 Gwnaed y drefen ddwyfol hon, i'n gwaredu :
 Crist addawodd golli'i waed, yn llawn foddlon,
 Yn ol arch ei anwyl Dad, tros elynion.

37.

Genedigaeth Grist.

11au.

- 1 MAE awyr y dwyrain yn ddysglaer uwch ben
 Mae arwydd o'r mwyaf yn entrych y nen ;
 Mae'r goleu'n ddysgleiriach o lawer na'r wawr,
 Mae'n nesu'n agosach, mae'n dyfod i lawr.
- 2 Mae llais rhyw ganiadau pereiddiaf o bell,
 Melusach na'r symbal, na'r organ yn well :
 Fel cymysg ganiadau angyllion y nef,
 A'r awyr sy'n chwareu wrth adsain y llef.
- 3 Edrychwch, a deliwch eich golwg ynglyn,
 Mae acw greaduriaid serchocaf eu llun ;
 Mae mil o dafodau perffeithiaf a glân,
 Mewn cydsain soniarus yn seinio'r un gân.
- 4 Mi glywaf y ganiad, "Gogoniant i Dduw,
 Fyth fythol sydd yn yr uchelder yn byw ;
 Boed hedd ar y ddaear, tangnefedd i ddyn,
 Fe anwyd Gwardedwr, cydganed pob un."

38.

Ar yr un testun.

11au

- 1 MAE angel yr Arglwydd yn sefyll gerllaw,
 Dysgleirdeb y nefoedd sydd yma, sy' draw ;
 Ac ofn y sydd arnom, a dychryn ynghyd,
 Rhag nesu yr awrhon mae diwedd y byd.
- 2 Nac ofnwn, mae'r angel yn peri'n ddiâu,—
 Yn peri i ni ganu a gwir lawenhau ;

Mae'n d'weyd i ni newydd, y goreu fu erioed
I bobloedd y ddaear yn gyfan, mae'n bod.

- 3 Fe anwyd in' Geidwad, yn Beth'lem gerllaw,
Y Crist dysgwylidig i'n gwared fe ddaw :
Efe yw ein Harglwydd, efe yw ein Duw,
Fe ddwg ein heuogrwydd a'n beiau bob rhyw.

39.

Ar yr un testun.

(M. B. D.)

- 1 BLANT ffyddlon Sion dewch,
A llawenhewch i gyd ;
Yn mlaen a chwi fel milwyr da,
Yn llon er gwaetha'r llid :
O hyfryd ddedwydd awr,
Messiah mawr a gaed !
Henffych i'r dydd a'r boreu daeth
Yr iechydwriaeth rad.
- 2 Er ini golli hedd
Yn Mharadwysaid wiv,
A bod yn fyr o gadw'r fraint,
Myn'd dan ddigofaint Duw ;
Ni gawsom Hâd y wraig,
Yn gadarn graig i'n traed :
Henffych i'r dydd ar boreu daeth
Yr iechydwriaeth rad.
- 3 Addewid gafwyd, do,
'Nol ini syrthio ymhell ;
Arfaethol râs hawl in' a roed,
Gawd ar gyfammod gwell ;
Mae'r sylfaen yn ddigryn,
Ni chollir un o'r hâd :
Henffych i'r dydd ar boreu daeth
Yr iechydwriaeth rad.

40. *Crist yn Brophwyd ac arweinydd ei bobl.* (7, 6.)

- 1 Fy Iesu yw'r prophwyd goleu
A ddaeth i lawr o'r ne',
I ddysgu pechaduriaid
Oedd wedi colli 'u lle ;
A'u harwain o'r anialwch
I wlad sy'n llawn ddigel,
O olew, gwin a gwenith,
Yn llifo o laeth a mel.
- 2 Mae'n foreu sôn am danat,
Y d'oi rhyw brophwyd mawr,
Rhagorach gynt na Moses,
O uwchder nen i lawr :
Yn awr wyt wedi dyfod,
Gad imi deimlo rhin
D'athrawiaeth sy'n felusach
Na'r mêl a'r hyfryd win.
- 3 O dysg fy enaid gwirion
I deithio'r anial dir,
Rhag myrdd o geimion lwybrau,
I gadw ar y gwir ;
Doethineb i'm cyf'rwyddo,
Fel cawod fwyn o wlith,
Er maint sy' am fy rhwydo,
Na chyfeiliornwyf byth.

41. *Ar yr un testun.* (7, 6.)

- 1 MAE moroedd o ddoethineb,
Oes, ynot, f' Arglwydd mawr ;
Annoeth wyf fi, ymbiliaf
Am beth o hono i'lawr,

I'm harwain trwy'r fath anial,
 Y nôs â cholofn dan,
 Ac onide ni's gallaf
 Fi gerdded cam ymlaen.

2 Wyt brophwyd mawr i arwain
 Dy eglwys bur fel hyn,
 Trwy groesffyrdd hyll a'i thywys
 I gopa Sion fryn ;
 I drefnu manna nefol
 Yn lluniaeth i bob un,
 Yn ol ei amgylchiadau
 A'i eisiau ef ei hun.

3 Tydi ydyw doethineb
 Y Tad cyn creu y byd,
 Ac ynot ymddysgleiria
 Ei holl berffeithiau ynghyd ;
 Eneinniwyd o'r dechreuad
 I ddodi maes ei glod,
 Datguddio yr hyn sydd etto
 Heb ei ddatguddio erioed.

42.

Ar yr un testun.

(8, 7, 6.)

1 MI a grwydrwn draw i'r dwyrain,
 Mi a grwydrwn draw i'r de,
 On' bai'r golofn dân s'yn arwain,
 Llewyrch hyfryd pur y ne' :
 Fe bia'r clod, oll erioed,
 Iddo gyfarwyddo'm troed.

2 Dyma brofedigaeth heddyw,
 Dacw brofedigaeth ddoe,
 Fuasai yn fy llithro'n fuan,
 Oni buasai ofal E' ;

Mae ei ddawn, dystaw iawn,
Yn fy nghadw foreu a nawn.

- 3 Weithiau fe ddyd ei ragluniaeth,
Weithiau dyd ei hyfryd ras,
I fy ngwarchod a fy nghadw,
Rhag fy chwantau ffaidd cas :
B'oed fy nghân iddo'n lân,
Pan el daear fawr ar dân.

43.

Ar yr un testun.

(8, 7.)

- 1 EFE yw'm Brenin mawr dinam,
Fy Mhrophwyd a'm Hoffeiriad ;
Fy nghyfaill byth, a'm ffyddlon frawd ;
Fy enaid tlawd ddaw atad.
- 2 Dysg fi i deithio'r llwybrau da,
Sy'n myn'd tua thragwyddoldeb,
Tros fryniau mawr ac anial dir,
Ond dyna wir ddoethineb.
- 3 Fy niwl a thân bob nos a dydd,
Fy arwain bydd ei hunan ;
Trwy'r mawr ddiffaethwch yn ei gôl,
Mewn i'r ddymunol Ganaan.
- 4 Fe'm dysg, fe'm cyfarwydda trwy
Bob rhwystr mwy a gyfyd,
Rhag cyfeiliorni ar un llaw,
'Chai fyn'd o law fy Mhrophwyd.
- 5 Fe'm gwna mor ddoeth nes drysu'r fall
Sy mor gyfrwysgall beunydd ;
Dadrys ei rhwydau o bob rhyw,
Can's Iesu yw f' Arweinydd.

44.

Offeiriadaeth Crist.

(M. H.)

- 1 Ti yw'r Offeiriad mawr ei ddawn,
Tywalltwyd enaint arno 'n llawn ;
Olew llawenydd mawr ei rin,
Uwch dy gyfeillion bob yr un.
- 2 Mae dy aroglau'n taenu i maes,
Yn mhlith gwryfon, nefol rês ;
Yn enyn tân o ryfedd ddawn,
Sy'n llosgi foreu a phrydnawn.
- 3 Mae dy enwau o bena' ryw,
Dy enw 'n ddyn, dy enw 'n Dduw ;
Offeiriad, Prophwyd, Brenin mawr,
Oll yn aroglu 'n ber yn awr.

45.

Ar yr un testun.

(7, 6.)

- 1 O dyma 'r Archoffeiriad,
A'r gwerthfawroca'n bod,
Na welwyd archoffeiriad,
Cyffelyb iddo erioed ;
A'r fath anfeidrol rinwedd,
A haeddiant eang maith,
Yn ei sancteiddiaf Berson,
A'i bur haeddiannol waith.
- 2 Ac etto rhaid oedd rhoddi
Pob defnyn bach o waed,
Cyn gallai caethion pechod
Gael profi gwir ryddhâd ;
Y fath yw'n beiau 'sgeler,
Nid gwisgo coron ddrain,
A chwysu'r gwaed yn unig,
A all'sai faddeu rhai'n.

- 3 Ond rhaid oedd myn'd i'r croesbren,
 A dyoddef angeu du,
 Drwy roddi ei hun yn aberth
 Ar fynydd Calfari ;
 A dysgyn at y meirw,
 A gorwedd yn y bedd,
 Tros ran o dri diwrnod,
 Cyn prynu imi hedd.

46.

Ar yr un testun.

(7, 6.)

- 1 FE safai'n Harchoffeiriad
 Rhwng euog fyd a'r Tad,
 A rhoddai 'i hun yn bridwerth,
 O'i wirfodd heb nacâd ;
 Fe ddaeth ymlaen a'i aberth,
 Fe'i hoeliodd ar y pren,
 Agorodd trwy ei haeddiant
 Holl ddrysau'r nefoedd wen.
- 2 A dyma'r peraroglau
 Sy'n codi'n darth yn awr,
 I arogl'n beraidd hyfryd
 Yn ffroenau'r Brenin mawr :
 Y Tad a fynai 'i ddryllio
 Er iachawdwriaeth dyn,
 I arbed meibion dynion,
 Ffordd arall nid oedd un.
- 3 Efe yw'm Harchoffeiriad
 Sy uwch y nefoedd fry,
 Mewn harddwch a gogoniant,
 Mwy na'r angelaidd lu ;
 Ac ynddo mae fy ngobaith
 Wrth deimlo meiau'n drwm,

A phan f'ont yn fy ngwasgu
Fel mynydd mawr o blwm.

47.

Ar yr un testun.

(7, 6.)

- 1 Ei waith fel Archoffeiriad
O fewn y nefoedd wen,
Y man y rho'w'd e' i eistedd
Ar bob peth oll yn ben,
Yw eiriol dros ei bobl,
Nes cael cyflawni i gyd,
Yr addewidion dyngwyd
Cyn iddo seilio'r byd.
- 2 A thyma'r Angel cadarn
Sy'n sefyll u'wch y nen,
A'r gwregys am ei lwynau,
A'r meitr am ei ben ;
Yn dal y thusser sanctaidd,
Sydd o aroglau'n llawn,
A'r tARTH yn codi i fynu,
O foreu hyd brydnawn.
- 3 Gweddiau'r saint yn esgyn
I fynu gyda'r mwg,
Aroglau'r myr yn tynu
I ffwrdd y sawyr drwg ;
A'r dyledswyddau ereill,
Sy'n llawn i gyd o fai,
Trwy scil yr Archoffeiriad
Yn cael eu llwyr lanhâu.
- 4 Mi ro' fy nwyllaw bellach
Ar ben yr Aberth mawr,
Mi rifa yno'n gryno
Fy holl bechodau i lawr ;

A'm dagrau hallt mi olchaf
 Draed fy Iachawdwr Crist,
 Y traed mor fuan redodd
 I achub f'enaid trist.

48.

Crist yn Frenin.

(8, 7.)

- 1 DE'WCH ferched Sion, de'weh yn llu,
 De'weh allan i ryfeddu,
 A gwel'd eich Brenin gwridog gwyn,
 Yr awrhon yn teyrnasu.
- 2 Bu ef yn gwisgo un prydawn,
 Yn dawel iawn a diddig,
 Er cymaint poen oedd pigau main,
 Y goron ddrain blethedig.
- 3 Fe ddarfu 'i boen, O gwelwch E',
 O fewn y ne'n dysgleirio ;
 Gwisg o ogoniant fel y wawr,
 Y sydd yn awr am dano.
- 4 Tragwyddol glod a mawl didrai,
 Yw'r goron mae e'n wisgo ;
 Ei nerth, a'i râs, a'i farwol glwy,
 Yw'r cariad mwy fydd iddo.

49.

Ar yr un testun.

(8, 7.)

- 1 EFE yw'n Dafydd frenin da,
 Gaiff goron, a chasineb ;
 Y gadair freiniol cadw wna
 Hyd eitha' tragwyddoldeb.
- 2 Efe yw Selyf, Brenin hedd,
 Ac ar ei wedd mae beunydd,
 Yn edrych filoedd, isel drem,
 O ferched Salem newydd.

- 3 Tywysog hardd, o flaen ei wedd,
 Mae'r byd a'r bedd mewn dychryn;
 Ac ofer yw i uffern draw
 I godi 'i llaw i'w erbyn.

50.

Ar yr un testun.

(M. H.)

- 1 TEYRNASU fry mae Ef yn awr,
 Gan edrych rhwng y ser i lawr;
 A gweled mae fy enaid gwan
 Yn teithio o'r anial fyd i'r lan.
- 2 Eistedda ar ddeheulaw'r Tad,
 Y nef sy'n fflamio dan ei draed;
 A'r orsedd wen ofnadwy'n wir,
 Yn nghanol y goleuni pur.
- 3 Mil myrdd angylion yn ei wydd,
 Ag enaid rhydd yn moli'n rhwydd;
 Seraphiaid a cherubiaid lu,
 Yn seinio drwy'r holl nefoedd fry.
- 4 Mewn gwisg i'w draed a gwregys aur,
 Fy mrenin cadarn yno cair,
 Ger bron ei Dad yn cofio'i loes,
 Y goron ddrain ac angeu'r groes.

51.

Ar yr un testun.

(7, 6.)

- 1 HOLL deyrnas fawr rhagluniaeth
 A roe's y Tad ei hun,
 A phob awdurdod ynddi,
 Yn nwylaw Mab y dyn;
 Ar bob rhyw greaduriaid,
 O'r ddaear lân i'r nen,
 I'w cynnal a'u rheoli,
 Gosodwyd ef yn ben.

2 Tros luoedd mawrion nefoedd,
 A luoedd daear gron,
 Awdurdod y Messiah
 Sy'n cyrhaedd oll o'r bron;
 Ac felly'r drom gre'digaeth
 Sydd ar ei ysgwydd gref;
 Cysondeb pob ysgogiad
 Oddiwrth ei fysedd ef.

3 Paham na throf fy ngolwg,
 Fyth tua'r orsedd wen,
 Yn nghanol pob cynddaredd
 Wy'n weled is y nen;
 Fy Iesu sy'n rheoli
 Yr afreolus lu,
 O ddyfnder uffern isod
 I uchder nefoedd fry.

52. *Harddwch, hawddgarwch a gogoniant Crist. (8, 7.)*

- 1 NID yw'r haul â'i faith fendithion,
 Bywyd hardd y ddaear lân,
 Sy'n llawenu pob creadur,
 Yn enwedig llysiâu'r maes;
 'Dyw ei harddwch a'i oleuni,
 A'i effeithiau ar y llawr,
 Onid dim wrth eu cymharu
 A rhinweddau Iesu mawr.
- 2 Dyma'r gwrthddrych wyf yn caru
 Gwel'd ei degwch, hyfryd wawr;
 Peidied da, a pheidied dynion,
 Peidied cyfoeth daear fawr,
 Peidient sefyll yn ei gysgod,
 Ciliwch, ciliwch, rhoddwch le,—

Ni chaiff dim o tan yr wybren
Rwystro'm henaid ato 'fe.

53.

Ar yr un testun.

(8, 7, 6.)

- 1 Y mae gwedd dy wyneb grasol
Yn rhagori llawer iawn,
Ar bob peth a welodd llygad
Ar hyd wyneb daear lawn :
Rhosyn Saron, &c.,
Ti yw tegwch nef y nef.
- 2 Gwyn a gwridog yw f'anwylyd,
Mae'n rhagori oll i gyd,
Ar y cwbl etto grëwyd
Yn y wybr faith a'r byd :
Boddlon fyddaf, &c.
Ond cael edrych ar ei wedd.
- 3 Mae angelion yn cael bywyd,
Yn ei ddwyfol nefol hedd ;
Ac yn sugno 'u holl bleserau
Oddiwrth olwg ar ei wedd :
Byd o heddwch, &c.
Yw cael aros yn ei wydd

54.

Ar yr un testun

(M. C.)

- 1 PAN byddo f'Arglwydd imi'n rhoi
Ond golwg arno 'i hun,
Mae'r oll a welir dan yr haul
Yn gwywo bob yr un.
- 2 Aed tegwch byd a'i gariad ffwrdd,
A'i swynion aed yn ddim ;
Ni wela'i heddyw is y ne',
Ond tegwch Iesu o rym.

- 3 Y mae arlogau pur ei rês,
 Megis aroglau'r nef;
 Ac nid oes cymhar is yr haul,
 Yn unlle, iddo ef.
- 4 Os edrych wnafl i'r dwyrain draw,
 Os edrych wnafl i'r de',
 Ymhlith a fu neu ynte ddaw,
 'Does tebyg iddo efe.
- 5 Mae'n denu'm serch trwy wyntoedd oer,
 Yn gyfan ato'i hun;
 Ac fe ddiffoddodd pob rhyw chwant
 At ddaear, ac at ddyn.

55.

Ar yr un testun.

(M. C.)

- 1 F'ANWYLYD sydd fel lili hardd,
 Hyfryda 'rioed ei liw;
 Ac sydd yn maeddu blodeu'r byd,
 Pwysiau o bob rhyw.
- 2 Yn mysg gwyryfon Sion fry,
 Fel lili ymysg y drain;
 Efe yw'r gwrthddrych goreu 'i wedd,
 A chariad pur y rhai'n.
- 3 Ac megis pren afalau pêr,
 Ynghanol prenau'r coed;
 Felly f'Anwylyd, yntau ymhlith
 Y meibion sy'n cael clod.
- 4 Eisteddais dan ei gysgod ef,
 A'i ffrwyth oedd felus iawn;
 Ac yma treiliwn ddyddiau f'oes
 Fyth, fyth, yn ddedwydd iawn.

56.

Ar yr un testun.

(8, 7.)

- 1 ANWELEDIG ! 'rwy'n dy garu,
 Rhyfedd ydyw nerth dy rês ;
 Tynaist f'enaïd â'th hawddgarwch,
 O'i bleserau pena'i maes :
 Ti wnest fwy mewn un mynydyn
 Nag a wnaethai'r byd o'r bron,
 Ennill it' eisteddfod dawel
 Yn y galon gareg hon.
- 2 Bydd dy degwch fyth yn newydd,
 Fyth o newydd enyn dân,
 Tros holl oesoedd tragwyddoldeb,
 Fyth heb flino yn y blaen ;
 Fflam angherddol heb un terfyn,
 Trwy holl raddau'r nef yn un ;
 Hi barhâ i losgi'n oleu
 Tra parhâo Duw ei hun.
- 3 Cauwch lygaid, nac agorwch,
 Ar un gwrthddrych is y ne' ;
 Craffa f'enaïd olwg syml
 Ar ei degwch dwyfol E' :
 Mae ei hanfod, mae ei enw,
 Mae ei Berson sanctaidd pur,
 Gymaint uwch teganau natur,
 Ag yw'r nefoedd uwch y tir.

57.

Ar yr un testun.

(8, 7, 6.)

- 1 GWYN a gwridog yw fy Arglwydd,
 Gwyn a gwridog yw ei wedd ;

- Brenin y breninoedd ydyw,
 Yma a thu draw i'r bedd :
 Mae dy degwch, &c.
 Wedi'm hennill ar dy ol.
- 2 Nid yw harddwch maith y ddaear,
 Harddwch o wahanol ryw,
 Tegwch dysglaer y ffurfafen,
 Ddim, wrth ochr Iesu'm Duw :
 Fe ddiflana, &c.
 Tegwch natur ger ei fron.
- 3 Dirmygedig yw gogoniant
 Oll a welais i etto'n un,
 Pan edrychwyf ar ogoniant
 Fy Nghreawdwr mawr yn ddyn :
 Diddim, diddim, &c.
 Oll a enwir ond efe.
- 4 Ac os yw ei degwch yma
 Yn rhoi myrdd i'w garu'n awr,
 Beth a wna ei degwch hyfryd
 Fry yn nhragwyddoldeb mawr ?
 Nef y nefoedd, &c.
 Ei ryfeddu byth a wna.

58.

Ar yr un testun.

(7, 4.)

GWYN a gwridog, hawddgar iawn, yw f'anwylyd,
 Doniau'r nefoedd ynddo'n llawn, peraidd hyfryd,
 Daear faith, ac uchder ne', ni chanfydda,
 Arall debyg idd efe; Haleluia.

Dygodd f'enaidd ar ei ol, yn dra rhyfedd;
 Minnau lechaf yn ei gol, hyd y diwedd :
 Ffowch gre'duriaid o bob rhyw, mwy ni chara'
 Wrthddrych arall ond fy Nuw; Haleluia.

Ynddo'i hunan mae yn llawn, bob trysorau,
 Dwyfol, berffaith, werthfawr Iawn, am fy meiau ;
 Gwir hawddgarwch, hedd a gras, gwerthfawroca',
 Nerth i hollol gario'r maes :—Haleluia.

59.

Cariad Grist.

(8, 8, 8.)

- 1 NIS gall angelion nef y nef
 Fynegi maint ei gariad ef ;
 Mae angeu'r groes yn drech na'u dawn :
 Bydd canu uwch am Galfari
 Nag glywodd yr angelion fry,
 Pan ddelo Salem bur yn llawn.
- 2 O dyma'r ddyfais fwya' i maes,
 Y fwya'i chariad, fwya'i grâs,
 Agorodd ffordd o'r ddae'r i'r nef :
 Cariad heb gymhar iddo'r un,
 A nofiodd yn ei waed ei hun
 Trwy angeu, oedd ei gariad ef.
- 3 Doed bellach Indiaid pella'r byd,
 Doed gogledd, dwyrain, dê ynghyd,
 Canent ei iachawdwriaeth Ef :
 Dadseinied holl dafodau'r byd,
 Ag auraidd d'lynau'r nef ynghyd,
 Na thawont tra f'o nef y nef.

60.

Ar yr un testun.

(11, 11.)

- 1 NI ganwn am gariad Creawdwr yn ddyn,
 Enynodd cyn oesoedd o fewn iddo ei hun ;
 Ni chwilia na cherub, na seraff, na saint,
 Ei ddyfnder, na'i uchder, eangder ei faint.
- 2 B'le, Arglwydd, dechreuaf, pa ochr, pa du ?
 Ai yn nhragwyddoldeb, neu Galfari fry ?

Diddechreu, diddiwedd, anfeidrol a rhâd
 Yw cariad fy Iesu, pan roddodd ei waed.
 Edrychwch ar gariad yn dyoddef pob gwae,
 Tan ddirmyg a gw'radwydd, fyth fyth yn parhau;
 Yn profi o'r bustl a'r finegr sur,
 Yn llonydd tan hoelion, tan hoelion o ddur!
 Fy enaid gwel gariad yn fyw ar y pren,
 Ac uffern yn methu darostwng ei ben;
 Er marw fy Iesu, er hoelio fy Nuw,
 Parhâodd ei gariad trwy angeu yn fyw.
 O gyfoeth diderfyn, o gariad a grâs,
 A redodd fel afon lifeiriol i maes!
 Grâs daena i'r dehau a'r dwyrain o'r bron,
 Fe nofia myrddiynau i'r bywyd yn hon.

61. *Ar yr un testun.* (6, 6, 8, 8.)

- 1 O nefol addfwyn Oen,
 Sy'n llawer gwell na'r byd;
 Mae lluoedd maith y nef
 Yn rhedeg arno'u bryd:
 Mae'th ddawn, a'th râs, a'th gariad drud,
 Yn llanw'r nef, yn llanw'r byd.
- 2 Pan ddelo'r hyfryd ddydd,
 I mi gael gwel'd ei wedd,
 Ac yfed ffrydiau pur
 O'i annherfynol hedd,
 'Mhlith lluoedd maith y drydedd nef,
 Mi ganaf am ei gariad Ef.

62. *Ar yr un testun.* (2, 8.)

- 1 NID oes,
 Ni fu, ni ddaw mewn unrhyw oes,
 O gymaint gwerth a gwaed y groes;

Y ddwyfol loes ga'dd brenin nef—
O gariad mawr, diderfyn stôr,
Sydd fel y môr byth ynddo Ef!

2 Efe,
Yw'r unig wrthddrych îs y ne'
Dâl yn fy nghalon ro'i iddo le;
Un arall, b'le, sy'n deilwng fod?
Ei gariad pur hyd derfyn byd
Mewn lled a hyd sy'n dwyn y clod.

3 Af trwy,
Fy nhemtasiynau aml mwy
Tan aden cariad dwyfol glwy:
Mi'u concraf hwy'n ei goncwest Ef;
A'i gariad yw fy noddfa glud
Nes myn'd o'r byd i deyrnas nef.

63.

Ar yr un testun.

(M. H.)

- 1 'NAWR ar ei fwrdd mae'r brenin mawr,
Mewn gwisg o gariad hyd y llawr;
Yn rhoddi 'n rhad o'i hyfryd wledd,
I mi faddeuant llawn a hedd.
- 2 Mae peraroglau'i gariad drud,
Yn myn'd ar aden dawel glud;
Ac yn cofleidio i'w fynwes gun,
Gyfeillion Iesu bob yr un.
- 3 Anfeidrol yw ei gariad Ef,
A threch na'r cwbl dan y nef;
Rhyw fflam angherddol gadarn lym,
Nad oes yn bod a'i diffydd ddim.
- 4 Mae'n drech na dyfroedd lawer iawn,
Ac nac afonydd dyfnion llawn;

Nid allsai'r groes, a'r bicell gref,
Ei ladd, na chwaith ei oeri ef.

64. *Cyflawnder o ras a doniau yn Nghrist.* (M. C.)

- 1 CYFLAWNDER nerth, cyflawnder gras,
Cyflawnder nef y nef,
Uwch deall seraphim na saint
Sy'n trigo ynddo Ef.
- 2 Mae ynddo'i hunan drysor mwy
Nag fedd y byd yn un,
A phrawf o'i gariad ydyw'r fraint
Oruchaf gafodd dyn.
- 3 Fy ymffrost gaiff fod am ei ras,
A'm nefoedd fydd ei hedd;
Ac mi orweddaf gydag Ef
Yn foddlon; yn y bedd.
- 4 Yn mhob rhyw ddoniau mae E'n fawr,
Anfeidrol yw ei rym;
Ac nid oes pwysau ar ei ras,
A'i haeddiant Dwyfol ddim.

65. *Ar yr un testun.* (M. C.)

- 1 MAE ynddo drugareddau fil,
A doniau yn ddidrai;
A rhyw ffyddlondeb fel y môr,
At ei gystuddiol rai.
- 2 Mae'i ddoniau yn rhagori 'mhell,
Ar holl freninoedd byd;
Ac 'rwyf yn teimlo'i fod e'i hun,
Yn hollol lanw 'mryd.
- 3 Ac yn ei gariad dwfn a maith,
Mi nofia tua'r nef;

Ac nid oes tymhestl fyth, na thôn,
Yn rhoio ynddo Ef.

- 4 Ddiffygiaf ddim, er c'yd fy nhaith,
Tra pery grâs y nef;
Ac er mor lleied yw fy ngrym,
Mae digon ynddo Ef.

66.

Ar yr un testun.

(6, 6, 4.)

- 1 O TYRED Arglwydd mawr,
Dyhidla o'r nef i lawr,
Gawodydd pur:
Fel byddo i'r egin grawn,
Foreuddydd a phrydnawn,
I darddu'n beraidd iawn,
O'r anial dir.
- 2 Mae peraroglau'th râs,
Yn taenu o gylch i maes,
Awelon hedd;
Estroniaid sydd yn d'od,
O'r pellder eitha erioed,
I gwympo wrth dy droed,
A gwel'd dy wedd.
- 3 Mae gwedd dy wyneb pryd,
Yn maeddu oll i gyd,
Sy ar ddaear lân;
Mae pob rhyw nefol ddawn,
Oll yno'n gryno, lawn,
Yn tarddu'n hyfryd iawn,
O'th glwyfau i maes.
- 4 Arhosaf ddydd a nos,
Byth bellach dan dy groes,
I'th wir fwynhâu;

Mi wn mai'r taliad hyn,
Wnaed ar Galfaria fryn,
A'm càna oll yn wyn
Oddiwrth fy mai.

67.

Ar yr un testun.

(8, 7. D.

- 1 PA gyfnewidiadau bynag
Welo'm bywyd ar y llawr,
Llwyddiant, ynte neu aflwyddiant,
T'wniad haul, neu storom fawr;
Enw hyfryd fy Iachawdwr
Gaiff ddyfyr'u dydd i maes,
Canu ei glod, a chant ryfeddu
Nerth ei nefol ddwyfol ras.
- 2 Y mae meddwl am ei ddoniau,
Meddwl am ei gariad pur,
Fel rhyw ffynnon o lawenydd,
Llawn o ddyfroedd gloewon clir:
Ef ei hunan yw'm gogoniant,
Efe yw'm hymffrost a fy ngrym,
Enw pawb o dan yr wybren
Ond ei hunan, elo'n ddim.
- 3 Fy holl obaith sy'n ei enw,
Enw godidoca'r ne';
Ac 'rwy'n gwadu, ac yn gwrthod,
Unrhyw noddfa, ond efe:
Ef yw'm hiechydwr iaeth werthfawr,
F'amddiffynfa a fy Nuw;
Ef a'i ras gaiff fod yn sylwedd
Fy nghaniadau tra f'wyf byw.

68.

Ar yr un testun.

(M. H.)

- 1 'DOES unrhyw harddwch yn y byd,
Nac un o fewn y nef i gyd,
Un gras, doethineb, nerth na dawn,
Nad yw ef yn yr Iesu'n llawn.
- 2 Rhagori mae ar oll i gyd
O'r gwyachaf bethau yn y byd;
Nid yw breninoedd mawr eu grym,
I sefyll yn ei ymyl ddim.
- 3 'Dyw'r aur a'r arian sy' yma i'w cael,
Na'r perlau oll ond sorod gwael;
Na'r holl fwy gloddiau mawr eu bri,
Yn gymhar ddim i'n Harglwydd ni.
- 4 Pe byddai wedi'u casglu 'nghyd
Holl werthfawrocaf bethau'r byd,
Y mae ei hun yn gan mil mwy,
Na chymaint arall honynt hwy.
- 5 Deng mil o engyl nef o'r bron,
Deng mil o seintiau'r ddaear hon,
A deng mil ereill lawn, nid yw
Ond dim yn ochr Iesu'm Duw.

69. *Dyoddefaint, angeu a buddugoliaeth Crist.* (8, 7.)

- 1 F'enaid gwel i ben Calfaria,
Draw'r rhyfeddod fwya' erioed;
Crëwr nefoedd fawr yn marw,
'R ddraig yn trengu dan ei droed:
Clywaf lais yn awr, tebygwn,
Agor, borth y ddinas fry—
F'enaid cân, fe ddarfu ofni,
Prynwyd nefoedd wen i mi.

- 2 Priod y dragwyddol hanfod
 Welai'n hongian ar y pren,
 Dyn a Duwdod ynddo'n trigo,
 Yn barod grymu lawr ei ben :
 Gwelaf etto fwy rhyfeddod,
 Yn ei wyneb angeu loes !
 Hedd yn rhedeg tros Galfaria,
 Fel yr afon tan y groes.

70.

Ar yr un testun.

(M. N.)

- 1 DACW'R ffynnon wedi 'i hagog,
 A ddysgwyliwyd lawer oes,
 'N awr yn llifo fel y grisial
 Pur, o'i ystlys ar y groes :
 Dw'r a gwaed, ry' iachâd,
 I'r pechadur mwya' gaed.
- 2 Dacw'r hoelion geirwon llymion,
 Wedi 'u curo 'nawr i dre ;
 Dacw'r bicell yn trywanu
 I mewn o dan ei ystlys E' :
 Dacw boen, addfwyn Oen,
 Yn rhoi'r nefoedd dewi son.
- 3 'Nawr mi glywa'r gair "Gorphenwyd" —
 Gorphen iachawdwriaeth wir ;
 Ac mi wela'r gwaed yn hidlo,
 Tros ei ruddiau sanctaidd pur :
 Wele'r nef, gadarn gref,
 Yn tywyllu wrth ei lef.
- 4 Dyma'r creigydd serth yn rhwygo,
 Dyma'r meirw'n codi'n fyw ;

Pa greadur allai oddef,
 Griddfan chwerw f'Arglwydd Dduw?
 Ochain mae, fe ga'dd wae,
 Fel cawn innau lawenhâu.

71. *Ar yr un testun.* (8, 7, 6.)

- 1 Mi feddyliais cawswn f'Arglwydd
 Yn nghymdeithas mawrion byd;
 Yn mhlith lleiddiaid, yn mhlith lladron,
 Gwelais gynta'i wyneb pryd:
 Ar y croesbren, &c.
 Nid yn llÿs un brenin gwych.
- 2 Dacw lofrudd ar ei aswy,
 Dacw leidr ar ei dde;
 Draw fe'i hoeliwyd yn y canol,
 Frenin daear, Frenin ne':
 Mi apeliaf, &c.
 At yr orsedd ar y groes.
- 3 Ni raid esgyn fry i'r nefoedd,
 Y mae'r nefoedd ar y pren;
 Plygai'r nefoedd at y ddaear,
 Pan ogwyddodd ef ei ben:
 Minnau'r euog, &c.
 Af am bardwn at y groes.

72. *Ar yr un testun.* (8, 8, 6.)

- 1 O DEFFRO, tro fy enaid trist,
 Gwel 'ffernol griw o ddeutu'th Grist,
 Am ladd dy Brynwr cu:
 Yn 'mofyn llu o dystion gau,
 I Pilat i'w gondemnio'n glau:
 O f'enaid cofia'i gur.



- 2 Gan bwys y gwaith fe chwysai'r gwaed,
Yn llif didrai, o'i ben i'w draed,
A hyn tros oriau hir :
Fe yfai'n rhwydd o'i gariad rhâd,
Y cwpan du o law ei Dad :
O f'enaïd cofia'i gur.
- 3 Y Ceidwad cu condemnio wnaen',
Llofruddion lu a ddaeth ymlaen,
A geirwon hoelion dur ;
O dan y pwys, er maint y poen,
Dystewi wnaeth fel addfwyn Oen :
O f'enaïd cofia'i gur.
- 4 Gelynion llym a godai 'u llef,
Croeshoelia, O croeshoelia Ef,
Ni haeddai fyw yn hir :
Yn mhlith y llu, aed ag e'n llyn
I farw ar Galfaria fryn :
O f'enaïd cofia'i gur.

73.

Ar yr un testun.

(8, 8, 6.)

- 1 RHOW'D mantell goch am dan yr Oen,
Gan ddrain ei ben ddyoddefai boen,
'Nawr wele'r brenin pur ;
Fflangellwyd ef nes oedd ei waed,
A chwysau hir o'i ben i'w draed :
O f'enaïd cofia'i gur.
- 2 Ca'dd gario'r groes i ben y bryn,
Nes llethu'n llwyr, fy Iesu'n llyn,
Gan wawdio'm Prynwr pur ;
A dyweyd, " Ai dyma Israel sant,
Ei waed boed arnom ni a'n plant : "
O f'enaïd cofia'i gur.

- 3 Y ddaear fud ro'i 'i meirw yn fyw,
A'r creigydd fry a holltai'n friw
Wrth edrych ar ei gur:
Yr haul ymguddiai wrth y loes,
Y lloer a'r ser, ai'n dywyll nos:
O f'enaid cofia'i gur.

74.

Ar yr un testun.

(M. H.)

- 1 FY enaid, gwel i Galfari,
Y poen angherddol yno fu;
Torfeydd diri', â'u harfau ynghyd,
Am goncro brenin mawr y byd.
- 2 Holl deyrnas satan fawr ei grym,
Pob ellyll du a'i arf yn llym;
Llid a chynddaredd, dòn a thòn,
Yn rhuthro arno 'r fynyd hon.
- 3 Pechodau dynolryw i gyd,
Wedi'u pentyru arno ynghyd,
A'u gwasgant Ef yn dorf ddiri',
Nes iddo chwysu'r gwaed yn lli'.
- 4 Etto, er cyngair dae'r a nen,
A lladd fy Arglwydd ar y pren,
Felly'r yspeiliwyd uffern fawr,
Ac felly tynwyd nef i lawr.

75.

Ar yr un testun.

(M. H.)

- 1 GWEL draw fy Mrenin ar y pren,
Yn niwedd dydd yn crymu 'i ben;
Poen angeu mwy na buasai 'nghyd,
Ddyoddefaint holl ferthyron byd.
- 2 Wel angeu'r groes, dy waetha mwy,
I ben y bobloedd rhoddaist glwy;

Cododd i'r lan, fe gwyd i'r ne'
Fyrddiynau trwy'i adg'odiad E'.

- 3 Fy enaid gwel ef ar y pren,
Yn gaeth gan angeu'n crymu 'i ben ;
Angeu'r carcharor, laddodd Ef,
Ac esgyn wnaeth i ganol nef.
- 4 Fe ddarfu'i wae, diangodd Ner,
I'r b'radwys ddysglaer uwch y ser,
Ei goron ga'dd ; 'nawr ddydd a nos,
Mae'n medi ffrwyth cystuddiau'r groes.

76.

Ar yr un testun.

(8, 8, 6.)

- 1 Ai Iesu mawr, ffrynd dynolryw,
Wy'n weled fry a'i gnawd yn friw,
A'i waed yn lliwio'r lle,
Fel gwr dibris yn rhwym ar bren,
A'i waed yn dorchau ar ei ben ?
Ie, f'enaid, dyma efe.
- 2 Ai'm hanwyl briod wela'i draw,
A hoelion llymion trwy bob llaw,
A'u pwyo 'n drwm i dre',
A bwr o ddur trwy'i dirion draed,
Ac yntau 'n marw yn ei waed ?
Ie, f'enaid, dyma efe.
- 3 Ai fe fu'n maddeu idd ei gâs,
A'i waed yn llif o'i glwyfau i maes,
Nes agor drws y ne' ;
Rho'i ben tua'r llawr trwy boenau llym,
Yn wirion deg heb yngan dim ?
Ie, f'enaid, dyma efe.

77.

Ar yr un testun.

(8, 8, 6.)

- 1 TRYWANWYD, do, fy Mhrynwr rhad,
Nes daeth o'i galon ddwr a gwaed,
Yn ffrwd fel afon bur ;
Oedd ar y llawr i'w wel'd yn llyn,
Yn frwd ar ben Calfaria fryn ;
O f'enaid cofia'i gur.
- 2 Mi glywa'i lef, pan chwerwa'r loes,
A'i irad gri ef ar y groes,
Am faddeu imi 'n wir ;
Ei weddi a'i troswyf uwch y nen,
A mi'n ei hoelio ar y pren ;
O todd fy nghalon ddur.
- 3 Dros f'enaid I bu'r addfwyn Oen,
Fel hyn yn dyoddef dirfawr boen,
I'm gwneyd yn rhydd yn wir ;
'Roedd yn ei fryd orphenu'r gwaith
O eitha tragwyddoldeb maith ;
Cân, f'enaid, am ei gur.

78.

Ar yr un testun.

(7, 6.)

- 1 BECHADUR, gwel e'n sefyll
Yn llonydd ar y groes,
Clyw'r griddfan sy'n ei enaid
Dan chwerw angeu loes :
O gwranddo ei gwynfanau,—
Mae pob ochenaid ddrud,
Yn floedd ynglustiau'r nefoedd
Am faddeu beiau'r byd.
- 2 Gwel ar y croesbren garw
Gyfiawnder mawr y ne',

Doethineb a thrugaredd
 Yn gorwedd mewn un lle ;
 A chariad anfesuroi,
 A thosturiaethau 'n un,
 Fel afon fawr lifeiriol
 Yn rhedeg at y dyn.

3 Y baich oedd annyoddefol
 I'r cryfa o ddynolryw,
 A wasgodd yn ofnadwy
 A'r ysgwydd gref fy Nuw :
 Cyfiawnder oedd yn gofyn
 Am bechod di-nacâd,
 Y swm anfeidrol dalwyd
 Trwy eithaf chwys a gwaed.

4 Y mynydd mawr anfeidrol
 A gym'rodd ef i gyd,
 Oddiar ysgwyddau gweinion
 Yr euog aflan fyd ;
 Pan welai'r greadigaeth
 I fod y baich mor fawr,
 Fe guddiodd nef ei hwyneb,
 Fe grynai yntau'r llawr.

5 Yr hoelion geirwon celyd,
 Gynt a'i trywanodd E',
 Sy'n awr yn dal y nefoedd
 Gwmpasog yn ei lle ;
 Mae gobaith meibion dynion
 Yn llifo maes i gyd,
 Oddiwrth yr awr trywanwyd
 Creawdwr mawr y byd.

79.

Rhyfeddodau'r Groes.

(M. H.)

- 1 DUW, er mor eang yw dy waith
Yn llenwi'r holl gre'digaeth faith,
Rhyfeddach na'th weithredoedd oll,
Yw cadw dyn a aeth ar goll.
- 2 Dyma lle mae d'anfeidrol ras,
Hyd eitha'n cael ei daenu 'maes;
A holl lyth'renau d'enw cawn,
Yn cael eu dangos yma'n llawn.
- 3 Ar Galfari rhwng dae'r a ne',
Llewyrchodd ei ogoniant E' ;
Un haul ymguddiodd y prydawn,
A'r llall a wnaed yn eglur iawn.
- 4 Pa ddawn sy' yn y Duwdod mawr,
Nad yw e'n 'sgrifen yma lawr ?
Beth all'sai ddangos pwy wyt ti,
Yn well nag angeu Calfari ?
- 5 O fyrddiwn rhyfeddodau 'r groes,
Dyoddefodd f'Arglwydd angeu loes !
Caru hyd at ddyoddef llid,
Caru a marw yr un pryd !
- 6 O ryfedd waith ! Ti awyr fawr,
Tro d'aml lygaid yma i lawr ;
Rhyfedda gyda'r thronau fry,
Y cariad mawr ar Galfari.

80. *Anfeidrol rinwedd a haeddiant aberth Crist. (8,7,4.)*

- 1 NIS gall dysgedigion doetha',
Er cyrhaeddyd fry i'r ne',

Chwilio troion sêr y wybr,
 Gwel'd eu maint a gwel'd eu lle,
 Fyth i bwysu, &c.
 Gwerthfawrogrwydd gwaed y groes.

- 2 Pechod yma, cariad acw
 Bwyswyd yn y glorian fawr,
 Ac er trymed oedd y pechod,
 Cariad bwysodd hyd y llawr :
 Gair Gorphenwyd, &c.
 Wnaeth i'r glorian bwysig droi.
- 3 Haeddiant Duwdod o'i gymharu
 'N erbyn uffern fawr o'r bron ;
 Gwaed fy Nuw sydd ganmil trymach
 Nag euogrwydd dudew hon :
 Gw'radwyddiadau, &c.
 Duw, rydd iawn am feiau'r byd.
- 4 Fe ddystawa myrdd o ellyllon,
 Fe ddystawa'r ddeddf ger bron,
 Fe ddystawa pur gyfiawnder
 Sy'n amddiffyn cweryl hon,
 Gynta'r enwir, &c.
 Sillaf prin am waed y groes.

81.

Ar yr un testun.

(8, 7, 4.

- 1 DACW gariad, dacw bechod,
 Heddyw'u dau ar ben y bryn ;
 Hwn sy'n gryf, hwnacw'n gadarn—
 Pwy ennilla'r ymgyrch hyn ?
 Cariad, cariad, &c.
 Welai'n perffaith gario'r dydd.
- 2 Dringaf fynu i'r Olewydd
 I gael gweled maint fy mai ;

Nid oes arall is yr wybren
 Fan i'w weled fel y mae :
 Anwyl f'enaïd, &c.

Yno'n chwysu dafnau gwaed.

4 Gwel'd yr hwn fu'n prynu'm pardwn,
 Prynu pardwn maith y byd ;
 Gwel'd ei wallt a gwel'd ei wisgoedd,
 Gwel'd ei ruddiau'n waed i gyd !
 Fe, fy mhechod, &c.

Yrodd allan ddwyfol waed.

4 Pechod grëodd ynddo'r poenau,
 Pechod roddodd arno'r pwn ;
 Pechod barodd iddo ochain,
 F'unig haeddiant I oedd hwn :
 O na welwn, &c.

Foreu byth na phechwn mwy !

5 Cariad oll i mi oedd yno,
 Chwer'der ydoedd i fy Nuw ;
 Lle dyoddefodd un diwrnod
 Boenau llymion iawn eu rhyw :
 O'r winwydden, &c.

Gwasgwyd pechod imi'n win.

82.

Ar yr un testun.

(8, 7, 6.)

1 MAE cyflawnder maith o haeddiant
 Annherfynol, yn dy waed ;
 Sawl â'i teimlodd sy'n rhyfeddu,
 Ac yn caru'r ddyfais rad :
 Cariad drud, tros y byd,
 Daeth yn genllif coch i gyd.

2 Dwyfol waed a dwyfol boenau,
 Haeddiant ydoedd hwn mor ddrud,

Ac oedd defnyn bach o hono

Yn abl ddigon brynu byd :

A phe b'ai maint ei fai

Ganmil trymach nag y mae.

- 3 Bod Creawdwr nef yn dyoddef,
Ro'dd anfeidrol werth a rhin
Yn mhob gwŷn, yn mhob ochenaid,
O ddyoddefaint Mab y Dyn :
Nid yw llid euogrwydd byd,
Ddim i bwysu'i haeddiant drud.
- 4 Yma tardd cyfiawnder allan
Fel rhyw ddiliw mawr didrai ;
Ac er golchi miloedd ynddo
Nid yw'r dyfroedd ronyn llai :
Gwaed fy Nuw, haeddiant yw
Trech na'r beiau dua ei lliw.
- 5 Pe ba'i dengmil lawn o ddynion,
A'u heuogrwydd oll yn un ;
Dengmil eilwaith faith o fydoedd,
Ffiaidd euog yn gytun :
Yma cawn un prydawn,
Aberth perffaith dal yr Iawn.

83.

Ar yr un testun.

(M. H.)

- 1 WRTH edrych, Iesu, ar dy groes,
A meddwl dyfnder d'angeu loes,
Pryd hyn 'rwyf yn dibrisio'r byd,
A'i holl ogoniant gwag i gyd.
- 2 'Nad fi ymddiried tra f'wyf byw
Ond yn dy angeu, Iesu gwiw ;
Dy boenau a dy farwol glwy,
Gaiff fod yn ymffrost i mi mwy.

- 3 Dyma'r lle'r ydoedd ar brydnawn,
Rasusau yn dysgleirio'n llawn ;
Mil o rinweddau yn gytun,
Yn prynu'r gwrthgiledig ddyn.
- 4 Poen a llawenydd dan y loes,
Tristwch a chariad ar y groes :
B'le bu rhinweddau fel y rhain,
Erioed o'r blaen tan goron ddrain ?

84.

Ar yr un testun.

(M. B. D.).

- 1 CYFIAWNDER marwol glwy
A haeddiant dwyfol loes,
Y pris, y gwerth, yr aberth drud,
A dalwyd ar y groes,
A gliria meiau'n llwyr,
A'm golcha'n hyfryd lan ;
Ac nid oes arall dan y nef
A'm nertha' i fyn'd ymlaen.
- 2 Dyoddefaint pur y groes,
Angeuol loes fy Nuw,
Sy' fwy o fewn y ne' mewn co'
Na'm beiau o bob rhyw :
'Dyw pechod er ei rif,
Ei goncwest cryf a'i rym,
Yn abl sefyll fynyd awr
I'w haeddiant mawr ef ddim.
- 3 Aed bellach bawb o'r bron
Yn eon tua'r nen ;
Mae'r iachawdwriaeth werthfawr ddrud,
Yn awr i gyd ar ben :

Mae Calfari a'i ddawn
 Yn rhyfedd lawn o faeth,
 Ar fyr cawn brofi gwleddoedd hael
 Nad oes i'w cael mo'u bâth.

85.

Ar yr un testun.

(M. C.)

- 1 O dew'ch genedloedd, dew'ch ymlaen,
 Trwy rwystrau maith eu rhi ;
 A gwir ryfeddwch tra fo'ch byw
 Ddyoddefaint Calfari.
- 2 Fe dalodd yr anfeidrol swm
 Fel meichiau yn ein lle ;
 Ac felly fe gymmododd holl
 Briodoliaethau'r ne'.
- 3 Mae cofio heddyw am ei waed,
 O flaen yr orsedd fry,
 Yn creu heddwch dwyfol pur
 I'r holl grediniol ri'.
- 4 Fe ddwg ei saint i'r auraidd fan,
 Y dringodd iddo ei hun ;
 A hwy gânt wel'd y dwyfol wedd
 A wisgodd natur dyn.

86.

Ar yr un testun.

(7, 4.)

- 1 NID oes aberth o un rhyw yn mhlith miloedd,
 Dâl am drosedd lleia'i ryw yn oes oesoedd ;
 Dim ond aberth dwyfol ddyn, foddia Dduwdod,
 Angeu Tywysog nef ei hun, bwysa 'mhechod.
- 2 Dyma'r aberth'n abl sy' i drosglwyddo,
 Fy euogrwydd dwfwn du i dir ango' ;
 Fe wnaeth pechod y fath glwy' ar fy enaid,
 'Does ond gwaed anfeidrol mwy all fy ngwared.

3 Dyma'r aberth mae erioed sôn am dano ;
 Ar y ddaear 'does yn bod debyg iddo ;
 Mae seraphiaid pena'r nen yn rhyfeddu,
 Gwel'd eu brenin ar y pren yn gwir drengu.

87.

Ar yr un testun.

(M. B.)

- 1 MAE rhinwedd yn ei waed
 I faddeu beiau mwy,
 Nag y gall angel fyth na dyn
 Wneyd rhif o honynt hwy.
- 2 Mae ffynnon ar y bryn
 A ylch yn wyn a glân,
 Bechodau o ryw ffeiddia 'rïoed
 Rhifedi'r tywod mân.
- 3 'Does diwedd fyth na thrai
 Ar rinwedd angeu loes ;
 Uwch pris, a'r gwerthfawroca' gaed,
 Yw haeddiant gwaed y groes.
- 4 Fe gâna'r negro du,
 Fe gâna'r Indiad draw ;
 Fe faddeu i'r aflan oes y sy',
 Fe faddeu i'r oes a ddaw.

88.

Adgyfodiad Crist.

(11au.)

- 1 MAWR iawn fu'r gorfoledd pan gododd ein Ner,
 Fe chwarddodd yr haulwen, fe ddawnsiodd y ser ;
 Fe neidiodd mynyddau a bryniau fel wyn,
 Gorfoledd i'r Iesu gyfodi er ein mwyn.
- 2 Y gwragedd godasant i edrych y bedd,
 I wel'd a gyfododd eu Harglwydd mewn hedd ;
 Wrth edrych, ofnasant, nid oeddynt ond gwân,
 Ni welsant eu Harglwydd, ond gwelsant y fân.

- 3 Fe grynodd y ceidwaid, cwmpasant i lawr,
P'odd gall'sent hwy edrych dysgleirdeb mor fawr
Y weithred oedd ynfyd, rho'i dynion mor wàn
I rwystro Creawdwr y ddaear i'r làn.
- 4 Wel, saint, gorfoleddwch, fe gafodd y dydd,
Fe rwynwyd ei ddyndod, rho'i Dduwdod E'n rhydd :
Mae'i saint ef yn dystion, gwirionedd mawr yw,
I'n Harglwydd adgodi o farw yn fyw.
- 5 Cawn ninnau adgodi ar doriad y dydd,
Lladd ceidwad y carchar a'n gollwng yn rhydd ;
A'n cym'ryd i fynu o'r ddaear i'r ne',
Yn ngolwg angylion, fel cafodd efe.

89.

Ar yr un testun.

(M. H.)

- 1 DE'WCH, gwelwch D'wysog nefoedd fawr,
O radd i radd yn dôd i lawr ;
I groth y ddae'r i esmwythâu
Gwelyau'i etholedig rai.
- 2 'Nol gorwedd dro, fe ddaeth i'r làn,
Agorodd ddrws i mi oedd wan,
I adgyfodi a d'od i maes,
Er cadw'r porth gan angeu glas.
- 3 Gwelwch fy Nuw 'n ei ddynol wedd,
Yn gorwedd obry yn y bedd ;
'Rwy'n gwybod fod fy Iesu'n Dduw,
Pan codai 'i hun o farw i fyw.
- 4 Pa ddrwg wna'r bedd a'r pryfaid mân ?
Bu f'Arglwydd yno o fy mlaen ;
Pa'm ofna'm henaid fyn'd i'r lle
Gorweddodd ynddo Frenin ne' ?

5 Allweddau angeu du ei wedd
 Sy'n caudad ar bydewau'r bedd;
 Allweddau uffern fawr a'r nef,
 Sy'r awrhon wrth ei wregys ef.

90.

Ar yr un testun.

(6, 4.)

1 'NOL rhoddi'n Harglwydd hael
 Yn wael ei wedd,
 Rhyfeddod mwya' erioed,
 Yn ngwaelod bedd;
 Ond ar y trydydd dydd,
 Yn rhydd yr aeth Efe,
 Palmentodd lwybr gwych
 I entrych ne'.

2 Concwerodd angeu glas,
 A'i deyrnas drist;
 Fe'u rhoddwyd tan ein traed,
 Trwy waed ein Crist:
 Fe dynodd golyn hwn
 Yn gyfan gwn, o'r gwraidd;
 Pwy ofnai mewn un modd
 Rhag bloedd y blaidd?

3 'Nol gorphen ar ei waith
 I'r nef 'r aeth Ef,
 Lle mae ef yr awrhon
 Yn gwrando'n llef:
 Yn eiriol drosom draw
 Ar fyr daw i'n rhyddhau;
 Mae'r amser ddydd a nos
 Yn agoshau.

91.

Ar yr un testun.

(7, 6.)

- 1 O'R bedd fe adgyfododd
 Yn ogoneddus iawn ;
 Daeth boreu teg a hyfryd
 'Nol stormus ddu brydnawn ;
 Y gadwyn fawr a dorodd
 Ar wawr y trydydd dydd ;
 Fe goncrodd angeu'i hunan,
 O'r carchar daeth yn rhydd.
- 2 I fynu daeth o Edom,
 A'i wisg yn goch ei lliw ;
 Nis gall'sai un creadur
 Mewn cadwyn gadw'n Duw ;
 Fe dorodd rym yr angeu,
 Agorodd ddrysau'r bedd,
 Palmantodd ffordd o'r ddaear
 Yn awr i ganol hedd.
- 3 Y mae ef heddyw'n eistedd
 Ar orsedd ddysglaer fawr,
 Yn gweled gylch o gwmpas
 Y cyfan ar y llawr ;
 Ei hun yn llywodraethu
 Gehena fawr a'r nef,
 A therfyn eitha'r ddaear
 Sy' tan ei ofal ef.

92.

Esgyniad Crist.

(M. C.)

- 1 ESGYN a wnaeth i entrych ne',
 I eiriol dros y gwan ;
 Fy enaid innau dyn efe
 I'w fynwes yn y man.

- 2 Gadawodd y llieiniau 'nol
 Yn arwydd llawn i ni,
 Na raid wrth wisgoedd o unrhyw
 Yn y baradwys fry.
- 3 Mae'n eistedd ar ddeheulaw'r Tad
 Ar orsedd fawr y nef,
 Ac y mae'r cyfan sy' mewn bod
 Dan ei awdurdod Ef.

93.

Ar yr un testun.

(11au.)

Esgynodd ein Harglwydd mawr hylwydd mwyn
 Uwch cyraedd gelynyon rai creulon ryw cry'; [hy'
 Bygythiant a fynant yn eön is nen,
 Nis gallant wneyd niwed i'n Harglwydd uwch ben.
 Wel, blant gorfoleddwch, ni gawsom y dydd,
 Trow'd Satan o'r nefoedd, mae'r nefoedd yn rhydd;
 Fe bechodd, fe gwmpodd o entrych y ne',
 Ni bech'som, fe'n prynwyd, ni gawsom ei le.
 Fe gurodd Gehena, fe gonc'rodd y byd,
 Agorodd y nefoedd â'i haeddiant mawr drud;
 Tawelodd y gyfraith yn berffaith â'i waed,
 Esgynodd, eisteddodd ar ddehau y Tad.
 Bu rhyfedd orfoledd pan 'sgynodd yr Oen
 I gyntedd y nefoedd o'i lafur a'i boen;
 Wnai saint na cherubiaid na thronau bob rhai
 Ond synu a chanu, a gwir lawenhau.

94.

Gogoniant Crist yn y nefoedd.

(8, 8. D.)

- 1 MAE'R lle sancteiddiolaf yn rhydd,
 Fe rwygodd f'Anwylyd y llen;
 Fe yw haul y cyfiawnder sy' fry,
 Yn g'leuo'r holl nefoedd uwch ben:

Mae'r dyrfa'n anfeidrol o faint,
 Ac etto ni welaf yr un,
 'Mhlith 'ngylion, seraphiaid a saint,
 Neb fel fy Anwylyd ei hun.

- 2 Mae'n eistedd ynghanol y llu
 S'a'u nifer fel glaswellt y maes ;
 Yn helaeth yn rhoddi i bob un
 Ogoniant a harddwch a gras :
 Fel haul yn yr wybren a fae'
 Yn t'wynu ar fyrddiwn o ser,
 A'i wres a'i ogoniant ddim llai—
 Fel hyn mae gogoniant fy Ner.

95.

Ar yr un testun.

(M. 8, 8, D.)

- 1 Y GOLEU sy'n ninas ein Duw,
 Mae hwnt i amgyffred un dyn ;
 'Does neb all ei weled a byw,
 Ond y dorff ogoneddus ei hun :
 'Dyw grisial yngolwg yr haul,
 Neu wydyr fa'i lawer mwy pur,
 I lewyrch y nefoedd ddim ail—
 Fy Iesu yw'r ffynnon yn wir.
- 2 Tuag ato mae wyneb ei saint
 Oddiamgylch, yn rhes ar ol rhes ;
 Yn dyrfa aneirif o faint,
 Rhai 'mhellach oddiwrtho, rhai'n nes :
 Dysgleirdeb ei wyneb â 'mhell,
 Mil pellach na'r haul yn ei rôd ;
 Ei fwynhau mae'r pellaf yn well
 Nag allwyd amgyffred erioed.
- 3 'Does angel, na seraph, na sant,
 Byth yno'n dysgleirio 'hono'i hun ;

Pe ciliai f' Anwylyd i bant,
 Fe d'wyllai, fe dduai pob un :
 Fe yw afon y bywyd sy' fry,
 Fe yw'r manna cuddiedig a drud,
 Efe yw hyfrydwch y llu ;
 Ie, 'm Iesu yw'r nefoedd i gyd.

96.

Ar yr un testun.

(M. H.)

- 1 O ddedwydd le, preswylfa'm Ner,
 Yn yr eangder uwch y ser ;
 Y man dysgleiria Iesu i ma's
 Yn nghyflawnderau maith ei ras.
- 2 Mawrhydi a chariad parchus iawn,
 Sydd yn ei wyneb ef yn llawn ;
 A'r lluoedd yn ymgrymu'n un,
 O flaen ein Duw yn natur dyn.
- 3 Wel daew'r pen goronodd drain
 Yn goron bleth, â'u pigau main ;
 A choron auraidd arno'n awr,
 Yn llwyr ddysgleirio'r nefoedd fawr.

97.

Ar yr un testun.

(7, 6.)

- 1 MAE dyndod y Cyfryngwr
 Mewn ardderchawgrwydd mawr,
 Can mil yn uwch ei ddoniau
 Nag ydoedd ar y llawr ;
 Anfeidrol uwch yr awrhon
 O gymhwysiadau sy',
 Na neb o ddynion daear,
 Na'r holl angylion fry.
- 2 Rhow'd iddo gael gwybodaeth
 O'r arfaeth faith ei hyd,

A dydd y farn, nas gwyddai
 Un amser yn y byd ;
 A medr maith diderfyn
 I ddwyn yr oll i ben,
 Sydd yn y rhôl anfeidrol,
 Ddiddiwedd uwch y nen.

3 I agor seliau'r llyfyr
 Sydd yn neheulaw Duw,
 Am iddo ddyodde' unwaith,
 A marw, 'nawr yn fyw ;
 I lywodraethu'r nefoedd,
 Ac uffern faith o'r bron,
 Duwiolion, annuwiolion,
 Sydd ar y ddaear hon.

4 Fel hyn y ca'dd ei godi
 I dderbyn nefol glod,
 Oddiwrth bob rhyw greadur,
 Sydd uwch neu îs y rhod ;
 Dwy anian, un Cyfryngwr,
 Un person, Duw a dyn,
 Gan nef, a dae'r, a moroedd,
 Yn cael 'i addoli'n un.

98. *Ail ddyfodiad Crist i farnu'r byd.* (M. H.)

1 YR hwn ddyoddefodd angeu loes,
 Dan wawd a dirmyg ar y groes ;
 Mae'r dydd yn dôd, ar ddôd yn awr,
 Y gwelir ei ogoniant mawr.

2 Myrddiynau dirifedi fydd
 Yn gwmni iddo'r boreu ddydd ;
 Ceir gwel'd yr haul, sy'n fyd o dân,
 Yn troi yn bellen ddu o'i flaen.

- 3 Goleuni dry yn dywyll nos,
Fel gynt pan oedd ef ar y groes ;
Pan welir ef ymhlith y llu,
Ynghanol y ffurfafen frŷ.

99.

Ar yr un testun.

(8, 7, 4.)

- 1 WELE'N dyfod ar y cwmwl,
Mawr yw'r enw sy' iddo 'nawr ;
Ar ei fraich, ac ar ei forddwyd
Ysgrifenwyd ef i lawr :
Haleluia, &c.
Groesaw, groesaw addfwyn Oen.
- 2 Mil o filoedd, myrdd myrddiynau,
O gwmpeni hardd ei gwedd,
Welaf draw yn codi fynu
I'w gyfarfod ef, o'r bedd :
Darfu galar, &c.
Dyma iachawdwriaeth lawn.
- 3 Dacw'r brenin mawr ei hunan,
Yn adnabod pob yr un ;
Dacw bawb yn tynu fynu,
Yn union ato ef ei hun :
Cariad perffaith, &c.
Bellach cai deyrnasu byth.
- 4 " De'wch ymlaen, a de'wch yn ëon,
Fendigedig blant fy Nhad,
De'wch meddiannwch yr ardaloedd,
Brynwyd i chwi â fy ngwaed :
De'wch yn llawen, &c.
Rhodd yw hon cyn seilio'r byd.
- 5 De'wch, derbyniwch yma goron,
Bur anniflanedig wiw ;

Dim yn unig ond o gariad
 Roddwyd i chwi gan eich Duw :
 Tragwyddoldeb, &c.
 Cŷd a hyny pery'ch braint.

- 6 “Buoch gydà mi'n fy nghofid,
 Gydà mi'n fy mhoenau gyd ;
 Buoch yn gyfeillion ffyddlon
 I'm gw'radwyddiad yn y byd :
 Yfwch bellach, &c.
 Loyw win yn nhŷ fy Nhad.”

100.

Ar yr un testun.

(2, 8.)

- 1 Fe ffy,
 Elfenau'r ddae'r a'r awyr frŷ,
 O flaen ein Iesu mawr y sy'
 Yn eiriol drosom yn y nef ;
 Y gwaith gymerodd arno'i hun,
 Wrth brynu dyn a'i c'rona Ef.
- 2 Fath fri,
 Pryd hyny caiff f'Anwylyd cu,
 Pan n'allo angel rifo'r llu,
 O'r nef, o'r ddaear, ac o'r bedd ;
 Fe d'wylla'r haul, fe ddua'r lloer,
 Fe sych y môr, wrth wel'd ei wedd.
- 3 Fe fydd
 Myrddiynau ar y bore ddydd,
 O seintiau a merthyron ffydd,
 Yn canu'n rhydd o fewn i'r nef,
 Wedi adgodi 'nawr o'r bedd,
 Yn synu wrth wedd ei wyneb Ef.

DOSPARTH III.

YR YSBRYD GLAN, EI SWYDDAU, A'I RADAU.

101. *Erfyniadau am yr Ysbryd.* (7, 6.)

- 1 O YSBRYD sancteiddiolaf,
Anadla arna'i lawr,
O'r cariad anchwiliadwy
Sy' 'nghalon Iesu mawr ;
Trwy haeddiant Oen Calfaria,
Ac yn ei glwyfau rhad,
'Rwy'n dysgwyl pob rhyw ronyn
O burdeb gan fy Nhad.
- 2 Wel dyma'r man dysgwyliaf
O fore hyd brydnawn,
Ar fy eilunod taeog
Fod yn goncwerwr llawn :
Dy Ysbryd, Iesu grasol,
A all fy ngwneyd yn lân ;
Mil mwy sydd ganddo o allu
Nag sydd yn uffern dân.

102. *Ar yr un testun.* (7, 6.)

- 1 DIGONER fi â'th ddelw
Ddigymhar uwch y nen,
A gollais yn mharadwys
Wrth fwyta ffrwyth y pren :
Rho'ist imi fil fendithion,
Ond byth anfoddlon wy',
O eisiau cael dy Ysbryd
A'i anian nefol fwy.

- 2 'Mhen gronyn bydda'i'n gorwedd
 O fewn y ddaear ddu ;
 Y tafod sy'n gweddio
 Yr awrhon arnat ti,
 A bydra yn y dyfnder,
 Ni lefa arnat mwy ;
 O edrych ar fy nghystudd,
 Iachâ fy ngwahan-glwy.
- 3 O Ysbryd pur nefolaidd,
 Cyn 'relwy' lawr i'r bedd,
 Trwy ryw athrawiaeth hyfryd
 Gad imi brofi'th hedd !
 Cael profi blâs maddeuant,
 Maddeuant llawn a rhad,
 Yw'r cynta' peth wy'n geisio,
 Yn awr trwy rin y gwaed.

103.

Ar yr un testun.

(M. C.)

- 1 TYR'D Ysbryd sanctaidd ledia'r ffordd,
 Bydd imi'n niwl a thân ;
 Ni cherddai'n gywir hanner cam
 Oni byddi o fy mlaen.
- 2 Mi wyraf weithiau ar y dde'
 Ac ar yr aswy law ;
 Am hyny arwain gam a cham
 Fi i'r baradwys draw.
- 3 Dod yn fy ngenau fawl ar g'oedd,
 Ac yn fy ysbryd dân ;
 Ac yn mheryglon anial dir
 Erfyniau pur, a chân.

104. *Yr Ysbryd yn argyhoeddydd a sancteiddydd.* (M.H.)

- 1 DY Ysbryd, fel y fflamau pur,
Sy'n gwel'd fy nghalon trwyddi'n glir ;
Yn tremio'i mewn, yn gweled bai
'Does arall neb wyr fan y mae.
- 2 Mae ynddo hefyd allu mawr
I gael fy meiau mwya'i lawr ;
Ei holl ddoethineb ef a'i ras,
O rwydau'r ddraig a'm tyn i ma's.
- 3 Ac er i bechod yn mhob man,
I wreiddio yn fy enaid gwan,
A dyblu'i afael fwy na mwy,
Fe'i maedda â rhinwedd marwol glwy.
- 4 Er plethu o bechod câs ynghyd
A phob rhyw ewyn imi i gyd,
Fe'i dadrys ef, rhydd tan ei droed,
Y nwydau cryfa fu 'ynwy 'rioed.

105.

Ar yr un testun.

(8, 7.)

- 1 GWELL yw d'Ysbryd pur ei hunan
Na dim croesau yn y byd,
I ddatguddio im' fy mhechod,
A'i ddiwreiddio honwy' i gyd :
Lawr fe gwymp pan ddywedo'th Ysbryd
Sancteiddiolaf, gymal gair ;
Ti dy hunan, trwy ryw foddion,
Iddo'n fuan ildio bair.
- 2 O rho imi nerth i adael
Bai a chonwest it' dy hun ;
Ti bia'r nef, a thi bia uffern,
Ti sy'n newid calon dyn :

Ti wnai'r mynydd cribog cadarn,
 A dy air yn wastad lawr ;
 Wrth dy air, fy holl eilunod
 Mewn mynydyn gwymp i lawr.

106.

Ar yr un testun.

(8, 7.)

- 1 TYRED Ysbryd sancteiddiolaf,
 A glanhâ dy dŷ dy hun ;
 Lladd y beiau yn fy natur,
 O'r boreuddydd sydd ynglyn :
 Dwg dy eiddo maes o'r pydew—
 Minnau ond cael myn'd yn rhydd,
 A'th foliannaf tra b'o anadl,
 Am fy ngwardigol ddydd.
- 2 Pan f'o cariad yn teyrnasu,
 Cariad perffaith, dwyfol cun,
 Cariad fyth na 'nebydd mo'no
 Natur gnawdol neb rhyw ddyn :
 Ysbryd bywyd nef ei hunan,
 Sy'n cysuro, sy'n rhyddhau,
 Sydd yn fwyd, ac sydd yn ddiod,
 I'r sancteiddiol nefol rai.

107.

Yr Ysbryd yn arweinydd.

(8, 7, 4.)

- 1 MAE dy Ysbryd di yn fywyd,
 Mae dy Ysbryd di yn dân ;
 Fe sy'n dwyn yr holl fforddolion
 Cywir sanctaidd, pur ymlaen :
 Cyfarwyddwr, &c.
 Pererinion, arwain fi.
- 2 'Rhyd y llwybr dwg fi'n union,
 Rhag im' wyro ar un llaw ;

Mae tueddiad yn fy natur
 I gyrwydro yma a thraw :
 Gair o'th enau, &c.
 Wna i'm henaid gadw'i le.

108. *Yr Ysbryd yn ddyddanydd.* (2, 8.)

1 YN awr,
 Sancteiddiol Ysbryd, tyr'd i lawr,
 Dysgleira hyfryd fore wawr ;
 Goleuni mawr o entrych nef,
 Fel delo'm henaid wel'd yn glir
 Yr hyfryd dir, bwrcasodd Ef.

2 Rho'r gwin,
 Y sydd o nefol ddwyfol rin,
 I nerthu'm henaid pan f'o flin,
 Gart groesau sy' yn curo o hyd :
 Wrth yfed hwn, myfi af trwy
 Gystuddiau mwy nag wyr y byd.

109. *Ar yr un testun.* (8, 8, 8.)

1 TYDI addewaist, Arglwydd mawr,
 Y deu'r Dyddanydd ata'i lawr ;
 Na chawn i farw o dristwch mwy :
 O Dduw, cyflawna'th air i ben,
 Rh'o i'm arweinydd îs y nen,
 Ddangoso'r ffordd, iachäo 'nglwy.

2 Danfon i mi'r Dyddanydd pur,
 Y golofn dân mewn anial dir,
 Sy'n dwyn y praidd o'r Aifft i'r nef ;
 Yr hwn a'i oleu perffaith sydd
 Yn gwneuthur nos yn ganol dydd :
 Fy holl ddyddanwch ydvw Ef.

DOSPARTH IV.

DYN ; EI GREADIGAETH, EI GWYMP, EI
ADFERIAD, &c.

110. *Creadigaeth dyn ar ddelw Duw.* (7; 6.)

- 1 RYHW lyfr yw'r greadigaeth,
Aneirif yw ei ddail,
Yn dangos mawr ogoniant,
Diderfyn Adda'r ail ;
Dysgleiria'i berffeithderau,
Yn amlwg yn ei waith,
A'i ddyfais anchwiliadwy
O dragwyddoldeb maith.
- 2 Ond dyn sy'n fyd ei hunan ;
Ceir gwel'd y brenin mawr
Yn hwn, yn fwy gweledig
Na dim o'r nen i lawr ;
Fel pe na b'ai dim arall
Ddatguddiai fath yw Duw,
Gwneuthuriad dyn ddangosai
Ei hunan, pa fath yw.
- 3 Ychydig îs angylion
Sancteiddiol, gwnaethpwyd ef,
Mewn purdeb a gwybodaeth,
Ar ddelw Brenin nef :
Ei gorff 'run ddelw hefyd,
A wisgai ef ryw bryd,
Pan ddeuai'i hun i waered,
I farw tros y byd.

- 4 Yn hollol gyflawn ddedwydd,
 Yn awr y cafodd fod,
 Dedwyddach un creadur
 Oedd etto is y rhod ;
 Perffeithrwydd y gre'digaeth,
 Ei thrysor a'i pharhad,
 A'r dyben mawr o wneuthur
 Y cwbl ag a wnaed.

111.

Cwyp Dyn.

(7, 6.)

- 1 FE drodd y rhôd yn Eden,
 Er syndod mawr a braw,
 Cyfnewid ddaeth, bydd coffa
 Am dano ddydd a daw ;
 Cyfnewid diddysgwyliad
 I angel ac i ddyn,
 I seraph yn y nefoedd,
 Na neb ond Duw ei hun.
- 2 A chwyp a fu'r pryd hyny
 O'r fath effeithiau chwith,
 Na welwyd mo'i gyffelyb,
 Na welir etto byth :
 Fel nad yw'r dystryw hwnw
 Y filfed ran mor fawr,
 Pe byddai mil miliynau
 Yn cwympto yn yr awr.
- 3 Can's drwy anwyliadwriaeth,
 Fe hudwyd dyn yn lân,
 Fry o derfynau'r nefoedd,
 I ddibyn uffern dân ;

Y dyn oedd berffaith happus,
 Yn mreichiau brenin ne',
 A gwmpodd yn ddisymwth
 O tan ei ddigter E'.

- 4 Do, cwmpodd tan y felldith,
 Ysbrydol gaeth yn llawn,
 I bydew o dywyllwch
 Du ac annyddan iawn :
 Lle nad oes haul na lleuad,
 Na ser, na llewyrch gwawr,
 Na dim ond poen cydwybod,
 Cur a chystuddiau mawr.

112.

Ar yr un testun.

(7, 6.)

- 1 ENYNODD llid Jehofah,
 Pan y troseddodd dyn,
 Edifarha'dd, gofidiodd
 Am waith ei ddwylo'i hun :
 Cyfiawnder alwai'n uchel,
 Am dywallt allan lid,
 Yn gawod fawr ddinystriol
 Ar wrthgiliedig fyd.
- 2 A daliodd uffern dywyll
 Yn awr ei enaid drud,
 Ei dda aeth yn ddiolfryd,
 A'i rinwedd oll i gyd ;
 Ac nid ei hun yn unig,
 Ond tynodd yr holl fyd,
 Trwy ei wrthryfel ynfyd,
 Tan felldith drom i gyd.
- 3 Heb un yn abl feichiau,
 Heb neb wrth angen rhaid,

A'i dda yn ol dd'oi iddo,
 Neu safai yn ei blaid ;
 Dim cysur iddo'n unman,
 Na'r gobaith lleia' ca'i
 Ei etifeddiaeth gynta',
 Fyth bellach i fwynhau.

113.

Arbediad.

(7, 6.)

- 1 TRWY rinwedd hen gyfammod,
 A wnaethpwyd gynt â'r Tad,
 Yn nyfnder tragwyddoldeb,
 I brynu dyn yn rhad ;
 Ar ragwelediad pechod,
 A'r anferth ddrwg a wnai,
 Arbedid y gre'digaeth
 Pan gwympodd dyn i fai.
- 2 A'r Tad yn llwyr foddloni
 Am waredigaeth dyn,
 Mewn hyder ar ffyddlondeb
 Ei unig Fab ei hun ;
 Gogyfuwch ag E'i hunan,
 Dyoddefai Ef ryw bryd,
 Yn ol addewid sicr,
 O farw tros y byd.
- 3 A rhedodd y Messiah
 I mewn i gyfyng le,
 Rhwng euog ddyn y safodd,
 Fel hyn â Brenin ne' ;
 Fe brynai'r etifeddiaeth,
 Oedd wedi myn'd ar goll,
 Ac fe aeth yn etifedd
 O honi oll yn oll.

4 Diolched byd lluosog,
 O'r bron i gyd i ti,
 Am addaw'n gynnar farw
 Ar fynydd Calfari;
 Can's ynot maent yn sefyll,
 A thi yw eu parhad,—
 Colofnau'r greadigaeth
 Yn unig yw dy waed.

114. *Yr Adda cyntaf a'r ail.* (11au.)

HEN Adda ga'dd gynnyg ar gadw ei holl
 Hiliogaeth rhag pechu a myned ar goll;
 Fe gwypodd y cynta', 'rail 'nillodd y dydd,
 Ac yn ei orch'afiaeth daeth miloedd yn rhydd.
 'Rwy'n hollol ymwadu â da ac â dyn;
 Ymfrostiaf yn unig yn Iesu ei hun,
 Efe wnaeth y cwbl, efe bia'r clod,
 Bydd moliant i'w enw tra'r nefoedd yn bod.

115. *Colled Eden, ac ennill Calfaria.* (8, 8, 8.)

- 1 YN Eden cofiaf hyny byth,
 Bendithion gollais rif y gw lith,
 Syrthiodd fy nghoron wiw:
 Ond buddugoliaeth Calfari,
 Ennillodd fwy yn ol i mi,
 Mi ganaf tra f'wyf byw.
- 2 Ar Galfari yn ngwres y dydd,
 Y caed y gwystl mawr yn rhydd,
 Trwy golli gwaed yn lli:
 Ac yno talu anfeidrol Iawn
 I holl ofynion nef yn llawn,
 Heb ofyn dim i mi.

116. *Anufudd-dod un, ac ufudd-dod un.* (M. H.)

- 1 TROSEDDODD Adda, pen pob dyn,
Teyrnasodd angeu ar bob un;
Deddf sydd heb obaith; lle ni fedd
I edifeirwch, nac i hedd.
- 2 Y gras, yr hedd, a'r purdeb oll,
Ro'ed im' yn Eden, aeth ar goll;
Ni allaf ddirnad tra f'wyf byw,
Y pellder syrthiais oddiwrth Dduw.
- 3 O ras didrai! trueni dyn
Mab Duw gymerodd arno'i hun;
Ar ffrwst o eitha'r nen y daeth,
A marw o'i gariad trosom wnaeth.
- 4 Os daw y gyfraith yn ei grym,
A gofyn am berffeithrwydd im',
'Does geny' ond dangos angeu loes,
A gwaed yn llifo ar y groes.

117. *Dyn yn wrthddrych gofal Rhagluniaeth.* (7, 6.)

- 1 TROS ddyn yn enwedigol,
Ceir gwel'd ei ofal Ef,
Yn rhagddarparu iddo,
O ddyfnder dae'r i'r nef;
Bob bore yn rhoddi iddo
Fendithion mwy na rhif,
Heb fesur ar y llanw,
Mwy nag sydd ar y llif.
- 2 Pa'm yr anghofia'i ofal,
I dragwyddoldeb maith,

Mewn myrdd o bethau welais,
 Ac brofais ar fy nhaith ?
 A gollaf fy nghysuron ?
 Ai anghof gaiff eu dwyn ?
 Mi ganaf am ragluniaeth
 Tra byddwyf, er eu mwyn.

- 3 O gylch ei hyd a'i dyfnder,
 Ei chwmpas maith a'i grym,
 Mewn cyfynderau lawer,
 Na ffaelodd imi ddim ;
 Fel t'rawodd hi y creigydd,
 Nes ffrydio'r dw'r i maes,
 A gwlawio i lawr y manna
 O anghymharol flas.

118.

Ar yr un testun.

(7, 6.)

- 1 PA le dechreuaf rifo
 Dy drugareddau maith ?
 'Rwy'n soddi wrth fyfyrion
 Dy annherfynol waith :
 Mor hawsed rhifo'r tywod,
 Neu'r gwallt sydd ar fy mhen,
 A rhifo holl fendithion
 Tywysog mawr y nen.
- 2 Sawl gwaith gwnest fy niffygion,
 A'm heisieu fynu'n llawn ?
 Do, toraist fy amheuaeth,
 Wrth hyny'n rhyfedd iawn :
 Rhyfeddais, can rhyfeddais
 Barhâd dy ddoniau maith,
 C'wilyddiaist f'anghrediniaeth,
 Yn gyfiawn lawer gwaith.

- 3 Fy ffydd a ballodd ganwaith,
 A'm hyder ballai nghyd,
 Fy nghalon a fy ngobaith,
 A ballodd lawer pryd ;
 Ni phalla'th drugareddau,
 Na dy ragluniaeth lân,
 Ond dy ffyddlondeb rhyfedd
 A bery fyth ymlaen.

119.

Ar yr un testun.

(7, 6.)

- 1 CRAIG Israel a'i Waredydd,
 Ni thwyllaist fi erioed,
 Na gwneyd im' gywilyddio
 O'm gobaith ynot fod ;
 'Rwy'n cael mwy na'm deisyfiad,
 Bendithion llawn bob dydd,
 Fel afon annofiadwy
 Yn llifo imi sydd.
- 2 Can's cariad a ddangosaist
 Yn oll a ddaeth i'm cwrdd,
 Gwel'd d'ofal di am danaf,
 Aeth a'm rhagofal ffwrdd ;
 Dy gariad a'm harweinodd
 Trwy foroedd, llif a thon,
 O'r cyntaf awr ce's fywyd,
 Hyd at y fynydd hon.
- 3 Bob bore ddydd o newydd,
 Achosion wyf yn gael
 I ganu i'th ffyddlondeb,
 A'th drugareddau hael ;

Can's beunydd 'rwyf yn selio
 Dy addewidion rhad,
 Cyflawni'r gwirioneddau
 A roddwyd yn dy waed.

- 4 Byth d'enw gaffo'i foli,
 Byth bythoedd byddo'th glod,
 Can mil o weithiau'n lletach
 Na'r nefoedd faith ei rhod;
 Boed holl blant Adda ar unwaith,
 Mewn cydsain hyfryd lân,
 I'th enw gogoneddus
 Yn gwneyd soniarus gân.

DOSPARTH V.

YR EFENGYL A BENDITHION YR
 IACHAWDWRIAETH.

120. *Haf-ddydd yr Efengyl.* (M. C.)

- 1 AETH heibio'r gauaf chwerw du,
 Y storom oer a'r gwlaw:
 Ac fe gyfododd hyfryd haul
 Efengyl bur gerllaw.
- 2 Fe welwyd blodau ar y ddae'r,
 Grususau pur y nef;
 Oll yn arogl'n beraidd iawn
 Oddiwrth ei wisgoedd Ef.
- 3 O hyfryd dawel nefol hin!
 Mi glywa'r adar mân,
 'Nawr yn ymbyncio'n felus iawn
 Y waredigol gân.

- 4 Mae turtur yr efengyl fwyn
Yn galw bro a bryn ;
Doed torf aneirif tua'r wlad
Gyda'r awelon hyn.
- 5 Mae'r haul yn ddysglaer yn y nef,
Cyfiawnder dwyfol ddyn ;
Ac mae'n tywynu'n hyfryd iawn
Ar bob drylliedig un.

121. *Galwad i wledd yr Efengyl.* (8, 7, 6, 7.)

- 1 DEUWCH hil syrthiedig Adda,
Daeth y Jubil' fawr o hedd ;
Galwad sydd i bawb o'r enw
I fwynhau tragwyddol wledd :
Bwrdd yn llawn, yma gawn,
O foreuddydd hyd brydnawn.
- 2 De'wch y deillion, de'wch y tlodion,
De'wch y gwywedigion rai ;
Ymadewch o'r blaen ag oeddych
Yn cael pleser o'i fwynhau :
Chwi gewch win, nefol rin,
Yma i'w yfed yn ddibrin.
- 3 Ceisiwch wisgoedd y briodas,
Gwisgoedd hyfryd hardd ei lliw ;
Nid oes enw teilwng arnynt,
Ond cyfiawnder pur fy Nuw :
Lliain main, ydyw rhain,
Sydd yn cuddio pob rhyw stain.
- 4 Dyma'r wledd y cewch ddanteithion,
Yma cewch faddeuant rhad ;

Yma cewch chwi brofi'r cariad,
 Hedd yn nofio yn y gwaed :
 De'wch yn awr, dyrfa fawr,
 Ac eisteddwch yma lawr.

- 5 Yma cewch chwi wel'd y ffynnon,
 Dw'r a gwaed yn afon fawr,
 O'r archollion wnaeth y bicell,
 Ar Galfaria'n dod i lawr :
 Cewch lanhâd a iachad,
 Cewch eich beiau tan eich traed.

122. *Galwadau yr Efengyl.* (8, 7, 6, 7.)

- 1 MAE'R efengyl wen yn curo,
 Ac yn codi baner gras,
 Mewn rhyw filoedd o ardaloedd,
 Ar y mynydd, ar y maes ;
 Y mae llef, bur y nef,
 Yn cyhoeddi'i haeddiant Ef.
- 2 Y mae gwleddoedd y briodas
 Heddyw'n barod, de'wch ymlaen ;
 Y priodfab sy' mewn hiraeth
 Am ei briodas-ferch lân :
 De'wch i'r wledd, dyma hedd,
 Gwyd y meirw i'r làn o'r bedd.
- 3 O gwrandewch ar lais y delyn
 Auraidd fawr yn nhŷ ein Tad ;
 Sŵn y dawnsio sydd yn hyfryd,
 Sŵn eu tafod, sŵn eu traed :
 Gwyn ei fyd, neb o'r byd,
 Ag a welo'th wynebpryd.

123.

Ar yr un testun.

(8, 7. D.)

- 1 DEUED pechaduriaid truain
 Yn finteioedd mawr ynghyd,
 Doed ynysoedd pella'r moroedd,
 I gael gwel'd dy wynebpryd;
 Cloffion, deillion, gwywedigion,
 O bob enwau, o bob gradd,
 I Galfaria un prydnewngwaith,
 I wel'd yr Oen sydd wedi'i ladd.
- 2 Dacw'r nefoedd fawr ei hunan
 'Nawr yn dyoddef angeu loes;
 Dacw obaith yr holl ddaear,
 Heddyw'n hongian ar y groes;
 Dacw noddfa pechaduriaid,
 Dacw'r meddyg, dacw'r fan,
 Caf fi wella'r holl archollion
 Dyfnion sy' ar fy enaid gwan.
- 3 Doed y cystuddiedig truan,
 Sy' mewn ofnau bob rhyw awr,
 Ac edryched ar y croesbren,
 Pwy sy'n trengu arno'i lawr:
 Pa'm dychrynai'r euog aflan?
 Heibio aeth cymylau'r nen;
 Dyma le i gladdu pechod
 Yn y beddrod tan y pren.

124.

Ar yr un testun.

(M. B. D.)

- 1 WEL deuwch tua'r wlad,
 Y ffordd a gaed yn rhydd;
 A'r ol rhyw noswaith dywell gaeth,
 'Nawr gwawrio wnaeth y dydd:

Oddiyma i Peru,
 Mae 'fengyl Duw'n rhoi bloedd ;
 Cyhoedda i'r rhai dua'u lliw
 Drugaredd Duw ar g'oedd.

- 2 Y manna pur ar g'oedd,
 Bendithion nefoedd fry,
 Sydd yn dyhidlo fore' a nawn,
 Yn beraidd iawn i ni :
 Y diliau hyfryd hyn
 Gawn brofi yn y man,
 Afonydd gloew o felus win
 O nefol rîn i'n rhan.

125.

Cyfiawnder i'r euog.

(8, 7. D.)

- 1 MAE ynddo ef gyfiawnder,
 Doethineb mawr yn rhad,
 Deng miliwn o rinweddau
 Yn rhagor yn ei waed ;
 Mae ynddo bob rhyw angen
 Sydd ar bechadur gwan,
 Tan filoedd o ammheuon,
 I godi ei ben i'r lan.
- 2 Cyfiawnder wisg yr euog,
 Cyfiawnder ylch bob stain,
 Pe cochai fel y porphor,
 Fod fel y lliain main ;
 Cyfiawnder wna'r Ethiopiad,
 Y duaf câs ei ryw,
 Fu'n olrhain pob rhyw bechod,
 Fel eira gwyn ei liw.

- 3 Nid y's yn gofyn ammod
 I'r rhei'ny sydd i'w gael,
 Yn unig ond ei dderbyn
 O law'r Messiah hael :
 Efe sy'n rhoddi'r derbyn,
 Efe sy'n rhoddi'r llaw,
 Efe sy'n rhoddi'r cwbl
 Yn gyfan trwyddo draw.

126. *Annigonolrwydd hunan-gyfiawnder, a digonolrwydd Cyfiawnder Crist.* (8, 7. D.)

- 1 NID oes genyf ond y bratiau,
 Dail yw'm gwisgoedd goreu i gyd,
 Tân digofaint oll a'u difa,
 Llysg y sorod câs ynghyd :
 Gem a pherlau gwerthfawrocaf,
 Gwell na'r eiddo'r India draw ;
 Yw'th gyfiawnder i ymddangos
 O fy mhlaid y dydd a ddaw.
- 2 Wrth dy orsedd nâ'd im' feddwl
 Am ddim haeddiant tra b'wyf byw,
 Nac adduned na dymuniad,
 Na dyledswydd o unrhyw ;
 Iesu'n unig tan y fflangell,
 Iesu'n unig tan y groes,
 Bydded imi yn hyfrydwch
 O foreuddydd hyd y nos.
- 3 O gyfiawnder pur tragwyddol !
 O gyfiawnder maith didrai !
 Rhaid i'm henaid noeth newynllyd
 Gael yn fuan dy fwynhâu ;

Rho dy wisg ddysglaerwen oleu,
 Cuddia'm noethni hyd y llawr,
 Fel nad ofnwyf mwy ymddangos
 Byth o flaen dy orsedd fawr.

- 4 Dyma'r fan, a thyma'r cysgod,
 Dyma'r trysor gwerthfawr drud,
 Ddeil fy enaid yn y corwynt,
 Dan ei aden byddaf glud ;
 Dyma'n unig wyf yn geisio,
 Dyma geisiaf tra b'wyf byw,
 Bwyta, yfed fyth, a gwisgo,
 O gyfiawnder pur fy Nuw.

127.

Ar yr un testun.

(8, 7.)

- 1 WRTH dy orsedd 'rwyf yn cwympo,
 Annheilyngaf ddyn erioed,
 Mewn anwiredd y'm cenhedlwyd,
 Mewn anwiredd mynaf fod ;
 Darfu'm nerth, a darfu'm goleu,
 Darfu'm haeddiant yn gytun,
 Mae'm happusrwydd oll yn gorphwys
 Ar dy haeddiant di dy hun.
- 2 Gobaith f'enaid yw ei haeddiant,
 Gobaith f'enaid yw ei rym ;
 Tlawd, a llesg, a gwan, ac ynfyd,
 Ydwyf fi, heb feddu dim :
 Trwodd draw yr wyf yn edrych,
 Dros y bryniau mawrion pell,
 Ac yn dysgwyl fy ngorphwysfa
 O gyfiawnder llawer gwell.

- 3 Boed cyfiawnder maith y nefoedd,
 Yno i sefyll o fy mlaen ;
 Yn nyfnderoedd mwyaf ofnau,
 Yn nyfnderoedd dŵr a thân :
 O gyfiawnder ! aros yno
 Ar fy mron ar hyn o bryd,
 Pan b'o angeu yn gwahanu
 'Nghorff a'm henaid yn ei lid.

128.

Cyfiawnder a heddwch.

(8, 7.)

- 1 MI ge's ryddhâd i'm henaid swrth,
 Unwaith oddiwrth yr Arglwydd ;
 Yr amser o'wn i'n llesg a gwan
 Yn griddfan dan euogrwydd.
- 2 Fy undeb i â'i berson mwyn,
 Sydd imi'n dwyn dyddanwch,
 Na ddaeth i galon dyn erioed
 I feddwl fod fath heddwch.
- 3 Ei wisg ei hun, cyfiawnder hael,
 Raid imi gael ymlaenaf ;
 Nid oes ond ofnau tan fy mron,
 Nes caffwy' hon am danaf.
- 4 Pur waed ei galon ddaeth yn llif,
 Dros fy aneirif feiau ;
 A gwisgaf ei gyfiawnder rhad,
 O'm pen i'm traed yn ddiau.

129. *Cyfiawnder Crist yn rhoi hawl i'r nefoedd.* (M.H.)

- 1 TRWY'I angeu ef a'i werthfawr waed,
 Y daeth i'm henaid wir ryddhâd :

- A thrwyddo ef 'rwy'n awr yn hy,
Yn honi hawl i'r nefoedd fry.
- 2 Fy enaid mewn dyogelwch mae,
Yn awr mewn hedd yn llawenhâu,
Wrth gredu fyth ca'i yno fyw,
Yn ol fy nhaith, yn ngwydd fy Nuw.
- 3 'Rwyf yn ymdreiglo at ei draed,
Gan gwympo'n llaw trugaredd râl;
'Does gweithred dda o'r eiddof fi,
All ro'i i'm hawl i'r nefoedd fry.
- 4 Yn angeu du bydd im yn ffrynd,
Ac ato caiff fy enaid fyn'd;
Yn ei gyfiawnder coda'i mhen,
A dyma'm hawl i'r nefoedd wen.

130. *Cyfiawnder y ffydd.* (M. H.)

- 1 TRWY ffydd 'rwy'n cyfrif fy holl waith,
Fy mhoen, a'm dyledswyddau maith,
Yn golled, ac fel tom y byd;
Ar waed yr Oen 'rwy'n pwyso i gyd.
- 2 Trwy ffydd, fy ngobaith cadarn yw,
Sylfaenwyd ar gyfiawnder Duw;
Er maint yw llid a brâd y ddraig,
Ni soddaf byth tra ar fath graig.
- 3 Trwy ffydd 'rwy'n credu pardwn rhad,
'Rhyn sydd yn drysu cig a gwaed;
I feddwl fod Duw'n cyfiawnhâu
Y rhai ag sydd yn llawn o fai.

131. *Maddeuant Pechodau.* (8, 7, 4, 7.)

- 1 NI thal im' gyfadde' meiau,
Ond o flaen gorseddfainc Ne';

Duw maddeugar, Tad tosturi,
 Duw anfeidrol yw efe :
 At ei orsedd, &c.
 Deuaf dan fy nwn bla.

- 2 Ti faddeuaist fil o feiau
 I'r pechadur gwaetha'i ryw ;
 Arglwydd, maddeu etto i minnau,
 Ar faddeuant 'rwyf yn byw :
 D'unig haeddiant, &c.
 Yw ngorfoledd a fy ngrym.
- 3 Llef ddrylliedig gref y croesbren,
 Sydd yn abl faddeu bai ;
 Llef y croesbren sydd yn abl
 Ddodi'm henaid 'difarhau :
 Ar Galfaria, &c.
 Fynydd sanctaidd mae fy ngrym.
- 4 Cûdd fy meiau rhag y werin,
 Cûdd hwy rhag cyfiawnder ne' ;
 Cofia'r gwaed un waith a gollwyd
 Ar y croesbren yn fy lle :
 Yn y dyfnder, &c.
 Bodda'r cwbl sy' ynwy'n fai.

132.

Ar yr un testun.

(7, 6.)

- 1 Pwy ddyry im' falm o Gilead,
 Maddeuant pur a hedd,
 Nes gwneyd i'm hysbryd edrych
 Heb ofni ar y bedd ;
 A dianc ar wasgfeuon,
 Euogrwydd creulon cry ?
 'Does neb ond ef a hoeliwyd,
 Ar fynydd Calfari.

2 Os cuddiodd fy mhechodau
 Yn gyflawn yn ei glwy,
 Yn rhad, hyd at y mwya',
 O'r lleia o honynt hwy ;
 Er cryfed gwrthresymau
 Fy nghnawd a Satan chwith,
 Mi greda' pan maddeuodd,
 Na chofia mo'nynt byth.

3 Wel arnat pwysaf, Arglwydd,
 Tra byddwyf yma'n byw,
 Dy angeu sydd yn deilwng ;
 Ti wyt anfeidrol Dduw !
 Rho brofi rhâd faddeuant,
 A chliria fi a'th waed,
 Yngwydd yr holl angylion,
 Yn awr ger bron y Tad.

133. *Melus brofiad o faddeuant dan deimlad* (8, 7. D.)
o bechod.

1 SAITH o weithiau, ol a gwrthol,
 Torais dy orch'mynion glan,
 Saith adduned fawr a wnaethum
 I ymgadw rhag y tân ;
 Yn y dyfnder cefais gynta'
 Wel'd dy wridog wyneb gwyn,
 Oni buasai fflam euogrwydd
 'Ddaethwn byth i Sion fryn.

2 Fe wnaeth pechod, fe wnaeth uffern,
 Fe wnaeth t'wyllwch dudew'r nos,
 I'm ro'i naid trwy ddyledswyddau,
 Cael neu golli, at y groes ;

Ar fin uffern, ce's i'r nefoedd ;
 Yn safn angeu, cefais fyw,
 Yn nharanau mynydd Sina
 Gynta' de's i gwrdd â Duw.

- 3 Mellt a th'ranau, mâtg a chenllysg,
 Oedd euogrwydd imi'r pryd
 Profais fod maddeuant pechod
 Fil o weithiau'n well na'r byd :
 Gwna 'mi gofia'r oriau hyny,
 Oriau fy mhriodas y'n,
 Pan daeth Crëwr nef a daear,
 A'r pechadur gwaela'n un.

134.

Ar yr un testun.

(8, 7, D.)

- 1 Ti faddeuaist fyrdd o feiau,
 Beiau cynddeirioca'u rhyw ;
 Ac ti guddiaist rhag y werin,
 Rai fel porphor coch eu lliw :
 Cliria fy nghydwybod euog,
 Càna f'enaid yn y gwaed,
 A rho'r bai sy' yn fy maeddu,
 A fy nryllo, dan fy nhraed.
- 2 O na ildia f'enaid ronyn,
 Er ei bod yn fyr brydnawn ;
 Y mae trugareddau'r nefoedd
 Fel y moroedd mawrion llawn :
 F'allai try deheuwynt tawel,
 Cyn machludo'm haul yn lân ;
 Ac yn lle rhyw drwm och'neidio,
 Caf fi seinio'r hyfryd gân.

135.

Ar yr un testun.

(8, 7. D.)

1 P'ODD y galla'i dd'weyd sydd ynof,
 Pwy a ddeall faint fy nghri ?
 'Rwyf o'r cwbl yn amddifad,
 Os amddifad honot ti ;
 Aed fy ngweddi trwy'r cymylau,
 A'm hoch'neidiau maith diri',
 Nes im' gael maddeuant newydd,
 A chael gwel'd dy wyneb cu.

2 Ac er mwyn y gwaed a gollwyd,
 Cymysg ddŵr o'i ystlys E',
 Tyn bob cwmwl dudew tywyll
 Ag sydd rhyngwy' 'nawr a'r ne' :
 Maddeu imi feiau mawrion,
 Beiau lawer mwy na rhi ;
 Dim ond edrych ar Galfaria,
 Nid wrth edrych arnaf fi.

136.

Glanhâd a sancteiddiad.

(8, 7, 4. 7.)

1 HEDDYW'R ffynnon a agorwyd,
 Ddysglaer fel y grisial clir ;
 Y mae'n llanw ac yn llifo
 Tros wastadedd Salem dir :
 Bro a bryniau, &c.
 A gaiff brofi rhin y dŵr.

2 Dere f'enaïd gwan lluddedig,
 A ddifwynodd yn y llaid,
 Yf, a neidia mewn i'r ffynnon
 Loyw, wrth dy angenrhaid :

Ni ddifwyni, &c.
A dy feiau'r gloew ddŵr.

- 3 Y mae rhinwedd gras y nefoedd,
O dragwyddol faith barhâd ;
Nid oes darfod byth ar effaith
Perffaith haeddiant dwyfol waed :
Ac er golchi, &c.
Dysglaer fydd yr afon byth.
- 4 Minnau ddof i'r ffynnon loyw,
Darddodd allan ar y bryn,
Ac mi olcha'm henaid euog
Ganwaith yn y dyfroedd hyn :
Myrdd o feiau, &c.
Dafla'i lawr yngrym y dŵr.

137.

Ar yr un testun.

(6, 6, 4.)

- 1 IACHAWDWR dynolryw,
Tydi yn unig yw
Fy mugail da :
Mae angeu'r groes yn llawn
O bob rhinweddol ddawn,
A ffrwythau melus iawn ;
Rhai'n a'm hiachâ.
- 2 Arosaf ddydd a nos,
Byth bellach tan dy groes,
I'th wir fwynhau ;
Mi wn mai'r taliad hyn,
Wnaed ar Galfaria fryn,
A'm càna'i oll yn wyn
Oddiwrth fy mai.

138.

Ar yr un testun.

(8, 7.)

- 1 PAHAM y digalonaf mwy,
Caiff pechod glwy yn ebrwydd;
Er maint ei lid, er dued lliw,
Fy Iesu yw'm sancteiddydd.
- 2 Bedyddia fi â'r Ysbryd Glan,
Fel tân powerus nerthol;
Caiff ysbryd barn a llogfa fod
Ar bechod yn wastadol.
- 3 Teyrnasa, O Dduw, a bwrw i maes,
D'elynion câs gwrthwyneb;
Ar f'enaïd llesg rho'th ddelw'n llawn,
Nes dod i gyflawn burdeb.
- 4 O golch fi beunydd, golch fi'n lân,
Golch fi yn gyfan, Arglwydd;
Fy nwyllaw a'm calon, pen a'm traed,
Golch fi â'th waed yn ebrwydd.
- 5 Gwasgara weddill pechod câs,
Sêl fi â'th râs yn drigfan,
Berffaith a hardd, yn deml wiw,
Adeilad Duw ei hunan.

139.

*Ceryddon a chroesau yn foddion
sancteiddiad.*

(8, 7. D.)

- 1 MAE fy Nuw yn fy ngheryddu,
Ond fy ngharu y mae Ef;
Ergyd ddoe, ac ergyd heddyw,
I fy nghofio am y nef;

Nid oes awr o boen a dolur,
 Nid oes mynyd bach, nad yw
 Fel ffynnonau'n tarddu allan,
 O dragwyddol hédd fy Nuw.

2 Etto nid yw fy ergydion
 Ond ergydion ysgafn iawn,
 Ac awelon pur o gariad
 Sydd yn gymysg â hwy'n llawn :
 Cariad, heddwch pur, a cherydd,
 A gydbblethwyd mewn un wê ;
 Rhâff dair caingc yw sy'n fy nhynu,
 Maes o'r ddaear tua'r ne'.

3 Mae fy nghroesau a'm cystuddiau,
 Oll yn chwilio maes fy mai,
 Ac mewn cynghrair i ddiwreiddio
 Ei weddillion, sy'n parhâu :
 Ymladd 'rwyf â themtasiynau,
 Ond mae'n debyg iawn mai grâs,
 A phob cystudd bach o'i ochr,
 Yn y diwedd garia'r maes.

140. *Effeithiol rinwedd gwaed Crist* (8, 7, 4, 7.)
i sancteiddio.

1 MAE fy meiau fel mynyddau,
 Amlach hefyd yw eu rhi'
 Nag yw gwllith y boreu wawrddydd,
 Nag yw sér y nefoedd fry :
 Gwaed fy Arglwydd, &c.
 Sydd yn abl golchi mai.

2 Golchi du gydwybod aflan
 Lawer gwynach eira mân ;



Gwneyd y brwnt ganwaith ddifwynodd
 Yn y domen, fel y gwlan :
 Nid oes derfyn, &c.
 Ar effeithiau dwyfol waed.

- 3 Ei riddfanau ar y croesbren
 Oedd yn pwyso beiau'r byd ;
 Poenau pechod oedd ofnadwy,
 Poenau f'Arglwydd oedd fwy drud :
 'Nawr mae cariad, &c.
 Yn concwerio dwyfol lid.

141. *Sancteiddiad trwy y gair.* (M. C.)

- 1 GOLEUNI ac anfeidrol rym
 Yw hyfryd eiriau'r nen ;
 A phob silleffryn dd'wedodd E',
 Sy'n siwr o ddod i ben.
- 2 Fe barodd imi dori'r fraich,
 A thynu'r llygad de ;
 Minnau gaf allu mewn iawn bryd,
 I wneyd a barodd E'.
- 3 Mi ymddiriedaf yn ei air,
 Er cymaint yw fy mai ;
 Fe benderfynwyd dydd ac awr
 Im' gael fy llwyr ryddhau.

142. *Ar yr un testun.* (M. C.)

- 1 MAE'I eiriau fel y diliau mêl,
 A'i holl orch'mynion sy'
 I gyd yn dangos rhinwedd maith
 Sancteiddrwydd nefoedd fry.

- 2 Mae'i addewidion fel yr haul,
Yn sicr gadw'u lle ;
Ac nid â'r sillaf leia ar goll
O'i hyfryd eiriau E'.
- 3 Mi orfoledda draw o bell
Wrth feddwl am y dydd ;
Pan ddaw addewid fawr ei grym
A'm henaid caeth yn rhydd.

143.

Sancteiddiad yr Ysbryd.

(M. C.)

- 1 O TYRED Ysbryd pur o'r nen,
A thyn fy mhen yn rhydd ;
'Rwyf wedi rho'i fy hun yn gaeth
I'r g'lynion gwaetha' sydd.
- 2 Myfi fy hunan yw fy mhla,
Fy nghalon yw fy nghlwy' ;
Ac yma mae llochesau drwg
Cuddiedig fwy na mwy.
- 3 'Does a'i glanhâ ond d'allu mawr,
Dy allu di dy hun ;
Yr hwn a chwilia maes ei bai,
Ac a'i concwera'n un.
- 4 Tyr'd â'r awelon peraidd iawn
O'r bryniau graslawn draw ;
Dadleithia'm calon galed gâs,
A hyny maes o law.
- 5 O tôdd yr adamant yn llyn,
Gwna'r gareg gras yn fwyn ;

I dderbyn argraffiadau'r nef,
A'th ddelw bur i ddwyn.

144. *Ysbryd mabwysiad yn llefain Abba Dad.* (8, 7. D.)

MI a godaf tuag yno,
Hên ardaloedd tir fy ngwlad ;
Ac mi gwymnaf yn fy nghlwyfau
A fy mrynti o flaen fy Nhad :
D'wedaf wrtho, pechais, Arglwydd,
Trwy ryw ryfyg gadarn gref,
O'th flaen di yn anystyriol,
Hefyd ac yn erbyn nef.

- 2 Nid wyf deilwng, am fy nhrosedd,
Gael dy enw arnaf mwy ;
Gwna fi'n un o'th weision cyflog,
A rho arna'i henw hwy ;
Llawn o rês heb fesur arno,
Llawn o annherfynol hedd,
Gaiff y rhai cystuddiol euog
Weled yn ei dadol wedd.

145. *Ar yr un testun.* (8, 7. D.)

- 1 FY addfwynaf Dad a'm derbyn,
Er im' dreulio oll i gyd,
O bob da a rodd ef imi,
Ar bob gwagedd yn y byd :
Gwelodd fi o bell yn dyfod,
Ac fe barodd imi dd'od,
Daeth im' cwrdd, ac fe'm cusanodd,
Cariad penaf fu erioed.
- 2 Dygodd allan lo pasgedig,
Ac a'i lladdodd yn ddioed ;

Parotodd i mi ddanteithion
 Ag na cha'wd eu bath erioed ;
 Dygodd ef fy ngwisgoedd budron,
 Ac a'm gwisgodd i yn lân,
 A'r cyfiawnder dwyfol hwnw
 Na fu am dana'i 'rioed o'r blaen.

3 Rhoddodd fodrwy ar fy mysedd,
 Ac esgidiau am fy nhraed ;
 Gwnaeth fi'n hardd, o mewn oddiallan,
 Fel etifedd pena' gaed :
 Cadwodd wledd, a dawn a chanu,
 A phob rhyw bleserau 'nghyd,
 'Chafwyd er y trosedd cyntaf
 Eu cyffelyb yn y byd.

146.

Ar yr un testun.

(8, 7, 4, 7.)

- 1 Fe enynwyd ynof fflamau
 Tân mor hyfryd, tân mor gry' ;
 Nid o'r ddaear mae ei wreiddyn,
 Cariad pur y nefoedd fry :
 Rhoddodd allu, &c.
 Imi lefain Abba Dad.
- 2 Chwi angylion sydd yn edrych
 Ar ei wyneb gwridog gwyn,
 Traethwch imi p'odd dechreuodd
 Fflam mor berffaith bur a hyn :
 Nef ei hunan, &c.
 'Nynodd ynw'i helfen bur.
- 3 Fe, 'rhwn roddodd imi anadl,
 Eilwaith roddodd imi rês,

Ag a bery pan ddiango,
 'M hanadl llesg o'm ffroenau maes :
 Neb ond Iesu, &c.
 Wnaethai'r marw hên yn fyw.

147. *Ar yr un testun.* (8, 7, 4, 7.)

- 1 DYNA pa'm 'rwyf yn hiraethu
 Beunydd tua'r nefoedd frÿ,
 Am oddiyno yr anadlwyd
 Bywyd pur i'm henaid I :
 P'odd gorphwysaf, &c.
 Yno mae fy Nhad yn byw.
- 2 Anian nef a dyr trwy rwystrau,
 Anian nef a dyr trwy'r tân ;
 Ceidw'i gyrfa'r trwy'r creadur,
 At ei gwreiddyn pur ymlaen :
 Heibio i degwch, &c.
 At y tegwch pur ei hun.
- 3 Clymau natur oll a dorir,
 A'i chyfreithiau ânt yn ddim ;
 Ond fy undeb I â'r nefoedd
 Sydd yn llawer mwy ei rym :
 Digyfnewid, &c.
 Yw yn gymhwys fel fy Nuw.

148. *Ar yr un testun.* (M. H.)

- 1 DUW yw fy Nhad, iddo bo'r clod,
 Am iddo'm caru I erioed ;
 Crist yw fy nghyfaill I am pen,
 A'm gwlad gartrefol s'uwch y nen.

- 2 Fry mae fy nhrysor pur dilyth,
A'r goron gaf fi wisgo byth;
Fe sugnodd nefoedd Duw fy mryd,
Nes wy'n ddyeithr yn y byd.
- 3 Yn fynych fynych, Iesu cu,
Datguddia'th fod yn eiddo i mi;
Mewn stormydd mawr yn wastad gâd,
Im' allu llefain, Abba Dad.

149. *Heddwch tuag at Dduw, a* (8, 7, 4, 7.)
mwynhad o hono.

- 1 DOED dy heddwch bryd y delo,
Mi ddysgwyliaf ddydd a nos;
Annherfynol ydyw haeddiant,
Haeddiant pur dy angeu loes:
Dere'n fuan, &c.
Mae dy hedd yn fwy na'r byd.
- 2 Bywyd perffaith yw'th gymdeithas,
Diliau mêl yw'th heddwch drud;
Gwerthfawrocach yw dy gariad,
Na holl berlau'r India i gyd:
Gwlad o gyfoeth, &c.
Yw yn unig dy fwynhau.
- 3 O dystewch gynddeiriog donau,
Tra f'wy'n gwrando llais y nef;
Sŵn mwy hôff a sain mwy hyfryd,
Glywir yn ei eiriau Ef:
F'enaïd gwrando, &c.
Lais tangnefedd pur a hedd.

150.

Ar yr un testun.

(8, 7, D.)

- 1 PA'M 'rwy'n mofyn gwlad o heddwch,
 Lle nad oes ond gwlad o wae?
 Dysgwyl cariad a ffyddlondeb,
 Mewn ardaloedd o gasâu?
 'Mofyn bywyd mewn marwolaeth,
 'Mofyn cysur lle nad yw;
 Nid oes dim a foddia'm henaid,
 Is y nefoedd, ond fy Nuw.
- 2 Byddwch yn anffyddlon imi
 Greaduriaid, o bob llun;
 Deuwch, ewch, fel gweloch oreu,
 A gadewch fi wrth fy hun:
 Nid wy'n unig tra fo'm Harglwydd,
 Cadarn, nerthol, mawr, gerllaw;
 Fe ry'i hedd i loni'm henaid,
 Ac a'm harwain yn ei law.
- 3 Mi a af o blith y werin,
 I ryw loches wrth fy hun,
 Lle na b'o dim stŵr creadur,
 Dim ond d'Ysbryd di dy hun;
 Mi wna'm gwynfyd yn dy fynwes,
 Mi wna'm nefoedd yn dy hedd;
 Ac mi gwela imi'n bleser,
 I gael gorwedd yn y bedd.

151.

Ar yr un testun.

(M. C)

- 1 GAD imi brofi'r heddwch llawn,
 Y dŵr rhinweddol gwiw,
 Ag sydd yn tarddu'n loew ffrŵd,
 O orsedd bur fy Nuw.

- 2 Melusach nag yw'r diliau mêl,
Yw mynyd o'th fwynhâu;
Ac nid oes genyf bleser sy',
Ond hynny yn parhâu.
- 3 Mae yn ei heddwch bethau mwy
Nag fedd y byd yn un;
A phrawf o'i gariad ydyw'r fraint
Oruchaf gafodd dyn.
- 4 Fy nymuniadau maith eu rhif,
Pe cawn hwy oll yn un,
Ydyw meddiannu'i nefol hedd,
Anfeidrol ddwyfol rin.
- 5 Pe c'nygid im' fynyddau'r byd,
A'r rhai'n yn arian pur,
Mi a'u gwrthodwn hwynt yn lân
Am ddwyfol heddwch gwir.

152.

Ar yr un testun.

(8, 8, 8.)

- 1 'DOES unrhyw bleser yn y byd
Trafferthus, ag all lanw'm bryd,
Dim ond cael edrych ar dy wedd!
Fy nymuniadau oll yn un,
Sy a'u terfyn ynot ti dy hun,
Fy holl ddigrifwch a fy hedd.
- 2 O rhwyga'r cwmwl dudew sy'
Yn cuddio gwedd dy wyneb cu,
Yr hwn yn llanw'r nefoedd sydd:
Y mae pelydrau'th ddwyfol hedd
Yn g'leuo conglau t'wlla'r bedd,
Ac yn troi'r nos yn berffaith ddydd.

- 3 Ar unwaith 'rwy'n ymado'n lân
 A'r holl greadigaeth fawr a mân,
 Ac nid wy'n 'mofyn yn ei lle,
 Ond cael fy Arglwydd dy fwynhâu,
 Mewn llawnder, neu mewn eitha trai,
 Rwy'n drech na'r cwbl tan y ne'.

153.

Ar yr un testun.

(M. B. D.)

- 1 MEWN anial dyrus le,
 Heb neb cwmpeini dyn,
 Y gallwn, ond cael cwmni Duw,
 Yn dawel fyw fy hun :
 Fe leinw oll yn lân,
 Tu mewn, ac o tu maes,
 Nid yw creadur er ei rym,
 Yn helpu dim o'i râs.
- 2 Mae tywyll anial nos,
 Peryglon o bob rhyw,
 Holl ofnau'r bedd, pob meddwl gwan,
 Yn ffoi o'r fan bo'm Duw :
 Ond tegwch dwyfol clir,
 A chariad pur a hedd,
 Gaiff fod yn wleddoedd pur didrai,
 I'r rhai sy'n gwel'd ei wedd.
- 3 Y fan b'ost ti, fy Nuw,
 Anfarwol fywyd sy'
 Yn tarddu, megis dw'r o'r graig,
 I'r lan i'r nefoedd fry :
 Rhyw wawr ddysglaerwen sydd,
 Yn t'wnu o hono Ef,
 Yn arwain trwy bob ffôs a phant,
 Holl ffyddlon blant y nef.

154.

Ar yr un testun.

(M. H.)

- 1 RHO imi wel'd mai ti yw'm hedd,
A'm llwyr ddyfyru ar dy wedd;
A chym'ryd gair dy enau i gyd,
Yn unig bleser yn y byd.
- 2 Pan gallwyf dd'weyd, Ti yw fy rhan,
Pan teimlwy'th hedd yn f'enaid gwan;
Pryd hyn rwy'n dringad uwch y byd,
Gan sathru ei bleserau i gyd.
- 3 O Arglwydd, hyfryd yw dy hedd,
Melus ddanteithion sy'n dy wledd;
Erioed ni cha'dd angylion flâs
O gariad pur maddeuol râs.

155.

Ar yr un testun.

(M. H. D.)

- 1 I BLE'R â'i 'mofyn heddwch drud?
At ba greadur yn y byd?
Pwy laesa 'mhoen, pwy dyn fy maich?
Nid marwol ddynol gnawdol fraich!
Neb ond tydi fu ar y pren,
Yn dyodde' rhwng y ddae'r a'r nen;
Mil mwy na'r byd yw dafnau'th waed,
I ro'i i'm hysbryd esmwythâd.
- 2 Fe bwysa gwaed y groes fy mai,
Er cy'd o amser mae'n parhâu,
Er cynddeirioced yw ei ryw,
Ac er mor ddued yw ei liw:
Duw ydwyd ti, mae mynyd awr,
O'th wasgu dan y groes i lawr,
Yn fwy ei bris, ceir gwel'd ryw bryd,
Na holl bechodau câs y byd.

- 3 Mi wn mai meiau duon drud,
 Yw'r achos o'm cystuddiau'i gyd ;
 Symud fy mai, fe gwymp y ffon
 O'th sanctaidd law, y fynyd hon :
 'Does yn dy galon ond lleshâd,
 Maddeuant, hedd, a gwir iachâd ;
 Cymer dy ffordd, ynot yr wyf
 Yn credu'n awr, iacheir fy nghlwyf.

156.

Ar yr un testun.

(M. H.)

- 1 PROFAIS dy hedd, y mae heb gél
 Yn well ei flâs na'r diliau mêl ;
 O llifed i mi 'nawr yn rhad,
 Fel dŵr y dehau dros y wlad.
- 2 Dof at dy borth, a thyna'r fan
 Y safaf, nes fy nwyn i'r làn ;
 Ateb yn glau, neu coda'm llef
 Nes seinio holl drigfannau'r nef.
- 3 Newynog wyf, a hedd fy Nuw
 Wna imi dd'wedyd, " Digon yw ;"
 Wel dyma'r dŵr, a gwynfyd hwy
 A'i hyfo, ni sychedant mwy.

157. *Rhyddid i fyned at Orseddfaingc y grâs.* (M. C.)

- 1 MAE'R orsedd fawr yn awr yn rhydd,
 Gwrandewir llais y gwan ;
 Wel cyfod bellach, f'enaidd prudd,
 Anadla tua'r làn.
- 2 Wel anfon eirchion aml ri',
 I mewn i byrth y nef ;
 Gwrandewir pob amddifad gri,
 Yn union ganddo Ef.

- 3 Myfi anturia 'nawr ymlaen,
 Heb alwad is y ne',
 Ond bod perffeithrwydd mawr y groes
 Yn ateb yn fy lle.

158.

Ar yr un testun.

(M. C.)

- 1 Ni fethodd gweddi daer erioed,
 A chyrhaedd hyd y nef;
 Ac mewn cyfyngder, f'enaid rhed,
 Yn union ato Ef.
- 2 Anturiaf at ei orsedd fwyn,
 Tan eitha tywyll nos;
 Ac mi orphwysaf, doed a ddel,
 Ar haeddiant gwaed y groes.
- 3 Mi waeddaf yn y storom fawr,
 Dan dônau fwy na rhi';
 Ac fe esgyna'm drylliog lef,
 I entrych nefoedd fry.
- 4 Fe ffy'r tywyllwch wrth fy nghri,
 Ynghyfyngderau'r nos;
 Can's nid â'n ofer gais fy Nuw
 A waedodd ar y groes.

159.

Ar yr un testun.

(M. H.)

- 1 Fy haeddiant mawr ynghanol ne',
 Yw Iesu'n feichiau yn fy lle;
 A'i angeu Ef yn unig sydd,
 Yn gwneyd yr orsedd wen yn rhydd.
- 2 Gwn mai rhinweddol yw dy waed,
 I ddadleu'm hawl ger bron y Tad,
 A chlirio'm ffordd at orsedd grâs,
 A maddeu'n llwyr fy meiau cás.

- 3 Anturia 'nghalon euog ddu
 At orsedd grâs yn awr yn hy':
 Mae'r fainge yn rhydd, a'r rhodd yn rhâd,
 I'r sawl a gredo yn y gwaed.

160. *Ar yr un testun.* (8, 7, D.)

- 1 TORI wnes fy addunedau
 Gant o weithiau maith eu rhi';
 Ac mae'n rhaid rhyw râs anfeidrol
 Gadw euog fel myfi:
 Wrth yr orsedd 'rwyf yn cwympto,
 Ac nid oes o tan y nef,
 Fan y caf fi feddyginiaeth,
 Ond o flaen ei orsedd Ef.
- 2 Atat, Arglwydd, dyrcha f'enaïd,
 Rho f'ochneidiau ger dy fron;
 Unrhyw ateb i'm griddfanau
 Dyfnion, 'fedd y ddaear hon:
 Mae fy nghalon yn ehedeg,
 Mae fy nymuniadau'n llu,
 Yn dihengu uwch troiadau
 Haul, a sêr y nefoedd fry.

161. *Ar yr un testun.* (8, 7, 4, 7.)

- 1 ARGLWYDD, rhedaf at dy orsedd,
 Dyna'r fan fy enaid ca'dd
 Iechyd, pan yr oedd gelynion,
 Duon adgas bron fy lladd:
 Nid oes noddfa, &c.
 Is y nefoedd ond dy hun.
- 2 Wrth dy orsedd di mae bywyd,
 Yno caf fi hedd a grym;

Ac ni fethodd îs y nefoedd,
 Ag a geisiodd genyt ddim :
 Minnau aflan, &c.
 Ddeuaf at orseddfa hédd.

3 Iachawdwriaeth râd ei hunan,
 Yw fy nadl o flaen y nef ;
 A ffarwel am danaf fythol,
 Oni châf ei haeddiant Ef :
 Iesu ei hunan, &c.
 Oll o flaen y faingc i mi.

4 Ni ro'i ngafael arno i fynu,
 Doed ellyllon fyrdd ymlaen ;
 A bygythient i fy suddo
 Lawr yn nyfnder uffern dân :
 Wrth ei orsedd, &c.
 Mi ymaflaf am ei draed.

162. *Iachawdwriaeth gyflawn yn Nghrist.* (M. H.)

- 1 MAE rhyw ddirgelwch llawer mwy,
 Oes, Iesu, yn dy farwol glwy,
 Nag y gall sant tra ynddo chwyth,
 Na seraph pur ei ddeall byth.
- 2 Ni cheisiaf loches ond dy glwy,
 Tan donau mawrion fwy na mwy ;
 Mae'th waed yn nyfnder culni a gwae,
 Yn abl fy rho'i i lawenhau.
- 3 Y mae happusrwydd pawb o'r byd,
 Yn gorphwys ar dy angeu drud ;
 Hyfrydaf waith angylion fry,
 Yw canu am haeddiant Calfari.

- 4 Wel dyma'r trysor mwya' drud,
Gwaed Iesu'n llifo dros y byd ;
Fyth na foed ond ei farwol glwy,
Yn sylwedd pob caniadau mwy.

163.

Ar yr un testun.

(8, 7.)

- 1 O'i ystlys bur yn cwympto i lawr,
Yn afon fawr lifeiriol ;
Hedd a maddeuant sy'n ddidrai,
Ac i barhau'n dragwyddol.
- 2 Rhaid imi gael pob gras pob dawn,
O'th drysor llawn yn gyfan ;
Ac oni châf, fy enaid prudd
A gyll y dydd yn fuan.
- 3 O fy Iachawdwr gwerthfawr rhâd !
Nid oes ond gwaed dy galon,
A ddichon wella f'enaid briw,
Oddiwrth bob rhyw archollion.

164.

Ar yr un testun.

(8, 7, 6, 7.)

- 1 MAE grasusau pen Calfaria,
Mae rhinweddau marwol glwy,
Uwch eu prisio, uwch eu deall,
Gan angylion honynt hwy :
Bywyd byd, sy' yma i gyd,
Wedi gasglu'n gryno nghyd.
- 2 Y mae pyrth tragwyddol fywyd,
Heddyw'n agor led y pen ;
Ac mae'r ffordd yn llawn agored,
Maes o'r byd i'r nefoedd wen :
Cariad rhad, rhoddodd waed
Calon ddwyfol, er iachâd.

- 3 Minnau bellach orfoleddaf,
 Mae fy mywyd gwerthfawr iawn,
 Wedi ei roddi 'nghudd i gadw
 Mewn cyfryngwr perffaith llawn:
 Abal yw, mae E'n Dduw,
 Ceidw f'enaid bâch yn fyw.

165. *Digonedd yn Nghrist.* (8, 7. D.)

- 1 IESU, yn unig yw fy mywyd,
 Mwy nag oll yw ef ei hun;
 Nid oes angel iddo'n debyg,
 Nid oes seraph, nid oes dyn;
 Pleser, cariad, a llawenydd,
 Rodiant ar ei ddeheulaw,
 Nac i'w wydd, na phoen na gofid,
 Nac euogrwydd, byth ni ddaw.
- 2 Yn dy haeddiant 'rwyf yn gyfiawn,
 Yn d'oleuni gwelai'n glir;
 Yn dy wisgoedd dwyfol dysglaer
 Bydda'i'n ogoneddus bur;
 Yn dy iachawdwriaeth gyflawn,
 Er mor eiddil wyf yn awr,
 Ceir fy ngweled ryw ddiwrnod
 Yn dysgleirio fel y wawr.

166. *Ar yr un testun.* (8, 7, 4, 7.)

- 1 IESU, Iesu, 'rwyf ti'n ddigon,
 'Rwyf ti'n llawer mwy na'r byd;
 Mwy trysorau sy'n dy enw
 Na thrysorau'r India i gyd:
 Oll yn gyfan, &c.
 Ddaeth i'm meddiant gyda'm Du

- 2 Tarian gadarn yw dy enw,
 Pan bo'r gelyn yn nesâu ;
 Angeu'i hunan sydd yn ofni,
 Angeu sydd yn llwfrhau :
 Ti goncweraist, &c.
 'Does ond canu imi'n awr.
- 3 Nis gall f'enaïd er ei gyrhaedd,
 Fyth i geisio cyrhaedd mwy,
 Nag sydd wedi roi i gadw,
 Yn y dwyfol farwol glwy' :
 Cariad, cariad, &c.
 Nad oes gwaelod iddo'n bod.

 DOSPARTH VI.

 ORDINHADAU YR EFENGYL.

167. *Bwrdd yr Arglwydd.* (M. H.)

- 1 RHYFEDDOL yw effeithiol rin,
 Y moddion drefnaist ti dy hun ;
 Dy gnawd yw bara'r bywyd gwir,
 O'th glwyfau tardd y ddiod bur.
- 2 Mae syched ynof, Arglwydd mawr,
 Am brofi'r gloyw win i lawr ;
 Ac imi gael chwanegu nghrym,
 Trwy fod dy gnawd yn ymborth im'.
- 3 Y dyfroedd gloëw, pur, didrai,
 Gad imi'r awrhon eu mwynhau ;
 Dwg fi o dwrf daearol fyd
 I wleda ar dy fwrdd o hyd.

168.

Bwrdd yr Arglwydd.

(M. H.)

- 1 Ai dyma'r arwydd roi'st i mi
O angeu poenfawr Calfari?
A all 'relfenau hyn yn un,
I'm tywys atat ti dy hun?
- 2 Ai bara a fynega'th loes,
A'th glwyfau mawrion ar y groes?
A draetha'r gwinwydd dileshâd,
Anfeidrol haeddiant pur dy waed?
- 3 Na wna, fy Nuw, O tyr'd yn awr,
A danfon d'Ysbryd pur i lawr;
Dy Ysbryd di gymhwysa'r gwaed,
Gymhwysa'r iachawdwriaeth rad.

169.

Ar yr un testun.

(M. H.)

- 1 DY fwrdd sydd yn gyfoethog iawn,
O bob danteithion breision llawn;
Ac nid oes ond dy wleddoedd drud,
Rydd fywyd i golledig fyd.
- 2 Cariad yn ddwfyn fel y bedd,
Sydd yn mhob rhan o'th nefol wledd;
A beth yw'r gloëw win didrai,
Ond cariad hyfryd i barhau?
- 3 O tyr'd dy hunan, dere i'r wledd,
Digon i ni yw gwel'd dy wedd;
Ac ar dy fwrdd mae'n ofid blin,
I aros, hebot ti dy hun.

170.

Ar yr un testun.

(M. H.)

- 1 O ANWYL Iesu tyr'd i'n cwrdd,
A gwel drueiniaid wrth dy fwrdd;

I gyd yn ffol, heb feddu o'r un
Un dim i'w ddadlu drosto'i hun.

- 2 Nid yn y bara hwn na'r gwin,
Ond yn dy gnawd a'th waed mae'r rhin ;
Gad ini deimlo d'angeu drud,
Yn ein dyrchafu i'r lan o'r byd.
- 3 Ti roi'st i lawr dy fywyd drud,
I brynu im' dragwyddol fyd ;
Myn'd dan fath boen, fath dristwch chwith,
I minnau fod yn llawen byth.

171. *Ar yr un testun.* (8, 7.)

- 1 WEL dyma wledd, gwledd ein Duw Ion,
- O basgedigion breision ;
A gwin puredig yn ddidrai,
I lawenhau y cleifion.
- 2 Yfwn yn ëon îs y nen,
Ffrwyth y winwydden obry ;
Ar fyrder ni gawn brofi blas,
O fewn i deyrnas Iesu.
- 3 Os clâf, os gwan, os tlawd o hedd,
O de'wch i'r wledd yn fuan ;
De'wch a'ch achwynion o bob rhyw,
Fe'u hetyb Duw eu hunan.

172. *Ar yr un testun.* (8, 7.)

- 1 YMA cewch wel'd eich Harglwydd mawr
Yn rhoddi lawr yn hollol,
Ei hun i angeu, angeu'r groes,
Yn ddiddig dros ei bobol.
- 2 Cawn fwyta'i gnawd, (wel dyma rad,)
Ac yfed gwaed yr Iesu ;

Po'dd gall ein c'lonau ni bob rhai,
'N dragywydd lai na'i garu.

- 3 Mi gofia eiriau'm Harglwydd hael,
Yr hwyr cyn cael ei hoelio ;
I fwyta'i swper minnau ddof
Yn mlaen, er côf am dano.

173.

Bwrdd yr Arglwydd.

(8, 7, D.)

- 1 FE ro'ed arno bwys euogrwydd,
Pwys nas gallai'i ddal mo ddyn ;
Cosp pechodau myrdd o ddynion,
Heb un pechod ynddo'i hun :
Do, fe'i gwasgwyd â chystuddiau,
Ffrwyth fy meiau fawr a mân,
Fel cawn innau wael bechadur,
Aflan, euog, fod yn lân.
- 2 Iesu ei hunan yw fy mywyd,
Iesu yn ei farwol loes ;
Y trysorau mwya' feddaf
Yw ei angeu ar y groes :
Gwagder annherfynol ydyw,
Meddu daear, da, a dyn ;
Colled ennill pob peth arall,
Os na 'nillir di dy un.
- 3 Os am bechod y'th w'radwyddwyd,
Ac y gwanwyd gwaewffon,
Nes gwneyd archoll nad anghofir
Tra fo'r nefoedd, tan dy fron ;
Gâd imi gael ffrwyth dy glwyfau,
Gâd imi gael rhin dy waed,
Maddeu 'mhechod, gwel'd dy wyneb
Di, fy Mhrynwr a fy Nhad.

174.

Ar yr un testun.

(8, 7, D.)

- 1 MI ddof at ei fwrdd yn ëon,
 Mi ge's ganddo ngwa'dd ei hun ;
 Y mae yno basgedigion,
 Y mae yno loëw win : •
 Y mae yno gwmni hyfryd,
 Gwisgoedd gwynion i bob rhai ;
 Nid oes un heb wisg briodas,
 Nid oes un yn berchen bai.
- 2 Mi gâf yno yfed cariad,
 Ffrwyth gwinwydden nef y nef,
 Yr un cariad nefol hyfryd,
 Ag oedd yn ei gwpan Ef :
 Cariad a wna fyrdd myrddiynau,
 Mewn rhyw gwllwm cryf yn un,
 Ac â 'mlaen i dragwyddoldeb
 Yn ei Ysbryd ef ei hun.

175.

Ar yr un testun.

(8, 7, 4, 7.)

- 1 ARNAT, Iesu, boed fy meddwl,
 Am dy gariad boed fy nghân ;
 Dyged sŵn dy ddyoddefiadau
 Fy serchiadau oll yn lân :
 Mae dy gariad, &c.
 Uwch y clywodd neb erioed.
- 2 O na chawn ddyfyru nyddiau
 Llwythog, dan dy werthfawr groes,
 A phob meddwl wedi glymu
 Wrth dy Berson ddydd a nos :
 Tan dy gysgod, &c.
 Mewn tangnefedd pur a hedd.

3 Ffordd nid oes o waredigaeth
 Ond agorwyd ar y pren ;
 Llwybr pechaduriaid euog
 Mewn i byrth y nefoedd wen :
 Dyma'r brif-ffordd, &c.
 Gwna i mi rhodio tra fwy' byw.

 DOSPARTH VII.

 LLEDANIAD A LLWYDDIANT YR EFENGYL.

176. “*Y gauaf a aeth heibio.* (M. 7, 4.)

Y NOSWEITHIAU hirion sy' bron myn'd heibio,
 A'r cymylau tywyll du sydd yn cilio :
 Fe ddaw'r hâf â'r egin gwan i lawn fywyd,
 A hwy ddygant yn y man ffrwythau hyfryd.
 Dyddiau hyfryd dwyfol râs ddaeth o'r diwedd,
 Ac fe dyr effeithiau i maes, nefol rhyfedd ;
 Fe ddaw gwinllan f'Arglwydd mawr i oresgyn
 Anial fanau pella'r llawr, heb un terfyn.
 Pan agorwyd teml Duw, daeth i'r golwg
 Arch ei ammod newydd wiw, yn bur amlwg ;
 Yr efengyl hyfryd lân i goncwerio,
 Ac i gario oll o'i blaen ffordd y cerddo.

177. “*Pregethwch yr efengyl i bob creadur.*” (M. 7, 4.)

Y MAE'R dyddiau'n d'od i ben, dyddiau hyfryd,
 Y dyrchefir Brenin nen tros yr hollfyd ;
 Fe â dwyfol angeu drud pen Calfaria,
 Trwy ardaloedd pella'r byd ; Haleluia.

Fe bregethir Iesu a'i râs, mewn awdurdod,
 Yn yr India eang frâs, yn ddiddarfod ;
 Fe â sŵn yr udgorn clîr, hyd yr eitha',
 I'r gorllewin anial dir ; Haleluia.

Wel, o'r diwedd daeth y dydd pan caiff caethion,
 Draed a dwylaw oll yn rhydd oedd mewn cyffion ;
 Dyma Jubil nefol wiw pen Calfaria,
 Minnau ganaf tra f'wyf byw, Haleluia.

178. "*Gwregysa dy gleddyf, O Gadarn!*" (8, 7, D.)

1 MARCHOG, Iesu, yn llwyddiannus,
 Gwisg dy gleddyf ar dy glun ;
 Ni all daear dy wrthsefyll,
 Chwaith nag uffern fawr ei hun :
 Mae dy enw mor ardderchog,
 Pob rhyw elyn gilia draw ;
 Mae rhyw arswyd trwy'r greadigaeth
 Pan y byddi di gerllaw.

2 Tyn fy enaid o'i gaethiwed,
 Gwawried bellach fore ddydd ;
 Rhwyga'n chwilfriw ddorau Babel,
 Tyn y barau hey'rn yn rhydd :
 Gwthied caethion yn finteioedd
 Allan, megis tônau llif ;
 Torf, a thorf, tân orfoleddu,
 Heb na diwedd fyth na rhif.

179. "*Rhyddid i'r caethion,*" (8, 7, D.)

1 MI debygaf clywaf heddyw
 Sŵn caniadau, draw o bell,
 Torf yn moli am waredigaeth,
 Ac am ryddid llawer gwell ;

Gynau gwynion yw eu gwisgoedd,
 Palmwynd hyfryd yn eu llaw,
 Ac hwy ânt gyda gogoniant
 Mewn i'r bywyd maes o law.

- 2 Minnau bellach orfoleddaf
 Fod y Jubil fawr yn d'od,
 A chyflawnir pob silleffyn,
 A lefarodd Iesu erioed :
 Dê, a gogledd, yn fyrddiynau
 Ddaw o eithaf tywyll fyd,
 Gyda dawn ac udgyrn arian,
 Mewn i Salem bur ynghyd.

180. *"Deued dy deyrnas."* (8, 7, 4, 7.)

- 1 DUW, teyrnasa ar y ddaear,
 O'r gorllewin bell i'r dê',
 Cymer feddiant o'r ardaloedd
 Pellaf, t'wllaf, is y ne' :
 Haul Cyfiawnder, &c.
 Llanw'r ddaear fawr â'th râs.
- 2 Deued India fawr gyfoethog,
 Heddyw tan dywyllwch sydd,
 I gael gwel'd efengyl hyfryd,
 Yn dwyn trosodd oleu'r dydd :
 Nes b'o heddwch, &c.
 Yn teyrnasu o fôr i fôr.

181. *Ar yr un testun.* (8, 7, 4, 7.)

- 1 TAENED gweinidogion bywyd
 Iechydwriaeth Iesu ar led ;

Cluded moroedd addewidion
 Drosodd draw i'r rhai digred :
 Aed efengyl, &c.
 Ar adenydd dwyfol wynt.

2 Doed preswylwyr yr anialwch,
 Doed trigolion bro a bryn ;
 Doed y rhai sydd ar y cefnfôr,
 I garu'r iachawdwriaeth hyn :
 Nes b'o adsain, &c.
 Moliant yn amgylchu'r byd.

3 Pur ganiadau i Frenin Sion,
 Fyddo yn llawenydd mawr ;
 Draw o'r dwyrain lle mae'n codi,
 I fachludiad haul brydnawn :
 Fyth na sonier, &c.
 Ond am degwch Brenin Nef.

182.

Ar yr un testun.

(M. H.)

1 DAW amser braf, can's gwawrio o'r bron
 Mae hafddydd yr efengyl hon ;
 I'r 'nysoedd pell, daw'r trysor drud,
 A'i sŵn â hyd eithafoedd byd.

2 Gwybodaeth Iesu sydd yn stôr,
 Fel dyfroedd mawr yn llanw'r môr ;
 Daw'r dé a'r gogledd at yr Iôn,
 Holl bwrcas gwaed yr addfwyn Oen.

3 Llana fel hydd tros fryniau pell,
 Cyflawna'r addewidion gwell ;
 O galw'r etholedig had,
 I brofi rhagorfreintiau'th waed.

183. *Dymuno ffyniant y groes.* (8, 7, 6, 6.)

- 1 TYRED Iesu i'r ardaloedd,
Lle teyrnasa tywyll nos ;
N'âd fod rhan o'r byd heb wybod
Am dy chwerw angeu loes :
Pa'm bydd poen, addfwyn Oen,
Am dano'n eitha'r byd heb sôn.
- 2 Aed i'r dwyrain a'r gorllewin,
Aed i eitha'r India draw,
Fod yr hoeliau dur cadarnaf,
Yn ei draed ac yn ei law :
Doed ynghyd, eitha'r byd,
I gael gwel'd dy wyneb pryd.
- 3 O darfydded Canaaneaïd
Mwy i drigo yn y wlad ;
Na ddoed sillaf bach o enau
Neb, ond am rinweddau'r gwaed :
Deued llu, heb ddim rhi',
Fyth i ganu am Galfari.

184. *Ar yr un testun.* (M. H.)

- 1 PAN clywo'r Indiaïd draw am loes
Creawdwr nefoedd ar y groes ;
Rhinweddau hyfryd marwol glwy,
Fydd sylwedd eu caniadau hwy.
- 2 O na foed ardal cyn b'o hir,
O'r dwyrain draw i'r dehau dir,
Na byddo'r iachawdwriaeth ddrud,
Yn llanw cyrau rhai'n i gyd.

- 3 Dewch, addewidion, dewch yn awr,
Dyhidlwch eich trysorau lawr ;
Myrddiynau ar fyrddiynau sydd,
Yn dysgwyl am eich bore ddydd.

185. *Buddugoliaeth efengyl.* (6, 6, 8, 8.)

- 1 MAE'R faner fawr ymlaen,
Ei efengyl ef yw hon ;
Mae uffern lawn o dân,
Yn crynu 'nawr o'r bron :
Hi gwymp, hi gwymp, er maint ei grym,
O flaen fy Iesu 'dyw hi ddim.
- 2 O ffynnon lawn o hedd !
O anchwiliadwy fôr !
Sy'n cynnwys ynddo'i hun,
Ryw annherfynol stôr :
Ti bia'r clod, wel cymer ef,
Trwy'r ddaear, uffern fawr, a'r nef.
- 3 Ymgrymed pawb i lawr
I enw'r addfwyn Oen ;
Yr enw mwya' mawr
Erioed a glywid sôn :
Y clod, y mawl, y parch â'r bri,
F'o byth i enw'n Harglwydd ni.

186. *Ar yr un testun.* (M. 7au.)

- 1 'DOES gyffelyb iddo Ef
Ar y ddaear, yn y nef ;
Trech ei allu, trech ei rês,
Na dyfnderau calon gâs ;
A'i ffyddlondeb sydd yn fwy
Nac angeuol ddamniol glwy'.

- 2 Caned cenedlaethau'r byd
 Am ei enw mawr ynghyd ;
 Aed i gyrau pella'r ne',
 India'r dwyrain, India'r dê ;
 Bloeddied moroedd gyda'r tir,
 Ddyfnder iachawdwriaeth bur.
- 3 Na foed undyn is y rhod
 Heb ddadseinio maes ei glod ;
 Na foed neb is awyr lās,
 Heb gael prawf o'th nefol rās :
 Doed y ddaear fawr yn gron,
 Yfent ddw'r y ffynnon hon.

187.

Eglurder y groes.

(8, 8, 8.)

- 1 WEL, f'enaïd cerdd ymlaen yn hy',
 Yn union tua Sion fry,
 A chadw'th lygad ar y nôd ;
 Calfaria fryn lle gweli'r groes,
 A'i haberth arni tan ei loes,
 Rhyfeddod mwya'r nef erioed.
- 2 Mae'r bryn yn uchel, uchel iawn,
 A'r aberth drud yn eglur iawn,
 Fel gallo'r dwyrain bell a'r dê,
 Y dynion lle mae'n dywyll nos,
 Er t'wllled, edrych tua'r groes,
 A gweled ei drywanu E'.
- 3 Fe all yr Indiaid pella gaed,
 I wel'd yr hoelion yn ei draed,
 A gwel'd ei ben yn crymu lawr ;
 Fe ylch y pelledigion hyn
 Yn ganaid, fel yr eira gwyn,
 Oddiwrth eu beiau fâch a mawr.

188. *Dwyfol effeithiau yr efengyl.* (M. 11au.)

FE welir rhyw ddyddiau, fy Arglwydd a'i gwyr,
Pan tarddo goleuni ynghysgod yr hwyr;
Pan ddelo'r gorllewin, y gogledd, â'r dê,
I brofi cawodydd hyfrydaf y ne'.

Fe basia'r gwlawogydd, a'r oerfel ynghyd,
Daw adar i ganu trwy gonglau'r holl fyd;
Gwinllawoedd a'r bryniau a firwythant ryw stôr,
A blodau a darddant o fynydd i fôr.

Fe gwymp yr addewid ar ddinas a gwlad,
Addewid raslonaf, addewid y Tad;
Tywelltir yr Ysbryd fel moroedd didrai,
Ar lwythau hen Jacob yn fwya ac yn llai.

Y meibion a'r merched blith draphlith ynghyd,
Brophwydant, ganmolant Iachawdwr y byd;
Henafgwyr freuddwydiant freuddwydion o hedd,
Prin gallant eu credu er profi'r fath wledd.

O ddyddiau dedwyddaf, wel brysiwch ymlaen,
Mae'r arfaeth yn galw, mae pechod ar dân;
Mae pob peth yn addfed, mae gweddi mewn grym,
O tyred ddeheuwynt, yn atal 'does dim.

189. *Ar yr un testun.* (M. 2, 8.)

1 Ei glod,
Sydd heb un terfyn iddo'n bod,
O aed ymlaen fwy nag erioed,
O gwmpas rhôd y ddaear fawr;
Nes elo sŵn efengyl bur,
I dori'n glir fyrddiynau lawr.

- 2 Mae, mae,
 Rhyw hiraeth yncf yn parhau,
 Am wel'd yr amser hyny'n glau,
 Y pryd y mae fy Arglwydd mād,
 I dderbyn ei ogoniant mawr,
 Gan nef a llawr am golli'i waed.
- 3 Yn awr,
 Addfwynaf Iesu, tyr'd i lawr,
 Helaetha dy frenhiniaeth fawr,
 C'od ddedwydd wawr iachusol ddydd,
 Rho'r carcharcrion fyn'd i maes
 O'r pydew cas, heb ddwfr sydd.

 DOSPARTH VIII.

 GEIRIAU AC ADDEWIDION YR EFENGYL.

190. *Sicrwydd geiriau Duw.* (8, 7, D.)

- 1 DYN nid wyt i edifaru
 'R gair a dd'wedaist ddaw i ben ;
 Seliwyd d'arfaeth, seliwyd d'eiriau,
 Pan fu'st farw ar y pren :
 Nid oes sillaf o'th fygythion,
 Nid oes sillaf bach o'th rās,
 Pan y delo'r dydd i fynu,
 Nas caiff hwnw ei wneyd i maes.
- 2 Ar dy air yn mhob tymhestloedd
 Y gorphwysa f'hun i lawr ;
 Ac mi greda bod dy eiriau
 Lawer trech na'r storom fawr ;

'Runig sylfaen 'nawr sy genyf,
 Bwyso ar d'addewid ddrud,
 Yw, bod ynot ti gyflawnder,
 A mod innau'n eisieu i gyd.

- 3 O gâd imi brofi a welaf,
 'Rwyf yn gwel'd rhyw wledydd draw,
 Ag dymunwn fil o weithiau
 Brofi'u ffrwythau maes o law :
 Grym dy eiriau wyf am deimlo,
 Mae dy eiriau'n drech na'r byd,
 Cleddyf tanllyd o dy enau
 Goncra uffern faith i gyd.

191.

Ar yr un testun.

(6, 6, 4.)

- 1 CRYFACH addewid Duw
 Na'r pechod gwaetha'i ryw,
 Ni saif e ddim ;
 'Dyw natur gadarn gref
 Ond dim i dân y nef ;
 Mae gair ei enau Ef
 Yn fwy ei rym.
- 2 Fy meiau fân a mawr,
 Sydd raid eu cael i lawr,
 Cyn byddo hir ;
 Fe fyn cyfreithiau'r ne'
 I dynu'r llygad dê,
 A thori'r fraich o'i lle,
 Ei air sydd wir.
- 3 'Does rhwys'r is y ne',
 Ag all ei atal E'
 Wneyd fo'n ei fryd ;

Rhy wan yw uffern gryw
 A'u dichell o bob rhyw,
 I wrthladd gair fy Nuw,
 Pe baent ynghyd.

192. *Rhin a melusder geiriau Crist.* (8, 7, D.)

- 1 O LLEFARA, addfwyn Iesu,
 Mae dy eiriau fel y gwin ;
 Oll i mewn yn dwyn dangnefedd,
 Ag sydd o anfeidrol rîn :
 Mae holl leisiau'r greadigaeth,
 Holl ddeniadau cnawd a byd,
 Wrth dy lais hyfrydaf tawel,
 Yn dystewi a myn'd yn fud.
- 2 Nis gall holl hyfrydwch natur,
 A'i melusder pena'i maes,
 Fyth gymharu â lleferydd
 Hyfryd, pur, maddeuol rês :
 Gâd imi glywed sŵn dy eiriau,
 Awdurdodol eiriau'r nef,
 Oddi mewn yn creu hyfrydwch,
 Nad oes mo'i gyffelyb ef.

193. *Ar yr un testun.* (8, 7, D.)

- 1 D'WED y gair, fy addfwyn Iesu,
 Yna f'enaïd lawenhâ ;
 Gair o addewid ca'i fy mhuro
 O bob pechod a phob pla :
 Gwrendy f'enaïd mewn dystawrwydd
 Ar dy adlais ddystaw fain,
 Ac fe neidia o orfoledd
 Pan y clywo'th nefol sain.

- 2 Mae dy lais yn rho'i dystawrwydd
 Ar holl ddwndwrf gwag y byd,
 Yn gwastoti pob rhyw derfysg
 Fago nwydau croes ynghyd;
 Y mae'r gwynt yn troi i'r dehau,
 Ac mae'r hin yn dawel iawn,
 Pan fo'm Duw'n cyhoeddi heddwch,
 Er mor arwed bu'r prydawn.

194.

Ar yr un testun.

(M. C.)

- 1 Ei addewidion sydd tan sêl,
 Fel rhyw ffynnonau pur;
 Ag sy'n rho'i allan loëw ffrŵd
 Tros hyfryd Salem dir.
- 2 Mi gerdda 'm laen dros greigydd serth,
 Trwy ddrysni a thrwy ddrain;
 Ond im' gael profi ar fy nhaith
 O hyfryd flâs y rhai'n.
- 3 Wel f'enaidd gorfoledda mwy,
 Tra f'Arglwydd mawr yn Dduw;
 Mae'r geiriau dd'wedodd ef yn fwy
 Na phechod o un rhyw.

195.

Yr addewid yn sail i bwysio arni.

(8, 8, 8.)

- 1 'DOES arall fan i ro'i fy mhwys
 Ond ar dy addewidion dwys,
 Y geiriau dyngwyd yn y nef:
 Ni ildiai o fy ngobaith ddim,
 Fy ngobaith yw fy unig rym,
 Yn ei addewid gadarn gref.

- 2 Mi foria'n nerth addewid r ad,
 Trwy'r t onau cynddeirioca gaed;
 Gostega'r storom wrth dy air:
 Fy mhechod er ei rif a'i rym,
 O flaen d'addewid saif e ddim;
 D'addewid yn ffyddlondeb gair.
- 3 Mi gredaf mai ffyddlondeb yw
 Pob gair a ddaeth o enau'm Duw,
 I e ac amen y'nt oll i gyd:
 Holl bwrpas dwyfol arfaeth r ad,
 A gadarnh awd  a dwyfol waed:
 Fe brynwyd i mi gonwest ddrud.

196.

Dau beth dianwadal.

(8, 7, D.)

- 1 AR dy enw mae'r cenhedloedd,
 Yn nherfynau eitha'r byd,
 Yn rho'i goglud, gan ddymuno
 Gweled gwedd dy wyneb pryd:
 Mae dy eiriau oll yn gywir,
 Llwon mawrion ydynt hwy,
 I'th sancteiddrwydd pur y tyngaist—
 All'sit dyngu i ddim oedd fwy.
- 2 Mae cyfyngder mawr yn rh o,
 Ac yn bygwth f'enaid gwan;
 Profedigaeth drom ei phwysau
 Yn fy rhwystro i godi i'r l an:
 Ar d'addewid 'rwyf yn gorphwys,
 Cadwa' ngafael arni'n dyn;
 Nid oes ond y nerth tragwyddol
 A all faeddu'r trallod hyn.

197. *Cyfoeth yr addewid.* (8, 7, D.)

- 1 RHYW drysorau heb eu mesur,
Rhyw oludoedd heb ddim trai,
Rhyw ddyfnderoedd heb ddim gwaelod
Yn dy addewidion mae :
Crynu 'rwyf ac ymafaelu,
Glynu'n galed wrth dy air ;
F'enaid byth tra ar y ddaear,
Dyna'r unig fan y cair.
- 2 Nis gadawa'r sillaf leiaf
O'th addewid fyn'd ar goll,
Mae yn digon, byth yn ddigon,
Imi ei hunan, oll yn oll ;
P'odd y gallaf golli ngafael,
Pe cawn fydoedd maith yn rhodd,
Ar addewid sydd mor gyflawn
O drysorau wrth fy modd ?

198. *Y gair yn y galon.* (8, 7, 4, 7.)

- 1 O 'SGRIFENA'N eglur, eglur,
Mewn llyth'renau llawn i gyd,
Bob rhyw sillaf bach o'th gyfraith
Ar fy mynwes yma 'nghyd :
Fel na anghofiwyf, &c.
Byth, dy eiriau mawr eu pris.
- 2 Ti dy hunan yno'n Frenin,
Ti dy hunan yno'n Dduw ;
A dy eiriau yno'n uchaf,
D'eiriau gwerthfawrocaf ryw :
Ti wnai felly, &c.
Bydew du yn deml lân.

- 3 Gwaed 'sgrifenodd ar y croesbren
 Gariad nerthol, dwyfol, rhâd ;
 Ni 'sgrifenir ar fy nghalon
 Fyth dy eiriau, ond â gwaed :
 Dyma'r 'sgrifen, &c.
 Bery yn hwy nag pery'r byd.

199. *Gair ein Duw ni a saif byth.* (M. 7, 6, D.)

- 1 Y GAIR a ddaeth o'i enau,
 O'r diwedd farna'r byd ;
 Y cedwir, neu condemnir,
 A'i clywsant oll i gyd :
 Wrth s'yma'n 'sgrifenedig,
 Ac nid â iota o hon,
 Ar goll nes elo'r nefoedd
 A'r ddae'r yn danllwyth gron.
- 2 Hi saif pan cryno'r ddaear,
 Pan losgo'r nefoedd fawr ;
 Pan ferwo'r môr i fynu,
 Nes llifio tros y llawr :
 Hi saif pan toddo'r creigydd,
 Fel plwm gan wres y tân ;
 Hi saif pan bo'r gre'digaeth,
 I gyd yn ulw mân.
- 3 O dyma lyfr euraidd,
 Fy enaid iddo cred,
 Ac aed pob iota o hono
 Trwy nghalon oll ar led ;
 Pob llinell, gair, a sillaf,
 O fewn i hwn nid oes,
 Na boed yn wir ddyfyrwch
 I'm henaidd ddydd a nos.

200. *Grym, gwerth, a melusder y gair.* (8, 7, 6, 7.)

- 1 MI feddylia'th fod di yno,
Pan na byddost yno ddim ;
Mae dy eiriau mor felused,
Mae dy eiriau o'r fath rym :
Diliau mêl, oll tan sêl—
Minnau gredaf doed a ddêl.
- 2 Mae dy air yn abl f'arwain,
Trwy'r anialwch mawr ymlaen ;
Mae e'n golofn oleu eglur,
Weithiau o niwl, ac weithiau o dân :
Mae'n ddible, ynddo fe,
Fwy na'r ddaear, fwy na'r ne'.
- 3 'Rwyf yn meddwl am yr oriau,
Caffwyf fynyd o'th fwynhâu ;
Ac mae adsain bell dy eiriau
'N peri imi lawenhâu :
O'r fath wledd, draw i'r bedd,
Fydd cael edrych ar dy wedd !

DOSPARTH IX.

GRASUSAU Y CREDADYN.

201. *Ffydd.—Golwg ffydd.* (M. C.)

- 1 TRWY ffydd 'rwy'n gwel'd yn entrych nen,
Fan hyfryd, pen fy siwrnai ;
Y delyn aur, â'r goron fry,
Trwy dywyll ddu gymylau.

- 2 Mi wela draw, tros fryniau pell,
 Dragwyddol babell Iesu;
 A'r hyfryd wlad, yr hon gaf fi
 Ar fyrder ei meddiannu.
- 3 Mae'i bryniau fel p'radwysaidd ardd
 Yn flodau hardd a hyfryd;
 A'i 'fonydd tawel, teg di stŵr,
 Yn llifo o ddŵr y bywyd.
- 4 Pob rhan o honi, bryn a bro,
 Sydd gyflawn o ddyddanwch;
 Dim sôn am ryfel, pla na bai,
 Ond byth ddidrai dawelwch.

202.

Hyder ffydd.

(8, 8, 8.)

- 1 DUW yw fy nerth a'm noddfa lawn,
 Mewn cyfyngderau creulon iawn,
 Pan galwom arno, mae gerllaw:
 Pe âi'r mynyddoedd mwya i'r môr,
 Pe chwalai'r ddaear fawr a'i stôr,
 Nid ofnai'm henaid i ddim braw.
- 2 A phe deu'r moroedd tros y byd,
 Yn genllif garw coch i gyd,
 Nes soddi'r bryniau fel o'r blaen;
 Mae afon bur i lawenhâu
 A'i ffrydiau, ddinas Duw'n ddidrai,
 Preswylfa'i saint â'i babell lân.
- 3 A Duw sydd yno yn eu plith—
 Ni 'sgogir un o honynt byth,
 Fe'u cymhorth hwy yn fore iawn;
 Y bore byddo mwy na mwy,
 O bob gwasgfeun arnynt hwy,
 Ceir gwel'd ei 'ddewid ef yn llawn.

203.

Ar yr un testun.

(8, 8, 8.)

- 1 TERFYSGODD cenhedlaethau'r byd,
A breniniaethau aeth yn llid,
Yn erbyn ei eneinniog Ef;
Ing, cyfyng-gynghor, llewygfâu,
Ac arswyd, ddaeth a'r gedyrn rai,
Y ddaear doddodd gan ei lef.
- 2 Arglwydd y lluoedd sydd o'n plaid,
Duw Iago'n gymhorth in' wrth raid,
Gobeithiwn ynddo byth am hyn;
Dewch 'drychwch ar ei ryfedd waith,
Fath ddystryw wnaeth trwy'r ddaear faith,
Mae'n siwr bydd yn amddiffyn in'.
- 3 Fe wnaeth ryfeloedd mawr eu llid,
I beidio hyd eithafoedd byd,
Y cedyrn mawr ddychryna o'i flaen;
Fe ddryllia'r bwa dur yn glau,
Fe dyr y waewffon yn ddau,
Fe lysg eu holl gerbydau â than.

204.

Cyfoeth ffydd.

(8, 7, 4, 7.)

- 1 NID o'r ddaear mae fy mhleser,
Nid o'r ddaear mae fy ngrym;
Nid o'r ddaear mae'm llawenydd,
Tlawd wyf yma, feddaf ddim:
Draw'r Iorddonen, &c.
Mae fy nghyfoeth a fy ngwlad.
- 2 Nef yw meddiant yr angylion,
Daear ydyw meddiant dyn;

Ond fe ddarfu i'm ffydd i wneuthur,
 Nef a daear fawr yn un :
 'Rwyf yn honi, &c.
 Hawl i'r oll sy' gan fy Nuw.

3 Mae fy enaid yn ehedeg,
 Ac yn dringo fynu fry ;
 Mae fy esgyrn yn ymdrwsio,
 I lechu yn y ddaear ddu :
 Mi ddo'n gryno, &c.
 Etto nghyd ryw ddydd a ddaw.

2 Mae fy ffydd yn ymafaelu
 Yn y storom, am y tir ;
 Mae y cefn-for hyll mewn undeb
 Heddyw a'r baradwys bur :
 Dewch yn ëon, &c.
 Tir y bywyd, dacw fe.

205.

Buddugoliathau ffydd.

(M. H.)

- 1 TWRY ffydd rho'wd imi allu crÿ,
 I daro'i lawr elynion lu ;
 I orfoleddu ar angeu glas,
 Pan byddwy'n myn'd o'r byd i maes.
- 2 Trwy ffydd, 'rwyf yn goncwerwr llym,
 Er nad fy hun yn gallu dim ;
 Anturio 'rwyf i roddi'n lân,
 Fy Nuw yn darian o fy mlaen.
- 3 Trwy ffydd 'rwy'n rhoi'm gelynion glwy',
 Nad ofnwyf mo'u bradwriaeth mwy ;
 O herwydd bod Jehofa'n rym,
 Yn noddfa ac yn gymhorth im'.

206. *Gwrthddrych ffydd.* (8, 7, 6, 7.)

- 1 NAD fi adeiladu'n ysgafn
Ar un sylfaen is y ne' ;
Na chymeryd craig i orphwys
Tu yma i angeu yn dy le :
Iesu'm Duw, tra fwy' byw,
Gaiff fod fy ngorphwysfa wiw
- 2 Dyma'r maen sydd yn y gongl,
Dyma'r gareg werthfawr bur ;
Gloddiwyd allan yn y bryniau,
Bryniau tragwyddoldeb dir :
Nid oes le, is y ne,
I adeiladu ond Efe.
- 3 Minnau'r gwaela o bechaduriaid
Yn y diwedd r'of fy nhroed,
Ar y graig sydd yn y moroedd,
Craig gadarnaf fu erioed :
Ceidw hon, rhag pob tòn,
Ofnau ffwrdd o tan fy mron.

207. *Gwaed Crist, unig obaith pechadur.* (M. C.)

- 1 WEL dyma'r eiddil, dyma'r gwan,
Yn griddfan wrth dy draed ;
Tu hwnt pob gobaith i gael byw,
Ond trwy dy ddwyfol waed.
- 2 Rhifedi meiau sydd tros ben
Pob haeddiant oll o ddyn ;
Ac nid oes genyf obaith ond
Yn haeddiant Duw ei hun.

3 Mor anobeithiol yw fy mriw,
 Da'i 'mofyn meddyg mwy,
 Ond ato'i hunan ar y pren,
 Ddyoddefodd farwol glwy.

208. *Gwaed Crist yn unig obaith i'r euog.* (8, 7, D.)

1 Y MAE gobaith wedi darfod,
 Gobaith daear, gobaith dyn;
 Gobaith holl wrthddrychau natur,
 Glymwyd ynot ti dy hun:
 Ti yw ffynnon fy llawenydd,
 Ti yw'r gwrthddrych, ti yw'r un,
 Ac y rho'is fy holl serchiadau
 'N offrwm peraidd iddo ei hun.

2 Cadarnhaw'd fy ffydd grynedig,
 Ni ro'i ngobaith ddim i lawr,
 Ac o'm hawl ni ildia'i ronyn,
 I gyfammod sy' mor fawr;
 Ac ni chymra'i'r India helaeth,
 A'i thrysorau sy' heb ri',
 Am fy mraint; ac ni chymeraf
 Holl feddiannau'r nefoedd fry.

209.

Ar yr un testun.

(8, 7, D.)

1 F'ENAID deffro i ryfeloedd,
 Mae torfeydd yn d'od ymlaen,
 Oll yn arfog, oll yn gedyrn,
 Meddwl maeddu f'enaid maen':
 Dyma'm Tywysog wrth fy ochr,
 Dyma Mhriod, dyma Nhad,
 Yn ei nerth yr wy'n gobeithio
 Sathru satan dan fy nhraed.

- 2 Er bod arnaf o archollion
 Fwy rhifedi sêr y nen ;
 Ac er fod cleddyfau llymion
 Fel y gwenyn cylch fy mhen ;
 Pren sy'n tyfu yn mharadwys,
 Balm yn rhedeg hono i maes,
 A iachâ, er maint eu gwenwyn,
 Ddyfnion farwol glwyfau câs.
- 3 Caiff y gwenwyn câs fy mhuro,
 Caiff fy mhechod gwaetha'i ryw,
 Seinio megis udgorn arian,
 Haeddiant dwyfol farwol friw :
 Mi bregetha a flaen y werin,
 Fod yr aflan dua gaed
 Fel y gwlan, neu'r llian meinwyn,
 Wedi'i gânu yn y gwaed.

210.

Ar yr un testun.

(8, 7, D.)

- 1 Ti yw mywyd, ti yw'm gobaith,
 Ti yw'm cysur, Iesu, i gyd ;
 Ac i ti 'rwyf yn datguddio
 Fy nirgelion pena'i nghyd :
 Arnat ti 'rwyn rhoi fy ngofal,
 Trefna'm llwybrau oll yn lân,
 Rho i mi gerdded wrth dy ochr
 Mewn llifeiriant mawr a than.
- 2 Edrych 'rwyf fi tros y bryniau,
 Dysgwyl am addewid nen ;
 Ac ochneidio am i'r fynydd
 Bur, ddedwyddaf, dd'od i ben :
 Rwy'n gobeithio'n erbyn gobaith,
 Cario fy ngriddfanau'r dydd,

Ac ar fyrder tyr cadwynau,
Câ'i fy nhraed a'm dwylaw'n rhydd.

- 3 Mi edrychaf ar i fynu,
Deued t'wllwch, deued nos,
Os daw heddwch im' o unlle,
Daw o haeddiant gwaed y groes ;
Dyma'r fan y gwnaf fy nhrigfan,
Yma y gobeithiaf mwy ;
Nid oes iechyd byth i'm henaid
Ond mewn dwyfol farwol glwy.

211. *Gobaith gwynfydedig.* (8, 7, 4, 7.)

- 1 O FY enaid gorfoledda,
Er mai tristwch sy' yma'n llawn ;
Edrych tros y bryniau mawrion
I'r ardaloedd hyfryd iawn :
Uwch tymhorol, &c.
Feddiant, mae fy nhrysor drud.
- 2 Gwel tu hwnt i fyrdd o oesoedd,
Gwel happusrwydd maith y ne',
Edrych ddengmil etto mhellach,
Digyfnwid fyth yw E' :
Tragwyddoldeb, &c.
Hwn sy'n eiddo im' fy hun.
- 3 'Rwyf yn edrych ar y cwbl
Ag sydd yn y bydoedd draw,
Pethau fu yn bethau agos,
Pethau fu yn bethau ddaw :
Môr diwaelod, &c.
O bleserau ddaeth im' rhan.
- 4 Nid oes derfyn ar fy ngobaith,
Cyrhaedd mae ymlaen o hyd ;

Gydâ'r Duwdod mae'n cydredeg,
 Dyddiau'r ddau sy'n un ynghyd :
 Annherfynol, &c.
 Ydyw fy llawenydd mwy.

- 5 Anfeidroldeb maith ei hunan
 Sydd yn awr yn eiddof fi ;
 Rhâd y cadd ei roddi imi
 Ar fynyddau Calfari :
 Tyr'd yn fuan, &c.
 Hyfryd hâf o berffaith hedd.

212. *Cariad.—Caru Crist.* (8, 7, 4, 7.)

- 1 ANWELEDIG, 'rwy'n dy garu,
 Ac ni feddaf yn y byd
 Wrthddrych gallaf bwysu arno,
 Wrthddrych dâl ro'i iddo mryd :
 'Does fy lleinw, &c.
 O bob pleser ond dy hun.
- 2 'Chlywodd clust, ni welodd llygad,
 Ac ni ddaeth i galon dyn,
 Erioed feddwl na dychymyg
 Y fath ydwyt ti dy hun :
 Rhagor decach, &c.
 Wyt na welodd nef na llawr.
- 3 Ac 'rwyf finnau yn dy garu,
 Uwch a welais etto erioed ;
 Uwch a glywais sôn am dano,
 Ynteu a ddychmygais fod :
 Dyma fflamau, &c.
 Perffaith dân y nef ei hun.

213.

Caru Crist.

(8, 7, 4, 7.)

- 1 HYN yw'm pleser, hyn yw'm hymffrost,
 Hyn yw 'nghysur yn y byd,
 'Mod i'n caru'r addfwyn Iesu,
 Dyna'm meddiant oll i gyd :
 Mwy yw nhrysor, &c.
 Nag a fedd y byd o'r bron.
- 2 Ac ni allaf fyth fynegi
 Pe anturiwn, tra fawn byw,
 Pa mor hyfryd, pa mor felus,
 Pa mor gryf ei gariad yw :
 Fflam ddiderfyn, &c.
 Ddaeth o ganol nef i lawr.
- 3 Bydd cerubiaid, bydd seraphiaid,
 Ac angylion nef yn un,
 Yn cymysgu Haleluia,
 A Hosana bur â dyn :
 Anthem cariad, &c.
 Fydd yr anthem tra fo'r nef.

214.

Ar yr un testun.

(8, 7, 4, 7.)

- 1 Rwy'n dy garu er nas gwelais,
 Mae dy gariad fel y tân ;
 Nis gall nwydau cryfaf natur,
 Sefyll mymryn bach o'th flaen :
 Fflam angherddol, &c.
 Ddifa'm sorod rywbyrd yw.
- 2 Pell uwch geiriau, pell uwch deall,
 Pell uwch rheswm goreu'r byd,
 Yw dylanwad perffaith gariad,
 Pan enyno yn fy mryd :

Nid oes tebyg, &c.

Grâs o fewn y nef ei hun.

- 3 Rhaid im' adael ei ddirgelion
Hyfryd heb eu traethu i gyd ;
Am nas gallaf, maent mor ddwfn,
Nes im' dreiddio draw o'r byd :
Tragwyddoldeb, &c.
Mi gâf chwilio'i wreiddiau ef.

215.

Claf o gariad.

(8, 7.)

- 1 YN hir bu'm mewn trueni trist,
Yn gwrthod Crist yn Geidwad ;
Ond bellach ar ei ol mi âf,
Rwy'n awr yn glâf o'i gariad.
- 2 Mi fu'm dros dro mewn gauaf trist,
Yn wylo' am Grist yn Geidwad ;
Ond clod fo'i Dduw, fe ddaeth yr hâf,
Rwy' 'nawr yn glâf o'i gariad.
- 3 Yn iach i'r byd a'i bethau braf,
Oddiwrthych cym'raf genad ;
Ar ol yr anwyl Iesu âf,
Rwy' 'nawr yn glâf o'i gariad.
- 4 Chwychwi' rhai oll sy'n caru Crist,
Rho'wch heibio drist achwyniad ;
Fe ddaw ar fyr fel meddyg da,
I wella'r cla' o'i gariad.

216.

Caru yr Iesu.

(M. H.)

- 1 LLYTH'RENAU d'enw, Iesu cu,
Fel diliau mêl im henaid sy ;
A'th wisgoedd yn arogl'n wir,
Yn beraidd iawn o'r manna pur.

- 2 'Does bellach ddim all sugno 'mryd
 A welais etto yn y byd ;
 Yr Iesu garaf mwy heb gél,
 I dragwyddoldeb, doed a ddel.
- 3 A phleser f'enaïd bach yn awr,
 Yw caru fy Eiriolwr mawr ;
 Ni feddaf mwy mewn dae'r na ne',
 Neb byth i'w garu fel Efe.

217.

Grym cariad.

(8, 7, D.)

- 1 NI raid imi guddio'th gariad,
 Fel cariadau gwag y byd ;
 Mi gyhoedda' o flaen y werin
 Dy fod wedi dwyn fy mryd ;
 Mae dy enw mawr mor werthfawr,
 Ni ch'wilyddiaf 'hono mwy ;
 Mae dy gariad pur mor gryfed,
 Annorchfygol yw ei glwy'.
- 2 Pŵ bai'r holl gystuddiau tryma'
 'N gwasgu ar fy enaid gwan ;
 A'r gelynion oll yn rhwystro
 'R nefol dân i godi i'r làn :
 Pan ddechreuo nid oes terfyn,
 Cadarn natur cariad yw,
 Sydd yn dystaw fyn'd â'r enaid
 O hono'i hun i fynwes Duw.
- 3 Mae fy nghalon yn 'sgrifenu,
 Ac yn adrodd wrthi hun,
 Enw hyfryd a rhinweddol
 Duw yn gwisgo natur dyn ;
 Iachawdwriaeth, iachawdwriaeth,
 Iachawdwriaeth werthfawr iawn,

Ydyw enw fy Ngwaredwr
Genyf, foreu a phrydnawn.

218. *Cariad ac undeb y saint.* (M. H.)

- 1 DUW, dwg dy saint o dan y ne',
O eitha'r dwyrain bell i'r de',
I fod yn dlawd, i fod yn un,
Yn ddedwydd ynot ti dy hun.
- 2 Nâd ragfarn fyth i gario'r dydd
Ar rai a roddodd grâs yn rhydd ;
Pa'm collai'r dydd wrth feiau'r un,
Pan 'nillais wrth fy meiau'm hun ?
- 3 Pa'm syrthiaf wrth eu beiau hwy ?
I mi maddeuwyd beiau mwy ;
Yr hwn sy'n maddeu, maddeu mae,
Y mwyaf fel y lleiaf fai.
- 4 O dercha f'enaïd llesg i'r làn,
I garu'th seintiau yn mhob man ;
I 'nabod cariad pur y nef,
Na 'nabu'r byd mo hono ef.

219. *Ar yr un testun.* (M. H.)

- 1 UN llais, un sŵn, un enw pur,
F'o o'r gogledd hyd y dwyrain dir ;
O fôr i fôr, gylch cwmpas byd,
Sef enw Iesu oll i gyd.
- 2 Darfydded sôn yn mhob rhyw fan,
Am ddoniau mawr, a doniau gwân ;
Darfydded enw pob rhyw ddyn,
Aed oll yn ddim ond ti dy hun.
- 3 Na foed ar dafod Cristion mwy,
Ganiadau am ddim ond marwol glwy' :

Pan y teyrnaso'i Ysbryd Ef,
Y ddaear dywell dry yn nef.

- 4 O tyr'd ar frys Iachawdwr mawr,
Dysgyned d'Ysbryd yma i lawr ;
Gwna i'r torfeydd a brynodd gwaed
Gydgerrded tua'r hyfryd wlad.
- 5 Cydfyn'd o hyd tan ganu'n ymlaen,
Cyd-ddyoddef yn y dŵr a'r tân ;
Cydgaro'r groes, cydlawenhau,
A chydymdeimlo tan bob gwae.

DOSPARTH X.

GWAHANOL BROFIADAU CREDADYN.

220.

Ofnau.

(M. C.)

- 1 MAE ofnau yn finteioedd llawn,
Rai creulawn iawn eu rhyw ;
Yn haeru yn fy wyneb gwan
Na feddaf ran yn Nuw.
- 2 A minnau'n llwfrhâu yn lân,
Heb wybod ffordd i droi ;
Nac ysbryd genyf fyn'd ymlaen,
Nac ysbryd geni'i ffoi.
- 3 Duw dere'n glau, mae'n gyflawn bryd,
Mae bellach yn hwyrhau ;
A grym fy mhla sy wedi'm rho'i
I hollol lwfrhau.
- 4 O dal fi dan fy maich a'm poen,
A'm hofnau maith i gyd,

A rho imi heddwch yn dy glwy',
Sydd lawer mwy na'r byd.

221. *Ar yr un testun.* (8, 7, 4, 7.)

- 1 PA'M y caiff y gwyntoedd creulon
Chwythu'n wastad o'r un man?
Pa'm y caiff y storom gadarn
Guro'n wastad ar y gwan?
Dal i fynu, &c.
Yr hwn a faeddwyd gan y dòn.
- 2 Mae fy ofnau fel y moroedd,
Oll yn gwasgu arna'i'n un;
Ofni pechod, ofni angeu,
Ofni'm hunan, ofni dyn:
Does a'm ceidw, &c.
'N dawel onid gallu'r nef.
- 3 Ac er lluaws mawr fy ofnau,
Am a basiodd ac y sydd,
Mwy 'rwy'n crynu rhag y cystudd,
Ag wyf yn ddychmygu fydd:
Mi ymguddiaf, &c.
Yn ogfeydd tawela'r nef.

222. *Ofni gelynion.* (8, 7, D.)

- 1 'RWYF yn ofni bob mynydyn,
Ac yn edrych yma a thraw;
Meddwl, pan na b'o gelynion,
Bod gelynion câs gerllaw:
Mae fy mhechod yn fy mhwnio,
Mae galluoedd uffern fawr,
Gyda'm chwant yn mron a'm maeddu,
Ac am gael fy mhen i lawr.

- 2 Yn y frwydr yr wyf finnau,
 Curo ar aswy, curo ar dde',
 Ceisio edrych ar y Brenin,
 Meddwl p'odd y daliodd E ;
 Nid oes gen'i ond edrych arno,
 Edrych arno ddeil i'r làn,
 Os gall dim o'r nef i'r ddaear,
 Mewn cyfyngder, f'enaid gwan.
- 3 Mi â ymlaen heb aeth nac ofn,
 Ond it sefyll ar fy ne' ;
 Nid yw uffern a'i chyfrwystra
 Fwy na tharth i Frenin Ne' ;
 Fe ddiflana'r holl elynion
 Fel yr ùs o flaen y gwynt ;
 Heddyw, 'nawr, ond it' ymddangos,
 Megis yn y dyddiau gynt.

223.

Ofnau anghrediniaeth.

(8, 7, D.)

- 1 'RWYF yn ofni'r awel leia,
 Ofni'r storom sydd heb rym,
 Nid oes ynof i'w gwrthsefyll
 Ond euogrwydd, arall ddim ;
 Ofni'r drwg sy'n d'od y foru,
 Ofni'r pechod wnaethum ddoe,
 Ofni'm llygad sydd yn gwibio,
 Ofni nghalon sydd yn nghlo.
- 2 Anghrediniaeth sy'n fy ngwasgu,
 Anghrediniaeth sy'n cael grym,
 Gan bob pechod ac euogrwydd,
 Onidê, nis gall ef ddim ;
 Tua'r nef mi dro fy llygad,
 Dyna ngobaith i bob gradd,

On' ddaw nerth ar fyr oddiyno,
Mae fy ofnau'n siwr o'm lladd.

- 3 Cyfod haul sy'n rhwygo'r t'wllwch,
Cyfod nerth sy'n briwo chwant ;
Gyr holl ofnau anghrediniaeth,
Fel rhyw niwlen bygddu i bant ;
Rho imi wel'd yr ardal hyfryd,
Man lle mae fy ngobaith gwell ;
A chael pleser yn yr anial,
I edrych ar y gwledydd pell.

224.

Ofn angeu.

(8, 7, D.)

- 1 NID wy'n ofni tir y bywyd,
Hwnw 'nghartref hyfryd yw ;
Ond 'rwy'n ofni yr agendor
Fawr, sydd rhwng y marw â'r byw :
Angeu dwfn yw yr Iorrdonen,
Wyf o hyd yn ofni'i brâd ;
Tonau y'nt sy'n rhaid myn'd trwyddynt,
Maes o'r byd i dŷ fy Nhad.
- 2 Ofni 'rwyf, ac etto canu,
Canu wrth feddwl am y dydd,
Tan ymdrechu ag angeu creulon,
'R â pob cadwyn gref yn rhydd ;
Cyll pleserau'n lân eu gafael,
Os bydd angeu'n goncrwr mawr,
Os y bedd gâ'r fuddugoliaeth,
Fe gwymp pechod yntau 'lawr.
- 3 Cyll y pechod hwnw 'i afael,
Fynai f'ysbryd dan ei droed ;
Hwnw barodd imi riddfan,
Lawer cant o weithiau erioed :

Diwedd caru unrhyw bleser,
 Dechreu hyfryd hâf o hedd,
 Pan f'o angeu'n gorfoleddu,
 Ac yn chwerthin ar y bedd.

225.

Ymwroli.

(M. C.)

- 1 NID yw'r blinderau yma fu,
 Neu y blinderau ddaw,
 Ddim i'w cymharu â gwobr grâs
 Gâf feddu maes o law.
- 2 Edrychaf ar y gwynfyd drud,
 Pleserau'r byd a ddaw ;
 Ac mi ddibrisia'r cystudd fu,
 A'r cystudd sy gerllaw.
- 3 Ac nid oes onid gallu'm Duw
 A'm deil i'r làn yn lân ;
 Ac mi ro'f arno mhwys a'm bryd,
 Ac aed y byd ar dân.

226.

Ar yr un testun.

(M. C.)

- 1 DOED dynion heddyw imi ffryns,
 A foru aent yn gâs ;
 Ond fy nghysuron innau dardd
 Oddiwrth dy ddwyfol râs.
- 2 A minnau deithia' mlaen yn gryf,
 Trwy 'fonydd mawr eu grym ;
 Ac er myrddiynau o ofnau maith,
 Myfi heb ofni dim.
- 3 Cryfhâed y gwyntoedd fel b'o raid,
 Cured yr awel gref ;
 Nid yw'r tymhestloedd mwyaf oll
 Ond dim i râs y nef.

227. *Buddugoliaeth ar elynion.* (8, 7, 6, 7.)

- 1 RHWNG Piahiroth a Baalsephon,
Tra fwy' byw, mi gofia'r lle,
Mewn cyfyngder eitha caled,
Gwaeddodd f'enaid tua'r ne' :
Yn ddioed, dyma'n dod,
Waredigaeth fwya' erioed.
- 2 Aros ronyn, barwyd imi,
Ti gei weled cyn prydawn,
Fyrdd yn suddo yn y dyfnôr,
O elynion creulon iawn :
Maes o law, gwynfyd ddaw,
Ti ga'i ganu'r ochr draw.
- 3 Dacw'r gelyn, ebe f'Arglwydd,
Ganwaith faeddodd d'enaid gwan,
'Nawr yn methu gan y tônau,
Godi ei wyneb dig i'r lân :
Tyr'd ymlaen, dechreu'th gân,
Dy elynion, boddi wnâ'n.

228. *Buddugoliaeth ar angeu.* (M. H.)

- 1 MAE'M ffydd yn gwel'd fy Mhriod draw,
Yn cym'ryd angeu yn ei law;
Yn gwneuthur iddo daflu maes
Ei golyn main, â'i wenwyn câs.
- 2 Ac yna Tywysog mawr y Ne'
Ei hunan yn ei yfed e!
Ei godi i fynu at ei ben,
A dweyd, Gorphenwyd ar y pren.
- 3 Pa'm'r ofnaf golyn angeu a'i glwy',
Pan nad oes colyn ganddo mwy ?

Os angeu yw, nid yw ei rym,
Na'i wenwyn, yn y diwedd ddim.

229.

Caethiwed.

(M. H.)

- 1 Rwy'n gorwedd yn y carchar du,
A'm henaid cu'n och'neidio ;
A'r gadwyn fawr yn gwasgu'n dyn
Heb neb â'm tyn o hono.
- 2 Fy meiau megis gwllith y wawr,
Anfeidrol fawr eu cyfri,
Sy'n pwyso'n galed ar fy mron,
A minnau bron llewygu.
- 3 Och'neidio 'rwyf am ddod yn rhydd,
A gweled dydd gollyngdod ;
I rodio bryniau sanctaidd pur,
Nefolaidd dir fy Mhriod.
- 4 Ti Iesu mawr, dy allu pur,
All dori'r dur caleta' ;
Tor fy ngadwynau oll heb ludd,
A dwg fi'n rhydd oddiyma.

230.

Hiraeth am ryddhâd.

(8, 7, D.)

- 1 O 'Rwy'n breffu am yr oriau
Pan y caffwy' nhraed yn rhydd !
Dyna Jubil fy nghysuron,
Dyna ngwaredigol ddydd ;
Dyna'r wledd 'rwy'n gwaeddi am dani,
Pan na byddo pechod mwy,
I ladrata'r meddwl lleiaf,
Nac i rod-di imi glwy'.
- Treiliais ddyddiau'n methu chwerthin,
Dyddiau o och'neidio'n brudd ;

Dysgwyl rhyddid a llawenydd,
 'Rwyf drwy gydol faith y dydd ;
 Dysgwyl gwel'd afonydd llwydion,
 'N loew fel y gwydr glâs,
 A phob nwyd yn llwyr dawelu,
 Gan dy ddwyfol nefol râs.

231. *Erfyniad am ryddid.* (8, 7, D.)

- 1 GRIDDFAN 'rwyf o tân fy meichiau,
 Yn y dywyll Aifftaidd dir,
 Ac och'neidio am gael gweled,
 Rhyddid hyfryd Canaan bur :
 Dwg fi o tân lywodraeth Pharao,
 Grym fy meiau o bob rhyw,
 Mewn i wlad y goncwest hyfryd,
 A addawyd gan fy Nuw.
- 2 Agor ddorau prés cauedig,
 Yn dy nerth, ac yn dy lid ;
 Tôr efynau heiyrn yn ddrylliau,
 Sydd yn dal fy enaid c'yd ;
 Fel y gallwyf wel'd dedwyddwch,
 Mawr hyfrydwch imi bair,
 A chael profi'r grâs addewaist
 Gant o weithiau yn dy air.

232. *Mwynhâd o ryddid.* (8, 7.)

- 1 YN awr y gwn fod Iesu cu,
 Yn Sion fry'n teyrnasu ;
 Mae'n rhoddi im' arwyddion brâf
 O'r rhyddid gâf feddiannu.
- 2 Blwyddyn y carcharorion caeth
 O'r diwedd ddaeth i fynu ;

Neshâu mae gwardigaeth lawn,
I'r rhai sy'n cyflawn gredu.

- 3 Bron darfod mae yr Aifftaidd nos,
O'n poen a'n loes cawn orphwys;
Y golofn dân mewn anial dir,
A'm dwg i'r wir Baradwys.

233.

Cwynion.

(8, 8, 8.)

- 1 Fy enaid llesg sy'n llwfrhâu,
Gan fy nhrachwantau sy'n parhâu,
A'm beiau maith yn llaesu dim:
O! p'le mae effaith dwyfol waed,
Y Balm o Gilead ry' iachâd,
Ac ddofa'r nwydau mwya'u grym?
- 2 O! p'le mae'r mânia perffaith gwir,
A'r dyfroedd tawel sanctaidd pur?
Mae'm syched, Arglwydd, yn parhâu:
Rwy'n methu tynu dŵr yn awr,
Fy anghrediniaeth sy' mor fawr,
Agor y graig, 'rwy bron llesghâu.
- 3 Rwy' oll yn friw, rwy' oll yn wan,
A neb ond ti a'm deil i'r làn,
Dy hunan, 'rwy't yn fwy na'r byd:
Yr olwg leiaf ar dy wedd
Sy'n drêch nag angeu, trêch na'r bedd,
Dy hunan wy'n ddymuno i gyd.

234.

Ar yr un testun.

(8, 8, 8.)

- 1 PA'M, Arglwydd, yma, pa'm mae draw,
Ryw elyn marwol ar bob llaw,
Pleser a gofid bob yn ail;

Yn tynu'm llygad, tynu'm bryd,
At ryw wrthddrychau yn y byd,
Rhyw dwyll disylwedd a disail ?

- 2 Trwy darth a niwl mi wela'r fân
Ddymunai'm henaïd gael i'w rân,
Ardaloedd grâs, ardaloedd hêdd ;
Y wlad mae cariad pur didrai,
Fel afon yn ei dwfrhâu,
Tu hwnt i angeu du a'r bedd.
- 3 Pwy a chwenychai fyw'n y byd,
Sy'n dwyll, sy'n drafferth drwyddo'i gyd,
Mil mwy ei ofid nag ei flas ;
Yn lladd o hyd, heb byth fywhâu,
A'i groesau trymion yn parhâu ?
O ! am drigfanau nefol râs !

235.

Newyn a syched.

(8, 7, 6, 7.)

- 1 RHO i mi yfed, rwy'n sychedig,
Ddŵr y ffynnon loew lawn,
Darddodd allan o dy ystlys
Ar Galfaria un prydawn :
Gwaed fy Nuw, unig yw,
Ylch fy meiau dua'u lliw.
- 2 Dere, Arglwydd, 'rwyf yn drysu,
Ac mae arnaf syched mawr ;
Ffynnon wyf yn chwilio allan,
Dangos imi'r fan yn awr :
Ti yw'r gwir, fâna pur,
Ti yw'r ffynnon loew glir.

236.

Ar yr un testun.

(7, 6, D.)

- 1 GAD im' gael ar fy siwrnai
Sychedig yn y byd,

I fwyta ac yfed gronyn
 O wleddoedd nefoedd ddrud ;
 Pe yfwn fwy na'm llonaid,
 Ni fyddai gronyn llai,
 Can's llanw dymuniadau
 Mil o filiynau mae.

- 2 A raid i minnau drengu
 O eisieu'r dyfroedd pur ?
 Rwy' bron llewygu'n tramwy
 Y dyrus anial dir :
 Dwg fi i'r dyfroedd tawel,
 Porfäoedd gleision mawr,
 Lle mae y rhai lluddedig,
 Yn dod i'u penau lawr.

237.

Dymuniadau.

(8, 7, D.)

- 1 NID fy nef yw ar y ddaear,
 Pe y goreu man dan haul ;
 Ond fy nef yw presenoldeb,
 Siriol wyneb Adda'r ail :
 Gwena arnaf, Arglwydd grasol,
 Gwaeddaf allan, digon yw :
 Yna nghanol cyfyngderau
 Fyth yn llawen byddaf byw.
- 2 Y wybr faith sy'n llawn o fydoedd,
 Etto seren un ni fedd,
 Er mor fuan maent yn hedeg,
 Hed mor gynted a dy hedd ;
 Myrdd weddiau a wrandewaist,
 (Can's mòr barod yw dy räs,)
 Yn y fynyd gynta'u lluniwyd,
 Cyn eu d'od o'r genau i maes.

238.

Ar yr un testun.

(8, 7, D.)

- 1 DYRO olwg ar dy haeddiant,
Golwg ar dy deyrnas råd;
Brynwyd imi ac a seliwyd,
Seliwyd imi â dy waed;
Rho imi gyrchu tuag ati,
Peidio byth a llwfrhâu;
Ar fy nhaith ni cheisiaf genyt,
Ond yn unig dy fwynhâu.
- 2 D'wed pa bryd câf yfed dyfroedd,
Dyfroedd gloew sy'n iachâu;
Pob rhyw bleser wedi darfod,
Ond yn unig dy fwynhâu:
Pwyso'm henaid ar dy fynwes,
Edrych ar dy wyneb llon,
Caru nes anghofio'r oriau
Sy imi ar y ddaear hon.

239.

Cystuddiau er daioni.

(8, 7, D.)

- 1 FEL y rhêd llifogydd mawrion,
Fel anadla'r awel gref,
Bydded felly fy och'neidiau
I ddyrchafu tua'r nef:
Gwn nas gellit attal rhagof,
Gwn nas gellit ro'i nacâd,
O un fendith is y nefoedd
Ag sydd imi er lleshâd.
- 2 Mae tymhestloedd er daioni
Er eu bod yn gweithio braw;
Magu dychryn câs ac ofnau,
Ofni sy, ac ofni ddaw

Galw beiau pell i'r golwg,
 Rhwymo pechod fyrdd ynghyd ;
 Cofio henaint, cofio ieuenctyd,
 Etto bendith y'nt i gyd.

240.

Cystuddiau er daioni.

(8, 7. D.)

- 1 MAE rhyw stormydd wedi eu trefnu,
 Ca'dd goreuon byd y rhai'n ;
 Cafodd seintiau a merthyron,
 Cafodd Iesu goron ddrain :
 Mae cydwybod mewn ymderfysg,
 Mae yr ysbryd f'o mewn poen,
 Wedi chwilio gylch o gwmpas,
 Yn lletya'n nghlwyfau'r Oen.

- 2 Uffern yn fy enaid euog,
 Sydd er bod y tân yn gry',
 Yn fy ngyru at borth y bywyd,
 Trwy'r cymylau dua' sy' ;
 Tân y pydew a'm dihunodd,
 Tawch y ffwrn gynddeiriog gref,
 Wnaeth i'm henaid yn y storom
 Ymafaelu am y nef.

- 3 Yno mae e' 'nawr yn curo,
 Yno mae e'n dadleu'n hy' ;
 Ac nis gosteg hyd nes caffo
 'I dderbyn gan yr orsedd fry :
 Ac fel pura'r stormydd mawrion
 Ddrygau yn yr awyr lân,
 Felly holl gystuddiau'm bywyd,
 Chwerwon, meithion, bura'm grâs.

241. *Teimlad o lesgedd.* (M. H.)

- 1 CREAWDWR doeth y ddaear lawr,
Ffurfafen lâs a'r nefoedd fawr,
Edrych o rhwng y ser i'r byd
'Rwyt ti ar feibion Adda i gyd.
- 2 Ngwel'd innau 'rwyt yn mhlith y llu
Sy'n tynu tua'r nefoedd fry;
Am deithio 'mlaen i'r nefol fyd,
Y llesga' o honynt oll i gyd.
- 3 Y gwanaf wyf a'r rheitia'i ddwyn,
O'r defaid gwirion ac o'r wyn;
A diau yw y bydda'i 'nol,
Oni ddwg y Bugail fi'n ei gol.

242. *Hyder.* (8, 7, 4, 7.)

- 1 F'ENAID egwan paid ag ofni,
'Dyw d'elynyon oll yn un,
Ond rhai eisoes wedi'u concro
Gan a wisgodd natur dyn:
Fe fyn weled, &c.
Pob rhyw elyn dan fy nhraed.
- 2 Ni all satan a'i holl allu,
Ysbryd cyfrwys mawr ei rym,
Am ei fod o fewn y gadwyn,
Heb ei genad wneuthur dim:
Hollalluog, &c.
Ydyw enw mawr fy Nuw.
- 3 Pa'm yr ofnaf feiau mawrion,
Trymach ydyw marwol glwy;

Mwy yw gair o enau f' Arglwydd,
 Na myrddiynau o honynt hwy :
 Gwna, mi greda, &c.
 Rhued mor, terfysged tir.

- 4 Heddyw nid y cynta' i minnau,
 Lynoedd dyfnion fyned trwy ;
 Cant rhyfeddod im' fy hunan,
 Fod yn awr y man yr wy' :
 Mi af etto, &c.
 Trwy bob rhwystr yn fy Nuw.

243.

Hyder.

(M. H.)

- 1 A'R d'enw di, Creawdwr byd,
 Rwy'n rhoi fy hyder oll i gyd ;
 Rhyfedd mor wan wyf ddydd a nos,
 Nid oes im' nerth ond yn dy groes.
- 2 Deffro, fy ffydd, rho' afael gref,
 A'th freichiau'n dŷn am dano Ef ;
 Er ofnau fyrdd, na âd e'n rhydd,
 Tra yn ei freichiau cari'r dydd.
- 3 Tyr'd angeu 'm laen a'th gleddyf llym,
 Tra'n Iesu b'wyf, nid ofnaf ddim ;
 Y cnawd, a satan, pechod cry',
 Ynghlwyfau Iesu, concras hwy.

244.

Tan deimlad o wrthgiliad.

(M. H.)

- 1 GWRTHGILIAIS, do, oddiwrthyt Ner,
 Addolais dduwiau rif y ser ;
 Er f'ymffrost yn fy nerth fy hun,
 Ces wel'd nad oeddwn i ond dyn.

- 2 Mi wada'm hun, rwy'n gwel'd fy ngrym,
A'm holl fwriadau'n myn'd yn ddim;
Yr amser ddaeth i fyn'd i maes,
I 'mdroi a gorphwys yn dy rês.
- 3 Dysgwyl yr wyf a meddwl bod
Yn fil mwy cywir wrth dy droed;
Ond ofni 'rwy'n lle bod yn well,
Fy mod yn erwydro i ryw le mhell.
- 4 Help, bellach, Arglwydd, atat ti
Yn unig daw fy enaid cu;
Yr wyf yn credu bod dy rês
Yn llawer mwy na phechod cês.

245.

Ar yr un testun.

(8, 8, 8.)

- 1 Fy ngwrthgiliadau o bob rhyw,
A'm beiau mawrion dua'u lliw,
Wyf Iesu'n roddi iti'n un:
'Does neb all sefyll dros fath rai,
Na neb anturia' nghyfiawnhau
O flaen y nef, ond ti dy hun.
- 2 Pe gwypent hwy'r annuwiol fyd,
Y ganfed ran o'm beiau i gyd,
Hwy haerent nad oes dim iachâd:
Ond o'u hardaloedd 'rwyf yn troi,
A thua'r nefoedd 'rwyf yn ffoi,
At haeddiant llawn y dwyfol waed.
- 3 Mae'm bai mor fynych ac mor gês,
Na wela'i neb is awyr lês,
Yn gwyro o'r llwybr fel fy hun:

'Does gyflwr byth bw'i ynddo'n byw,
Na fedra'i ddiange ar fy Nuw,
I greigydd collwyd llawer un.

246.

Cyrchu at y nôd.

(8, 7, 4, 7.)

1 NA'D fod genyf ond d'ogoniant
Pur sancteiddiol yma a thraw ;
Union nôd o flaen fy amrant,
Pa beth bynag wnelom llaw :
Treulio mywyd, &c.
Unig fywyd er dy glod.

2 A phleserau o bob rhywiau
Wedi darfod oll i gyd ;
Cnawd a natur wedi marw,
A holl fwyniant gwag y byd :
Iesu ei hunan, &c.
A'i ogoniant imi'n nôd.

3 Stŵr a dwndwr y creadur,
Ag sy' fel y moroedd mawr ;
Terfysg parch a therfysg cyfoeth,
Sy' yma ar y ddaear lawr :
Elo i gerdded, &c.
O fy nghlustiau'n lân i maes.

247.

Gweddi am burdeb.

(8, 7, 4, 7.)

1 O SANCTEIDDIA f'enaïd, Arglwydd,
Yn mhob nwyd ac yn mhob dawn ;
Rho' egwyddor bur y nefoedd
Yn fy ysbryd llesg yn llawn :
Na'd fi grwydro, &c.
Draw ac yma o fy lle.

- 2 Llwybr cul gwna'n llwybr esmwyth,
 Tylau serth yn wastad iawn ;
 Cyfyngderau chwith a chroesau,
 O ddyddanwch pur yn llawn :
 Edrych trwyddynt, &c.
 I fynyddau tŷ fy Nhad.
- 3 Plana'r egwyddorion hyny
 Yn fy enaid bob yr un,
 Ag sydd megys peraroglau
 Yn dy natur di dy hun :
 Blodau hyfryd, &c.
 Sy'n prydfferthu nef y nef.

248.

Cwypmp a chodiad.

(8, 7, 4, 7.)

- 1 YN y bore 'rwyf yn meddwl
 Cadwai'r llwybr hyd brydnawn ;
 Etto gwyro'n ddiarwybod,
 'Rwyf oddiarno'n fuan iawn :
 Camsyniadau, &c.
 Fwyaf sydd yn llanw f'oes.
- 2 Mae fy ngwypmp yn peri codiad,
 Mae gorthrymder uffern fawr,
 Oll yn peri im' 'mofyn pleser
 Uwch a deimlwyd ar llawr :
 O hyfrydwch, &c.
 Paradwysaidd nefol dir.
- 3 Brysiwch oriau, dewch i fynu,
 Pan y caffwyf weled hâf ;
 A rhyw flodau'n tarddu allan,
 Pob grasusau dwyfol brâf :
 Pob aderyn, &c.
 Yn ymbyngcio gyda'r dydd.

249. *Hiraeth am y nefoedd.* (M. C.)

- 1 MAE hiraeth trwydda'i am fwynhau
Trysorau'r 'ddewid ddrud ;
Ac gallo'm hysbryd fyn'd o war,
Blinderau'r anial fyd.
- 2 'Rwy'n breffu am gael hyfryd brawf
O'r maith bleserau sy',
Yn cael eu hyfed heb ddim trai
Gan yr angelion fry.
- 3 Mae'm dymuniadau'n hedeg fry,
Uwch creadigol fyd ;
Ac yn dirmygu'r ddaear hon,
A'i da o'r bron i gyd.
- 4 Fe'm ganwyd i lawenydd uwch
Nag sy'n mleserau'r llawr ;
I gariad dwyfol, gwleddoedd pur
Angelion nefoedd fawr.

250. *Ar yr un testun.* (8, 7, 4, 7.)

- 1 NID oes dim erioed a welwyd,
Nid oes dim a deimlodd llaw,
Dim a glywyd son am dano,
Acw o'r de i'r dwyrain draw,
Yn ddigonol, &c.
Wneyd fy enaid llesg yn llawn.
- 2 O na dd'ai'r amseroedd bellach
Imi gael mwynhau o hyd,
Bethau leinw fy nymuniad,
Pethau nad y'nt yn y byd :
Ni ddaw'r ddaear, &c.
Fawr a minnau byth yn un.

3 Mae fy enaid yn ehedeg
 Ar adenydd ysgeifn ffydd,
 Ac yn syllu trwy'r eangder,
 Uchel maith, ar bethau fydd :
 'Nawr mi welaf, &c.
 Wlad o hedd yn agoshau.

4 Rhwng cymylau duon tywyll,
 Gwelaf draw yr hyfryd wlad ;
 Mae fy ffydd yn llefain allan,
 Dacw o'r diwedd dŷ fy Nhad :
 Digon, digon, &c.
 Mi anghofia 'mhoen a ngwae.

251.

Ar yr un testun.

(8, 7, 6, 7.)

- 1 DACW'R ardal nefol hyfryd,
 Pwrcas poen a gwaed fy Nuw ;
 Gwlad mae hiraeth ar fy nghalon,
 Am fod heddyw ynddi'n byw :
 Lle nad oes, poen na loes,
 Nac un cystudd chwerw croes.
- 2 Hawddfyd eilwaith ar ol hawddfyd,
 I sy'n gorwedd yn y bedd,
 Ac yn canu tu hwnt i ofid
 'Nawr ynghanol gwlad o hedd :
 Llawenhau yn ddidrai,
 Wedi anghofio'u poen a'u gwae.
- 3 Mae myfyrio am fy nghartref,
 Mae myfyrio am dŷ fy Nhad,
 Wedi'm gwneuthur i ddiflasu
 Ar bleserau cig a gwaed :
 'Does i gyd yn y byd,
 Unrhyw beth a leinw mryd.

- 4 O na welwn gopa'r bryniau
 Lle mae f'anwyl Iesu'n byw !
 'Rwyf yn caru'r gwynt sy'n hedeg
 Tros fy Nghanaan hyfryd wiw :
 Fedd y llawr ddim yn awr,
 Leinw le fy Arglwydd mawr.

252.

Y wlad well.

(8, 7, D.)

- 1 'RWYF yn dechreu profi eisoes
 Beraroglau'r gwledydd draw,
 Gyda'r awel bur yn hedeg ;
 Diau fod y wlad gerllaw :
 Dere'r tir dymunol hyfryd,
 Dere ardal sydd heb drai,
 Dy bleserau o bob rhywiau,
 Gad im' bellach eu mwynhau.
- 2 Ac er gwaetha grym y tonau
 Sydd yn curo o bob tu,
 Dof trwy'r storom, dof trwy'r gwyntoedd,
 Rywbryd i'r baradwys fry :
 Gair fy Nuw sy'n drech na'r moroedd,
 Gair fy Nuw sy'n drech na'r dòn ;
 Mi anturiaf oll a feddwyf
 Fythol i'r addewid hon.
- 3 Ac ni fyddai'n hir cyn gorphen,
 Ddim yn hir cyn cyrhaedd fry ;
 Pob gorchymyn, pob bygythiad,
 Pob addewid sydd o'm tu ;
 Nid y dyfnder fydd fy nhrigfan,
 Gwn y deuaif yn y man,
 'Nol fy ngholchi gan y tonau,
 Yn ddiangol iawn i'r làn.

253.

Pen y daith.

(M. B. D.)

- 1 MAE pen y daith gerllaw,
 Ar fyrder gwawria'r dydd ;
 O fy nghadwynau caeth bob rhyw,
 Fe'm tyn fy Nuw fi'n rhydd :
 Tros yr Iorddonen lân,
 Caf fyned maes o law,
 I fwyta ffrwythau nefol pur
 Yr hyfryd dir sydd draw.
- 2 Ac yna darfod wna,
 Fy ngofid a fy ngwae ;
 Ac y dechreuir cadw gwledd
 Gorfoledd i barhau :
 Yn nghanol tyrfa faith,
 Pob llwyth, a iaith, a dawn,
 Un Sabboth heb na haul na lloer,
 Na bore na phrydnawn.
- 3 Cyrhaeddwn yn y blaen,
 'Nawr nesnes yw y nôd ;
 Na ildiwn ddim, mawr yw ein braint,
 Ni chollodd saint erioed :
 Pob peth sy'n galw ar frys
 Fyn'd tua llys ein Tad ;
 Nyni gawn fwyta yn y man
 Ddanteithion Canaan wlad.

254.

Ar yr un testun.

(M. B. D.)

- 1 PALMANTIR llwybr in'
 Trwy ganol moroedd maith ;
 Ac er gelynion mawr a mân,
 Cawn fyn'd ymlaen i'n taith :

Ar drostan heddyw'n nes
 Mae'r sarff o bres yn glir,
 Os clwyfir un pererin gwan
 Sy'n myn'd i Ganaan dir.

- 2 Iorddonen dry yn ol
 Ro'i lle i'r nefol had ;
 I etifeddu'r hyfryd fan
 Addawyd gan y Tad :
 Ni all un bai na chwant
 I attal plant y nef,
 I dreiddio trwy bob llif a thon,
 Yn union ato Ef.

255.

Dedwyddwch y nefoedd.

(8, 7, D.)

- 1 DARFU drysu yn y rhwydau,
 Aeth pob maglau 'nawr yn rhydd ;
 Nid rhyw achub yma ac acw,
 Ond rhyw garu heddyw sydd ;
 Nid yw cartref yn y meddwl
 Pan yr elo'r ffun i maes ;
 Y mae'r nef yn peri anghofio
 Holl bleserau'r ddaear lās.
- 2 Ni ddaw hunandyb na rhyfyg,
 Na'r awelon oer o'r blaen,
 Ddim i mewn i blith y cwmni,
 Ag sy'n llawn o'r nefol dân ;
 Nid oes dyn, na da, na chyfoeth,
 Yno'n meddu gronyn grym ;
 Cariad maith yr addfwyn Iesu,
 A wnaeth bobpeth oll yn ddim.

- 3 Maent hwy yno wedi darfod
 Ofni'r hen Iorddonen ddu ;
 Angeu oedd yn croesi'u llwybr
 I'r baradwys hyfryd fry :
 Tros brydnawn y bu wylofain,
 Yna bore hyfryd ddaeth ;
 Hwythau aethant mewn gorfoledd
 I wladwriaeth mêl a llaeth.

256. *Ysbrydoedd y cyflawn a berffeithiwyd.* (M. C.)

- I MI wela' dyrfa fawr o'm blaen
 Yn canu ar ben eu taith ;
 Ac wedi gorphen drysu 'rhyd
 Yr anial garw maith.
- 2 Fe ddarfu'u rhyfel er ei rym,
 Fe ddarfu'u poen a'u gwae ;
 Ac maent yn yfed heddyw o'r wledd
 Dragwyddol sy'n parhau.
- 3 'Dâ un o'r nwydau mewn i'r nef
 A'u blinodd yn y byd ;
 Cariad tragwyddol fel y môr,
 Sy'n llanw yno o hyd.
- 4 Pob parch, a haeddiant, gras, a dawn,
 Pob enw oll o ddyn ;
 Sydd yno'n hollol suddo lawr
 Yn Iesu mawr ei hun.
- 5 Mae Iesu ei hun yn awr yn fwy
 Na'r cwbl is y nef ;
 A'u holl ddyfyrwech fyth a byth
 Yw edrych arno Ef.

257. *Ysbrydoedd y cyfiawn a berffeithiwyd.* (M. C.)

- 1 MAENT wedi llwyr anghofio 'nawr
Eu nythod is y rhod ;
Ac y mae harddwch daear faith
Megys pe b'ai heb fod.
- 2 'Does un genfigen ddaw i blith
Y dyrfa hyfryd fry ;
Na dim ond nefol faith fwynhau
O gariad Iesu cu.
- 3 'Does neb a hiraeth am un ffrynd
Adawodd is y rhod ;
Ond maent yn canu i'r Oen y'mhlith
Cyfeillion goreu 'rioed.
- 4 Wedi anghofio'r groes a'r gwae,
A thristwch anial dir ;
Ac heddyw'n yfed cariad rhad
Fel afon loew glir.

258. *Golwg ar y wlad.* (8, 7, 6, 7.)

- 1 DACW'R hyfryd fan câf drigo,
Gwn câf drigo cyn b'o hir ;
Draw i'r bryniau oer tymhestlog,
Yn y sanctaidd hyfryd dir :
Gwelai 'nawr fore wawr,
Glir o dragwyddoldeb mawr.
- 2 O ddwyreindir gras mae'n t'wynu,
Lle mae teml fawr fy Nhad,
Lle mae'r arch, a lle mae'r manna,
Lle mae'r drugareddfa râd :
Un prydawn chwerw gawn,
Yna, wedy'n adre' 'rawn.

- 3 Ni gawn yno wel'd a garwn
 Mewn gogoniant llawer mwy,
 Nag y gwelsom E ar y croesbren
 Tan ei farwol ddwyfol glwy' :
 Lluoedd mawr sydd yn awr,
 Yn ei garu uwch y llawr.
- 4 Ni gawn wel'd a'i carodd yma,
 Yn y man, yr ochr draw ;
 Oll yn gwledda ar ei gariad,
 T'lynau auraidd yn eu llaw :
 Oll yn un, a chytun,
 Molant Dduwdod yn y dyn.

259. *Digrifwch yn dragywydd.* (8, 7, 4, 7.)

- 1 DECHREU canu, dechreu canmol,
 Y'mhen mil o oesoedd maith,
 Iesu, bydd y pererinion,
 Hyfryd draw ar ben y daith :
 Ni cheir diwedd, &c.
 Byth ar sŵn y delyn aur.
- 2 Nid oes yno ddiwedd canu,
 Nid oes yno ddiwedd clod ;
 Nid oes yno ddiwedd cofio
 Pob cystuddiau fu erioed :
 Byth ni dderfydd, &c.
 Canmawl Duw yn nhŷ fy Nhad.
- 3 Yno câf fi ddweyd yr hanes,
 P'odd y dringodd eiddil gwan,
 Trwy afonydd a thros greigydd,
 Dyrus anial serth i'r lan :
 Iesu'i hunan, &c.
 Gaiff y clod trwy eitha'r nef.

- 4 Mi gâf ieithoedd, mi gâf ddeall,
 Mi gâf yno berffaith ras,
 I gael allan hen ddyfnderoedd
 Pen Calfaria'n well i maes:
 Deuwch wyntoedd, &c.
 I gael chwythu'r nos i ffwrdd.

260. "*Ni a gawn ei weled fel y mae.*" (8, 7, 4, 7.)

- 1 Mi gâf yno wel'd a garaf,
 Gwel'd fy Iesu, gwel'd fy Nuw,
 Gynt fu farw ar y croesbren,
 Heddyw'n ddysglaer, heddyw'n fyw:
 Nef y nefoedd, &c.
 Sydd yn suddo yn ei hedd.

- 2 Mae llawenydd yn fy nghalon,
 Er bod dychryn yn fy nghnawd,
 Gwrdd â Barnwr byw a meirw,
 Iesu Mhrynwr, Iesu mrawd:
 Mae'n ardderchog, &c.
 Etto anwyl iawn i mi.

- 3 Mi gâf yno garu fynwyf,
 Cariad perffaith pur didrai;
 Cariad trwy ryw oesoedd meithion,
 Nad â fymryn bach yn llai:
 Byth yn enyn, &c.
 Wrth im' edrych ar ei wedd.

261. *Gwledd y nefoedd.* (8, 7, 4, 7.)

- 1 Do, mi fliniais ar a welais,
 Twyll sydd oll o fewn y byd;

Twyll sydd yma'n denu'm llygaid,
 Twyll sydd acw'n denu'm mryd :
 O am ddarfod, &c.
 A phob gwagedd is y rhod.

2 Yno mi gâf yfed pleser,
 Megis dyfroedd gloëw pur,
 I'r pererin llesg lluddedig,
 Mewn rhyw wresog anial dir :
 Ffynnon bywyd, &c.
 Tan y faingc mae'n d'od i maes.

3 Mi gâf fwyta'r rhyfeddodau
 Sydd yn natur Duw ei hun ;
 Ac ymborthi ar ogoniant
 Crëwr nef yn natur dyn :
 Mi gâf yno, &c.
 Fwy mewn awr nac yma byth.

262.

Paradwys Duw.

(8au.)

1 Y B'RADWYS âf iddi cyn hir,
 Mae afon y bywyd yn hon,
 Yn llifo fel grisial yn glir,
 I ddiodi'r sychedig o'r bron :
 Mae hefyd yn ngartref fy Nâf
 Afonydd o laeth ac o fêl ;
 Wel bellach tuag yno mi âf,
 A deued hi fel ag y dël.

2 'Does mesur amseroedd byth fry,
 Dim oriau cyffelyb i'r byd ;
 Myn'd heibio ryw oesoedd y sy'
 Wrth ganu i'r Drindod ynghyd :

'Rholl nefoedd wrth weled ei râs,
 Sy'n synu, yn canu'n fwy hy'
 Ganiadau newyddion eu blâs ;
 Wel dyma'r digrifwch sy' fry.

263.

Addoliad y nefoedd.

(8au.)

1 ANGELION, seraphiaid, a saint,
 Wrth ganu'n soniarus ynghyd,
 Eu hadsain sydd gyfuwch ei maint,
 Mae'n crynu'r holl nefoedd i gyd :
 Neb yno yn glaeare ei gân,
 Neb yno'n addoli mewn rhith,
 A'u c'lonau yn llosgi fel tân,
 A gwynfyd a fa'i yn eu plith.

264.

Chwant datodiad.

(8au.)

1 'RWY'N teimlo rhyw hiraeth a chwant
 Wel'd mysgu f'holl deml o'i lle ;
 A 'hedeg yn union i bant,
 Fel 'deryn i ganol y ne' ;
 A neidio 'mewn yno i blith
 Y dyrfa sy' a'u gwisgiad yn wyn,
 A chanu i'm Harglwydd i byth
 Fu farw ar Galfari fryn.

2 'Ddaw syched, na newyn, na phoen,
 Na gofid, na galar, na chlwy',
 Nac anwyd yn nheml yr Ion,
 Na gwres idd eu blino byth mwy :
 Mae yno adenydd fy Ion
 Yn taenu fel nefoedd ar led,
 Yn cuddio priodferch yr Oen ;
 O f'enaid i fynu ehed.

265.

Y Jerusalem nefol.

(M. H.)

- 1 C'OD f'enaïd gwan yn fuan gwel,
Y wlad sy'n llifo o laeth a mêl ;
Gorphwysfa y rhai a ddaeth trwy râs
O gystudd mawr y byd i maes.
- 2 Caersalem dinas newydd Nêr,
Barto'w'd i'r saint uwchlaw y sêr ;
Adeïlad bur o aur digoll,
Fel gwydr gloëw dysglaer oll.
- 3 Ei theg rodfeydd a'i phlasau fry,
A'i thyrau oll yn hyfryd sy' ;
Pob rhan o honi cyflawn yw
O sanctaidd bresenoldeb Duw.
- 4 Haul, lloer, na sêr, yma nis cawn,
Gogoniant Duw sydd ynddi'n llawn ;
Yr Oen fu a'i waed yn lli i'r llawr,
Sydd yn dysgleirio'r ddinas fawr.

266.

Y waredigol dyrfa.

(M. H.)

- 1 O FLAEN y fainge mil miloedd mae,
Pwrcas ei waed, ei chwys, a'i wae ;
Y dyrfa fawr fu gynt ar goll,
Yn awr yn gorfoleddu oll.
- 2 Eu dagrau oll a sychwyd ffwrdd,
Galar a thristwch byth nis cwrdd ;
Ni ddaw marwolaeth mwy na phoen,
I wydd y croeshoeliedig Oen.
- 3 Priodferch Iesu ydyw rhai'n,
A wisgwyd oll â lliain main ;
Yn edrych ar ei wedd bob awr
Yn nghanol y gogoniant mawr.

- 4 Gwynfyd fa'i 'mhlith y miloedd myrdd
 Sy'n awr yn dal y palmwydd gwyrdd ;
 O Arglwydd da, dywed a ga'i,
 I fod yn un o'r dysglaer rai.

 DOSPARTH XI.

 AMRYWIAETHAU.

267.

Ty'r Arglwydd.

(8, 7.)

- 1 DY babell di mor hyfryd yw,
 O Arglwydd Dduw y lluoedd ;
 Mynych chwenny-chais weled hon,
 Gan mor dra thirion ydoedd.
- 2 Y man b'ost ti, boed fryn neu fro,
 Sydd gyflawn o ddyddanwch ;
 Yn dy gynteddau'n wastad mae,
 Oes, fôr didrai o heddwch.
- 3 Fy enaid flysia fyn'd ar frys
 I'th gysegr-lys yn hylwydd ;
 Mae'm calon bach, a'm cnawd bob cam,
 Yn gwaeddi am yr Arglwydd.
- 4 Am dd'od i'th wydd 'rwyf nos a dydd
 Fel hydd lluddedig gwirion,
 A red dan frefu 'mlaen bob cam
 I 'mofyn am yr afon.

268.

Y pur o galon.

(8, 7.)

- 1 GWYN fyd y rhai dileaist eu bai,
 Eu pechod a'u hanwiredd ;
 Gan roi iddynt nerth, er cnawd a byd,
 I bara hyd y diwedd.

- 2 Y rhai sy'n cadw'th hedd o hyd,
Er gwatwar byd a'i ddrygau ;
Gan wyllo beunydd yn ddigoll
Ar gadw'th holl gyfreithiau.
- 3 Pa ddrwg wna'r gelyn i'r rhai hyn
Sy'n rhodio yn dy ddeddfau ?
Cyfeillach dawel bur â Dduw,
Gânt yn mhob rhyw gyflyrau.

269. *Y gwahaniaeth rhwng daear a nefoedd.* (M.H.)

- 1 Fy ffiol yma sydd yn llawn
O ddyfroedd Mara chwerwon iawn ;
Ond gofid, yn y nefol dir,
A lyngcir gan lawenydd pur.
- 2 'Dyw cariad yma yn ucha' man,
Ond megis rhyw ddymuniad gwan ;
Ond y wreichionen leia' sy'
Yn wenfflam yn y nefoedd fry.
- 3 Llawenydd mwyaf yma gawn
Sydd fel rhyw ddafnau bychain iawn ;
Ond yno'n foroedd mawr didrai,
Yn boddi'r etholedig rai.
- 4 Fy ffydd sy'n methu gwel'd yn glir,
Ond yno try yn olwg bur :
Fy nghobaith am y nefol wlad
A lyngcir yno mewn mwynhâd.
- 5 Rhyw friwsion yw fy rhan yn awr,
Ond yno gwledd dragwyddol fawr ;
Fy mawl sydd yma yn oer a syth,
Mi ganaf draw heb flino byth.

- 6 Cysgodau'r hwyr yn t'w'llu sy'
A ffoant ffwrdd yn Sion fry ;
Heb len y câf ei weled ef,
Wyneb yn wyneb yn y nef.

270. '*Deffro ogleddwynt a thyred ddeheuwynt.*' (M.H.)

- 1 O TYRED y gogleddwynt pur,
Anadla ar holl lysiau'n tir ;
Ac oni ddeui mewn iawn bryd,
Fe wywa'n grasau oll i gyd.
- 2 Tyr'd a'r awelon hyny lawr
Sy'n deffro arg'oeddiadau mawr :
Tyr'd dithau y deheuwynt clud
Sy'n codi'n henaid uwch y byd.
- 3 O tyr'd i'th ardd, f'Anwylyd pur,
Mae'r amser hebot yma'n hir ;
Bwyta dy ffrwyth o nefol rin.
Pereiddiaf, blenaist ti dy hun.

271.

Gan edrych ar Iesu.

(M. C.)

- 1 FY enaid diange tua'r làn,
Nac ofna'r drygau hyn ;
A chadw d'olwg yn y blaen
Yn union at y bryn.
- 2 Edrychaf ar y croesbren trwm
Fu ar ei ysgwydd Ef,
A'r goron ddrain fu ar ei ben,
Pan brynodd imi'r nef.
- 3 Mae'n eiriol heddyw o flaen y fainge,
Yn cofio'i boen â'i waed ;

Ac wedi gwneyd tragwyddol hedd
'Nawr rhyngof fi a'r Tâd.

- 4 O na allwn rodio er ei glod,
Ac iddo bellach fyw,
A phob anadliad fyn'd i maes
I ganmol grâs fy Nuw!

272.

Cyfeillion ymadawedig.

(M. C.)

- 1 MAE pererinion draw o'm blaen
Yn canu'r anthem bur,
Ac heddyw'n edrych fel o bell,
Ar ddrysnï'r diffaith dir.
- 2 Maent hwy'n rhyfeddu'r dwyfol râs
A'u nerthodd ar eu taith;
A chanu cariad addfwyn Oen,
Ffyddlonaf, yw eu gwaith.
- 3 O nertha finnau i edrych draw,
Heb wyro o un tu;
Nes imi gyrhaedd mewn i byrth
Caersalem newydd fry.
- 4 Rho'r delyn auraidd yn ein llaw,
Ac yn ein hysbryd dân;
Ac yn mheryglon anial dir,
Erfyniau pur a chân.
- 5 Ni awn fel hyn y'ngwres y nef
Fel un lluosog lu,
Trwy demtasiynau fwy na rhif
I mewn i'r nefoedd fry.

273.

Gweddi mewn cystudd.

(8, 7. D.)

- 1 TAN y don yr wyf yn llefain,
Mae mynyddau ar fy mhen;
Llen ar len sydd o gymylau,
Duon rhyngof fi a'r nen:
Ni fydd rhan o'm cnawd a'm hysbryd,
Tra f'wyf yma byth yn iach,
Tyred, Arglwydd, a datguddia
'Th hunan imi ronyn bach.
- 2 Codi'm llygaid 'rwyf i fynu,
Edrych beunydd tua'r nef;
Felly 'rwyf yn treulo'r oriau,
Dim ond dysgwyl wrtho Ef:
Dagrau ac ochneidiau trymion
Yw fy mywyd yn y byd,
Dim dybenion o ruddfanau,
Oni châf dy wynebpryd.

274.

Yr ail ran.

(8, 7, D.)

- 1 MAE fy nghalon wedi gwywo,
Fel y ddae'r mewn sychder mawr,
Pan na byddo cawod hyfryd
Yn dyferu arni lawr:
Mae'm meddyliau i gyd mewn terfysg,
Ac yn ddyrus iawn yn gwau;
Nid oes dyben ar fy nghystudd,
Ond yn unig dy fwynhau.
- 2 Edrych ar y pair 'rwy'i ynddo,
Nâ'd i'r fflamau mawr eu grym
Sydd o'm cylch yn awr yn llosgi,
Wneuthur drwg tragwyddol im':

C'wilydd, gwarth, a chroesau trymion,
 Sydd yn curo arna'i'n un,
 Ac nid oes a'm deil i fynu
 Ond dy Ysbryd di dy hun.

275.

Ymroddiad.

(8, 7, D.)

- 1 AR dy allu 'rwy'n ymddiried,
 Mi anturiaf doed a ddel,
 Dreiddio drwy'r afonydd dyfnion,
 Mae dy eiriau oll tan sêl :
 Fyth ni fetha greddo ynot,
 Safodd un erioed yn ol,
 Mi â 'mlaen, a doed a ddelo,
 Craig neu wastad, ar dy ol.
- 2 Ffarwel deiau, ffarwel diroedd,
 A'r eilunod pena' 'rioed ;
 Mi'ch tyngheda' ngwydd y nefoedd,
 Na ddilynoch ol fy nhroed :
 Myn'd 'rwy'i'n llwyr tua thir y bywyd,
 Ffon yn unig yn fy llaw,
 Mi â mlaen tros yr Iorrdonen,
 Mae 'nghyfeillion anwyl draw.

276.

Dyogelwch yn Nuw.

(8, 7, 6, 7.)

- 1 DOED y dilyw i deyrnasu
 Etto unwaith fel o'r blaen,
 Aed y cyfan yn gymysgfa,
 Daear, awyr, dw'r a thân :
 Dedwydd fi yn y lli',
 Tra bo'm Duw'n teyrnasu fry.

- 2 Colled pob blodeuyn hyfryd
 Ei holl degwch îs y rhod ;
 Doed salwineb ar bob wyneb
 O'r creaduriaid sydd yn bod :
 Tegwch byd, sydd ynghyd,
 Oll yn wyneb Prynwr drud.
- 3 Pe diffoddai'r heulwen dysglaer
 Yn yr awyr deneu lân ;
 A phe treuliai'r sêr y fflamau
 Ynddynt sydd o dân i maes ;
 Mi gâf fyw gyda'm Duw,
 Mewn gogoniant byth heb friw.
- 4 Mi gâf fod o flaen yr orsoedd,
 Mi gâf ganu'r anthem bur,
 Pan ddarfyddo sôn am ddaear,
 Sôn am foroedd, sôn am dir :
 Dwyfol loes angeu'r groes,
 Fydd y canu ddydd a nos.

277. *Diwedd pob peth a nesaodd.* (8, 7, D.)

- 1 Y MAE'R heulwen wedi blino
 Teithio yn yr wybr lân ;
 Daear drom yn mron diffygio
 Porthi'r llyisiau sy'n y maes ;
 Mae'r planedau'n gwaeddi diwedd,
 Pob creadur yn ei ryw,
 Yn ochneidio am gael gweled
 Gwir ddatguddiad meibion Duw.
- 2 Y mae'r oriau yn fy ngalw
 'N ddyfal beunydd i 'mbartoi ;

Tân sy'n d'od ar ddinas dystryw,
 Tua Soar imi ffoi :
 Arglwydd, 'mafael ynwy'n fuan,
 Onidê ni ddeuaf byth ;
 Tra bo'r tân yn llosgi Sodom,
 Yn y bryniau gwna fy nyth.

278.

Ymryson ag angeu.

(8, 7, D.)

- 1 ANGEU'N llawen sydd a'i afael,
 Pwysa beunydd gam ymlaen,
 Rhif fy esgyrn a'm haelodau,
 Tan ei allu 'rawrhon maen'
 Pob gwythien fach o'i ochr,
 Y mae'n cloddio tan fy sail ;
 Gwelai'n ceisio taro ergyd
 Na raid taro fyth ei ail.
- 2 Taro angeu ; ond, yn gyntaf,
 Edrych pwy sydd wrth fy nglin
 Alpha, Omega, Tad a welir
 'Nawr yn gwisgo natur dyn :
 Ar dy waith yn annel ataf,
 I ei glwyfau'n union ffo',
 Ti ostyngir, ond ceir gweled,
 Pwy wyf finnau ar fyr dro.
- 3 Cân fy enaid, wrth ymadael
 A'r carchardŷ tywyll du ;
 Mor llawn o bysg ag ydyw'r moroedd,
 O hadau pob afiechyd sy' ;
 Lawr a'r corff i ddyfnder daear,
 Fynu, f'enaid tua'r nen,
 Rhaid i'm llwch er maned ydyw
 Godi etto i'r nefoedd wen.

279. *Gwagedd pob peth dan haul.* (M. H.)

- 1 OND ofer ceisio gwynfyd llawn,
Can's gwynfyd perffaith byth nis cawn
Nes cyrhaedd at ein Prynwr pur,
A sengu ar y sanctaidd dir.
- 2 'Does dim o gylch yr awyr fry,
Neu ynte oddeutu'r ddaear ddu,
Dim f'enaidd, dim a leinw ddyn,
Neu dal ei garu ond Duw ei hun.
- 3 Cael profi'i hedd a'i fywiol rês
Yw'r nefoedd ar y ddaear lês ;
A'm nefoedd byth yn nef y nef
Fydd edrych yn ei wyneb Ef.
- 4 Pa'm saif yr oriau draw mor bell,
Cy'd, O fy Nuw, am ddinas well ?
Hollted y wybr fry uwch ben,
I nodi'm ffordd i'r nefoedd wen.
- 5 Fy Nuw, tor y llinynau hyn
A'm rhwymant wrth y clai mor dyn ;
Rhyw angel cryf cymered fi,
'Mestyned tua'r nefoedd fry.

280. *Ar yr un testun.* (M. C.)

- 1 WRTH droi fy ngolwg yma 'nawr
I gyrau'r greadigaeth fawr,
Gwrthddrych ni wel fy enaid gwan
Ond Iesu i bwysu arno'n rhan.
- 2 Pa'm carai'r byd a'i wagedd mwy,
Hyd angyf'n brin y deuant hwy ;

Gwell imi garu'r ffrynd a ddaw
Yn angeu i 'maflyd yn fy llaw.

- 3 Darfydded caru tref a gwlad,
Na brawd, na phriod, mam na thad ;
'Does neb a welwyd is y rhod
Ond Iesu, dal ei garu erioed.

281.

Dyddanwch Duw.

(M. H.)

- 1 TYDI, fy Nuw, tydi i gyd,
Yw'r cwbl a feddaf yn y byd ;
Yr wyt yn well, yr wyt yn well,
Na'r India bell a'i pherlau drud.
- 2 O fewn yr anial dyrys maith,
Yn dysgwyl hyfryd ben fy nhaith ;
'Rwy'n gwel'd yn wir, 'rwy'n gwel'd yn wir,
Yr oriau'n hir heb dy fwynhau.
- 3 Yn nyfnder pob rhyw drallod mae
Un radd o'th wedd yn llawenhâu ;
Dyddanwch sy', dyddanwch sy',
'N dy wyneb cu sydd well na'r byd.
- 4 Mae'r fynydd leiaf bach o'r awr
I garu fy Iachawdwr mawr,
Yn well bob dydd, yn well bob dydd,
Na'r cwbl sydd o dan yr haul.
- 5 Aed hebio'm dyddiau bob yr un,
Wrth garu'm Crëwr mawr yn ddyn ;
Fy enaid cân, fy enaid cân,
I'th Brynwr glân, a dos i'r bedd.

282.

Mawl a gweddi.

(M. H.)

- 1 FY mywyd wyt, fy Nuw, fy Nhad,
Cynneliaist f'enaïd ar ei draed ;
De'st a fi maes, de'st a fi maes,
Er angeu glâs, o groth y bedd.
- 2 Pan oeddwn i yn gyru 'm laen
'Rhyd llwybr rhydd tuag uffern dân,
Ti dd'wedaist air, ti dd'wedaist air,
A hwnw bair tra paro nef.
- 3 Ti roddaist blâau lawer iawn
Ar fy mhechodau fore a nawn ;
Fe wawria'r dydd, fe wawria'r dydd,
Im' dd'od yn rhydd, mae hyn gerllaw.
- 4 Pan elo'm newyn i yn fawr,
Dyhidla o'r nefoedd fânna i lawr ;
Daw dŵr i maes, daw dŵr i maes,
Yn afon lân o greigydd byw.

283.

Ymfrostio yn Nuw.

(6, 6, 8, 8.)

- 1 YMFROSTIED daear faith
Oll yn ei gwaith ei hun,
Ac ymddirieded rhai
Mewn daear, neu mewn dyn :
Nid ymddiriedaf tra b'wyf byw
Mewn dim o tan y nef ond Duw.
- 2 Oddiwrtho'n unig daw
Ngorfoledd a fy hedd ;
Oddiyno rhed yn gylch,
Tu yma a thraw i'r bedd :
Er darfod haul a sér y nef,
Ni dderfydd ei ffyddlondeb Ef.

- 3 Y gair melusa' 'rioed,
 Y cryfaf air ei rym,
 Mi a'i hail adroddaf ef,
 Bod Duw yn briod im' :
 Mae hyfryd sŵn a sylwedd hwn,
 Yn tynu ffwrdd fy maich a'm pwn.

284.

Ymbiliau.

(6, 6, 4.)

- 1 O EDRYCH Iesu mawr,
 I waelod dyfnder mawr,
 Ar glwyfus ddyn,
 Sy' wedi'i ddryllio'n friw,
 Gan bechod o bob rhyw,
 Gelynion greulon griw,
 Oll yn gytun.
- 2 Euogrwydd o bob gradd,
 Sydd heddyw bron fy lladd,
 Fe'm gwnaeth yn wan :
 'Rwy'n methu sefyll dim
 O flaen gelynion llym,
 Sy'n bostio'u hanferth rym,
 O ! dal fi i'r lan.
- 3 O tyred fywiol air,
 'Does elyn oll a gair
 Wrthsaif dy rās :
 Yr hyn f'o yn dy fryd
 A ddaw i ben i gyd,
 Pe uffern fawr a'r byd
 A safai maes.
- 4 D'elynion y'nt, fy Nuw,
 Rho di dy hun hwy'n friw,
 Ti'n unig wnai :

Bydd canu am dy ddawn,
Pan ddarffo bore a nawn,
Yn beraidd hyfryd iawn,
Byth i barhau.

285.

Calfaria.

(8, 8, 8.)

- 1 BOED bryn y groes, boed Calfari,
Yn uwch na'r bryniau mwya'u bri,
Can's yno y collwyd gwaed fy Nuw :
Ac yno rhedodd cariad pur
Yn afon ddifrycheulyd glir,
Yn golchi'r ffaidd, du ei liw.
- 2 Na foed im' feddwl ddydd na nos
Ond cariad perffaith angeu'r groes ;
Hon alwaf mwy yn orsedd grâs :
Ar Galfari mae maingc y nef,
Yn agos at ei orsedd Ef,
Oddiyno rhoddir hedd i maes.

286.

Ymgysuro yn erbyn gofid.

(8, 7, 4, 7.)

- 1 DAN ryw anaf maith a chwerw,
Drefnodd f'Arglwydd imi'n un ;
Tymhestl oer yn fy meddyliau,
Ac oddiallan yn gytun :
Dwy farwolaeth, &c.
Drefnodd grâs imi fyn'd trwy.
- 2 Etto fy nghystuddiau mawrion,
Sydd yn feddyginiaeth lym ;
Ac fe fedr grâs i wneuthur
Croesau blin yn ganu im' :
Mwya' nghroesau, &c.
Mwya' rywbryd fydd fy nghân.

- 3 'Rwyf fi ar y cefnfor garw,
 Yn anturio edrych draw,
 Ac o gefn y don yn canfod
 Tir y bywyd pell gerllaw :
 Mewn addewid, &c.
 'Rwyf mor agos at y wlad,

287. *Ymroddiad i ewyllys Duw.* (8, 7, D.)

- 1 TYRED, Arglwydd, tyr'd yn fuan,
 Dim a'm boddia tan y ne',
 Neb ond ti a ddeil fy ysbryd
 Gwan, lluddedig, yn ei le :
 Neb ond ti a gwyd fy enaid
 Llesg o'r pydew du i'r lan ;
 Os tydi sy'n gwneyd im' ochain,
 Ti'm gwnai'n llawen yn y man.
- 2 Hwyl fy enaid sydd wrth d'wyllys,
 Fel y mynost mae yn bod ;
 Oll o mewn ac oll oddiallan,
 Ddygwydd imi îs y rhod :
 'Nawr ti'm codi i'r lan i'r nefoedd,
 Eilwaith ti'm gostyngi lawr ;
 Mae dy gerydd a dy gariad,
 Im' yr un ryfeddod fawr.
- 3 Tyr'd rho gerydd im' neu gariad,
 'Run a fynech di dy hun ;
 Ond trwy'r cwbl cadw f'ysbryd
 A'th ewyllys yn gytun :
 Tros y bryniau gwna im' gerdded
 Tuag adre'n ddinacâd,
 Heb un lle i edrych arno
 Ond ar degwch tŷ fy Nhad.

288.

Ffarweliad.

(8, 7, D.)

- 1 FFARWEL i chwi gynt a gerais,
 Nid yw'ch cwmni, nid yw'ch gwedd,
 Nid yw'r cariad sy'n eich calon
 Ragor na d'od at y bedd :
 Pan ddél angeu chwi ffowch ymaith,
 Da i mi fod genyf Dduw ;
 Ffrynd fo gydaf wedi marw,
 Hwnw garaf tra f'wy'i byw.
- 2 Ffarwel, ffarwel, oll a gerais,
 'Rwyf fi bron a myn'd i fyd
 Lle mae brodyr a chyfeillion
 Newydd gennyf oll i gyd ;
 Etto nid wyf fi ond blaenu,
 Daw'm perth'nasau yn y man ;
 Ni gyfodwn gyda'n gilydd
 Yn y bore, 'n bur i'r lan.
- 3 'Rwyf yn awr yn gryf i farw,
 'Rwyf yn awr yn gryf i fyw ;
 Er mor waned wyf i ymdrech,
 Fe goncwerodd Iesu'm Duw :
 Yn ei goncwest 'rwy'n ymddiried,
 Sylfaen yw ei angeu loes ;
 Lladd fy mhechod fi mewn mynyd,
 Oni edrychaf at ei groes.

289.

Parodrwydd i farw.

(8, 7, D.)

- 1 'NAWR 'rwy'n barod i anturio
 Yn dy allu mawr dy hun,
 I anturio yn wyneb angeu,
 Sydd yn gryfach nag un dyn :

Gwaed yn llifo ar y croesbren,
 Dynol, farwol, ddwyfol glwy',
 Wna i'm henaid er mor waned,
 Loesion angeu fyned trwy.

- 2 'Rwyf yn foddlon iawn i 'madael,
 Trefna'r awr, a threfna'r fan,
 Ond yn ymchwydd yr Iorddonen,
 Dal fy ysbryd llesg i'r lân :
 Nâd fi suddo tan y tonau,
 Pan b'o angeu'n fawr ei rym,
 'Mafael ynof yn dy freichiau,
 Na'd im henaid ofni dim.

290.

Yr ail ran.

(8, 7, D.)

- 1 PA'M ymafael tristwch ynof,
 Wrth fyfyrion 'mado â'r byd?
 Pechod a chystuddiau duon,
 Welais ynddo oll i gyd :
 Ni ddaeth hanner fy nysgwyliad
 Yma etto erioed i ben ;
 O na wnaethwn yn foreuach
 Fy nghartrefle uwch y nen !
- 2 Mae nghyfeillion wedi myned
 Draw yn lluoedd o fy mlaen,
 Rhai fu'n myn'd trwy ddyffryn Bacca
 Gyda mi i Salem lân :
 Yn y dyffryn tywyll garw,
 Ffydd i'r lan â'u daliodd hwy ;
 Mae'r addewid lawn i minnau,
 Pa'm yr ofna'm henaid mwy?

291. *Cynghor yr Arglwydd a saif.* (11au.)

FE ddarfu pob ofn, y gair ddaeth i maes
 O arfaeth y nefoedd, yn rym ac yn ras ;
 Yr hyn ysgrifenwyd yn llyfr y nen,
 Pwy bynag wrth'nebo, sy'n siwr ddod i ben.

Y gair a lefaro sy'n nerthol a byw,
 Fe holltodd y creigiau pan lefodd fy Nuw ;
 'Dyw pechod, 'dyw satan, er cymaint eu grym,
 Yn ngwyddfod y nefoedd, ond amwyd neu ddim.

Chwibana fy Arglwydd ei fyddin ynghyd,
 O'r dwyrain, a'r dehau, o eithaf y byd :
 O'r Aifft daw gwybedyn, gwenynen o Seir,
 Hwy fwrddrant fy mhechod er cryfed y'i ceir.

Caiff trallod a chystudd, a gwialen a gwae,
 Gwawd, ing, ac erlidiau i guro fy mai ;
 Caiff angeu ei hunan i'm gwneuthur yn rhydd,
 O'm cedyrn gadwynau cyn collwyf y dydd.

Y clod, y gogoniant, a'r gallu o bob rhyw,
 A redo fel moroedd i enw fy Nuw ;
 Y dechreu a'r diwedd o'r ddaear i'r ne',
 O rês ac o haeddiant ei hunan yw E'.

292. *Goluni a rhyddid.* (8, 7. D.)

1 O IACHAWDWR pechaduriaid
 Sydd a'r gallu yn dy law,
 Rho oleuni, hwyliam henaid
 Dros y cefnfor garw draw :

Gad y wawr fod o fy wyneb,
 Rho fy enaid llesg yn rhydd,
 Nes i'r heulwen ddysglaer godi,
 Tywys fi wrth y seren ddydd.

- 2 Bliniais ar afonydd Babel,
 Nid oes yno ond wylo i gyd;
 Llais telynau hyfryd Sion
 Sydd yn cyson ddenu mryd:
 Tyr'd â ni, yn dorf gariadus,
 O gaethiwed Babel fawr;
 Ac nes b'ôm ar fynydd Sion,
 Na'd in' orphwys mynyd awr.

293.

Siomedigaethau'r byd.

(8, 7. D.)

- 1 DYSGWYL pethau gwych i ddyfod,
 Croes i hyny maent yn d'od;
 Meddwl foru daw gorfoledd,
 Foru'r tristwch mwya' 'rioed:
 Meddwl byw, ac etto marw
 Yw'r lleferydd tan fy mron;
 Bob yn ronyn mi ro'f ffarwel,
 Ffarwel glân i'r ddaear hon.

- 2 Trof fy llygaid gylch o gwmpas,
 P'le câf bleser tan yr haul?
 Os â'i garu un creadur,
 Megis pe na byddai'i ail,
 Hwnw'n fuan ddianc arnaf,
 Neu myfi oddiarno ef,
 Ni châf bleser gyd-ymgerddo
 A mi'n unlle tan y ne'.

294.

Llef yr Arglwydd.

(8, 7, 6, 7.)

- 1 ARGLWYDD, anfon dy leferydd
Heddyw yn ei rwysg a'i rym ;
Dangos fod dy lais yn gryfach
Nas gall dyn wrthsefyll dim :
Cerdd ymlaen, nefol dân,
Cymer yma feddiant glân.
- 2 Grym dy lef a nerth dy eiriau,
Sydd yn codi'r marw o'r bedd ;
Mae agoriad nef ac uffern,
Yna i'w deimlo ar dy wedd :
Gair dy rês, pur ei flês,
'Nawr a ddetgly 'nghalon gês.

295.

Trysorau'r Groes.

(M. C.)

- 1 NIS gall angelion nef y nef,
A'u doniau aml hwy,
Fyth osod allan werthfawr brîs
Anfeidrol ddwyfol glwy.
- 2 Dyoddefodd angeu dygn boen,
A gofir tra fo'r nef :
Fy nerth, fy nghyfoeth, a fy mraint,
A'm noddfa lawn yw Ef.
- 3 Mae ynddo'i hunan drysor mwy
Nag fedd yr India lawn ;
Fe brynodd imi fwy na'r byd
Ar groesbren un prydawn.
- 4 Darparodd imi auraidd wisg,
Trwy ddyoddef marwol glwy ;

A'i angyeu ef a guddia'm gwarth,
I dragwyddoldeb mwy.

296.

Clod i'r Iesu.

(M. B. D.)

- 1 I'R IESU byddo'r clod
Tra fyddo bod na byd ;
Efe oedd cyn y diluw mawr,
Efe sy'n awr o hyd ;
Yn gyfaill ac yn Dduw
Pob llwythau, rhyw, ac iaith ;
Efe a'n harwain uwch y nen
Yn iach i ben ein taith.
- 2 'Does bellach ddim ond mawl,
A chanmawl fyth ein Duw,
Ein tŵr a'n tarian yn mhob man,
Efe ei hunan yw ;
'Dyw pechod er ei rym,
Euogrwydd llym a'i boen,
O bwysau ddim o flaen y Tad,
At werthfawr waed yr Oen.
- 3 Ffarwel f'o i haeddiant dyn,
Ffarwel at ddyn i fyn'd ;
Ffarwel ddoethineb a phob dawn,
F'o i natur lawn yn ffrynd :
Aeth dyn â'i allu mawr,
Yn awr i lawr yn ddim ;
Boed Iesu bellach yn mhob man
Fy nharian a fy ngrym.

297.

Dysgwyliad.

(8, 7, 4, 7.)

- 1 DYSGWYL 'rwyf ar hyd yr hirnos,
Dysgwyl am y bore ddydd ;

- Dysgwyl clywed pyrth yn agor,
 A chadwynau'n myn'd yn rhydd :
 Dysgwyl goleu, &c.
 Pur, yn nh'wllwch dudew'r nôs.
- 2 Grym fy nwydau sy'n fy mhoeni,
 Grym f'euogrwydd a fy mai ;
 Methu eilwaith beidio pechu,
 Eilwaith methu edifarhau :
 I'm gwaredu, &c.
 O na welwn foreu wawr.
- 3 Daw, fe ddaw y wawr-wen oleu,
 Nes b'or cwmwl du yn ffoi ;
 Tarth a niwl yn cyd-ddiflanu,
 Ac oedd wedi cydgrynhoi :
 Dyma'r oriau, &c.
 Wyf yn dysgwyl fod gerllaw.
- 4 Prin 'rwy'i'n awr yn ofni'r beddrod,
 Tiroedd tawel fy iachâd ;
 Lle ca'm corff i gysgu noswaith
 Faith ryfeddol ei pharhâd :
 Tàn adenydd, &c.
 Mwyn llareiddiaf Brenin nef.

298.

Tragwyddoldeb.

(8, 7. D.)

- 1 Y MAE tragwyddoldeb äang
 'Nawr yn ddysglaer o fy mlaen,
 Ac 'rwyf finnau fel yn darfod
 A'r gre'digaeth fawr yn lân ;
 Aeth fy nghartref hwn yn anghof
 Oer a diflas yw i gyd,
 Mae fy lle o heddyw allan
 Mewn tragwyddol nefol fyd.



- 2 Nid oes terfyn ar flynyddau
 Yn y wlad a welaf draw,
 Nid yw myrdd o oesau meithion,
 Yno'n unig ond lled llaw :
 Sylwedd ydyw oll sy'n dyfod,
 Oll sy'n dyfod sy'n parhau,
 Pethau hyfryd, pur, digymysg,
 Gâf ar fyrder eu mwynhau.
- 3 Yno erys fy nedwyddwch,
 Heb gymysgu fyth yn un,
 Digyfnawid gwrthddrych cariad,
 Felly cariad pur ei hun ;
 'Run fydd Duw i dragwyddoldeb,
 Môr o gariad heb ddim trai ;
 Fel efe bydd fy hapusrwydd,
 Ffrwd lifeiriol yn parhau.

299.

Ymbiliau.

(M. C.)

- 1 DYMA bechadur truan gwan,
 Yn griddfan tân ei boen ;
 Yn methu d'od i'r ffynnon rad
 Sancteiddiaf waed yr Oen.
- 2 Euogrwydd megis cenllif mawr,
 Yn curo lawr fy mhen ;
 Yn attal f'enaid egwan cu
 I edrych tua'r nen.
- 3 Aed hebio'r oriau yn ddioed,
 A'r fynyd doed i ben,
 Pan caffo caethwas angeu du
 Ei godi fry i'r nen.

4 O tyred at yr eiddil hwn,
 Sy' er's tridiau yn y bedd;
 A dod yr Ethiop du ei liw
 Yn ganaid ar dy wedd.

5 Ti fedri wneyd y porphor a'r
 Yscarlet cocha'i ryw,
 Megis yr eira ar y bryn,
 A'r llian gwyn ei liw.

300.

Concwest a chân.

(6, 6, 8, 8.)

1 WEL bellach tyr'd ymlaen,
 Nag ofna f'enaïd mwy,
 Llai grym sy'n uffern dân
 Na dwyfol farwol glwy;
 Mae'r gwaed, mae'r gwaed a gollodd Ef,
 Yn uwch ei bris o fewn i'r nef.

2 Mae'r orsedd wen yn rhydd,
 Aeth Magdalen ymlaen,
 Manasse hefyd sy'
 Yn seinio'r nefol gân:
 Mi glywa' sŵn, sŵn peraidd yw,
 Am ddwyfol rinwedd gwaed fy Nuw.

3 O fewn Caersalem lân
 Mi wela' fyrdd o saint,
 Wedi diengu ymlaen
 Tros fryniau mawr eu mhaint:
 Dilynaf ôl y dyrfa hon,
 Er dŵr a thân, a llif a thôn.

4 Pe duai'r wybr wen,
 Mi gana' o hyn i maes,

Tra tafod yn fy mhen,
 Am effaith hyfryd râs :
 Pa ofn sy mwy ?—mae'r cwmwl tân,
 A'r niwl y nos, yn ledio ymlaen.

301. *Mwynhâu Duw.* (6, 6, 8, 8.)

1 O TYRED Arglwydd mawr,
 'Does yma ddim ond gwae,
 O eitha'r nen i lawr,
 Oni châf dy fwynhau :
 Y wledd, y wledd, a'm gwna yn llon,
 Yw cael dy wel'd y fynydd hon.

2 Fe laesa'r storom fawr,
 Fe laesa'r awel gref,
 Pan delo gair i lawr
 O'i sanctaidd enau Ef :
 Duw yw efe, os ef a bair
 Cwypmp nef ac uffern at ei air.

302. *Erfyniad enaid ofnus am ymwarded.* (8, 7, 4 7.)

1 DACW uffern yn ei harfau,
 Dyma bechod yn ei rym ;
 Dyma f'ofnau innau'n bygwth
 N'allaf eu gorchfygu ddim :
 Gallu'r nefoedd, &c.
 Tyr'd i waered, dyma'r awr.

2 Dysg y galon drist i chwerthin,
 Dysg y mudan seinio cân ;
 Dysg yr ofnus gwan i gludo
 Uffern fawr i lawr o'i flaen :
 Try wylofain, &c.
 Yn ganiadau Calfari.

- 3 O na ro'i'r winwydden hyfryd
 Beth o'i ffrwythau i lawenhau,
 Enaid flinodd gan och'neidio,
 Enaid flinodd gan dristâu :
 Deued bellach, &c.
 Deued blodau, deued hâf.

303.

Gogoniant y Groes.

(6, 6, 8, 8.)

- 1 MAE enw Calfari,
 Fu gynt yn w'radwydd mawr,
 Yn ngolwg f'enaid cu
 Yn fwy na'r nef yn awr :
 O dedwydd fryn ! sancteiddiaf le,
 Dderbyniodd ddwyfol waed y ne' !
- 2 'Rwy'i'n caru'r hyfryd awr,
 Mi gara'r hyfryd le,
 Mi gara bren y groes
 Orweddodd arno Fe :
 Dyma fy Nuw, dyma fy mhen,
 Ag oll a feddaf ar y pren.
- 3 Ffarwel deganau byd,
 Mae'ch blodau hyfryd iawn
 Oll yn diflanu 'nghyd
 Ar Galfari brydnawn :
 Mae da, mae dyn, a maint eu grym,
 Yngwydd y groes yn myn'd yn ddim.

304.

Pwyso ar Grist.

(8, 7, 4, 7.)

- 1 TI, fy Arglwydd, a'm cenedlaist,
 Gwaith dy fy fysedd wyf i gyd ;

- Pob gwythien bach, pob asgwrn,
 Rifwyd yn dy arfaeth ddrud :
 Dal fi fynu, &c.
 Hebot ti ni allaf ddim.
- 2 Cofia'th boenau ar Galfaria,
 Cofia i ti gario'r groes,
 Cofia gur yr hoelion llymion,
 Cofia'th chwerw angeu loes :
 Rho imi heddwch, &c.
 Rho imi'r nefoedd er eu mwyn.
- 3 Er dy fod di heddyw'n eistedd
 Yn ngogoniant nef y nef,
 Mewn goleuni mor ddysgleiried,
 Na ellir nesu ato ef :
 'Rwyt yn edrych, &c.
 Ar d'anwylaf yn y byd.
- 4 Dyma'th gariad, dyma'th briod,
 Heddyw'n griddfan o dy flaen ;
 Tros ein henaid y dyoddefaist
 Boenau megys uffern dân :
 Ti yw'r cwbl, &c.
 Heddyw feddwn yn y byd.

305.

Meddyliau ofer.

(8, 7. D.)

- 1 Fy meddyliau sydd yn hedeg,
 Weithiau i'r dwyrain, weithiau i'r de,
 Treilio'm dyddiau gwerthfawrocaf,
 Rywle' mhell oddiwrth y ne' ;
 Lleng 'nol lleng olynol ganlyn,
 Ynof o feddyliau gau,
 Heddyw'n newid, ddoe yn drysu,
 Ddoe a heddyw yn parhau.

2 Bryniau maith uwch pwys o wagedd,
 Am un meddwl nefol pur ;
 Mwy yw'r Aipht o flaen fy ngolwg
 Nag yw'r Ganaan nefol dir :
 O amseroedd, deuwch bellach,
 Coded haul, a gwawried dydd,
 I'r cadwynau prês a haiarn
 Sy' am f'enaid fyn'd yn rhydd.

3 Ti 'sgrifenaist gynt ar gerig
 Ddeddfau cywir, sanctaidd pur,
 Nid anhawsach it' 'sgrifenu
 Etto 'nawr, ar galon ddur ;
 Os buost farw tros un ffaidd,
 Aflan, Arglwydd, fel myfi,
 O na âd fi fod yn estron
 I rasmusau'r nefoedd fry.

306.

Gwerthfawr waed Crist.

(8, 8, 8.)

1 Y PENAF drysor heddyw yw
 O fewn y nefoedd, gwaed fy Nuw,
 Holl sylwedd y caniadau i gyd :
 A dyma'r gwaed a roddodd lawn,
 I ddwyfol ddigter perffaith lawn,
 Fy hedd a'm cysur yn y byd.

2 Am iddo farw ar y bryn,
 Ca'dd f'enaid bach ei ganu'n wyn,
 A'i dynu o'i gadwynau'n rhydd :
 Wel bellach tan ei haeddiant Ef,
 Fel cysgod cedrwydden gref,
 Gorphwysaf mwy yn ngwres y dydd.

245.

Ar yr un testun.

(8, 8, 8.)

- 1 PA'M 'rofnaf dew gymylau'r nos,
Ffo, f'enaïd ofnus, at y groes,
A gwel hi drosti oll yn waed :
A dacw'r man mae llawenhau,
Pan b'o cystuddiau'n amlhau,
Y noddfa drefnwyd gan fy Nhad.
- 2 Bu griddfan caled arno Ef,
Nes crynu'r ddae'r a duo'r nef,
Nes rhwygo'r creigydd serth yn friw ;
Griddfanodd Ef, dyoddefodd wae,
Fel gallwn innau lawenhau,
A hoffi fyth a charu'm Duw.

308.

Gofal Rhagluniaeth.

(8, 7, 4, 7.)

- 1 BOED fy mywyd oll yn ddiolch,
Dim ond diolch yw fy lle ;
Ni wna gwardigaeth ragor
I greadur îs y ne' :
Gallu'r nefoedd, &c.
Oedd a'm daliodd i i'r lan.
- 2 Ar y dibyn bu'm yn chwarae,
Lawr ped aethai'm henaïd gwan,
Nid oedd bosibl imi godi
Fyth o'r dyfnder hwnw i'r làn :
Iesu, Iesu, &c.
Ti sy'n trefnu oll dy hun.
- 3 Rhaid oedd bod rhagluniaeth ddystaw,
Rhaid oedd bod rhyw arfaeth gref,

Yn fy rhwymo, heb im' wybod,
 Wrth golofnau pur y nef:
 O ragluniaeth, &c.
 Ti sy'n trefnu ddaear faith.

309. *Gofal Rhagluniaeth.* (8, 7, 4, 7.)

1 RHYFEDD, Arglwydd, yw'th ddoethineb,
 Rhyfedd, Arglwydd, yw dy rym;
 Nid oes îs y nef luosog
 All dy wrthwynebu ddim:
 Try'r gre'digaeth, &c.
 Ol a gwrthol wrth dy air.

2 D'air sy'n gwneyd y byw yn farw,
 Eilwaith gwneyd y marw'n fyw;
 D'air a grëodd ac sy'n cynnal
 Lluoedd natur o bob rhyw:
 Ti dy hunan, &c.
 Ydyw bywyd maith y byd.

3 Nid oes geny'i ond dysgwyl wrthyt;
 Gwynfyd a gai dy fwynhau:
 Ynot ti y mae fy nhrysor,
 Trysor bythol i barhau:
 Na âd imi, &c.
 Edrych byth ond tua'r nef.

310. *Perffaith gariad yn bwrw allan ofn.* (8, 7. D.)

1 ER fod angeu yn fy mygwth,
 Er fod angeu'n fawr ei rym,
 Er fod pechod câs o'i ochr,
 Sina'n dywyll ac yn llym;

Duw sy'n fwy na nef nac uffern,
 Mwy nag angeu, mwy na'm bai,
 Mi nid ofnaf fyrdd o honynt,
 Os câf fynyd o'th fwynhau.

- 2 Mae dy gariad uwch pob ofnau,
 Mae'n dy gariad dori 'm laen
 Trwy afonydd dyfnion geirwon,
 Tros fynyddau a thrwy dân ;
 Caru goncra fy mhechodau,
 Caru ddal fy enaid gwan,
 Er pob dim a guro arnaf,
 Yn gadarnaf un i'r lan.

311.

Darfod a phob peth.

(8, 7, D.)

- 1 'RWYF yn darfod ag wy'n weled,
 Mi ddarfyddais heddyw â dyn ;
 'Rwyf yn twymno at yr Iesu,
 Oeri ataf fi fy hun ;
 Mi oddefaf wêg a chariad,
 Erlid adgas neu fwynhau,
 Ac mi âf i fynydd Sion
 Heb fy siomi gan y ddau.

- 2 Dringaf fynu i'r balmwydden,
 Mi gâf fwyta'r sypiau pur ;
 Sy'n digoni rhai anghenus,
 Pererinion Salem dir :
 Mi gâf weled gwlad addewid,
 Sydd yn llifo o laeth a mêl,
 Mi gâf fyned i'w meddiannu,
 Doed y croesau pena' ddêl

312. *Y gogoniant a ddatguddir.* (8, 7, 6, 7.)

1 PAN b'o glaswellt gwyrdd y ddaear
 Wedi methu d'od i'r làn,
 Pan b'o tegwch natur äang
 Wedi darfod yn mhob man;
 Mi gâf wlad, hyfryd räd,
 Faith dragwyddol ei pharhäd.

2 Fe agorir imi yno
 Ryw amrywiaeth faith heb ri',
 O ddirgelion na ddeallir
 Heddyw ar ein daear ni :
 Cariad rhad yn y Tad,
 A ddatguddiwyd yn y gwaed.

3 Fe amlygir rhyw ogoniant
 Na ddeallodd calon dyn,
 Yn yr iachawdwriaeth äang,
 Dyfais Duwdod mawr ei hun :
 Ar y llawr, neb yn awr,
 Ni all ddal fath bethau mawr.

4 Pa mor ddwyfol, pa mor hyfryd,
 Pa mor orfoleddus fydd,
 Pan tywyno gyntaf allan
 Fore tragwyddoldeb ddydd !
 Cael mwyhau heb ddim trai,
 Bethau bellach fo'n parhau.

313. *Heb Dduw, heb ddim.* (8, 7, D.)

1 OFER imi wel'd y ddaear
 Yn egino'i hegin grawn,

- Ofer imi wel'd yr heulwen
 Fawr yn estyn ei phrydnawn ;
 Ofer imi wel'd y blodau
 Yn datguddio'u hyfryd liw,
 Tra b'o neb rhyw un creadur,
 Yn cysgodi gwedd fy Nuw.
- 2 Ymwel, Arglwydd, â phererin
 Sydd yn teithio tua thre,
 Ag a flinodd ar y ddaear,
 Heddyw'n breffu am y ne' ;
 Tyred heulwen glir ddysgleiriaf,
 Ni saif cwmwl lle b'o'th râs,
 Storom gref a dry'n dawelwch
 Fel y gallom rodio i maes.

314.

Wyneb Duw.

(8, 7, D.)

- 1 O PA bryd câf wel'd dy wyneb,
 Oll yn heddwch, oll yn râs,
 Heb un pechod yn fy nglwyfo,
 Nac yn ddirgel gario'r maes ;
 Heb fod rhyngof len a'r bywyd,
 Nac un ysbryd marw syth,
 Heb un waedd yn fy nghydwybod,
 Ond tangnefedd pur dilyth !
- 2 Bryd câf wel'd y tir dymunol,
 Hyfryd baradwysaidd wlad,
 Lle mae brodyr imi filiwn,
 Lle mae Mhriod, lle mae Nhad ;
 Lle câf orphwys o fy llafur,
 Lle câf wella'm dwfn friw,
 A chael gwledd dragwyddol gyson,
 Fry yn ngwmni'm Tad a'm Duw !

315.

Edrych ar Iesu.

(M. C.)

- 1 IESU, dyfyrwch f'enaïd drud
Yw edrych ar dy wedd ;
Ac mae llyth'renau d'enw pur
Yn fywyd ac yn hedd.
- 2 A than dy aden dawel bur
'Rwyf yn dymuno byw,
Heb ymbleseru fyth mewn dim
Ond cariad at fy Nuw.
- 3 Dymunwn yma dreulio'm hoes,
O fore hyd brydnawn ;
Lle cawn I wylo cariad pur
Yn ddagrau melus iawn.

316.

Dyddanwch yn Nghrist.

(M. C.)

- 1 MELUSACH nag yw'r diliau mêl
Yw mynyd o'th fwynhau :
Ac nid oes genyf bleser sydd
Ond hyny yn parhau.
- 2 A phan y syrthio sér y nen
Fel ffigys îr i'r llawr,
Bydd fy nyddanwch heb ddim trai
Oll yn fy Arglwydd mawr.
- 3 'Does gyflwr tan yr awyr lân
'Rwyf ynddo'n chwennych byw,
Ond fy hyfrydwch fyth gaiff fod
O fewn cynteddau'm Duw.
- 4 'Does genyf ond dy allu mawr
I'm nerthu fyn'd ymlaen ;

Dy iachawdwriaeth yw fy ngrym,
Fy ngoncwest a fy nghân.

317. *Y Gwindy.*—CAN. ii. 4, 5. (M. C.)

1 O HYFRYD wleddoedd Canaan wiw,
Gwleddoedd sychedig rai;
Lle y cawn yfed gloëw win,—
Ffynnonau sy'n parhau.

2 Ac yn ei windy ni gawn fyw,
Ac yfed nefol hedd;
Ac ymbleseru yn nhegwch pryd
Ei ddwyfol ddynol wedd.

3 Ei faner gadaru trosom fydd,
Sef cariad marwol glwy';
Cariad heb ddarfod ac heb drai,
I dragwyddoldeb mwy.

318. *Ei law aswy sydd dan fy mhen.* (M. C.)

1 Ei aswy law sydd dan fy mhen,
Ni thyn mo honi yn ol;
A fy nghofleidio mae â'i dde—
'Rwy'n gorwedd yn ei gol.

2 Ac mi dynghedaf bawb o'r byd,
Pob pleser îs y nef,
Na f'ont i ddiffodd mwyach byth
Mo'i Ysbryd sanctaidd Ef.

3 Eisteddaf tan ei gysgod Ef,
A'i ffrwyth sydd felus iawn;
Ac yma treuliaf ddyddiau f'oes
Mewn pur ddedwyddwch llawn.

319. *Fsynnon i bechod ac aflendid.* (8, 7, 6, 7.)

- 1 ER nad ydwyf ond anifail
 Aflan iawn er pan ce's fyw,
 Etto mwy na'm holl aflendid
 Yw cyfiawnder maith fy Nuw:
 Yma mae ffrwd ddirai,
 Sydd yn golchi pob rhyw fai.
- 2 Pe b'ai 'mhechod fel y porphor,
 Ac yn pwyso'r bryniau mawr,
 A'u rhifedi hwynt mor amled,
 A rhifedi gwlyth y wawr ;
 Dwyfol waed rydd lanhâd,
 Cyflawn feddyginiaeth râd.
- 3 Yn y domen ce'st fi ganwaith,
 Yna eilwaith de'st i'm hol:
 Golchaist f'enaïd o'i ffeidd-dra,
 A chymeraist fi'n dy gôl:
 Neb ond ti, Arglwydd cu,
 All'sai olchi euog du.
- 4 Minnau bellach a obeithiaf,
 Gobaith a all estyn f'oes ;
 Gobaith wedi ei sylfaenu
 Ar och'neidiau pur y groes:
 Yma'n rhad câf iachâd,
 Bythol heddwch a rhyddhâd.

320. *Iawn ac eiriolaeth Crist.* (M. H.)

- 1 PECHADUR wyf, da gwyr fy Nuw,
 Llawn o archollion o bob rhyw ;

Yn byw mewn eisiau o waed y groes
Bob mynyd awr o'r dydd a'r nos.

- 2 Ynghanol cyfyngderau caeth,
A myrddiwn o ofidiau maith ;
Gâd imi roddi pwys fy mhen
I orphwys ar dy fynwes wen.
- 3 O cofia fi ger bron y Tad,
A dangos iddo werth dy waed ;
O dadleu 'nawr ynghanol ne',
I ti ro'i'th fywyd yn fy lle.
- 4 O cadw fi'n dy gôf bob awr,
Wrth eiriol yn y nefoedd fawr ;
Dwg f'enw yn llythrenau llawn,
O flaen y fainge yn ëon iawn.
- 5 Gâd imi dreulio nyddiau i gyd,
I edrych ar dy wyneb pryd ;
Dyfyru'm hoes o awr i awr
I garu fy eiriolwr mawr.

321.

Rhad râs.

(M. H.)

- 1 WRTH wel'd fy hun yn ngoleu grâs,
A gwel'd pwy wyf, p'le d'es i maes,
Mae'm tafod hyf yn myn'd yn fud,
A minnau'n gwaeddi, grâs i gyd.
- 2 Pan o'wn yn gorwedd yn fy ngwaed,
Edrychodd Duw o'r nef yn rhâd ;
A d'wedodd, " Yn dy waed bydd fyw ;"
Rho'f iddo glod, fy nyled yw.

- 3 Bendigaid fyth f'o enw Duw,
 'Rhwn wnaeth fy enaid marw'n fyw;
 Ac a'm cyfododd fel o'r bedd,
 I gael mwynhau ei rās a'i hedd.

322.

Byr ysgafn gystudd.

(8, 7.)

- 1 Os yw'n gofidiau yn y byd
 I bara hyd y diwedd,
 O fewn y nef fe dderfydd hyn,
 Troir tristwch yn orfoledd.
- 2 Po fwyaf gawn o wrês y dydd,
 Mwy yno fydd ein moliant;
 Cawn yn lle cystudd byr a dwys,
 Dragwyddol bwys gogoniant.
- 3 Pryd hyn pereiddia Duw o'r bron,
 Holl ddyfroedd chwerwon Mara;
 Pryd hyn y trÿ pob chwerw nant,
 Yn win i blant Jehofa.

323.

Yr ardaloedd hyfryd.

(8, 8.)

- 1 F'ENAIID cred, anghofia'th adfyd,
 Edrych i'r ardaloedd hyfryd;
 Hed o'r byd, sy' mron a'th orfod,
 Y mae gwleddoedd iti'n barod.
- 2 Dacw'r gwledydd hyfryd helaeth,
 Roddwyd imi'n etifeddiaeth;
 Lle mae cariad pur yn llifio,
 Tros ardaloedd grās heb flino.
- 3 Dacw'r wlad câf fi deyrnasu
 Gyda'm hanwyl briod Iesu ·

Gwledda o'i gariad, gwel'd ei wyneb,
I ddiderfyn dragwyddoldeb.

324. *Caniadau y saint.* (8, 8.)

- 1 'RWYF yn clywed myrdd o seintiau
'Nawr yn canu eu telynau,
Ac yn taro'r fwyn Hosana,
Dechreu anthem pen Calfaria.
- 2 Dengmil o delynau'n canlyn,
Cân nefolaidd, bur, ddiderfyn ;
Y cerubiaid gyda'r seintiau,
Yr un sylwedd eu caniadau.
- 3 O na fedrwn innau ddringad
Hanner gynted â'm dymuniad ;
Mi awn gyda'r awel hyfryd,
Maes o'r byd i dir y bywyd.

325. *Presenoldeb Crist.* (8, 7, D.)

- 1 GWEDD dy wyneb sy'n rhagori
Ar drysorau'r India draw ;
Mae awelon pur dy gariad
Yn dwyn gwobr yn eu llaw :
Perffaith bleser heb ddim diwedd,
Perffaith gysur heb ddim trai,
Yn y 'stormydd mawr cynddeiriog,
Yw yn unig dy fwynhâu.
- 2 Dere gyda mi trwy'r fyddin,
Gyda mi yn erbyn llu,
Yn dy enw mi goneweraf
Bawb sy'n sathru d'enw eu :

D'enw di a faeddodd angeu,
 Faeddodd uffern fawr ei grym ;
 Ni wyneba cnawd a phechod
 Bellach mo dy enw ddim.

326. *Paham y'th ddarostyngir fy enaid.* (8, 7, 4, 7.)

- 1 F'ENAIID egwan paid ag ofni
 Bod rhyw ddrygau mawr gerllaw ;
 Ofni gwyntoedd oer y gogledd,
 Ofni gwynt y dwyrain draw :
 Ofni'r cwbl, &c.
 Ac heb achos ofni'n bod.
- 2 Newydd mawr, a newydd llawen,
 Newydd gwir, a newydd rhâd,
 Sy'n marchogaeth ar y cwmwl,
 Goleu draw, o dŷ fy Nhad :
 Fe faddeuwyd, &c.
 Beiau rif y sêr i mi.
- 3 Os daw fflangell, os daw gofid,
 Trwy ragluniaeth bur fy Nuw ;
 Hyny fyth ni ladd fy enaid,
 Cadw'm calon wna yn friw :
 Bydd ei fflangell, &c.
 Yn y diwedd fel y gwin.

327. *Ymladd a phechod ac ofnau.* (8, 7, D.)

- 1 'RWYF yn ymladd, 'rwyf yn methu,
 Colli, ac yn cario'r dydd ;
 Cwympo, codi, cael f'archolli,
 Ac archolli rhywrai'n brudd :

Mae fy meiau'n gwneyd i'm riddfan,
 Hyn fy ngyra am iachâd ;
 Oni ba'i mai ni welai f'enaïd
 Bris tragwyddol ddwyfol waed.

- 2 'Rwyf yn ofni croesau trymion,
 Ofni ymladd â fy mai ;
 Ac yn ofni o'r tu arall
 I fy mhechod i barhâu ;
 Aed dy gariad ag e'n chwilfriw,
 Golwg ar dy angeu loes,
 Gwel'd dy draed a'th ddwylaw tirion,
 Tan yr hoelion ar y groes.

328.

Cyfrwysdra gelynion.

(8, 7, D.)

- 1 MAE gelynion yma'n llechu,
 Wn i bryd daw'r llew i maes,
 Ac y rhua arnai'n greulon,
 Bygwth llarpio'th ofnus was ;
 Eirth, llewpardiaid, seirff, gwiberod,
 Yn cytuno i'm lladd yn un ;
 Nid oes dim a geidw f'enaïd,
 Ond dy allu di dy hun.
- 2 Weithiau arall fe ddaw gelyn,
 Ac a'm dena'n ddirgel iawn,
 Mi heb wel'd mai gelyn ydoedd
 Nes o'r ffordd fy nwyn yn llawn ;
 Yna mi ga mriwo'n chwilfriw,
 Rhwng fy ngofid a fy chwant ;
 Iesu tyred, arwain f'enaïd,
 O'r anialwch yma i bant.

- 3 Gwna fi'n oleu i wel'd y llwybr,
 Dal fi'n union ar fy nhraed,
 N'âd un gelyn i fy nhwyllo
 Fyth oddiyma i dŷ fy Nhad :
 Rho gadwynau am fy natur,
 Rho ryw fustl ar fy mai,
 Ar y ffordd yn union, union,
 Dysg tra bywyd, fi i barhau.

329.

Heddwch cydwybod.

(8, 7, 4, 7.)

- 1 RHO gydwybod wedi chànau
 'N beraidd yn y dwyfol waed ;
 Cnawd a natur wedi'u maeddu,
 Clwyfau wedi cael iachâd :
 Minnau'n aros, &c.
 Yn fy ninas fore a hwyr.
- 2 Rho fy nwydau fel cantorion,
 Oll yn chwarae'u bysedd cun
 Ar y delyn sydd yn seinio
 Enw Iesu mawr ei hun :
 Neb ond Iesu, &c.
 Yn ddyfyrwch ddydd a nos.
- 3 Gwna ddystawrwydd ar ganiadau
 Crâs afrywiog hen y byd,
 Diffodd dân cynddeiriog natur,
 Sydd yn difa grâs o hyd :
 Fel y gallwyf, &c.
 Glywed pur ganiadau'r nef.
- 4 Dychwel im' gysuron gloew
 Fel y dyddiau goreu erioed,

Gâd im' gerdded fel yn fachgen,
 Etto unwaith wrth dy droed :
 A chael aros, &c.
 Tan dy gysgod nos a dydd.

330. *Brysio at ddyfodiad dydd Duw.* (8, 7)

- 1 YR amser bellach, O na b'ai,
 I'n Harglwydd ninnau ddyfod,
 O'r nefoedd wen 'mhlith sanctaidd lu !
 Câf finnau ei gyfarfod.
- 2 Pan ddêl, daw'n ogoneddus iawn,
 Yn gyflawn o ddysgleirdeb ;
 Tyr allan ei oleuni rhydd,
 Oedd gudd er tragwyddoldeb.
- 3 Wel dyma'r pryd y cenir clod,
 Na chlyw'd erioed ei gymhar ;
 Angelion a seraphiaid pur,
 A'r seintiau una'u llafar.

331. *Bendithion rhad.* (11au.)

YN rhad y mae'n dyfod bob bendith a dawn,
 Fy mwrdd yn gyfoethog, a'm cwpan yn llawn ;
 A gwisg i'm cynhesu, fy annedd a'm tân,
 Fy einioes a'm hiechyd, 'ddiwrth f'Arglwydd y
 maen'.

Yr awyr sy'n dyfod o wybr fy Nêr,
 A'r dyfroedd i yfed, o'i ffynnon yn bêr ;
 Y tân o'r wybrenau,—y moroedd a'r tir,
 Sy'n d'od o rad gariad fy Arglwydd yn wir.

Ond mwy na'r bendithion tymhorol gerllaw,
 Yw'r rhai sydd yn perthyn i'r amser a ddaw ;

Yn rhad a ddechreuwyd cyn amser erioed,
A bery'n rhad etto tra'r nefoedd yn bod.

332.

Mordaith y Cristion.

(M. C.)

- 1 'RWY'N morio tua chartre'm Nêr,
Rhwing tonau maith yn byw;
Yn ddyn heb neges dan y sêr,
Ond 'mofyn am ei Dduw.
- 2 Mae'r gwyntoedd yn fy nghuro 'nol,
A minnau 'dwyf ond gwan;
O cymer, Iesu, fi'n dy gol,
Yn fuan dwg fi'r lan.
- 3 A phan fo'n curo f'enaid gwan,
Elynion fel y sêr;
Dyrchafa'm hysbryd llesg i'r lan,
I fynwes bur fy Nêr.

333.

Iachâd trwy gleisiau Crist.

(M. C.)

- 1 BOED dyoddefiadau pur y groes,
Fel olew i'm hiachau;
Griddfanau dyfnion angeu loes,
I'm rhoddi i lawenhau.
- 2 Marwolaeth fy Ngwardwr mawr,
Yn fywyd pur i mi;
Fel gallwyf roddi'm holl i lawr
Yn gôf am Galfari.
- 3 Mae'r haul yn ddysglaer yn y nen,
Cyfiawnder dwyfol ddyn;
Ac mae'n tywynu'n hyfryd iawn
Ar bob drylliedig un.

334. *Ymffrostio yn yr Arglwydd.* (M. C.)

- 1 AT wedd dy wyneb nid yw ddim
Drysorau maith y llawr ;
Mae hanner gair o'th enau'n fwy
Ei rym, nag uffern fawr.
- 2 Mae angeu, 'r bedd, ac uffern ddu,
Yn hongian wrth dy groes ;
Mil o elynion goncraist ti
Trwy ddyoddef angeu loes.
- 3 Dy allu yw fy nerth a'm grym,
Yn d'allu byddaf byw :
'Rwy'n wan, 'rwy'n llesg, ni allaf ddim
Un fynyd heb fy Nuw.

335. *Cyfiawnder a nerth.* (M. C.)

- 1 'DA'I 'mofyn haeddiant fyth na nerth,
Na ffafr neb na'i hedd,
Ond hwnw'n unig gwyd fy llwch
Yn fyw i'r lan o'r bedd.
- 2 Ddiffygiaf ddim, er cy'd fy nhaith,
Tra pery grâs y nef:
Ac er mor lleied yw fy ngrym,
Mae digon ynddo Ef.
- 3 Fe gryn y ddae'r ac uffern fawr
Wrth amnaid Tywysog Nen ;
O flaen gogoniant hwnw fu
Yn dyoddef ar y pren.
- 4 Pererin wyf mewn anial dir,
Yn crwydro yma a thraw ;

A dysgwyl 'rwyf o awr i awr
Bod tŷ fy Nhâd gerllaw.

336. *Iachawdwriaeth gymaint.* (M. C.)

- 1 MAE'R iachawdwriaeth fel y môr,
Yn chwyddo byth i'r lan;
Mae ynddi ddigon, digon byth,
I'r truan ac i'r gwan.
- 2 'Does yma eisiau fyth yn bod,
Trysorau grâs yn llawn,
Er maint yr yfed a'r glanhau
Sy' o fore hyd brydnawn.
- 3 Mae yma drugareddau rhad
I'r tlawd a'r llariaidd rai,
A rhyw fendithion maith yn stor
Sy' fythol i parhau.

337. *Hén brofiadau.* (M. B. D.)

- 1 BENDIGAID fyddo'r awr
Y clywais ddwyfol lef;
O'r anial fyd i'm galw maes
Tua hyfryd deyrnas nef:
Fe gododd seren ddydd,
A'i goleu sydd yn rhoi
Cymylau t'wlla, tewa, llawn,
Yn fuan iawn i ffoi.
- 2 Ce's brofi dwyfol hedd
Gyda gorfoledd mawr;
'Rwy'n cofio'r effaith, cofio'r pryd,
Yn hyfryd hyd yn awr;

Pan cefais wir ryddhâd,
 Trwy werthfawr waed fy Nuw,
 Ei gariad oedd yn felus brâf,
 A'i garu wnafl trw'i byw.

- 3 A thyma'r cyntaf bryd
 Yr aeth y byd yn ddim ;
 A chollodd hithau uffern fawr
 (O hyfryd awr !) ei grym :
 Fy enaid aeth yn rhydd
 Pan ddaeth y dydd i ben,
 Ni all cadwynau ddala awr
 Tros arfaeth fawr y nen.

338.

Ffrwythau'r Efengyl.

(6, 6, 4.)

- 1 'RWY'N edrych drw'odd draw,
 Yn dysgwyl gwel'd gerllaw
 Addewid bur,
 Yn esgor ar ei dawn,
 Sylweddol hyfryd iawn,
 Sef cariad perffaith llawn,
 A heddwch gwir.
- 2 Pan neso'r haul ymlaen,
 Fe dyf y llyisiau mân,
 Eginau'r nef ;
 Grususau hardd ei lliw,
 Ffrwyth angeu loes fy Nuw,
 Anwyla' 'rioed eu rhyw,
 Genhedlodd Ef.
- 3 Mae gwyliau'r hyfryd wlad,
 Gwledd iachawdwriaeth râd
 Efengyl grâs,

A'i hadsain dwyfol drud,
Yn gydsain hardd ynghyd,
'Nawr hyd eithafoedd byd
Yn swnio maes.

- 4 Fe glyw yr Indiaid draw
'R efengyl maes o law,
Yn eitha'i grym ;
Daw cyrau pella'r byd,
Yn ddu a gwyn i gyd,
I'w golchi yma 'nghyd,
Nid oedant ddim.

339. *Yr Arglwydd sydd ryfelwr.* (8, 7, D.)

1 GWEL fi, Arglwydd, wedi'm baeddu,
Gan elynion cyfrwys lu,
Y rhai beunydd yn chwanegu
Nerth a chynddeiriogrwydd sy' ;
Curo ar y dde' a'r aswy,
Temptasiynau fawr a mân,
Tyr'd i lawr, Dywysog cadarn,
Nid oes dim a saif o'th flaen.

2 Dim ond iti dd'od i'r rhyfel,
Y gelynyon oll a ffy ;
Mae dy bresenoldeb dwyfol
Yn dychrynu uffern ddu :
Ni saif pechod, ni saif chwantau,
Ni saif pleser îs y nen,
Mwy na niwl o flaen y gwyntoedd,
O flaen Tywysog nefoedd wen.

340. *Noddfa a nerth mewn cyfyngder.* (8, 7, D.)

1 ATAT, Arglwydd, tro'f fy wyneb,
Ti yw'm hunig noddfa lawn,

Pan f'o cyfyngderau'n gwasgu,
 Cyfyngderau trymion iawn ;
 Dal fi fynu'n ngrym y tonau,
 'Does ond dychryn ar bob llaw,
 Rho dy help, Dywysog bywyd,
 Nes i'm lanio i'r ochr draw.

- 2 Neb is nef ond ti dy hunan
 Ddeil i fynu f'enaïd gwan,
 'Rwy'n diystyru'r holl grë'digaeth
 Fel peth diddim tlawd a gwan :
 Ac os ti ro'i dy fendithion
 I mi'r annheilyngaf ddyn,
 Ti ga'i 'nol y cwbl roddaist
 I dy fynwes lân dy hun.

341. *Cwbl ymroddiad i Dduw.* (8, 7, D.)

- 1 Ti gai mywyd, ti gai f'amser,
 Ti gai'm doniau o bob rhyw,
 P'odd y meiddiaf gadw mymryn
 O fendithion pur fy Nuw ?
 Ffrydia'r nefoedd wen i waered,
 Tyn garcharor caeth i maes,
 Fe gaiff nef a daear glywed
 Adsain gwardedigol râs.
- 2 Ac am hyny mi ymdroaf,
 'Nawr y'ngallu mawr y nef ;
 Mae pob llwybr wedi'i gauad,
 Ond y llwybr ato Ef :
 Mae allweddau nef ac uffern
 Wrth ei wregys Ef ei hun ;
 Ato 'raf yn mhob caledi,
 Ceidwad y truenus ddyn.

342. *Mae efe'n dyfod gyda'r cymylau.* (2, 8.)

1 FE ddaw

Ar y cymylau maes o law,
I rai er dychryn mawr a braw,
Y'mhell uwchlaw dychymyg dyn ;
Ac yna barna'r ddaear faith
Yn ol y gwaith a wnaeth pob un.

2 Heb gél,

Pob llygaid yno'n lân a'i gwél
Yn ei ogoniant pan y dêl,
Fe rydd ei sêl ar blant ei Dad ;
O deuwch fendigedig rai,
Rho'w'd yn ddilai iwch deyrnas râd.

343. *Dyfais grâs.* (2, 8.)

1 NYNI

Mewn cydsain â'r angylaidd lu,
A folwn Dduwdod un yn dri
Am ddyfais iachawdwriaeth râd ;
Yn awr nid oes o fewn y ne',
Ddim dâl yn ble ond dwyfol waed.

2 O pwy

All chwilio dyfais dwyfol glwy,
Sy'n anchwiliadwy hollol trwy,
Bob rhan o honi oll i gyd ?
Dyfniderau maith ei gariad Ef,
Ddadseinia'r nef pan ddarffo'r byd.

3 'Does dim

O tan y nefoedd fawr o rym,
I'm dal i'r lan tan gystudd llym,

Ond cariad pur fy Arglwydd cu ;
 A hwn a'm nertha fyn'd ymlaen,
 Trwy ddŵr a tân i'r nefoedd fry.

344. *Yn ddioddefgar mewn cystudd.* (8, 8, 8.)

- 1 A RAID i gystudd garw'r groes
 I ganlyn f'ysbryd ddydd a nos ?
 Os rhaid, gwna fi yn foddlon iawn :
 Tan ganu gwna imi fyn'd ymlaen,
 Sef canu yn y dŵr â'r tân,
 O fore mywyd hyd brydnawn.
- 2 Mae brodyr imi aeth ymlaen,
 Trwy ddyfnach dŵr a phoethach tân,
 Ac etto gorchfygasant hwy ;
 'Dyw'r dyfroedd aethum trwyddynt ddim,
 Mewn lled, a dyfnder, nerth a grym ;
 Paham yr ofnaf finnau mwy ?

345. *Happusrwydd yn Nghrist.* (8, 7, D.)

- 1 IESU hawddgar, 'rwy'n dy ddewis ;
 Nerth i ddilyn ôl dy droed ;
 Yna caiff fy enaid hedeg
 I'r happusrwydd uwch y rhôd :
 Tra f'om pridd yn ymgymysgu
 A'r hyn gwnaethpwyd ef ryw bryd,
 Llewyrch wyneb Duw ddysgleiria
 Ranau f'enaid oll i gyd.
- 2 Wedi'm golchi oddiwrth sorod
 Pechod ffaidd drwg ei ryw,
 Fel drych goleu, i dderbyn delw
 Holl sancteiddrwydd pur fy Nuw :

Ni raid teithio'r ddaear mwyach
 Ymhlith pryfaid gwael y llawr,
 Ond dysgleirio 'mhlith myrddiynau
 Gylch yr orsedd fel y wawr.

346.

Dysgeidiaeth Crist.

(M. H.)

- 1 O IESU mawr, y meddyg gwell,
 Gobaith yr holl ynysoedd pell,
 Dysg fi i seinio byth dy glod,
 Mai digyfnwid wyt erioed.
- 2 O hoelia'm meddwl ddydd a nos,
 Crwydredig, wrth dy nefol groes,
 A phlana'm hysbryd yn y tir
 Sy'n llifo o lawenydd pur.
- 3 Fel b'o fy nwydau drwg yn lân
 Yn cael eu difa â'r nefol dân;
 A chariad yn melysu'r groes
 Trwy edrych ar dy farwol loes.

347.

Hunan-ffieiddiad.

(7, 6, D.)

- 1 'RWY'N edrych arna'i'm hunan
 A rhyw gasineb mawr,
 Mwy diddim, mwy disylwedd,
 Na phryfaid mân y llawr;
 'Does ond yr Aberth hwnw
 Wnaed ar Galfaria fryn,
 A'm crëa oll o newydd,
 A'm càna oll yn wyn.
- 2 Ni fuasai genyf obaith
 Am ddim ond fflamau syth,
 Y pryfnad yw yn marw
 A'r t'wllwch dudew byth,

Oni buasai i'r hwn a hoeliwyd
 Ar fynydd Calfari,
 O ryw anfeidrol gariad
 I gofio am danaf fi.

348.

Hunan-ymwadiad.

(7, 6, D.)

- 1 YN natur fy ngweddiau,
 A'm dyledswyddau, mae
 Rhyw fryniau o anghrediniaeth,
 Rhyw fôr o lwfrhau ;
 Y weithred ga'dd ei chanmol
 Yn uchel iawn gan ddyn,
 Mae torf o lygredd ynddi
 I'w gwel'd i mi fy hun.
- 2 Am hyn 'rwyf yn ymwadu
 A'r cwbl yn gytun,
 Pob cylch o ddyledswyddau,
 Goreudeg hardd eu llun ;
 Yn angeu'r groes yn unig
 Mae'm hiachawdwriaeth lawn,
 Ac am y groes mi ganaf,
 O fore hyd brydnawn.
- 3 Myfi abertha'r cyfan
 Yn union i dy waed,
 A thyna'r balm oddiwrtho
 'Rwy'n dysgwyl cael iachâd ;
 Nid oes i'w gael yn unman,
 Dan heulwen fawr y ne',
 Ddim ag all faddeu pechod
 Yn unig ond Efe.

349.

Duw a digon.

(8, 8, 8, 6.)

- 1 NID oes ond f'Arglwydd mawr ei ddawn
A leinw f'enaïd bach yn llawn,
Nis gallwn ddala mwy pe cawn,
Mae Ef yn ddigon mawr ;
A digon, digon, digon yw,
Dy bresenoldeb hyfryd gwiw,
Yn angeu ceidw hyn fi'n fyw,
A boddlon wyf yn awr.
- 2 Wel ffowch ar ffrwst bleserau i gyd,
Diflenwch holl wrthddrychau'r byd,
Na bo'ch gael effaith ar fy mryd,
I'm dwyn oddiwrth fy Nuw ;
Doed tân a diluw yn gytun,
Aed dŵr a daear fawr yn un,
Mi fyddaf yr happusaf ddyn,
Mae Iesu etto'n fyw.

350.

Y gwynfyd nefol.

(8, 8, 8, 6.)

- 1 PAN collo gwellt y maes eu dawn,
A'r wybr faith ei bore a nawn,
A dystryw dd'od yn gyfan iawn
Ar nef a daear lawr ;
Câf weled sanctaidd newydd dir,
O degwch ac o bleser pur,
Yn tarddu maes o'r Duwdod gwir,
Gyda gogoniant mawr.
- 2 Myfyrio am fyn'd sydd felus iawn,
Mae f'enaïd eisoes fore a nawn
Am gynnefino'i nefol ddawn
A chwareu'i aden bur ;

Fel pe b'ai am anturio'n hy'
 Trwy ganol y cymylau fry,
 A neidio i mewn i blith y llu,
 Lle mae'r Messia gwir.

351. *Cyfaddefiad a gweddi.* (8, 7, 4, 7.)

- 1 RHYW anifail wyf heb ddeall,
 A rhyw eiddil llesg heb rym,
 T'wllwch dudew a ffeidd-dra,
 Nid oes ynof arall ddim ;
 Iachawdwriaeth, &c.
 Râd i mi neu golli'r nef.
- 2 Tòr fy nghalon galed gyndyn,
 Tòr hi 'nawr yn ulw mân,
 Tòr bob rhwystr sydd yn atal
 It' dy hunan dd'od ymlaen :
 Eistedd yma, &c.
 A'th deyrnwialen yn dy law.

352. *Newyddion da.* (M. H.)

- 1 NEWYDDION brâf a ddaeth i'n bro,
 Hwy haeddent gael eu dwyn ar go' ;
 Mae'r Iesu wedi cario'r dydd,
 Caiff carcharorion fyn'd yn rhydd.
- 2 Mae Iesu Grist o'n hochr ni,
 Fe gollodd Ef ei waed yn lli',
 Trwy rinwedd hwn fe'n dwg yn iach
 I'r ochr draw 'mhen gronyn bach.
- 3 Wel, f'enaïd, weithian c'od dy ben,
 Mae'r ffordd yn rhydd i'r nefoedd wen ;
 Ein holl elynion sydd yn awr
 Mewn cadwyn gan y Brenin mawr.

353.

Tlodi a grâs.

(M. H.)

- 1 DYMA gyfarfod hyfryd iawn,
Myfi yn llwm a'r Iesu'n llawn :
Myfi yn dlawd, heb feddu dim,
Ac yntau'n rhoddi pob peth im'.
- 2 O'r diwedd fe iachaw'd fy nghlwy,
Na lwfrhaed credadyn mwy ;
Ei air a saif, a'i 'ddewid wen,
Er oedi'n hir, a ddaw i ben.
- 3 Yn rhad rhaid it' ro'i'r cwbl im',
Ni feddaf werth, na nerth na grym ;
'Nol rhoddi, eilwaith trefnu'm grâs,
'Mhob brwydr cyn 'rennillwy'r maes.

354.

Michael a'r ddraig.

(11au.)

MAE'R rhyfel o'n hochr, ni gariwn y maes,
Fe friwir pob llygredd, coronir pob grâs ;
Yn erbyn dy galon di satan, yn awr,
Mae'th deyrnas yn siglo, hi gwympha hyd lawr.

Gwŷr Michael sy'n wrol yn cerdded ymlaen,
Heb brisio grym cewri, y saethau na'r tân :
Ofnadwy yw'r ymladd, concwerio mae grâs,
Mae'r mŵg fel cymylau tros wyneb y maes.

Mae Michael yn ennill, rho'wch hyny ar léd,
Cymhellwch bob aden o'r fyddin ro'i cred :
Wel, chwythwch yr udgyrn nes adsain pob man,
A chodwch y faner yn uchel i'r lan.

Fe gollodd hên satan y bradwr ei le,
Fe'i gwthiwyd e'n lliidiog o ganol y ne' ;

Fel seren o'r awyr, fe gwmpodd i lawr,
Mae'n syrthio hyd heddyw; y dyfnder sy' fawr.

355. *Cymdeithas â Duw.* (8, 7, D.)

1 RHED fy enaid i'w gyfeillach,
Cyntaf mán y ceffych E';
Trist yw'm hysbryd wrth ymofyn
Un creadur yn ei le;
Blino edrych gylch o gwmpas,
Nid oes meddyg ar y don,
Ond yn unig ti dy hunan,
Wella'r archoll tan fy mron.

2 Llawn a llawen, iach a diddig,
Ydwyf pan yn teimlo'th hedd,
Ond meddylgar iawn ac athrist
Pan yn methu gwel'd dy wedd:
'Rwyn diflasu ar y cwbl
Pan y collwy'th wyneb cu,
Ond mae bywyd im' yn nefoedd
Pan b'wy'n agos atat ti.

356. *Ymorphwys ar Grist.* (8, 7, 4, 7.)

1 CYMER, Iesu, fi fel 'rydwyf,
Fyth ni allaf fod yn well:
D'allu di a'm gwna yn agos,
'Nhuedd i yw myn'd y'mhell:
Yn dy glwyfau, &c.
Bydda'i unig fyth yn iach.

2 Gwaed y groes sy'n codi fynu
'Reiddil yn goncwerwr mawr;

Gwaed y groes sydd yn darostwng
 Cawri cedyrn fyrdd i lawr :
 Gâd im' deimlo, &c.
 Awel o Galfaria fryn.

3 Mwy yw d'eiriau ar y croesbren,
 Geiriau gwerthfawr, geiriau drud,
 Mwy yw sillaf leia' o honynt,
 Na'm holl ddyledswyddau i gyd :
 'Drychaf yno, &c.
 Yno mae fy nerth a'm grym.

4 Clywed dy riddfanau chwerwon,
 Wna im henaid lawenhau ;
 Teimlo'th gariad wna'm gelynion
 Cynddeiriocaf lwfrhau :
 Yna, yna, &c.
 Mae fy nhrigfa fyth i fod.

357. *Grás a haeddiant Grist.* (8, 7, 4, 7.)

1 IESU, nid oes terfyn arnat,
 Mae cyflawnder mawr dy râs
 Yn fwy helaeth, yn fwy dwfn,
 Ganwaith, nag yw'm pechod câs :
 Fyth yn anwyl, &c.
 Meibion dynion mwy a'th gâr.

2 Heddyw 'rwyf yn frwnt o newydd,
 Rhaid fy ngolchi heddyw'n wyn,
 Yn yr afon wna yr aflan
 Fel yr eira ar y bryn :
 Dim ni'm câna, &c.
 Ond dy ddwyfol nefol waed.

- 3 Nid oes ddofa fy nghydwybod
 Ond cyfiawnder mawr y nef,
 Ac ni thâl rho'i aberth arall
 Is y nefoedd iddo Ef:
 Maddeu f'Arglwydd, &c.
 Gwrando'r griddfan ar y groes.

358.

Dydd yn gwawrio.

(8, 7, D.)

- 1 'NAWR mi wela'r nos yn darfod,
 Draw mi welaf oleu dydd,
 Yn dysgleirio tros y bryniau ;
 Melus yn y man a fydd :
 Ffy gelynion pan ddél goleu,
 Ni all pechod er ei rym,
 A'i holl wreiddiau sy'n fy natur,
 Sefyll haul cyfiawnder ddim.
- 2 Daw i ben, aed byd yn danllwyth,
 Bob rhyw air a dd'wedo Nhad ;
 Sethrir satan, sethrrir angeu,
 Sethrir uffern dan fy nhraed ;
 Buddugoliaeth ddaw o'r diwedd,
 A phan ddél melusaf fydd,
 Mil o flwyddau gyda'm Harglwydd,
 Nid yw ragor ddim na dydd.
- 3 Yn y rhyfel mi arosaf,
 Yn y rhyfel mae fy lle ;
 Boed fy ngenau wrth y ddaear,
 Boed fy llygaid tua'r ne' ;
 Doed y goncwest bryd y delo,
 Dysgwyl wrth fy Nuw a wnafl,
 Gwel'd fy mhechod cás yn trengu,
 Ag oedd bron fy lladd, a gáf.

359.

Edrych i Galfaria.

(7, 7.)

- 1 DEFFRO, f'enaïd, edrych draw,
Gwel Galfaria bell gerllaw ;
Dacw'r hoel a'r bicell fain,
Dacw'r goron bigog ddrain,
'Nawr yn gorwedd ar ei ben ;
Cryned daear, dued nen.
- 2 Wele, f'Arglwydd sy' mewn poen,
Ffrynd troseddwy'r, addfwyn Oen ;
Poen hyd angeu, poen at waed,
Balm o Gilead rydd iachâd :
Ti Physygwr, perffaith Dduw,
Geidw f'enaïd bach yn fyw.

360.

Neb fel Efe.

(7, 7.)

- 1 Ti dy hunan, Iesu mawr,
Yw fy noddfa ar y llawr ;
Ni ddaw fyth, ni fu erioed,
Dy gyffelyb îs y rhod ;
Dere'n glau, 'does îs y ne'
Arall un a leinw'th le.
- 2 Ti wnai fyddo yn dy fryd,
'Does a'th rwystra yn y byd ;
Cadarn, cadarn yw dy law,
Gweithio yma, gweithio draw ;
Daear fawr a nef yn un,
It' sy'n cwympto yn gytun.
- 3 Rhosyn Saron teca'i ddawn,
Seren fore ddysglaer iawn,

Sydd yn arwain hyfryd wawr,
 Trwy'r anialwch dyrus mawr :
 Yn goleuo'r llwybr llaith
 Tua'r wlad o fêl a llaeth.

361.

Syched am Dduw.

(8, 7, D.)

- 1 GORCHUDD ar dy bethau mawrion
 Yw teganau gwag y byd ;
 Muriau rhyngof fi a'th Ysbryd
 Yw'm pleserau oll i gyd :
 Gâd im' gloddio trwy'r parwydydd
 Tewion, trwodd at fy Nuw,
 I gael gwel'd trysorau gwerthfawr,
 Fedd y ddaear ddim o'u rhyw.
- 2 Na'd fi dafu golwg cariad
 Ar un gwrthddrych îs y rhod ;
 Na gwneyd gwrthddrych i fy ngobaith
 O greadur sydd yn bod :
 Cadw ngolwg gwan i fynu,
 Yn syml atat ti dy hun,
 Heibio i barch, ac heibio i anmharch,
 Heibio i ddaear, heibio i ddyn.

362.

Gweled yr Iesu.

(8, 7, D.)

- 1 BYNAG beth a welodd llygad,
 Neu a deimlwyd îs y rhod,
 Bynag beth a glywodd clustiau,
 Neu beth bynag sydd yn bod ;
 Holl wrthddrychau'r ddaear isod,
 Mewn un fynydd ddarfu 'nghyd,
 Er pan ce's yr olwg gyntaf,
 Ar Iachawdwr mawr y byd.

2 Mae fy hwyliau heddyw'n chwarae
 'N llawen yn yr awel bur ;
 Ac 'rwy'n clywed sŵn caniadau
 Peraidd paradwysaidd dir :
 Ffarwel haul, a lloer, a thrysor,
 Ffarwel ddaear, ffarwel ddyn,
 Nid oes dim o tan yr wybren
 Ag sy'n fawr, ond Duw ei hun.

3 Cauwch lygaid, nac agorwch
 Ar un gwrthddrych îs y nef ;
 Craffa f'enaidd olwg syml
 Ar 'i ogoniant dwyfol Ef ;
 Mae ei hanfod, mae ei enw,
 Mae ei berson sanctaidd pur,
 Gymaint uwch gwrthddrychau natur
 Ag yw'r nefoedd uwch y tir.

363.

Afon grâs.

(M. B. D.)

1 DYODDEFODD ar y pren
 I hoelio'i ddwylo a'i draed ;
 Trywanwyd idd ei ystlys bur,
 Daeth allan ddŵr a gwaed ;
 Fel caffai'r dua ei liw
 Ei gânu'n hyfryd wyn,
 Mewn afon bur o waed a dŵr
 Ddylifodd ar y bryn.

2 O'r afon loëw hon
 Tardd cysur o bob rhyw,
 Mil o rasusau hyfryd pur,
 Fel blodau clir eu lliw ;

Er bod pob llwyth a iaith,
 Finteioedd maith ynghyd,
 Yn dirwyn at y dyfroedd hyn,
 Cânt dd'od yn wyn i gyd.

- 3 Mae'r deillion yma'n gwel'd,
 A'r cloffion hefyd sydd,
 Wedi cael hollol lwyr iachâd,
 Yn llamu a'u traed yn rhydd :
 Mae rhai sy' a ffaidd friw,
 Uwch meddyg i'w hiachâu,
 Yn cael wrth brofi'r bywiol ddŵr,
 Eu gwella a'u glanhâu.

364. *Erfyniad am fendithion.* (8, 7, 4, 7.)

- 1 **DYSGYN**, Iesu, o'th gynteddau,
 Lle mae moroedd mawr o hedd,
 Gwel bechadur sydd yn griddfan
 Ar ymylau oer y bedd :
 Rho imi brofi, &c.
 Pethau nad adnabu'r byd.
- 2 Rho oleuni, rho ddoethineb,
 Rho dangnefedd fo'n parhâu ;
 Rho lawenydd heb ddim diwedd,
 Rho faddeuant am bob bai :
 Triged d'Ysbryd, &c.
 Yn ei deml tan fy mron.
- 3 Wrth dy orsedd 'rwyf yn gorphwys,
 Llefain arnat fore a nawn,
 Am gael clywed llawn ddystawrwydd
 O'm heuogrwydd tanllyd iawn :
 A thangnefedd, &c.
 Pur o mewn yn cadw'i le.

- 4 Ynot mae afonydd mawrion
 O ffyddlondeb ac o hedd ;
 Er fy mwyn dyoddefaist angeu,
 A gorweddaist yn y bedd :
 Fel y gallwn, &c.
 Fyn'd i mewn i'r ddinas bur.

365.

Y deml ysbrydol.

(8, 7, D.)

- 1 TEML berffaith addas gywir,
 Yn fy nghalon gwna dy hun ;
 Gyda thi na thriged yno,
 Ddŵr na daear, da na dyn :
 Na f'oed sŵn creadur mwyach,
 Chwaith nac un o ofnau'r bedd,
 Yn cymylu cariad perffaith
 Yno, na therfysgu'm hedd.
- 2 'Rwyt ti'n chwilio dyfnder f'ysbryd,
 'Rwyt ti'n treiddio'n hollol trwy
 Fyrddiwn o ryw fân feddyliau,
 Nad wy'nabod mo'nynt hwy :
 Ti yw Mrenin, dal fi fynu,
 A choncwera mewn iawn bryd,
 Bob rhyw eilun gas addoliaeth,
 Ag sy'n aros yn fy mryd.

366.

Canu am fuddugoliaeth.

(6, 6, 8.)

- 1 FE gân 'tiffeddion grâs
 Yn beraidd maes o law,
 Wrth weled boddi'r Aifft,
 A hwythau'r ochr draw :
 Fy enaid héd i ben y bryn,
 I wel'd y goncwest ryfedd hyn.

- 2 Yn uchel fry ar fryn,
 Rhwng daear gron a nef,
 Holl rwysg Gehena fawr,
 A'i grym, orchfygodd Ef:
 Tan hoelion dŵr fe'u maeddodd hwy,
 Pa fodd ymfrostia uffern mwy?
- 3 Wel dacw'r ffordd yn rhydd,
 Agorwyd hi o bob tu,
 O ddyfnder daear lās,
 I uchder nefoedd fry:
 O dring, O dring, fy enaid mwy,
 Mae nerth i'w gael mewn marwol glwy'.
- 4 Wel deuwn yn y blaen,
 Fe gwmpodd ofnau mawr,
 Ar y gelynion hy
 Oedd am ein cael i lawr:
 Fe gaed y dydd, mi glywa'r nen
 Yn canu'r goncwest ar y pren.

367. *Haeddiant y gwaed.* (5, 6.)

- 1 O HAEDDIANT y gwaed,
 Anfeidrol barhâd,
 'Does arall all osod
 Fy meiau dan draed.
- 2 Mi wela'n ei glwy'
 Gyfiawnder sy' fwy
 Na meithder y moroedd,
 Er lleted 'ynt hwy.
- 3 Mae meiau o'r fath liw,
 Mor ffaidd eu rhyw,
 'Does dim all eu golchi
 Ond ffynnon fy Nuw.

- 4 'Rwy'n cwmpo wrth dy draed,
Yn 'mofyn iachâd,
A balm o Galfaria,
Defnynau dy waed.

368. *Sefyll ar y ddysgwylfa.* (8, 7, 4, 7.)

- 1 AR ddysgwylfa uchel gribog,
'Rydwyf er ys hir brydnawn;
Edrych am yr hindda hyfryd,
'Nol cawodydd geirwon iawn:
Ac i'm hysbryd, &c.
Trwy'r cymylau wel'd y wlad.
- 2 Gwlad o heddwch, gwlad o sylwedd,
Gwlad o gariad pur didrai;
Gwlad o wleda'r pererinion
Ar lawenydd i barhâu:
Dacw'r ardal, &c.
Mae'm cysuron oll i gyd.
- 3 Aed y nos derfysglyd heibio,
Doed y bore cyn b'o hir,
Pan y caffo'm henaid wleda
Yn y Ganaan nefol bur:
Gyda myrddiwn, &c.
O'i rai anwyl ffyddlon Ef.

369. *Cyfammod sicr.* (8, 7, D.)

- 1 EIDDOF fi yw fy Anwylyd,
Gwnaed cyfammod gwerthfawr rhâd,
Nid ag aur a pherlau'i seliwyd,
Ond â dwyfol nefol waed;
Nerth tragwyddol a ymrwymodd,
Holl ddoethineb mawr y nen,

I gael gwel'd y iota leiaf
O'r cyfammod hwn i ben.

- 2 Ymadewch fy ofnau bellach,
Rhagor beth allasai'r nef;
P'odd dangosai gariad rhagor,
Nag ar bren ddangosodd Ef?
Rhoddi'i fywyd tros elynion,
Tuag at eu cael hwy'n un
Briodasferch addas ffyddlon,
Gywir iddo Ef ei hun.

370.

Y cawodydd graslawn.

(8, 7, D.)

- 1 P'AM y caiff bwystfilod rheibus
Dori'r egin mân i lawr,
Pa'm caiff blodeu peraidd ieuainge
Fethu gan y sychder mawr?
Tyred â'r cawodydd hyfryd
Sy'n cynnyddu'r egin grawn,
Cawod hyfryd yn y bore,
Ac un arall y prydawn.
- 2 Edrych, Iesu, ar dy ddyweddi,
Mae'i chaseion yn gytun,
Na'd y gelyn i ddifwyno,
Gwinllan blenaist ti dy hun;
Dyfrhâ hi ar bob mynydyn,
A'r cawodydd hyfryd sy',
Fel y gw lith tirionaf dystaw,
Yn dyhidlo oddi fry.
- 3 Iesu, tro afonydd bywyd
Tros y sychdir creiglyd crâs,
Fel bo'r egin yno dyfu
Megis blodeu yn y maes:

Rho i hwnw o'r ffynnon yfed
 Ag ymron llewygu sydd,
 Gan y gwres heb ronyn cysgod,
 O dan oriau poetha'r dydd.

371. *Y pererin yn yr anialwch.* (M. H.)

- 1 PERERIN wyf mewn anial dir,
 Sychedig am gysuron gwir ;
 Yn crwydro f'amser a llesghâu,
 O hiraeth eisieu dy fwynhâu.
- 2 O deuwch oriau, tyred ddydd,
 I'm henaid gwan gael myn'd yn rhydd ;
 Carcharor wyf mewn anial wlad,
 Yn dysgwyl beunydd am ryddhâd.
- 3 Tan ryw gaethiwed poenus iawn,
 Yn dysgwyl fore a phrydnawn ;
 Mi gara'r fan, mi gara'r dydd,
 Osoda f'enaid bach yn rhydd.
- 4 Ac mi ddysgwyliaf ddydd a nos,
 Fel un lluddedig tan y groes ;
 Ac nid oes arall fan lle mae
 Un gronyn gobaith o'm iachâu.
- 5 Haul y Cyfiawnder dysglaer cu,
 Tywyna trwy bob cwmwl du ;
 O dan dy esgyll dwyfol mae
 Y balm o Gilead sy'n iachâu.

372. *Teithio tuag adref.* (8, 7, D.)

- 1 TUAG adre' rwy'n ymdeithio,
 Yno mae fy Mrenin mawr,

- Can goleuach nag yw'r danllwyth,
 Sy'n dysgleirio uwch y llawr :
 O pa bleser, pa ddyfyrwch,
 A'm digrifa yn y byd,
 Pan Emmanuel groeshoeliwyd
 Oll yn gyfan aeth a'm bryd ?
- 2 Clywaf lais gan bob rhyw raddau,
 O'r cre'duriaid mân i gyd,
 'Mod i wedi aros gormod,
 Hepian llawer yn y byd ;
 Gwisg dy aden, medd pob tafod,
 Glywaf tan yr awyr lân,
 Gormod hepian a diweddar,
 Cyn it ddechreu taro i maes.

373.

Iesu a'i râs.

(8, 7, D.)

- 1 A WELODD haul erioed wrth redeg
 Ei ddiderfyn dro'n y nef,
 Yn y ser, neu ar y ddaear,
 Wrthddrych tebyg iddo Ef ?
 A oes trysor ond ei mofyn,
 Yn nyfnderoedd daear lân,
 Dâl ei osod yn y glorian
 Gydag Iesu mawr a'i râs.
- 2 Nerth os caf mi frysiaf mwyach
 'Fynu tua'm gwlad fy hun,
 Lle mae'm Duw yn gwisgo'n berffaith,
 Mewn gogoniant, natur dyn :
 Na foed genyf gartref bellach,
 Fangre arall ond y ne',
 Neb yn Dad, na neb yn briod,
 Neb yn Arglwydd ond Efe.

374. *Canu am drugaredd a barn.* (8, 7, D.)

1 DEUED dyddiau o bob cymysg
 Ar fy nherfynedig oes,
 T'wyned haul goleudeg llwyddiant,
 Ynte gwasged garw groes ;
 Clod fy Nuw gaiff lanw'm genau,
 Trwy bob tymhestl, trwy bob hîn,
 A phob enw gaiff ei lyngcu
 Yn ei enw Ef ei hun.

2 Ynddo'n unig rwy'n ymddiried,
 Hollalluog yw fy Nuw ;
 Ac ni fynaf unrhyw noddfa
 Arall, annigonol yw ;
 Yn ei iachawdwriaeth rasol,
 Unig 'rwyf yn llawenhâu,
 Dyma'r fan y tardd cysuron
 Sy'n dragwyddol yn parhâu.

375. *Llwybrau yr Arglwydd.* (8, 7, D.)

1 LLWYBRAU bendith yw ei lwybrau,
 Llwybrau bywyd, llwybrau gwir ;
 Trwy bob cwmwl mae yn gweithio
 Mewn goleuni dysglaer pur ;
 Mae'i ddyfodiad fel yr heulwen,
 Byth ni allwn yma fyw,
 Heb gael profi presenoldeb
 Llawn hyfrydaf pur fy Nuw.

2 Mae'n gofalu am fy nghadw
 Yn mhob cystudd yn y byd,
 A chyflawni, pan fo'n gyfyng,
 Fy angenion oll i gyd ;

Mae yn arwain fy ngherddediad,
 Yn fy nhywys yn y blaen,
 Ac yn gwylio ar fy nghamrau
 Bob ysgogiad fawr a mân.

376.

Gau a gwir bleser.

(M. C.)

- 1 FE'M somwyd gan bleserau'r llawr,
 Fe'm twyllwyd gan bob un ;
 Ffowch bob eilunod, rhoi's ffarwel,
 I ddaear ac i ddyn.
- 2 Ni thro'f fy wyneb byth yn ol
 I 'mofyn pleser gau,
 Ond mi a gerddaf tua'r wlad,
 Sy' a'i phleser yn parhâu.
- 3 Mae holl deganau'r ddaear hon,
 Fu gynt yn fawr eu grym,
 Yngwydd fy Iesu'n gwywo i gyd,
 Ac yn diflanu'n ddim.
- 4 Fe dorwyd rhyngof fi a'm chwant,
 Daeth ar fy mhleser drai,
 Ond fy happusrwydd perffaith yw
 Dy garu â'th fwynhâu.

377.

Trysorau'r groes.

(6, 6, 8, 4.)

- 1 O F'ENAIID héd i'r lan,
 Tros fryniau ucha'r byd,
 A gwel dy gyfoeth, gwel dy ran,
 Anfeidrol ddrud ;
 Trysorau o ddwyfol fri,
 Bwrcaswyd imi'n llawn,
 Gan fy Ngwardwr addfwyn cu,
 Ar un prydawn.

- 2 Ef bellach fydd fy nghan,
 A'm hamddiffynfa glud,
 Fy nhŵr, fy nghraig, a'm noddfa lân,
 Tr'wy'i yn y byd :
 Pan talodd ddwyfol waed,
 Pwy ofyn imi mwy ?
 Can's anfeidroldeb maith a gaed
 Mewn dwyfol glwy'.
- 3 Mae angeu'r groes yn fwy
 Na haeddiant yr holl fyd ;
 Y mae griddfanau dwyfol glwy'
 Yn gyfoeth drud :
 Fe gènir myrdd yn wyn,
 Oll fel yr eira mân,
 Ceir gwel'd rhai ffaidd ar ol hyn
 Yn berffaith lân.
- 4 Anturiaf finnau mwy,
 Er cymaint yw fy mai,
 Trwy'r haeddiant dwyfol sy'n ei glwy',
 Heb lwfrhâu :
 O flaen yr orsedd wen,
 Ffieiddiaf ddyn o'r blaen,
 Gan gredu gall Tywysog nen
 Fy ngwneyd yn lân.

378.

Rhyfeddodau'r groes.

(6, 6, 8, 4.)

- 1 D'EWCH yma gwelwch un
 O ryfeddodau'r ne',
 Fy Iesu'n rhoddi'i fywyd cun
 Lawr yn fy lle :

Er gwneyd ffeiddiaf ryw,
 Yn ddysglaer berffaith wyn;
 Ac nid oedd ond anfeidrol Dduw
 A wnaethai hyn.

2 O angeu pur y groes,
 Ti bellach fydd fy nghân,
 'Doedd ddŵr i'w gael ond ar y groes
 I'm gwneyd yn lân:
 Y ffynnon loëw hyn
 Sydd ar y bryn o hyd,
 I olchi Ethiop du yn wyn
 Hyd eitha'r byd.

3 Wel minnau ddof yn awr,
 Yn ffaidd fel yr wyf,
 A soddi'm hunan wnaeth i lawr
 Mewn dwyfol glwy':
 Daeth allan ddŵr a gwaed,
 Er llwyr iachâd i mi,
 Ni chollaf ddim o'r trysor gaed
 Ar Galfari.

379. *Buddugoliaethau'r groes.* (7, 4.)

- 1 WRTH ei ochr byddai'n hy, D'wysog ffyddlon;
 Yn ei fynwes maeddaf lu o elynion;
 Uffern fawr aeth tan ei draed ar Galfaria,
 'Nillodd goncwest drwy ei waed, Haleluia.
- 2 Yno rhoed i satan glwy', fyth nas gorfydd;
 Ergyd oedd a gofir mwy, yn dragywydd;
 Di'm ond marw o'm Iesu'n lân, wnaeth y lladdfa;
 Sawl a'i caro seinied gân; Haleluia.
- 3 Dyfais fawr anfeidrol Fod, oedd datguddio.
 Iawn am bechod, sydd erioed, am ein damnio;

Rhodd fy Nuw yn natur dyn, dâl i'r eitha',
Angeu o anfeidroi rîn, Haleluia.

380.

Etifeddiaeth deg.

(7, 4.)

- 1 DAETH y coelbren dwyfol gwir, im' a gwynfyd :
Etifeddiaeth Salem bur, tir y bywyd ;
Lle mae uffern, angeu a'r bedd, wedi'u maeddu,
A llawenydd pur a hedd, yn teyrnasu.
- 2 Rhaid i d'wllwch ffoi o flaen ei ddysgleirdeb ;
Fflam angerddol dwyfol dân, yw ei wyneb ;
Mae'r cymylau sy'n crynhoi 'n gorfod cilio ;
Am fod rhaid i bobpeth ffoi a'i gwrth'nebo.

381.

Gorseddfainc y gras.

(M. C.)

- 1 ER maint fy llygredd o bob rhyw,
Er cymaint yw eu rhif,
Ac er fy nwydau cyndyn chwith,
Sy'n para fyth yn gryf.
- 2 Af at ei orsedd fel yr wyf,
Anfeidrol orsedd grâs ;
Datguddiaf yno'm ffaidd glwyf,
A'm holl euogrwydd câs.
- 3 Mi welaf lu yn berffaith wyn,
Yn aml fel y ser ;
A fu fel finnau oll yn frwnt,
Yn bur ger bron fy Ner.
- 4 Wel minnau'r eiddil gwaela'i lun,
Heb ddim ond ffaidd friw,
Anturiaf at drysorau'r nef,
Cyfiawnder pur fy Nuw.

382.

Y newyddion goreu.

(M. C.)

- 1 MAE clywed newydd am ei waed
Yn llyfo ar Galfari,
Yn fwyaf frainit erioed a gaed,
Ar hyd ein daear ni.
- 2 Fe'i câr y Negro tywyll du,
E'n hyfryd maes o law,
Pan t'w'no gwawr efengyl grâs
I dir yr India draw.
- 3 Fe ddaw'r blynyddau pur i ben,
Pan t'w'no efengyl grâs,
Fel haul dysgleiriol yn y nen,
Tros wyneb daear lân.
- 4 Ac mi ddysgwylia'r hyfryd awr,
Boreuddydd Jubili,
Pan ddelo holl dylwythau'r llawr
I garu'n Harglwydd ni.

383.

Gorfoleddu yn enw Duw.

(8, 7, D.)

- 1 ATAT, Arglwydd, dyrcha'm henaidd,
Rho'f f'och'neidiau ger dy fron,
Unrhyw ateb i'm griddfanau
Dyfnion, 'fedd y ddaear hon :
Nid oes ond dy enw'n unig
Ag a gynwys lawn iachâd,
Ac a faedda'm holl elynion
Sy'n fy rhoddi tan eu traed.
- 2 Mae'm gofalon oll yn darfod,
Cynted caffwyf wel'd dy wedd,
A diflanu'n berffaith gwbl,
Y mae ofnau'r byd a'r bedd :

Mae fy nhemtasiynau creulon,
 Er mor aml oe'nt o'r blaen,
 Megis cwmwl tew'n myn'd heibio
 Yn dy bresenoldeb glân.

384.

Dianc at Dduw.

(8, 7, D.)

- 1 MAE fy nghalon yn ehedeg,
 Mae fy nymuniadau'n llu,
 Yn diengu uwch troadau
 Haul a ser y nefoedd fry ;
 Ac yn gwrthod pob cynnygion
 O ddymunol bethau'r llawr,
 Er mwyn meddu'r fraint sy'n nghadw
 Imi'n nhragwyddoldeb mawr.
- 2 Nid oes rym yn fy nhrachwantau
 I edrych yn dy wyneb pryd,
 Y mae natur wyllt yn dofi,
 Ac yn suddo'i lawr i gyd :
 Ti yw'm gobaith, a'm dedwyddwch,
 Ti yw'm cyfoeth, ti yw'm grym,
 Hebot 'dwyf ond tlawd ac egwan,
 Hebot Iesu, 'dwyf fi ddim.

385.

Cyfaddefiad.

(8, 7, D.)

- 1 DYMA'R truan â'r anghenus,
 Wedi treilio'i dda o'r bron,
 Holl drysorau pur paradwys,
 Ar wrthddrychau'r ddaear hon ;
 'Nawr yn noeth, yn glaf, yn glwyfus,
 Ac mewn gwlad o eisieu'n byw,
 Newyn mawr heb neb yn rhoddi,
 Sy'n yr ardal na bo'm Duw.

2 Cibau yr ymborthais arnynt,
 Cibau moch ffeiddiaf cās,
 Wedi unwaith im' gael profi,
 O ddanteithion Eden frās;
 Pob rhyw chwant o dan y nefoedd,
 Bwyodd f'enaïd llesg yn friw,
 Nes wy'n ngolwg pawb a'm 'nebydd,
 Fel y Negro dua'i liw.

3 Gweision cyflog fy hen gartref,
 Fyth sy'n llawen, ac yn llawn,
 Heb na gofal, trai na phrinder,
 Fyth na bore na phrydnawn;
 Mae cyflawnder yno o gyfoeth,
 Fel y moroedd mawr didrai,
 O dragwyddol mae ei ddechreu,
 Yn dragwyddol mae'n parhau.

386. "*Efe a archollwyd am ein camweddu ni.*" (M. C.)

- 1 Fy meiau trymion luoedd maith,
 Waeddasant tua'r nen;
 A dyma pa'm yr oedd i'm Duw
 Ddyoddef ar y pren.
- 2 Hwy dy fradychodd, anwyl Oen,
 Hwy oedd y goron ddrain;
 Hwy oedd y fflangell greulon gref,
 Hwy oedd yr hoelion main.
- 3 Fy meiau oedd y waewffon,
 Wanodd ei ystlys bur;
 Fel rhedodd ffrŵd o tan ei fron
 O waed a dyfroedd pur.

387.

Ymbil am burdeb.

(M. C.)

- 1 O MADDEU mai a chliria'n llwyr,
F'euogrwydd oll i gyd,
● Ac na'd im' flino'th Ysbryd mwy
Tra byddwyf yn y byd.
- 2 O bechod ffo, gâd lonydd im',
Ti sethraist dan dy droed,
A rho'ist i angeu fywyd un
A'm carodd oreu erioed.
- 3 O chwilia 'nghalon, Iesu mawr,
Ac eistedd yma dy hun;
A thaff i lawr gadeiriau hen
Pob eilun gwael ei lun.

388.

Ceisio Duw.

(8, 7, 4, 7.)

- 1 CHWILIO am danat, addfwyn Arglwydd,
Mae fy enaid yma a thraw;
Teimlo mod i'n berffaith ddedwydd,
Pan y byddi di gerllaw:
Gwedd dy wyneb, &c.
Yw fy mywyd yn y byd.
- 2 Heddwch perffaith yw'th gymdeithas,
Mae llawenydd ar dy dde';
Ond i ti fod yn bresenol,
Pob peth sydd yn llanw'i le:
Ni ddaw tristwch, &c.
Byth i'th bresenoldeb di.
- 3 Yn y ffwrnes danllyd greulon,
Os tydi a ddaw ymlaen,

'Does ond heddwch a mwyneidd-dra,
 A thiriondeb yn y tân :
 Gwên dy gariad, &c.
 Wna bob cystudd yn ddirym.

- 4 Ti wy'n 'mofyn, Arglwydd tyred,
 Yn mhob trallod bydd gerllaw ;
 Dilyn fi, 'rwy'n ofni yma,
 Dilyn fi, 'rwy'n ofni draw :
 Tan dy aden, &c.
 Mi edrycha'n wyneb llu.

389. *Pob peth er daioni.* (8, 7, 4, 7.)

1 DUW anfeidrol yw dy enw,
 Llanw'r nefoedd, llanw'r llawr,
 Ac mae'th lwybrau anweledig
 Yn nyfnderoedd moroedd mawr :
 Mae'th feddyliau, &c.
 'Nis nag uffern, uwch na'r nef.

2 Minnau'n ddyfal sy'n ymofyn
 Ar yr aswy, ar y dde,
 Ceisio canfod dwfwn gynghor,
 A dybenion Brenin ne' :
 Hyn a gefais, &c.
 Mai daioni yw oll i mi.

3 Pan 'bwyf tan y tonau mawrion,
 A'r llifeiriant yn ei rym,
 Dae'r ac uffern gyda'u gilydd,
 Am fy nghuro 'lawr yn ddim :
 Af tan grynu, &c.
 'Maflaf yn addewid nef.

4 Dyben 'nefoedd sydd yn gywir,
 Bynag beth yw dyben dyn ;

Mi anturiaf fy holl fywyd,
 Ar ei eiriau Ef ei hun :
 Doed pob cystudd, &c.
 Ddygwydd dim ond da i mi.

5 Da yw'r groes, a da yw'r wasgfa,
 Da yw temtasiynau llym,
 Oll i'm tynu o'r creadur,
 O fy haeddiant, o fy ngrym :
 Minnau'r truan, &c.
 Ffof tan aden Brenin nef.

390. *Ymddatod oddiwrth y byd.* (8, 8, 8.)

- 1 A RAID i groesau fyth fel hyn,
 I ganlyn f'ysbryd bant a bryn,
 Rhywbeth bob awr i'm gwneyd yn brudd ;
 Rhywbeth i soddi'm henaid gwan,
 Yn union pan f'o am godi i'r lan,
 Trwy gydol faith y nos a'r dydd.
- 2 Mae'n debyg nad oes nef i gael
 Mewn unrhyw fath greadur gwael,
 Na man o'r byd i wneyd fy nyth ;
 Y cyflwr fyddwyf am fwynhâu,
 Yn dawel heb gystuddiau a gwae,
 'Does llonydd imi yno byth.
- 3 Os ydwyt am fy nhorï 'lawr,
 O dwrf a dwndwr daear fawr,
 A'm rhoddi i orwedd yn y bedd ;
 O danfon waedd ar fore ddydd,
 I'm dwyn o'm rhwymau oll yn rhydd,
 I fyw byth mwyach yn dy hedd.

391.

Y cartref nefol.

(8, 8, 8.)

- 1 Fy enaid cred byth yn dy Dduw,
Na fydd anfoddlon tra f'ych byw,
Yr ydwyt beunydd yn nesâu,
I wlad mae cariad fel y môr,
Yn uno'r saint a'r seraff gôr,
Tragwyddol gydsain bur ddidrai.
- 2 D'wy'n nabod dim o'r nefol le,
Gwynfyd f'ai'n trigo ynddo fe,
Rwy'n caru pawb o fewn y wlad;
Y dymer nefol fwyn sy' fry,
Ddymunwn 'nawr fod genyf fi,
Fy nghartref ydyw tŷ fy Nhad.
- 3 Yr wyf bron ar derfynau'r wlad,
Nid yw teganau cig a gwaed,
Yn gallu temtio'm llygaid mwy;
Mae gwedd y rhai yr âf i'w plith,
Fel haul yn ogoneddus byth,
Ond arall yw eu cariad hwy.

392.

Ffoi at Grist.

(M. H.)

- 1 'DOES arnaf eisieu yn y byd,
Ond golwg ar dy haeddiant drud;
A chael rhyw brawf o'i nefol rin,
I 'mwadu'n lân a mi fy hun.
- 2 'Rwyf yn ei wel'd, a'i wel'd o bell,
Na'r oll o dan yr haul yn well;
Ond, O! na allwn ddringo 'nawr
I'r man mae yn dyferu i lawr.
- 3 Rhyw ymdrybaeddu yn fy ngwaed,
Y'nghanol dyrus anial wlad;

Yn ceisio dringo fyth i'r làn,
Heb etto dd'od i'r hyfryd fan.

- 4 O flaen y drugareddfa fawr,
Yn trengu wrth dy draed i lawr,
Gwel y pechadur duaf gaed,
Yn brefu am rinweddau'th waed.

393.

Ymgysegru i Dduw.

(M. C.)

- 1 O DEFFRO'N fore f'enaïd gwiw,
Ar doriad cynta'r dydd ;
A llwyr gysegra ddyddiau 'does
I'r gwrthddrych goreu sydd.
- 2 Câf yma yfed cariad pur,
Na phrofodd cnawd mo'i ryw ;
Ac ymddyfyru uwch y byd
Ar bur bleserau'm Duw.
- 3 Mi fliniais yfed dyfroedd sŵr
Ffynnonau daear lawr ;
Ni fyddaf happus ond wrth flas
Pleserau'r nefoedd fawr.
- 4 Uwch cyrhaedd pob serchiadau gwael
Yw'r cariad pur ei flas,
Ag sydd yn llifo'n loew ffrwd
O iechydwrïaeth grâs.

394.

Y jubili.

(M. C.)

- 1 TYR'D Arglwydd â'th addewid rād,
Pur eiriau'r nef i ben ;
Dyddiau fy rhyddid ro'ed dan sêl
Yn llyfyr mawr y nen.

- 2 Mae dyddiau griddfan imi'n hir,
Caethiwed Babel fawr ;
O na chawn deimlo'r Jubil fwyn
Yn agor dorau'r wawr.
- 3 Tebygwn pe b'ai nhraed yn rhydd
O'r blin gaethiwed hyn,
Na wnawn ond canu tra f'awn byw
Am rês Calfaria fryn.

395.

Grâs i achub.

(8, 7, D.)

- 1 TORI wnes fy addunedau
Gant o weithiau maith eu rhi' ;
Ac mae'n rhaid rhyw rês anfeidrol
Gadw euog fel myfi :
Wrth yr orsedd 'rwyf yn cwympto,
Nid oes ar y ddaear lês,
Fan y câf fi feddyginiaeth,
Ond yn unig gorsedd grês.
- 2 Grês fel moroedd all fy achub,
Perffaith gyflawn yn mhob rhan ;
Grês a roddo nerth a bywyd,
Ac a wnelo'n gryf y gwan :
Rhaid cyfiawnder a doethineb,
A phob doniau fawr a mân,
Cyn yr elo f'enaidd eiddil,
Sy' mewn cadwyn, gam y'mlaen.
- 3 Rhaid cael llygaid fel y gwelwyf,
Hyfryd beraidd lwybrau'r dydd ;
A chael holl allweddau'r nefoedd,
I ddatgloi cadwynau'n rhydd ;

Rhaid cael llusern fawr y bywyd,
 Fyth i gerdded o fy mlaen,
 Ganol dydd yn gwmwl goleu,
 Ganol nos yn golofn dân.

396.

Pwyso ar rás Crist.

(8, 7, D.)

- 1 TYWYSOG bywyd bydd o'm hochr,
 'Rwyf fi bron a llwfrhâu,
 'Dyw'm gelynyon mewn rhifedi,
 Na'u cyndynrwydd, ronyn llai;
 Torf oddiallan sydd yn temtio,
 Torf o mewn o'u cymaint hwy,
 Ac mewn cyngrair gyda'u gilydd
 Am ro'i imi farwol glwy'.
- 2 Minnau r'ois fy holl ymddiried,
 Iesu, arnat ti dy hun;
 Ac nid oes un enw arall,
 Ddichon achub y fath un:
 Tyn fi 'mlaen i'r ardal hyfryd,
 O'r anialwch maith ei hyd,
 Ti gai'r clod a'r holl ogoniant,
 Pan yn ulw'r elo'r byd.

397.

Ymladd a digalondid.

(8, 7, 4, 7.)

- 1 LLAWN euogrwydd, llawn o ddychryn,
 Llawn o boen yw'm henaid gwan;
 Anghrediniaeth cryf yn haeru
 Byth na dd'of oddiyma i'r làn:
 Balm o Gilead, &c.
 Unig all fy nerthu mwy.
- 2 Mae'm blynyddau hirion meithion
 Wedi'u treulio oll yn ddim;

'Dyw mhechodau o'r dechreuad,
 Etto nemawr llai eu grym :
 O na allwn, &c.
 Gredu fod eu dydd gerllaw.

3 Mi feddyliais yn y bore,
 Buaswn amser maith cyn hyn,
 Wedi maeddu fy mhechodau,
 Ac yn canu ar Sion fryn :
 Sŵn y rhyfel, &c.
 Sy'n y wlad 'rwy' etto'n byw.

4 Weithiau bron yr wyf a chredu
 Ches i erioed effeithiol râs ;
 Credu bron mai fy mhechodau
 Yn y diwedd garia'r maes :
 Dwg fi Arglwydd, &c.
 Dwg fi o'r caethiwed hyn.

398.

Hunanymholiad.

(8, 7, 6, 7.)

1 BETH yw'r achos bod fy Arglwydd,
 Hawddgar, grasol yn pellhâu ?
 Yn guddiedig neu yn gyhoedd,
 Mae rhyw bechod yn parhâu :
 Tyr'd yn awr, tòr i lawr,
 F'anwireddau fach a mawr.

2 Chwilia f'enaid gyrau'th galon,
 Chwilia'i llwybrau maith o'r bron ;
 Chwilia bob ystafell ddirgel
 Sydd o fewn i gonglau hon :
 Myn i maes bobpeth câs,
 Sydd yn atal nefol râs.

- 3 'Rwyf yn canfod mil o elynion
 Yn fy mynwes yn parhâu,
 Oll am lethu f'enaïd euog,
 Bob un un, neu bob yn ddau :
 Dal fi i'r làn, 'dwyf ond gwan,
 Mi gâf goncwest yn y mán.

399.

Profi cariad Duw.

(M. H.)

- 1 PAHAM caiff nwydau natur gref
 I attal awel bur y nef?
 Mae gradd yn well o'th gariad drud,
 Na'r ddaear fawr a'r nef i gyd.
- 2 Ni fedd y dwyrain faith na'r dê,
 Bleserau fel pleserau'r ne';
 Mae môr didrai mewn marwol glwy',
 Diderfyn a diddarfod mwy.
- 3 Rho imi brawf o'th gariad drud,
 I'r sawl a fynech, dod y byd;
 Dy gwmi dry, mewn mynyd awr,
 Y ddaear megis nefoedd fawr.

400.

Efe a fu yn ufudd hyd angeu.

(M. H.)

- 1 WEL weithan c'od, fy enaid cu,
 Dy lygaid tua'r nefoedd fry;
 Gwel yr anfeidrol berffaith Iawn,
 Sy'n maddeu'th bechod oll yn llawn.
- 2 Y moroedd mawr a'r ddaear faith,
 A llu'r ffurfafen yw ei waith;
 Er hyny rho'dd ei fywyd cu,
 I angeu chwerw tros of fi.

- 3 Y dwylo wnaeth y wybr l s
A all'sai gadw angeu i maes,
Ond ufuddh odd iddo'n rhydd,
I gariad perffaith gario'r dydd.
- 4 Dyfnderoedd annhraethadwy mwy,
Didrai, difesur, sy'n ei glwy';
Ein hanwireddau ddarfu ddwyn,
A ninnau'n rhyddion er ei fwyn.
- 5 Mae haeddiant fy Iachawdwr mawr,
Yn dyoddef poen rhwng nef a llawr;
Filiwnau maith yn fwy ei r n,
Na haeddiant seintiau'r byd yn un.

401. *Ymarweddiad yn y nefoedd.* (M. C.)

- 1 O TYRED Ysbryd sanctaidd pur,
Nertha'm blinedig draed;
A rho imi olwg oleu glir
Ar hyfryd dir fy ngwlad.
- 2 G d imi ado'r anial maith,
Gwlad galar, a gwlad gwae;
A myned rhagof tua'r tir
Sy'  i bleser yn parh u.
- 3 Pleserau daear wedi ffoi,
Pob chwantau yn gytun;
Heb un dyfyrwch  s y rh d
Ond Iesu mawr ei hun.
- 4 A meddwl am gwmpeini'r nef,
A meddwl am y gwaith
Fydd genyf mwy, heb flino dim,
I dragwyddoldeb maith.

- 5 Yn mhlith cyfeillion rîf y sêr,
Llawn ddysglaer uwch y nen,
Yn cymysg cariad ato Ef
Fu farw ar y pren.

402.

Cysuron y cristion.

(M. C.)

- 1 Ti yw fy Arglwydd I a'm Duw,
Fy noddfa gadarn gref;
Fy unig gysur, f'unig fraint,
Fy nghwbl îs y nef.
- 2 Fe ballodd dyn, fe ballodd da,
Creadur o bob rhyw;
A chefais brofi nad oes dim
I'w garu, ond fy Nuw.
- 3 Mi ro'f fy ngofal arno'i hun,
Doed y blinderau ddêl;
A'i addewidion gaiff fod im'
Megis y diliau mêl.
- 4 Boed dynion heddyw imi'n gu,
A foru aent yn gâs;
Ond fy nghysuron innau dardd
Oddiwrth dy ddwyfol râs.

403.

Clodforwch yr Arglwydd.

(8, 7.)

- 1 CLODFORWCH bawb ein Harglwydd Dduw,
Doed dynolryw i'w ganmol;
Ei hedd, fel afon fawr ddidrai,
Gaiff ddyfrhau ei bobol.
- 2 Uwch nefol len mae tanllyd lu
Yn ei foliannu beunydd;

- Nef, daear, dŵr, a phob peth byw,
All dd'weyd mai da yw'r Arglwydd.
- 3 Pan ballo ffafr pawb a'u hedd,
Duw o'i drugaredd odiaeth,
Yn Dad, yn Frawd, yn Gyfaill fydd
Ar gyfing ddydd marwolaeth.
- 4 Y gwardigion gadd ryddhâd
O'r carchar â'u cadwynau,
Dadseiniant gân, trwy'r nef a'r llawr,
I'w râs â'i ddirfawr ddoniau.

404.

“*Pwy yw hon ?*”

(8, 8, 6.)

- 1 O PWY yw hon sy'n d'od yn hy',
Yn lew i'r làn fel rhwng dau lu,
O'r dywyll Aifftaidd wlad ?
Gan roddi pwys ei henaid pur
Ar Iesu gwiw'r Messiah gwir,
Ei ffrynd a'i Phrynwr rhâd.
- 2 Dan Pharao hên, mewn t'wyllwch hîr,
Yn poeni'n dost mewn anial dir,
Yn y caethiwed draw,
Yn llesg ei hwyl yn wir bu hon,
Dan lawer ffrwd, a llif a thôn,
Mewn dychryn mawr a braw.
- 3 Hi deithiodd yr anialwch mawr,
Gan gludo Amalec i lawr,
'Nghydâ breninoedd gwych ;
Cadd ddŵr o'r graig, cadd fânna gwiw,
Dan Sina fe'i cynnaliodd Duw,
Pan oedd yn wael ei drych.

405.

Yr ail ran.

(8, 8, 6.)

- 1 O'r dyfnder du i'r làn y daeth,
Tua'r wlad sy'n llifo o fêl a llaeth,
Yr etifeddiaeth frâs ;
Yn llawn o hedd, mae'n awr mewn hwyl,
Yn canu, ac yn cadw gwyl
Am dd'od o'r Aifft i maes.
- 2 Duw sy' iddi'n blaid, hi ga'dd o'i blaen
Y cwmwl niwl, a'r golofn dân,
Eneinniad yr holl saint :
Hi wyr y ffordd i'r Ganaan draw,
Ni chyfeiliorna ar un llaw,
Nes cael meddiannu'r fraint.
- 3 Fel boreu wawr fe welir hon,
Teg fel y lloer ei hwyneb llon,
Mewn cariad, grâs a hedd ;
Fel haul, heb un brycheuyn du,
Ofnadwy fel banerog lu,
On'd hyfryd yw ei gwedd ?

406.

Enwau a swyddau Crist.

(M. B. D.)

- 1 MI wn i Grist, mi wn
Fy ngharu cyn bod byd ;
Parhau i'm caru gwn y gwna,
Yn ddi-drai'r un o hyd :
Efe yw'm Tywysog hardd,
Efe yw'r Meddyg mawr,
Efe yw'm Harchoffeiriad gwych
Sy'n eiriol troswy' 'nawr.
- 2 Fy mrawd yw Iesu da,
Fy mherl o uchel bris ;

Fy nghyfaill yw, a'm cariad mwyn,
 Fy ngobaith yn ddilys :
 Fy mhren y bywyd pur,
 Fy nrws i fyn'd at Dduw,
 Fy ffordd i fyned tua'r wlad
 Lle mae fy Nhad yn byw.

- 3 Fy rhosyn Saron gwych
 Yw'm hyfryd Iesu mwyn,
 Fy Mugail yw,—a mi sy'n un
 O'i dirion anwyl ŵyn :
 Fy mhrynwr yw efe,
 Fy mhriod yn ddigêl,
 Fy nharian gref, fy fforddwr da,
 Fy sicr rân a'm sêl.

407.

Yr ail ran.

(M. B. D.)

- 1 ALPHA Omega mawr
 A'm hawl yw'm hanwyl Grist,
 Efe yw'm hamddiffynfa glud,
 Efe yw'm ffyddlon dyst :
 Fy mhen, fy nghorn, a'm tŵr,
 Fy auraidd allor lân ;
 Fy aberth drud, fy mhrophwyd da,
 Fy nhywys wna y'mlaen.
- 2 Fe'm portha I a'i rês,
 Nes myn'd i ben fy nhaith,
 Fe ladd fy holl elynion cês,
 Cêf goncro uffern faith ;
 Fy arch, a'm hysgol yw
 I ddringo tuâ'r nen,
 Cêf fyn'd ymlaen o nerth i nerth,
 Nes d'od i Sion wen.

408.

Y cwbl yn rhad.

(M. H.)

- 1 O ARGLWYDD, 'rhwn sy'n maddeu bai
Yn rhâd i'r edifeiriol rai,
Fy unig hawl i'r nefoedd fry,
Yw'th angeu drud ar Galfari.
- 2 Yn rhâd y ce's, yn rhâd mae'n d'od,
Bob peth a roddwyd im' erioed ;
Mae'r cwbl oll yn rhâd i mi,
O'r ddaear hon i'r nefoedd fry.
- 3 Pa fodd am hyn na chanaf glod,
I'r hwn a'm carodd cyn fy mod ?
O seintiau ac angylion fry,
Clodforwch chwi ef gyda mi.

409.

Goruchafiaeth trwy Grist.

(8au.)

- 1 PECHADUR, fy Arglwydd â'i gŵyr,
Pechadur a garwyd yn rhâd ;
Pechadur a gliriwyd yn llwyr,
Yn rhyfedd trwy rinwedd y gwaed :
Pechadur a orfu fyn'd trwy
Ryw stormydd o ddyfroedd a thân,
Pechadur na orphwys byth mwy
Nes dringo i'r nefoedd yn lân.
- 2 Y rhyfel o'n hochor ni sydd,
Er cymaint ein tuchan a'n cwyn ;
Pwy etto 'rioed gollodd y dydd,
Trwy waed yr Emmanuel mwyn ?
Fe ddrylliwyd fy Arglwydd yn friw,
Rhwing lleiddiaid ar fryn Calfari ;
Wel bellach, mi'i mola trw'i byw,
Fe brynodd y nefoedd i mi.

- 3 'Ngelynion er cymaint eu llid,
 Yn lluoedd a fwrir i'r llyn,
 Yn 'sgubau fe'u rhwymir y'nghyd,
 Dechreuad llawenydd yw hyn :
 Mwy etto fy enaid yw'th fraint,
 Ond lanio tu arall i'r bedd,
 Cael treulio yn mhlith yr holl saint,
 Sabbothau tragwyddol o hedd.

410.

Yr ail ran.

(8au.)

- 1 Y BARADWYS âf iddi cyn hir,
 Mae afon y bywyd yn hon,
 Yn llifo fel grisial yn bur
 I ddiodi'r sychedig o'r bron :
 Mae hefyd ynghartref fy Naf,
 Afonydd o laeth ac o fêl ;
 Wel bellach tuag yno mi âf,
 A deued hi fel ag y dêl.
- 2 Pryd hyny câf glywed y gair,
 Y gair sy'n felusach nag un,
 Yn seinio ffurfafen y nef,
 O enau f'Anwylyd ei hun :—
 De'wch blant bendigedig fy Nhad,
 De'wch f'etholedigion i gyd,
 Meddiennwch y deyrnas yn rhâd,
 Barotowyd cyn seiliad y byd.
- 3 Mi garaf 'f'anwylyd o hyd,
 Fy Mhrynwr, fy Mhrïod a'm Pen ;
 O'r diwedd fe sugnodd fy mryd,
 O'r ddaear i'r nefoedd uwch ben :
 Gwyn fyd a f'ai'n gorwedd yn awr,
 Yn llonydd yn ngwaelod y bedd,

Mi godwn ar doriad y wawr,
Yn fuan i weled ei wedd.

411.

Enaid sychedig.

(5, 6.)

1 MAE'M calon yn friw,
Mewn syched 'rwy'n byw,
Am yfed o'r dyfroedd
Sy'n nefoedd fy Nuw.

2 O Arglwydd fy Naf,
Bryd dywed y câf
Wel'd gwedd dy wynebpryd,
Haul hyfryd yr hâf?

3 Côf genyf y pryd
Y buom y'nghyd,
Yn rhodic mewn cariad
Uwch cyrhaedd y byd.

4 Tyr'd sathra di'r llu,
Uffernol rai sy'
Yn attal fy enaid
Rhag dringo fry fry.

412.

Yr ail ran.

(5, 6.)

1 HIRAETHU 'rwy'n brudd
Am fwyfwy o ffydd,
A gallu i wrthsefyll
Ac ennill y dydd.

2 Fy enaid dan wae,
Mewn syched y mae,
Drachefn am brofi,
Dy hédd â'th fwynhâu.

- 3 Duw ffyddlon erioed
 Y credais dy fod,
 Dy heddwch fel afon
 Yn dirion i'm dod.

Y ddwy Emyn a ganlyn a ddanfonwyd i ni gan gyfaill, yn llaw-ysgrifen yr Awdwr ei hun, y rhai ni fuant yn argraffedig o'r blaen.

413.

Da yw i ni fod yma.

(8, 7.)

- 1 WEL dyma borth y nefoedd fry,
 A dyma dŷ'r Gorucha',
 Dyma le'r un a elwir JAH,
 Am hyn mae'n dda bod yma.
- 2 Caiff anghrediniaeth yma friw,
 Yn enw Duw Jehofah;
 Ffydd i orchfygu, nerth a ga',
 Am hyn mae'n dda bod yma.
- 3 Ar fyd a chnawd, a drygau llawn,
 Trwy Grist ni wnawn 'lanastra;
 Cawn oruchafiaeth ar bob pla,
 Am hyn mae'n dda bod yma.
- 4 Cawn nerth i fyn'd o'r Aifft i maes,
 A hefyd rās i bara;
 Ymlaen i Ganaan Crist a'n tyn,
 Mae'n dda am hyn fod yma.

414.

Mi wn i bwy y credais.

(8, 7.)

- 1 MI gefais ben Goliah i lawr,
Y cadben mawr a faeddais ;
Mi faedda'r holl rai ereill mwy,
Can's gwn i bwy y credais.
- 2 Er gwaetha satan, byd a chnawd,
Eu llid, eu gwawd a'u gormes ;
Mi âf y'mlaen tua Chanaan mwy,
Can's gwn i bwy y credais.
- 3 Yr hwn ddechreuodd y gwaith da,
Fe'm cadarnhâ'n fy mhroffes ;
Nes myn'd i mewn i'r nefoedd mwy,
Can's gwn i bwy y credais.
- 4 Wrth fyned trwy'r Iorddonen ddu,
Bydd hyder cry' 'n fy mynwes ;
Nid ofnaf angeu a'i golyn mwy,
Can's gwn i bwy y credais.
- 5 Ac wedi cyrhaedd fry i làn
Y nefol Ganaan gynhes ;
Fy ffydd a dry yn olwg mwy,
Caf wel'd i bwy y credais.
- 6 A cher ei fron y byddaf byw,
Caf ganmol Duw heb dewi ;
Am f'achub o'm trueni trist,
A'm dwyn at Grist trwy gredu.

Yr Emyn ganlynol sydd Arall-eiriad o'r Salm lxxxix. Gan fod y cyfansoddiad oll mor dra rhagorol, dodasom y cyfan yma ynghyd. Ceir ynddo amryw bennillion anghymharol felus, a thra priodol i'w canu yn nghynnulleidfa y saint.

415.

Adnodau 1, 2.

(8, 7, D.)

1 UNIG Geidwad rhai cystuddiol,
 Sy'n rheoli'r nef a'r llawr,
 Achub f'enaïd sydd yn soddi
 Tan y cenllif garw mawr ;
 Lleoedd dyfnion, geirwon, enbyd,
 A rhyw greigydd drwg eu rhyw,
 Lle mae gwynt a thòneu'n creü
 Tymhestl greulon, 'rwyf yn byw.

Adnod 3.

2 Minnau lefais arnat, Arglwydd,
 Nes i'm fino llefain mwy ;
 A fy llygaid sydd yn pallu
 Syllu'r cwmwl dudew trwy :
 Dysgwyl 'rwyf o'r plygain tywyll
 Hyd at fachlud haul brydnawn,
 Am dy hedd, ac etto'n methu
 Cael ei feddu ef yn llawn.

Adnod 4.

3 Amlach y'nt na'm gwallt lluosog,
 Byddin adgas, gyfrwys fawr ;
 Heddyw o mewn, y foru oddi Allan,
 Sydd yn ceisio'm cael i lawr :
 Hwyl difethent wraidd a changen,
 Truenusaf ce's fy nhrin,

Ac nid oes a all eu talu
Yn eu mynwes, ond dy hun.

Adnod 5.

- 4 Ti adwaenost fy ynfydrwydd,
A fy mhechod mawr ei rym ;
Ac nid yw fy holl gamweddu
Yn guddiedig rhagot ddim :
Lle 'rwy'n wan, yn dlawd, yn llwfr,
Lle 'rwy'n crwydro, lle 'rwy'n ffol,
Dal fi i'r làn, a chadw mywyd,
Cliria'm llwybr, dwg fi'n ol.

Adnod 6.

- 5 Na'd fi, Iesu, fod yn w'radwydd
I'th sancteiddiol anwyl rai ;
Na ch'wilyddier wyneb grasol,
Am fy mhechod I a'm bai :
Rho im' loches i ymguddio,
Modd i gadw'm gwisg yn wen,
Na b'o neb o tan yr wybren,
Gael eu gwynfyd am fy mhen.

Adnod 7.

- 6 Er dy fwyn y dygais warthrudd,
Dan dy iau di nos a dydd ;
Ac yn ffyddlon yn dy orchwyl,
Fyth heb geisio myn'd yn rhydd :
Pe buaswn gyda'r werin,
Sy'n wrthwyneb i dy râs,
Ni fwriasant mewn gelyniaeth
Arnaf wawd a ch'wilydd câs.

Adnod 8.

- 7 Ond yn awr, 'rwyf yn ddyeithr
I'm perth'nasau nesa i gyd ;

Nid oes neb ag sy'n fy ngharu
 O'th elynion yn y byd:
 Plant fy mam ynghanol cartref,
 Sy'n fy nghyfri'n estron pell,
 Am i mi, fy Nuw, dy ddewis
 Megis unig drysor gwell.

Adnod 9, 10, 11.

- 8 Am fy mod o'th blaid yn ffyddlon,
 I ddyrchafu d'enw mawr;
 Sel dy dŷ, a sel i'th enw
 Sydd yn tynu 'mhen i lawr:
 Gwawd a gâf oddiwrth bob doniau,
 Gwawd a gâf oddiwrth bob grâs,
 Wylo, ympryd, neu weddio,
 Alwant hwy yn rhagrith câs.

Adnod 12.

- 9 Yn fy erbyn y chwedleua
 Cyfoethogion mawr y byd;
 Gwawd i'r meddwon adgas segur,
 Ydwyf fi, a'u cân o hyd:
 'Mofyn beiau, credu anwir,
 A chwedleua'n uchel iawn,
 Am fy nghwyp, a minnau'n sefyll,
 Yn dy freichiau fore a nawn.

Adnod 13.

- 10 Ond myfi sy'n danfon gweddi
 Drwy bob cwmwl tywyll du,
 Yn mhob storom, yn mhob cystudd,
 Mewn mynydyn atat ti:
 Ti'm gwrandewaist, ti'm gwrandewi,
 Yn dy iachawdwriaeth râd,

Fel na bo'nt o fewn i furiau
Sion, fore na phrydnawn.

Adnod 29.

- 18 Minnau truan a gofidus,
Bob amserau tan yr iau,
Ac nid oes ond iachawdwriaeth
All yn unig fy iachâu :
Gwared f'enaid o'i gaethiwed,
Dyrcha 'mhen, ti yw fy Nuw ;
Minnau ganaf am dy fawredd
Yn fy nghalon tra hwy' byw.

Adnodau 31, 32.

- 19 Hyn y sydd felusach genyt,
Na'r aberthau oll i gyd ;
Mae'th foliannu yn fwy hyfryd
Nag yw gwaed y bustych drud :
A'r trueiniaid tlodion, hwythau
Lawenhânt pan glywant hyn,
Nad oes iawn trwy unrhyw aberth
Ond wnaed ar Galfaria fryn.

A T D D O D I A D.

1. *Dy holl weithredoedd a'th glodforant.* (M. H.)

1 MAE'TH holl weithredoedd, Arglwydd Iôr,
Trwy'r ddaear faith a'r eang fôr,
Yn datgan dy ogoniant maith,
Yn uchel uchel yn eu hiaith.

2 Yr haul, a'r bydoedd oll uwch ben,
Aneirif lu sy'n britho'r nen,
A gydosodant allan glod
Y bysedd roddes iddynt fod.

3 Ond gair ei rês mawrhau a wnaeth,
Uwchlaw ei enw oll, a'i waith;
Gan ddangos trwyddo i lwch y llawr
Ei gariad, a'i drugaredd fawr.

4 Moliannus fyddo'i enw Ef
Trwy'r ddaear hon, a nef y nef;
Am waith ei ddwylaw, ond yn fwy,
Am gariad rhyfedd marwol glwy'. REES.

2. *Cwmp a chodiad dyn.* (M. C.)

1 DYN oedd yn ogoneddus iawn
Pan ddaeth o ddwylaw Duw;
O bob hawddgarwch pur yn llawn,
Uwch pob creadur byw.

3 Mae'r aberth wedi'i ladd,
 Pob peth sy'n barod;
 Llawn groesaw i bob gradd
 Yn awr i ddyfod:
 Caiff cleifion wir iachâd,
 Rhai aflan wir lanhâd,
 A'r euog gyfiawnhâd
 Y'ngwaed y cymmod.

REES.

6. *Felly carodd Duw y byd.* (8, 7, D.)

1 "FELLY carodd Duw" wrthddrychau
 Anhawddgara erioed a fu;
 "Felly carodd," fel y rhoddodd,
 Anwyl Fab ei fynwes gu:
 Nid arbedodd, ond traddododd
 Ef, tros ein pechodau i gyd;
 Taro'r cyfaill, arbed gelyn,
 "Felly carodd Duw y byd!"

2 "Felly carodd," gan dosturio
 'N rhâd wrth hunan-ddamniol ddyn;
 "Felly carodd," yn anfeidrol
 Deilwng byth o hono'i hun:
 Er arbediad gwrthryfelwyr,
 Gwnaeth ei Fab yn Aberth drud:
 Maddeu iddynt a'u cofleidio,
 "Felly carodd Duw y byd!"

3 "Felly carodd!" ond ni ddichon
 I angelion nef y nef,
 Draethu i oesau tragwyddoldeb,
 Led a hyd ei gariad Ef:
 Dyfnach yw na dyfnder daear,
 Uwch na'r nefoedd fawr i gyd,

Rhaid yw tewi gyda dywedyd,
 “Felly carodd Duw y byd!”

- 4 “Felly carodd,” hyfryd newydd!
 Aed ar aden awel gref,
 Nes i’w adsain gyrhaedd clustiau
 Pob pechadur dan y nef:
 “Felly carodd,” “felly carodd,”
 Seinied pob creadur byw,
 Fel b’o i’r dylanwad nerthol
 Danio’r byd â chariad Duw.

REES.

7. *Moroedd o gariad.*

(8, 7, D.)

- 1 DYMA gariad fel y moroedd,
 Tosturiaethau fel y lli;
 Tywysog bywyd pur yn marw,
 Marw i brynu’n bywyd ni:
 Pwy all beidio cofio am dano?
 Pwy all beidio canu’i glod?
 Dyma gariad nad â’n anghof,
 Tra bo’r nefoedd wen yn bod.
- 2 Ar Galfaria yr ymrwygodd
 Holl ffynnonau’r dyfnder mawr,
 Torodd holl argaeau’r nefoedd
 Oedd yn gyfain hyd yn awr:
 Grâs a chariad megis diluw
 Yn ymdywallt yma ’nghyd;
 A chyfiawnder pur a heddwch
 Yn cusanu euog fyd.

8. *“Iddo Ef.”*

(6, 4.)

- 1 O IESU mawr ei ddawn,
 Tydi wyt ffynnon lawn,

O rês a hedd, ond gwel'd dy wedd
 Gorfoledd pur a gawn :
 Dy enw mawr, trwy'r nef a'r llawr
 Sy'n glodfawr iawn erioed :
 Ti faeddaist lu, uffernol hy',
 Ar Galfari, ac angeu du
 Gai'i drechu dan dy droed.

- 2 Ei waed rhinweddol E',
 Wrth farw yn ein lle,
 Dywalltai'n lli ar Galfari,
 Heddychodd ni â'r Ne' :
 O'i galon friw caed dyfroedd byw,
 Wna'r dua'i liw yn lân ;
 Ei foli wnawn yn felus iawn,
 Ei rês a'i ddawn yw'r testun llawn,
 Mae'n gyfiawn iddo'r gân.

9.

Y nef yn agored.

(5, 6.)

- 1 AGORWYD y nef,
 Daeth arch y cyfammod
 I'r golwg yn awr,
 Trwy aberth y cymmod :
 At Dduw ar ei orsedd,
 Mae croesaw a rhyddid
 I'r euog tylawd
 Nesau am ei fywyd ;
 Ca'dd uffern ei maeddu,
 Y ddaear cydganed,
 Bêr anthem o foliant,
 Mae'r nef yn agored.
- 2 Agorwyd y nef,
 Yr orsedd daenellwyd

A gwaed y Meichniydd,
 Y cymmod a seliwyd ;
 Taranau a lleisiau
 Digofaint dawelwyd,
 A'r mellt yn yr Iawn
 I gyd a ddiffoddwyd ;
 Cyfiawnder sy'n edrych
 O'r nefoedd dan wenu,
 Gwirionedd a heddwch
 Yn cydyngusanu.

3 Agorwyd y nef,
 Mae afon rinweddol
 Yn rhedeg yn llif
 O'r orsedd dragwyddol :
 Maddeuant i'r truan,
 Cyfiawnder i'r euog,
 Adferiad i'r clâf,
 A gwledd i'r newynog ;
 I'r marw rhydd fywyd,
 Y tlawd gyfoethoga,
 A gylch yr aflanaf
 Yn wynach na'r eira.

10.

Llywodraeth Crist.

(8, 8, 8.)

1 MAE agoriadau nef y nef
 Yn crogi wrth ei wregys Ef,
 Angeu ac uffern fawr ynghyd :
 Yr orsedd fawr,—a'r goron wen
 Sy'n awr yn ddysglaer ar ei ben,
 Ennillodd drwy ei angeu drud.

- 2 Am waith ei gariad ar y groes
 Moliennir Ef o oes i oes,
 Tra byddo cyfrif oesau'n bod ;
 Digrifwch pur y nef a'i gwaith,
 Hyd eithaf tragwyddoldeb maith,
 Fydd edrych arno a chanu'i glod.

11. *Hawddgarwch a thegwch Crist.* (8, 7, D.)

- 1 MARCHOG yn dy degwch dwyfol,
 A datguddia'th hawddgar wedd ;
 Mae'th hawddgarwch yn dychrynu
 Angeu, uffern fawr, a'r bedd :
 A chalonau meibion dynion
 A lesmeiriant ger dy fron,
 Wedi'u trechu gan belydrau
 Cariad dy wynebpryd llon.
- 2 Tecach yw na meibion dynion,
 Fe dywalltwyd grâs a rhin
 Ar ei wefus, melus odiaeth
 Yw ei enau, fel y gwin :
 Ar ei ruddiau mae lledneisrwydd,
 Purdeb ac addfwynder 'nghyd,
 Yn rhyw hyfryd gydgymysgu, —
 Iesu, tegwch wyt i gyd !

12. *Boreuol gofio dyn truenus.* (8, 7, D.)

- 1 DRAW mi welaf ryfeddodau
 Rhwng Personau Dri yn Un,
 Cyn bod Eden ardd na chodwm,
 Grasol fwriad Duw at ddyn :
 Ethol meichiau cyn bod dyled,
 Trefnu meddyg cyn bod clwy' !

Caru gelyn heb un achos !
 Fe gaiff glod tragwyddol mwy.

- 2 Iddo boed y mawl diderfyn
 Oddiwrth luoedd nef a llawr,
 Am yr iachawdwriaeth rasol
 Darddodd in' o'i gariad mawr :
 Cyfyd hon i'r làn o'r dyfnder
 Dorf ddirif o ddynolryw ;
 Rhai sy'n haeddu bythol farw,
 Trwyddi cânt dragwyddol fyw !

13.

Salm xcv.

(M. B.)

- 1 CYDGANWN foliant rhwydd
 I'n Harglwydd, gweddus yw ;
 Yn nerth ein hiechyd llawenhawn,
 Mawr ydyw dawn ein Duw.
- 2 O deugn oll ynghyd,
 Yn unfryd ger ei fron ;
 Offrymwm iddo ddiolch clau
 Mewn Salmau llafar llon.
- 3 Anfeidrol fwy yw Iôn
 Na'r duwiau meirwon mân ;
 A Brenin uwch breninoedd byd :
 I'w enw i gyd bo'r gân.
- 4 Mae gorddyfnderau'r llawr,
 Oll yn ei lesfawr law ;
 Ac uchelderau mawrion serth
 Y bryniau anferth draw.
- 5 Y môr a'i deulu maith,
 Hwy ydynt waith ein Duw ;

A'i eiddo ydyw'r ddaear gron,
A phawb ar hon sy'n byw.

- 6 Wel plygwn bawb ei lîn
O flaen ein Brenin mawr ;
Addolwn Ef, ein dyled yw,
'R'ym arno'n byw bob awr.

W. R.

14.

Salm cxxx.

(8, 7, D.)

- 1 ARGLWYDD, gwaeddais o ddyfnderau
Eitha'r ddaear tua'r nef ;
Gostwng glust dosturiol, ystyr
Wrth fy nhrom ddrylliedig lef :
Os ar anwireddau creffi,
Pwy a ddeil yr olwg hon ?
F'enaid euog a lewyga
Yn dragwyddol ger dy fron.
- 2 Ond mae gydâ thi faddeuant—
Rho ei brofi, dyna fi
O'r dyfnderau yn dyrchafu
'N union i dy fynwes gu :
Tywallt yma'r balm rhinweddol
I iachau fy enaid clâf ;
Yna'th garu â'th hôff ofni,
A'th foliannu byth, a wnâf.

15.

Yr ail ran.

(8, 7, D.)

- 1 DYSGWYL, f'enaid, wrth yr Arglwydd,
Craffa'th lygaid arno Ef ;
Cymer afael gadarn sicr
Yn ei hen addewid gref :

Mae fy enaid wrtho'n dysgwyl
 Fel y gwylwyr am y wawr,
 Iē yn fwy; drwy'r hirnos dywell,
 Sylla tua'r nefoedd fawr.

- 2 Israel, dysgwyl dithau wrtho,
 Mae'i drugaredd fel y môr;
 Dysgwyl wrtho yn dragywydd,
 Pwysa ar dy gadarn Iôr:
 Ef a'th wared o gadwynau
 D'anwireddau, fawr a mân,
 Ceni dithau'n hyfryd iddo,
 Am ei gariad, newydd gân.

W. R.

16. *Digonolrwydd yr Iachawdwriaeth.* (M. B.)

- 1 MAE'R iachawdwriaeth rād
 Yn ddigon i bob rhai;
 Agorwyd ffynnon er glanhād
 Pob pechod cās a bai.
- 2 Daw tyrfa rif y gwllith
 Yn iach trwy rîn y gwaed:
 Pwy wyr na byddaf yn eu plith
 Yn iach o'm pen i'm traed.
- 3 Er lleted yw fy mhla
 Er dyfned yw fy mriw,
 Y balm o Gilead a'm hichâ;
 Mae Crist yn feddyg gwiw.
- 4 Dan bwys euogrwydd du
 Edrychaf tua'r groes,
 Lle llifodd gwaed fy mhriod cu,
 Anfeidrol Iawn a roes.

P. J.

17.

Ymffrost y Cristion.

(M. B.)

- 1 FY enaid gofia mwy
Gyfiawnder Iesu gwiw ;
Ei waed sy' ffynnon a'm glanhâ
Fe'm golcha'n wyn fy lliw.
- 2 Ei fywyd sanctaidd Ef,
A'i angeu yn fy lle,
A fydd fy ymffrost ymhob man,
A'm sylfaen îs y ne'.
- 3 A'i ddwyfol waed gwnaeth Iawn,
A thaliad llawn i'w Dâd ;
Agorodd ffordd i'r euog gwael
I gael maddeuant rhâd.
- 4 Trwy aberth mawr y groes,
Trwy angeu Calfari,
Y cafwyd cymmod a rhyddhâd
Yn rhyfedd râd i ni.

J. J.

18.

Gorphwys ar yr Iawn.

(M. B.)

- 1 FY enaid dyro'th bwys,
A gorphwys arno'n llawn ;
A'th holl ymddiried yn ddilyth
F'o byth mewn dwyfol Iawn.
- 2 Er ymgyrch byd a chnawd,
Ac uffern fawr ynghyd,
Dy sylfaen gadarn byth ni syfl ;
Hi'th ddeil pan losgo'r byd.
- 3 O iachawdwriaeth wiw !
Ti yw fy nghân i gyd :

Rhinweddau nefol hyfryd hon
A'm deil mewn dyrus fyd.

- 4 Mae yma gysur llawn
I'r rhai'n lluddedig sy',
Yn teithio trwy'r anialwch blin
I Sion sanctaidd frŷ.

J. J.

19. *Eiriolwr gyda'r Tad.* (8, 7, D.)

- 1 CYSUR cryf i'm henaid ydyw
Fod Eiriolwr gyda'r Tad ;
Dros droseddwyr frŷ yn dadleu
Annherfynol werth ei waed :
Grym eiriolaeth Iesu drosof
Ddwg fy enaid eiddil gwan,
Frŷ uwch cyrhaedd fy ngelynion
Yn ddiangol yn y man.

- 2 Dadleu mae, nid ein teilyngdod,
Ond ei haeddiant llawn ei hun,
Dros bechadur euog aflan,
Dros y gwaelaf, gwanaf un :
Arglwydd, cofia fi'r eiddilaf,
'Nawr yn dy eiriolaeth gref ;
Ac, er amled fy ngelynion,
Minnau ddof i deyrnas nef.

J. J.

20. *Achub trwy ei fywyd Ef.* (8, 7, D.)

- 1 FE'M cymmodwyd, pan yn elyn,
Trwy farwolaeth Iesu mawr ;
A chês brofiad o'r tangnefedd
'Nawr ac eilwaith ar y llawr :

Esgyn wnaeth fy Archoffeiriad,—
 Fry yn eiriol y mae Ef:
 Fe'm hachubir yn ddyogel
 Trwy ei fywyd yn y nef.

- 2 Mewn tymhestloedd ac mewn 'stormydd,
 Hyn a ddeil fy mhen i'r lan
 Fod i'm Frawd ger bron yr orsedd
 'Nawr yn cofio f'enaid gwan:
 Byw bob amser mae i eiriol,
 Ymhob tywydd oll yr un;
 Ac am hyn fe'm gwelir innau
 Ar ei ddelw ef ei hun.

J. J.

21.

Rhyfedd rās.

(6, 4, 6, 6.)

- 1 DAETH ffrydiau melus iawn
 Yn llawn fel lli',
 O ffrwyth yr arfaeth fawr
 Yn awr i ni:
 Hên iachawdwriaeth glir
 Aeth dros y crindir crâs;
 Bendithion ammod hedd:
 O ryfedd rās!
- 2 Fe gymerth Iesu pur
 Ein natur ni;
 Ennillodd ef i'w saint
 Bob braint a bri;
 Gadawai'r nef o'i fodd,
 Fe gym'rodd agwedd gwâs;
 Ffrwyth y cyfammod hedd:
 O ryfedd rās!

3 Llonyddodd Iesu 'r dig,
 Do, ddig ei Dad ;
 I'r gyfraith ar y groes,
 Y rhoes fawrhâd :
 Cyhoedder drwy bob man,
 O'r lydan ddaear lân,
 Fod Duw yn awr mewn hedd ;
 O ryfedd rês !

4 Fe gymerth Iesu blaid
 Trueiniaid trist ;
 Ysigodd ben y ddraig ;
 Ein craig yw Crist :
 Cawn ninnau fod yn bur,
 Uwch cur a phechod cês,
 Yn berffaith ar ei wedd :
 O ryfedd rês !

P. J.

22.

Rhyfedd rês.

(6, 4, 6, 6.)

1 BOED clod i'n Prynwr rhâd,
 Ein Ceidwad cu ;
 Fe dorodd rym yr hên
 Iorddonen ddu :
 Gorchfygodd angeu cryf,
 Er awch ei gleddyf glês,
 A drylliodd rwymau'r bedd :
 O ryfedd rês !

2 Crist yw ein cadarn dŵr,
 Gwardwr yw ;
 Dan gysgod tawel hwn
 Y byddwn byw :

Fe arwain ei holl saint,
 Er cymaint llid eu câs,
 I mewn i'r nefol wledd :
 O ryfedd rês.

3 Wrth orphwys ar yr Iawn,
 Ni gawn i gyd
 Felusion ffrwythau'r groes,
 Drwy'n oes o hyd :
 Mae yma hyfryd win
 I flin, o beraidd flês ;
 Maddeuant pur a hedd :
 O ryfedd rês !

4 Caed balm o archoll ddofn
 Y bicell fain ;
 Ynrawnwin ar y groes
 Fe droes y drain :
 Dechreuwn fawl cyn hir
 Na flinir ar ei flês,
 Am Iesu'r aberth hedd :
 O ryfedd rês !

P. J.

23.

Y Jubili.

(6, 6, 8, 8.)

- 1 ER myned oll yn gaeth,
 A chyfeiliorni 'mhell ;
 Trwy Iesu Grist fe ddaeth
 I'n etifeddiaeth well :
 Gwnaeth Iawn i'w Dad, a hedd i ni,
 Trwy waed ei groes ar Galfari.
- 2 Chwi garcharorion prudd,
 Dechreuwch lawehâu :

Fe wawriodd arnom ddydd ;
 Daeth Iesu i'n rhyddâu :
 Trwy fuddugoliaeth Calfari
 Fe ddaeth yr hyfryd Jubili.

3 I gaethion Babilon
 Cyhoeddir llawn ryddâd ;
 Dychwelwch adre'n llon
 Chwi waredigol hâd :
 Ennillodd Crist ein rhyddid ni,
 Yn awr daeth blwyddyn Jubili.

4 Aed sain efengyl grâs
 O gwmpas daear lawr :
 Doed pawb i brofi blâs
 Yr iachawdwriaeth fawr :
 I Sion wiw doed torf ddi ri' :
 Wrth sain pêr udgorn Jubili.

P. J.

24. *Marwolaeth, adgyfodiad ac eiriolaeth Crist. (7,6,D.)*

1 FYTH, fyth rhyfeddai'r cariad,
 Yn nhragwyddoldeb pell,
 A drefnodd yn yr arfaeth
 Im' etifeddiaeth well,
 Na'r ddaear a'i thrysorau,
 A'i brau bleserau ynghyd ;
 Fy nghyfoeth mawr ni dderfydd
 Yw Iesu, brynwr byd.

2 Ar noswaith oer fe chwysai
 Y gwaed yn ddafnau i lawr,
 Ac ef mewn ymdrech meddwl
 Yn talu 'n dyled mawr :

Fe yfai o'r cwpan chwerw
 Wrth farw ar y pren ;
 Palmantodd ffordd i'r bywyd
 O'r ddaear hyd y nen.

- 3 Tragwyddol glod i'r cyfiawn
 Fu farw dros fy mai ;
 Fe adgyfododd eilwaith
 O'r bedd i'm cyfiawnhâu :
 Ar orsedd ei drugaredd
 Mae'n dadleu yn y ne',
 Ei fywyd a'i farwolaeth
 Anfeidrol yn fy lle.

M. R.

25. *Etholedigaeth grâs yn ddiammodol.* (7, 6, D.)

- 1 RHYFEDDOL, byth rhyfeddol,
 Yw cariad rhad fy Nuw,
 A redodd yn yr arfaeth
 At ddynion gwael eu rhyw :
 A'u dewis mewn Cyfryngwr,
 A'u rhoddi iddo'n hâd,
 Ac yntau yn ymrwymo
 Eu hadgymmodi â'i Dad.

- 2 Etholiad heb un ammod
 Yn sefyll ar y dyn,
 Yn tarddu o foddlonrwydd
 Ewyllys Duw ei hun :
 Tragwyddol heb un dechreu,
 Anghyfnewidiol yw ;
 Mae'r sylfaen a'r adeilad
 I gyd o gynghor Duw.

3 Etholwyd i feddiannu
 'R holl ragorfreintiau drud,
 Y moroedd o fendithion
 Sy' ngwaed Iachawdwr byd ;
 Cyfiawnder a sancteiddrwydd,
 A gogoneddiad llawn :
 Rhâd, rhâd, fydd anthem Sion
 Am fath annhraethol ddawn.

4 Mae'r moddion a'r dybenion
 Mewn cwlwm sicr iawn ;
 'Does fodd fod gwell sefydliad,
 Mae'n ddoeth, o râs yn llawn :
 Prif ddyben ethol ydoedd
 Dyrchafu grâs fy Nuw,
 Ac wrth wneyd hyny achub
 Myrddiynau o ddynolryw.

M—L R.

26. *Gweddi am yr Ysbryd Glân.* (M. H.)

1 BYWYD y meirw, tyr'd i'n plith,
 A thrwy dy Ysbryd arnom chwyth ;
 Anadla'n rymus ar y glyn,
 Fel byddo byw yr esgyrn hyn.

J. H.

2 Trwy bwrcas angeu Crist ein pen,
 A'r taliad perffaith ar y pren,
 Anadlu wnaeth dy Ysbryd di
 Ar esgyrn sychion megys ni.

3 Gan hyny'n awr, O Arglwydd Dduw,
 Pâr i'r eneidiau hyn gael byw ;
 A rho dywalltiad helaeth iawn
 O'th Ysbryd Glân a'i ddwyfol ddawn.

J. J.

27.

Llwyddiant yr efengyl.

(8, 7, D.)

- 1 DYMA'R dyddiau wedi gwawrio,
 Clywir sŵn yr udgorn mawr ;
 Llais efengyl fwyn yn seinio
 Dros holl barthau daear lawr :
 Y mae'r swpper heddyw'n barod,
 Allan aed cenadon hêdd,
 A chymheller pawb i ddyfod,
 Mae pob llawnder yn y wlêdd.
- 2 Tored afon iachawdwriaeth
 Dros ardaloedd pella'r byd ;
 Llified dros bob anial diffaeth
 I ffrwythloni'r rhai'n i gyd :
 Trigfa dreigiau a'u gorweddfa,
 Dônt yn gyfle cyrs a brwyn,
 A'r bwystfilod fu'n dyfetha,
 Gwelir hwythau fel yr wyn.
- 3 Mae'r cynhauaf yn addfedu
 Yn mhob ardal îs y nef ;
 Ac fe gesglir llafur Iesu,
 Gwerthfawr ffrwyth ei angeu ef :
 Arglwydd anfon weithwyr allan
 I bob cwr o'r ddaear faith ;
 Ti gai'r enw oll dy hunan
 Am bob llwyddiant yn y gwaith. P. J.

28.

"Mi a dynaf bawb ataf fy hun."

(9, 8. D.)

- 1 DAW miloedd ar ddarfod am danynt
 O hên wlad Assyria cyn hir,
 Preswylwyr yr Aipht ac Ethiopia,
 At Grist y gwardwr, yn wir :



Cyflawnir y proffwydoliaethau,
 Daw'r holl addewidion i ben ;
 Fe dynir myrddiynau at Iesu,
 Ddyrchafwyd rhwng daear a nen.

- 2 Yr holl freniniaethau a dreulir,
 A'r ddelw falurir i lawr ;
 Y gareg a leinw'r holl wledydd,
 Ei chynnydd fel mynydd fydd mawr :
 Ceir gweled cenedloedd y ddaear
 Yn dyfod o bedwar cwr byd ;
 Ymofyn y ffordd tua Sïon
 Y bydd ei drigolion i gyd. P. J.

29. *Adgyfodiad o'r bedd.* (8, 8. D.)

- 1 MI wn fod fy Mhrynwr yn fyw,
 A'm prynodd â thaliad môr drud ;
 Fe saif ar y ddaear, gwir yw,
 Yn niwedd holl oesoedd y byd :
 Er ised, er gwaeled fy ngwedd,
 Teyrnasu mae Mhrynwr a Mrawd ;
 Ac er fy malurio'n y bedd,
 Câ'i weled ef etto'n fy nghawd.
- 2 Wel, arno b'om golwg bob dydd,
 A'i daliad anfeidrol o werth ;
 Gwir awdwr, perffeithydd ein ffydd,
 Fe'm cynnal ar lwybrau blin serth :
 Fy enaid, ymestyn yn mlaen,
 Na orphwys nes cyrhaedd y tir,
 Y Ganaan dragwyddol ei chân,
 Y Sabboth hyfrydol yn wir.

30. *Fy enaid, bendithia yr Arglwydd.* (10, 10.)

- 1 FY enaid oll, bendithia'r Arglwydd nef,
Na âd dros gôf ei ddoniau aml ef;
Can's maeddeu mae d'anwiredd oll o'i râs,
A llwyr iachau dy holl glefydau câs.
- 2 Gwaredu mae dy oes o ddystryw'r bedd,
Rho'i coron ar dy ben o râs a hedd:
Diwallu d'enau di â phethau da,
A'th ie'ngctid fel yr eryr ef a wna.
- 3 Trugarog iawn a graslawn yw Duw nef,
Hwyrfrydig i ddigofaint ydyw ef;
Ni wnaeth yn ôl ein pechod â nyni,
Er bod ein hanwireddau yn ddiri'.
- 4 Fel tad i'w blant, tosturiol wrth eu llef,
Tosturia'r Iôn wrth bawb a'i hofnant ef;
Can's edwyn ef yn llwyr ein defnydd ni,
A chofio mae nad y'm ond llwch difri. P. J.

31. *Ffordd newydd a bywiol.* (8, 7. D.)

- 1 DYMA babell y cyfarfod,
Dyma gymmod yn y gwaed;
Dyma noddfa i loddfruddion,
Dyma i gleifion feddyg rhâd:
Dyma fan yn ymyl Duwdod
I bechadur wneyd ei nyth,
A chyfiawnder pur y nefoedd
Yno'n gwenu arno byth.
- 2 Ffordd a drefnwyd cyn bod amser,
'Gael diangfa o ddrygau'r ddraig;

Mewn addewid gynt yn Eden
 Fe gyhoeddwyd Hâd y Wraig :
 Ffordd i gyfiawnhâu'r annuwiol,
 Ffordd i godi'r marw'n fyw,
 Ffordd gyfreithlon i droseddwr
 I hedd a ffafr gyda Duw.

A. G.

32. *Dyfnheroedd trefn iachawdwriaeth.* (8, 7, D.)

- 1 O DDYFNDEROEDD iachawdwriaeth !
 Dirgelwch mawr duwioldeb yw,
 Duw y duwiau wedi ymddangos
 Yn nghnawd a natur dynolryw !
 Dyma'r Person a ddyoddefodd
 Yn ein lle ddigofaint llawn ;
 A chyfiawnder waeddodd, " Gollwng
 Ef yn rhydd mi gefais IAWN."
- 2 Bydd melus gofio y cyfammod
 Draw a wnaed gan Dri yn Un ;
 Bythol syllu ar y Person
 A gymerodd natur dyn :
 Wrth gyflawni yr ammodau,
 Trist hyd angeu ei enaid oedd ;
 Dyma gân y saith ugein-mil,
 Draw i'r llèn mewn llawen floedd.
- 3 F'enaid trist, wrth gofio'r frwydr,
 Yn llamu o lawenydd sydd ;
 Gwel'd y ddeddf yn anrhydeddus,
 A'r pechadur brwnt yn rhydd :
 Rhôi awdwr bywyd i farwolaeth,
 Claddu'r adgyfodiad mawr ;
 Dwyn i mewn dragwyddol heddwch
 Rhwng nef y nef a daear lawr.

A. G.

33.

Deisyfiad y Pererin.

(M. H.)

- 1 O ddydd i ddydd, o awr i awr,
'Rwy'n nês i'r tragwyddoldeb mawr ;
Ac yno byddaf cyn b'o hir—
O am gael etifeddu'r gwir !
- 2 O groes i groes, o dòn i dòn,
Ymadaw wnafl â'r fuchedd hon ;
Yn fuan âf i byrth y bedd—
O am gyrhaeddyd gwlad yr hedd !
- 3 O nerth i nerth, o daith i daith,
Ymlwybraf trwy'r anialwch maith ;
Nid yw'r Iorddonen ddim ymhell—
O am gyrhaeddyd gwlad sydd well !
- 4 O dorf i dorf, o gâd i gâd,
A brwydro'n hir â'r ddraig a'i hâd,
Daw'r frwydr olaf tua'r hwyr :
O am gael buddugoliaeth lwyr !
- 5 O gûr i gûr, o loes i loes,
Rhyw haint o hyd i chwerwi f'oes ;
Daw'r olaf cyn pen gronyn bach—
O am gael bod yn berffaith iach !
- 6 O fryn i fryn, o bant i bant,
Hwn ydyw llwybr blin y plant ;
Daw diwedd ar y lludded llawn—
O am gael gorphwys tawel iawn !

J. H.

34.

Digonoldeb yr Iawn.

(6, 6, 8, 8.)

- 1 EIN Harchoffeiriad mawr,
Emmanuel ei hun,

Ei fywyd roes i lawr
 Dres euog aflan ddyn :
 Anfeidrol werth ei aberth Ef
 Foddlonai holl ofynion Nef.

2 Cyfiawnder gafodd Iawn,
 A'r ddeddf fawrhâd a bri ;
 A'r euog ryddid llawn
 Trwy angeu Calfari :
 Caed digon Duw, a digon dyn,
 Yn haeddiant Iesu mawr ei hun.

3 Yn awr cyhoeddir hedd
 I gyrau pella'r byd ;
 Gwahoddir pawb i'r wledd
 Gaed trwy ei angeu drud :
 Mae'r bwrdd yn llawn danteithion brâs,
 Ddarparodd Duw o'i ryfedd râs. J. J.

35. *Crist yn Iachawdwr cyflawn.* (8, 7.)

1 TRAGWYDDOL gariad Tri yn Un
 I gadw dyn colledig,
 A ogoneddwyd ar y pren,
 Gan Iesu bendigedig.

2 Ei einioes lân a roes i lawr,
 Tan bwys ein dirfawr bechod ;
 Fe brynodd ini wir ryddhâd
 Trwy waed y rhad gyfammod.

3 Gorphenodd iachawdwriaeth gu,
 I'r nefoedd fry esgynodd ;
 Holl allu uffern faith i gyd,
 Fyth hefyd a gaethiwodd.

- 4 Trwy rinwedd pur ei aberth rhad;
Ger bron y Tad mae'n eiriol;
Yn haeddiant ei gyfryngdod Ef,
Fe wrendy'n llef gystuddiol.

R. W.

36.

Iddo Ef.

(8, 7.)

- 1 MAE'R gwaed a redodd ar y groes
O oes i oes i'w gofio;
Rhy fyr yw tragwyddoldeb llawn
I dd'weyd yn iawn am dano.
- 2 Prif destun holl ganiadau'r nef
Yw "Iddo Ef" a'i haeddiant;
A dyna sain telynau glân
Ar uchaf gân gogoniant.
- 3 Mae hynod rinwedd gwaed yr Oen,
A'i boen wrth achub enaid,
Yn seinio'n uwch ar danau'r nef
Na hyfryd lef seraphiaid.
- 4 'Mhen oesoedd rif y tywod mân,
Ni fydd y gân ond dechreu;
Rhyw newydd wyrth o'i angeu drud
A ddaw o hyd i'r goleu.
- 5 Nid yw caniadau'r nef yn awr
Ond megis gwawr yn tori,
Yr hon, fel amnaid fechan iawn,
Arddengys lawn oleuni.
- 6 Pan ddelo torf y cystudd mawr
O'r anial dirfawr yno,
Dylenwir croth pob dwyfol dant
Ag uwch gogoniant iddo.

R. W.

37. *Profiad o anghrediniaeth.* (M. B. D.)

- 1 MAE f'anghrediniaeth câs
 Yn ammheu grâs fy Nuw,
 Nes gorfod gwaeddi beth a wnaf?
 Mae'n dweyd na byddaf byw;
 A bod fy meiau mawr
 I gyd i lawr ar gael,
 Ac na fwriadodd Duw ei hun
 Fyth godi'r fath un gwael.
- 2 Euogrwydd mawr ei rym,
 A'i gleddyf llym sy'n lladd,
 Heb ddim i esmwythau fy mron
 Drwy'r ddaear gron un gradd:
 O na chawn godi mhen
 Goruwch y llen a'r llawr,
 Nes gwel'd y ffynnon sy'n glanhau
 Y'nglwyfau'r meichiau mawr.
- 3 Er ini grwydro'n hir
 Y'mhell o dir ein gwlad,
 Mae etto alwad ar ein hol
 I dŷ ein nefol Dad:
 O! brysiwn bawb, mewn pryd,
 Am fywyd atto Fe,
 Mae gwledd yn barod ger ein bron,
 Ac i dylodion le.

R. W.

38. *Anghrediniaeth a ffydd.* (8, 7, D.)

- 1 MAE anghrediniaeth beunydd
 Yn dangos ger fy mron,
 Y gorfydd imi sefyll
 Yn wyneb llawer tòn;

A'r gelyn yn cyhuddo,
 Gan ddweyd mai namnio gâf;
 Rwy'n dyfod atat, Iesu,
 Dan waeddi, Beth a wnaif?

2 Atolwg, Arglwydd, gwranddo,
 'Rwy'n curo wrth dy ddor,
 Gan deimlo 'maich yn drymach
 Na thywod mân y môr:
 Er cymaint yw fy llygredd,
 Mwy yw'th drugaredd di;
 O! crea anian fywiol,
 Anfarwol ynof fi!

3 'Rwy'n gwel'd yn ddigon eglur
 Nad allaf byth, fy Nuw,
 Roi iawn am unrhyw drosedd,
 Na'r camwedd lleia'i ryw:
 Nid oes ond haeddiant dwyfol,
 Effeithiau marwol loes,
 A rhinwedd gwaed ei glwyfau,
 Ddilea feiau f'oes.

R. W.

39.

Nefoedd ar y ddaear.

(M. H.)

1 NEF yw i'm henaid yn mhob man,
 Pan brofwyf Iesu mawr yn rhan;
 A'i weled Ef a golwg ffydd,
 Dry'r dywyll nos yn oleu ddydd.

2 Mwynhad o'i râs maddeuol mawr,
 Blaenbrawf o'r nef yw yma'n awr;
 A darllen f'enw ar ei fron
 Sy nefoedd ar y ddaear hon.

- 3 Ac er na welaf ond o ran,
 Ac nad yw profiad ffydd ond gwan,
 Y defnyn bach yn fôr a fydd,
 A'r wawr a ddaw yn berffaith ddydd.

R. W.

10. *Ar ddiwedd blwyddyn.* (8, 7, D.)

- 1 W ELE etto un yn rhagor
 O flynyddau f'enioes frau,
 O fy enaid, wedi darfod,
 Mae'r ddiweddaf yn neshau ;
 Nid oes yma hir arosfa,
 Rhed fy oriau yn ddigoll,
 Ac fe all y flwyddyn yma
 Fod imi'r ddiweddaf oll.
- 2 Deffro, f'enaid, yn ddifrifol,
 Gyda gofal dwys yn awr ;
 Ystyr tra parhao'th amser,
 Feithder tragwyddoldeb mawr :
 Beth yw sylfaen dy grediniaeth
 Am fwynhau tragwyddol hedd ?
 Beth yw'th obaith am y gwynfyd
 Sy'n y byd tu draw i'r bedd ?
- 3 Dal yn gadarn dy grediniaeth,
 Dod dy obaith ar dy Dduw ;
 Ymddybyna hefyd beunydd
 Ar ei rês, tra byddech byw :
 Gyda sêl anturia'n wrol
 Yn dy yrfa nefol gu,
 Nes cyrhaeddyd, mewn sirioldeb,
 Barthau anfarwoldeb fry.

R. W.

41. *Sicrwydd yr addewid.* (6, 6, 8, 8.)

- 1 WRTH edrych ar y sail,
A'r wir addewid gref,
Er ofnau rif y dail,
Pa'm yr ammheuwn Ef?
A dyma air, Pwy wyr ei werth?
Yn ol dy ddydd y bydd dy nerth.
- 2 Pahaf y beiaf ddim
Ar gyfoeth grâs fy Nuw?
Lle rhoddwyd sicrwydd im'
Mai digyfnwid yw:
Dyma yr hen addewid gu
Lle gallwn ni gael cysur cry'.
- 3 Nid oedd yn ngallu'r nef
Ddim modd rhoi sicrwydd mwy,
Na'r wir addewid gref
A seliodd gwaed ei glwy':
Ei air a saif yn un o hyd
Pan doddo barn elfenau'r byd.
- 4 Y pererinion gynt,
A'r hen ferthyron glân,
Yn awr diangol ynt,
Er ymgyrch dŵr a thân:
Mae'r llaw a'u daliodd hwy i'r lan,
I tithau'n gymhorth, f'enaïd gwan. R. W.

42. *Teilwng yw yr Oen.* (M. H.)

- 1 DE'WCH a chydseiniwn hyfryd gainge,
A'r nefol lu o flaen y fainge;
Tafodau ddengmil sydd i'r rhai'n,
Ond un llawenydd oll a sain.

- 2 “ Teilwng yw'r Oen ” ga'dd farwol glwy',
 Gael ei ddyrchafu, meddant hwy ;
 “ Teilwng,” atebwn ninnau, “ Yw,
 Yr anwyl Oen sydd etto'n fyw.”
- 3 Ein Harglwydd Iesu, teilwng yw
 O barch a gallu oddiwrth Dduw ;
 Bendithion mwy nag allom ni
 Byth, Arglwydd, ro'i a fo i ti.
- 4 Boed i drigolion nef a llawr,
 Yr wybren fry a'r móroedd mawr,
 Ddyrchafu'i degwch Ef a'i rás,
 Ag uchel floedd a nefol flâs.
- 5 Yr holl gre'digaeth, ag un llef,
 Fendithio'i enw sanctaidd Ef,
 Sy'n eistedd ar yr orseddfainge,
 A byth i'r Oen boed peraidd gainge.

DR. W.

43.

Y Dyddanydd.

(M. H.)

- 1 PA'M bydd i blant y Brenin mawr
 Fyn'd yn alarus ddyddiau'u hoes ?
 Ddyddanydd nefol, tyr'd i lawr,
 Arwyddion mwy o'th gariad moes.
- 2 Ond trigo yn dy saint 'rwyd ti,
 A'u selio'n blant i Dduw a wnai ;
 Gyr ymaith fy ammheuaeth i,
 A dangos faddeu fy holl fai.
- 3 Rho i'm cydwybod eglurhâd
 O'i rhan yngwaed fy Mhrynwr byw,
 A thystia gyda'm calon i,
 Fy mod i wedi ngeni o Dduw.

4 Yr ernes wyt o'i gariad fo,
 A gwystl o lawenydd nef;
 Colomen Duw, a'th aden fwyn,
 A gaiff fy nwyn yn iach i dref. DR. W.

44. *Teyrnasiad Crist.* (M. H.)

- 1 YR Iesu a deyrnasa'n grwn
 O godiad haul hyd fachlud hwn,
 Ei deyrnas â o fôr i fôr
 Tra fyddo llewyrch haul a lloer.
- 2 Teyrnasoedd, pobloedd o bob iaith,
 I'w gariad roddant foliant maith;
 Babanod ieuainge llesg eu llef,
 Yn foreu a'u clodforant Ef.
- 3 Lle y teyrnaso, bendith fydd,
 Y caeth a naid o'i rwymau'n rhydd;
 Y blin caiff fythol esmwythâd,
 A'r holl rai clwyfus iechyd rhâd.
- 4 Rho'ed pob creadur yn ddilyth
 Neillduol barch i'n Brenin byth;
 Angylion molwch Ef uwch ben,
 A'r ddaear d'wedded byth, Amen. DR. W.

45. *Heddwch cydwylbod.* (11au.)

O ARGLWYDD, mor ddyogel a dedwydd yw'r rhai
 Sy'n teimlo llawenydd am faddeu eu bai;
 'Tai stormydd digofaint yn ysgwyd y byd,
 O'u mewn y mae nefoedd a heddwch o hyd.

Mor felus a hyfryd y treuliant y dydd,
 Mewn pur ddiniweidrwydd, a chariad, a ffydd;

Eu henaid sy'n ddysglaer fel canol-ddydd llawn,
A thawel yn wastad fel haf-ddydd brydnawn.

I fynu i'r meusydd uwch wybren lle mae,
Bydd barod fy enaid i fyned yn glau ;
Hardd flodeu tragwyddol a dardd yno'n llawn,
A'r anniflanedig lawenydd a gawn. DR. W.

46. *Nesau at Dduw trwy Grist.* (8, 7.)

- 1 DE'WCH, codwn fynu i'r nef uwch ben,
Yn llawen ein hedrychiad ;
Gan wenu gwel'd ein Tad mewn hedd,
Yn eiste' ar orsedd cariad.
- 2 'Nawr gallwn blygu wrth draed yr Iôn,
Anturio'n eon ato ;
Nid oes un cerub yn y lle
A thanllyd gledde'n rhwystro.
- 3 Heddychol byrth dedwyddwch nef,
Gan ei Fab Ef agorwyd ;
Dyrchafwn fawl a llafar dôn,
Hyd orsedd Iôn heb arswyd.
- 4 Diolch ddeng mil o weithiau 'nawr,
Ddadleuwr mawr it' fyddo ;
A chlod i'r bythol Dad 'run wedd
Am droi'i ddigllonedd heibio. DR. W.

47. *Gwlad o wynfyd.* (M. H.)

- 1 MAE gwlad o wynfyd pur heb haint,
Byth yno y teyrnasa y saint ;
Lle nad oes tywyll nos ond dydd,
A phleser heb ddim blinder sydd.

2 Mae yno yn dragwyddol hâf,
Ni wywa byth ei blodeu brâf ;
Ond angeu fel rhyw gulfôr sy'
Rhyngom a'r wlad nefolaidd fry.

3 O am gael ffydd i ymlid ffwrdd
Y cul ammheuon sy'n ein cwrdd,
A gallu gwel'd â golwg glir
Drigfannau dedwydd Canaan dir.

4 Fel Moses gynt, pe dringem ni
I wel'd y wlad a'i hansawdd hi,
Nid oer lifeiriant angeu caeth
A'n tarfai 'nol oddiwrth y traeth.

DR. W.

48.

Yr ail ran.

(M. H.)

1 O CYFOD, f'enaïd, fynu hêd,
A thrwy'r heolydd nefol rhêd ;
A gwel nad oes o dan yr haul
Un gwrthddrych dâl ei garu i'w gael.

2 Ar uchel fainge y nefol wlad
Teyrnasa'r Hollalluog Dad ;
A thywallt ei ddaioni'n llon
Ar holl wastadedd dedwydd hon.

3 Ac fel haul dysglaer ganol dydd,
Ein Prynwr anwyl yno sydd ;
Prydnawn na nos nid oes i'r fan,
Nac achos wrth y lleuad wan.

4 Ynghanol y fro ddysglaer fry,
Y g'lomen sanctaidd hefyd sy' ;
A phoen a phechod ymaith ffônt,
I wlad y gwynfyd byth ni dd'ont.

5 Ardderchog ddeiliaid y fan hon,
 Sy'n plygu oddeutu'r orsedd lon;
 Cerubiaid tanllyd a'r holl saint,
 Moli'r anfeidrol Drindod maent.

6 Pa bryd, fy Iesu, daw y dydd,
 A'r hyfryd awr i'm gwneyd yn rhydd,
 Pan caffwyf ado'r tŷ o glai,
 I drigo 'mhlith y cyfryw rai? DR. W.

49. *Hwyrol aberth.* (8, 7.)

1 DUW, gâd i'm caniad hwyr heb warth,
 Fel arogldarth ddyrchafu;
 O gâd i'm hoffrwm gwan o glod
 Hyd nefoedd dd'od i fynu.

2 Trwy holl beryglon mawr y dydd,
 Dy law di sydd i'm gwarchod;
 Ac i gyflawni fy holl raid,
 Dy nawdd â'th blaid sy' barod.

3 Parhaus fendithion oddi fry
 Sydd yn f'amgylchu'n wastad;
 Ond O! cyn lleied tâl (mae'n gam)
 Mae Duw'n gael am ei gariad!

4 Dy anwyl groes, fy Nuw, at hon
 A'm calon euog rhedaf;
 Ac i'w fywhau a'th râs wrth raid,
 I ti fy enaid rhoddaf. DR. W.

50. *Yr hyfryd lais.* (8, 7.)

1 GWYNFYD y rhai adwaenant lais
 Efengyl fwyngais dirion;

Yn heddwch a goleuni Duw
Y rhodia'r cyfryw ddynion.

- 2 Llawenydd gwyd eu hysbryd trist,
Trwy enw Crist eu Prynwr ;
Cânt trwyddo Ef nesâu at Dduw,
Dyogel yw eu cyflwr.
- 3 Yr Arglwydd yw ein noddfa glud,
Rhydd nerth ac iechyd dwyfol ;
Israel, dy Frenin byth fydd byw,
Teyrnasa'th Dduw'n dragwyddol.

DR. W.

51.

Y Sabboth.

(M. H.)

- 1 ARGLWYDD y Sabboth, erglyw'n llef
'Nawr ar dy ddydd o fewn dy dŷ ;
D'oed ein caniadau llesg i'r nef,
O'r anial fyd, fel ebyrth cu.
- 2 Carwn Sabbothau'n hanwyl Dduw ;
Ond fry gorphwysfa hoffach sy' ;
At hon y cyrcha'n henaid byw,
Mewn gwresog ddymuniadau cry.
- 3 Mor ddedwydd ydyw'r dyrfa lân,
Heb bechod yn eu plith na phoen !
Na dim och'neidiau'n rhwystro'r gân
A seiniant byth i Dduw a'r Oen.
- 4 Rho ar dy waith neillduol flâs,
A phrawf o'th wenau hyfryd iawn ;
Yna, 'nol gado temlau'th râs,
Yn nef y nefoedd trigo gawn.

DR. W.

52.

Dydd yr Arglwydd.

(M. H.)

- 1 BENDIGAID foreu teg ei wawr,
Y darfu i'n Duw a'n Prynwr mawr,
Gyfodi i fynu'n wych ei wedd,
A gorfoleddu ar y bedd.
- 2 Yngharchar oer y beddrod du,
Y Prynwr marwol gorwedd bu ;
Nes daeth oddiamgylch yn ddiludd
Y trydydd apwyntiedig ddydd.
- 3 Ni allai'r bedd ac uffern ddu.
Mo gadw i lawr ein Ceidwad cu :
Dyrchafu wnaeth o'r bedd i'r làn,
Gan dori yn wir eu cadwen wan.
- 4 Ein Harglwydd mawr, i'th enw di
Yr oriau hyn gyflwynwn ni ;
A seiniwn gân Hosana'i gyd
O orfoledd am y cyfryw bryd.

DR. W.

53.

Goruchelder Duw.

(M. H.)

- 1 O ARGLWYDD Iôr, preswylydd cu
Palasau teg y nefoedd fry ;
Y'mhell uwch caerâu'r wybrawl fro,
A'r haulwen deg mor fawr ei dro !
- 2 Y seraph pur pan seinia gân,
A'i aden cuddia'i wyneb glân ;
A myrdd myrddiynau lluoedd llon,
Plygant yn isel ger ei fron.
- 3 A gaiff trueiniaid, llwch y llawr,
Addoli ein Creawdwr mawr ?

O'n gwaelder y dyrchafwn gri,
O Arglwydd sanctaidd, atat ti.

- 4 Mewn llwch mae dyn, mae Duw'n y nef,
Nid aml eiriau a'i boddia Ef;
Mewn parch a syndod, darfu'n cân
Mewn dystaw glod i'n Harglwydd glân.

DR. W.

54.

Yr anialwch a'r nefoedd.

(8, 7, D.)

- 1 WRTH ymdeithio yn yr anial,
Profais aml adfyd prudd;
Mewn rhyw fodd, y mae'n rhyfeddod,
Nerth sy'n dyfod wrth y dydd:
Mae saethyddion bron y'mhob man,
Pwy sy' darian ond Tydi?
Yn y rhyfel, Arglwydd, aros
Cy'd a f'einioes, cadw fi.

- 2 Yn nhrigfanau glân y nefoedd,
Lle mae lluoedd oll yn llawn
O lawenydd pur a gwynfyd,
Yno mae dedwyddfyd iawn:
Heb un gofid, poen na blinder,
Dim ond pleser yn eu plith;
Moli'r Oen yr hwn a'u prynodd—
Byddant wrth eu bodd am byth.

T. W.

55.

Anturio am drugaredd.

(10au.)

ANTURIO wnaif at orsedd grâs yn awr,
Pwy wyr na chaf 'rhyn s'arnaf eisieu'n fawr?
Mi draetha nghwyn, mae'n addfwyn Frenin Nef,
Trugaredd råd a dardd o'i fwriad Ef.

Trugaredd r ad, yw'm dwys erfyniad i,
 Trugaredd r ad, ein Tad addewaist ti ;
 Trugaredd r ad, a dim cymhwysiad dyn,
 Y cyfan sy' o haeddiant Iesu'i hun.

Mae'i haeddiant Ef yn sail ddigonol im'
 O flaen y nef, heb neb ond Ef, na dim ;
 Anfeidrol werth yr Aberth mwya 'rioed,
 Gen' i mewn ffydd i'w ddadleu beunydd boed.

Mae enw Crist yn llwyddo o oes i oes,
 Dros enaid trist, dan lawer athrist loes ;
 Yr un yw Ef, 'rwyf finnau'n dysgwyl bod,
 'Mhen enyd bach, yn canu cliriach clod. T. W.

56.

Cyfammod cadarn.

(M. C.)

- 1 CYFAMMOD hedd, O ryfedd r as !
 Ein addas gysur ni ;
 Cyfammod yw na rwymodd dyn,
 O drefniad Un yn Dri.
- 2 Fe'i gwnaed yn nhragwyddoldeb pell,
 Digymhell oedd y gwaith ;
 A'r hyn a wnaed fe saif er neb
 I dragwyddoldeb maith.
- 3 Cyfammod yw na fedrodd dim
 Wanhau mo'i rym erioed ;
 Er lledu o ddyfais uffern ddofn,
 Mae'r unrhyw drefn ar droed.
- 4 Er tynu o bechodau dyn
 Fel gwenwyn, lawer gwae,
 Ni thorodd mo gyfammod Duw,
 'I anrhydedd yw parhau.

- 5 Cwyp y mynyddoedd mwya'u nerth,
 A'r bryniau serth ryw bryd,
 Symudir mo gyfammod hedd,
 Trugaredd sy' ynddo i gyd.
- 6 Pan elo'r ddaear fawr yn boeth,
 Cyfammod doeth ein Duw,
 A saif o blaid ei weiniaid blant,
 Am hyny bydyant byw.

T. W.

57.

Ymladd a gelynion.

(8, 7, D.)

- 1 MAE gelynion im' wynebu
 Wedi d'od i faes y gwaed ;
 Amryw weithiau ce's fy nghlwyfo,
 Lawer tro bum tan eu traed :
 D'wedais ganwaith mewn anghysur,
 Yn fy nolur, marw a wna,
 Meddyg rhâd, pe cawn ei 'nabod,
 Hwnw a chymmod a'm hiachâ.
- 2 Y mae satan yma'n tramwy,
 Megis llew rhuadwy yw ;
 Yn awyddus am ddifetha
 Pawb er Adda o ddynol ryw :
 Ceisiodd ar yr Iesu 'mosod,
 Cafod ganfod gormod gwaith,
 Ac yn hyn mae gwir gysuron,
 I blant Sion ar eu taith.

58.

Yr ail ran.

(8, 7, D.)

- 1 DULL y byd a'i lygredigaeth,
 Megis caeth hudoliaeth dwys,
 Mae fel môr a ddŵr chwyddedig,
 Llawn o berygl mawr ei bwys :

Ceisio tynu yn groes i'r tònau
 Mawr eu nerth, a minnau'n wan,
 Rhyfedd byth os gellir gweled
 F'eiddil enaid ar y làn.

- 2 Cnawd a natur pechadurus,
 Anian boenus ynwy'n byw ;
 Yn gwrth'nebu mewn drwg fuchedd,
 Enw, a doeth wirionedd Duw :
 Weithiau y'mron rhoi pobpeth heibio,
 Methu llwyddo mewn un lle,
 Medr Crist er hyny'm nerthu,
 Y mae gallu gydâg E'. T. W.

59. *Iechydwriaeth gymaint.* (9, 8.)

- 1 O FRODYR, pa fodd y diangwn,
 Pa ddull yr wynebwn Dduw'r nef,
 Os ceir ni'n 'sgeuluswyr diobaith
 O'r fath iechydwriaeth wnaeth Ef ?
 Mae cymaint o rinwedd fawr ynddi,
 Mae'r meirw'n cyfodi i ail fyw ;
 Mae'r deillion modd rhyfedd yn canfod,
 Mudaniaid yn canmol eu Duw.
- 2 Y cynghor fu draw'n nhragwyddoldeb,
 Cyn bod yno neb ond Duw'r nef,
 Am ffordd i gael dyn o'i drueni,
 Hyn ydoedd trwy boenau'i Fab Ef:
 Cymhwysiad o'r gwaed sydd rinweddol,
 Mae'n ddigon i'r bobl gael byw ;
 Gwaith Trindod mewn undod yn berffaith,
 Mae'n fawr iechydwriaeth—on'd yw ?

- 3 Er dyfned mae pechod yn clwyfo,
 Mae Crist wedi llwyddo i wellâu ;
 Er cymaint ddaeth ato er Adda,
 Mae croeso'r oes yma i nesâu :
 Ni fethodd y Meddyg na'r moddion,
 Hyd heddyw mae'r rhoddion yn rhâd ;
 Mawr yw'r iechydwrïaeth mae'n eglur
 Sy'n rho'i i bechadur iachâd. T. W.

ALLAN O SALMAU DR. WATTS,

CYFIEITHIAD D. J., TREFRIW.

60. *Diolchgarwch am gynhauaf.* (M. H.)

- 1 O DEUWCH, molwch Dduw'n gytun
 Am fara i gynnal calon dyn ;
 Tra bara'n nerthu'n rhanau byw,
 A chalon gref gwas'naethwn Dduw.
- 2 Ef o'i 'stafelloedd ddwfrâ
 Y sychdir â chafodydd da,
 Yr ardd a'r maes, a'r goedwig wyrdd,
 A ro'nt yn llon fendithion fyrdd.
- 3 Eirch i'r gwellt dyfu, ac fe gwyd
 I r'oi i'r anifeiliaid fwyd ;
 A llysiau i ddyn, amrywiol rai,
 I faethu natur, neu iachâu.
- 4 Mawr yw dy waith, a rhyfedd iawn,
 Pob gwlad o'th gyfoeth sydd yn llawn ;
 Doethineb Duw sy' o gylch y byd,
 O honot llawn yw'r ddae'r i gyd.

61.

Yr un testun.

(M. H.)

- 1 BENDITHIWN ein Duw cyfion, da,
Ein llenwi ni a'n lloni wna ;
'Fe dywallt ei fendithion 'lawr,
A'n llwytho mae â'i gyfoeth mawr.
- 2 Fe yr yr haul o ddeutu'n wir
I loni'r ffrwythau, twymno'r tir ;
Pâr i'r cymylau gludo gwlaw,
I wlychu'r ddaear sech fe ddaw.
- 3 Fe geidw ynom anadl chwyth,
Diangfa rydd rhag angeu syth ;
Caiff cyfiawn ac anghyfiawn braw',
O gyffredinol ddoniau'i law.
- 4 Y weddw a'r ymddifaid prudd
A gynnal Ef, fe'u portha'n rhydd ;
Y tlawd a'r diborth gânt yn rhâd,
Dduw 'n farnwr pur, a thirion Dad.

62.

Yr un.

(8, 7.)

- 1 COF o dy râs yn felus fydd,
Fy Nuw, fy llywydd nefol ;
Datganed oes wrth oes yn bêr,
Dy bur gyfiawnder dwyfol.
- 2 Er bod Duw fry, ni ettyl Ef
Mo'i dda i'r nef yn unig ;
I bawb o'r byd haelionus yw ;
Fe leinw bob rhyw ddiffyg.
- 3 Duw, wrthyt mae cre'duriaid gwael
Yn dysgwyl cael eu porthi ;

Dy law ddarpara iddynt fwyd,
A'u genau wyd yn lenwi.

- 4 Mor fwyn yw'th dosturiaethau, Naf,
A'th lid mor araf cyffry!
Ond gair o gysur yr yn glau
I'r enaid mae E'n garu.

63. *Diolchgarwch am gynhauaf.* (8, 7.)

1 DA ydyw'r Arglwydd, Brenin Ne',
Am bawb mae fe'n gofalu;
Bob gwanwyn fe ymwêl a'n tir,
Gwna'r borfa îr ymdyfu.

2 Cymylau, fel afonydd mawr,
Dyferant 'lawr fendithion,
Wrth dy orchymyn i ddwfrhâu,
A lloni'r manau sychion.

3 Coroni'r ydwyt ti fel hyn
Y flwyddyn â'th ddaioni;
Am hyny doed trigolion byd
Yn unfryd i'th foliannu.

64. *Bywyd, marwolaeth, a'r adgyfodiad.* (8, 8, 8.)

1 O COFIA, Dduw, am egwan ddyn,
Mor fyred yw ei oes, a'i ffûn,
Bêr iawn ei hyd o'r cryd i'r bedd:
Pwy ddichon ddyogelu'i oes
Yn erbyn angeu llym ei loes,
Neu ddiange rhagddo mewn un wedd?

2 Ai byth, O Arglwydd! y ceir d'weyd
I ddyn yn unig gael ei wneyd
I glefyd, poen, a llwch difraint?

On'd yw dy blant o ddydd i ddydd,
Yn myn'd i'w beddau troi yn bridd,
Pa le mae'th gariad di i'th saint ?

3 Oni addewaist i'th Fab rhâd,
Nefolaidd goron, ac i'w hâd ?
Ond cnawd a rheswm sy'n gwanhâu :
Bendithio d'enw byth a wnair,
Am ffydd i weled yn dy air,
Oleuni'r adgyfodiad clau.

4 Bendigaid fyth fo'r Iôn yn wir,
Sy'n rho'i i'w saint fath wobrwy hir,
Am eu byr waith a'u poen is nen :
Llu'r nefoedd fry, a daear lawr,
Cydfolwch oll ei gariad mawr,
Ac uchel seinied pawb, Amen.

65.

Duw yn gymhorth.

(8, 7.)

1 EIN Duw, ein porth mewn oesoedd maith,
A'n gobaith yn ganlynol ;
Ein cysgod rhag y dymhestl gref,
A'n cartref yn dragwyddol.

2 Dan gysgod d'orseddfainge, heb gél,
Bu'th saint yn dyogel drigo ;
Digonol yw dy fraich ei hun,
Byth i amddiffyn d'eiddo.

3 Cyn caffael o'r mynyddoedd maith,
Na'r ddaear chwaith ei llunio,
O dragwyddoldeb ti wyt Dduw,
Hyd byth y cyfryw etto.

- 4 Ein Harglwydd Dduw, pawb Ef mawrhaed,
 Plygwch wrth draed ei fawredd ;
 Sancteiddrwydd oll yw natur Duw,
 Trugaredd yw ei orsedd.

66.

Mawl am yr efengyl.

(8, 7.)

- 1 I'r Arglwydd cenwch newydd gân,
 O foliant glân, ar gyhoedd ;
 Ei râs, a'i iechydwrriaeth gref,
 Datguddiodd Ef i'r bobloedd.
- 2 Wrth Abra'm, d'wedodd gynta'r gair,
 A'i râs gwblheir i'n hamser ;
 Cenedloedd credu i'w enw wnant,
 A dysgant ei gyfiawnder.
- 3 Ei gariad traethed daear faith,
 A phob rhyw iaith tafodau ;
 A lleded pawb ei enw da
 Mewn clodydd a chaniadau.

67.

Crist yn Frenin a Barnwr.

(8, 7.)

- 1 BOED i'r ynysoedd lawenhâu,
 Teyrnasu mae ein Ceidwad ;
 Ei air fel tân, wna'i ffordd yn hawdd,
 Pob bryn fe'i tawdd yn wastad.
- 2 Ei olwg sawdd bob uchel fryn,
 Pob pant a glyn fe'u dyrcha :
 Caiff enaid isel wel'd ei wên,
 A'r balch mewn angeu trenga.
- 3 Pan anwyd gynt, angylion nef,
 Cyhoeddent Ef yn geidwad ;

Pan ddel i farnu'r byd ryw ddydd,
Angylion fydd i'w warchad.

4 Cryn ei elynion rhagddo'n glau,
A'r môr a'r bryniau ciliant ;
A ffy ei blant i'r nef yn lân,
A'r byd mewn tân gadawant.

5 Gogoniant a llawenydd llon,
I'r cyfion hauwyd yma ;
Mewn nefol fyd eginio wnant,
A dygant lawn gynhaua'.

68. *Mawrhydi a grás Duw.* (8, 8, 8.)

1 CHWYCHWI a gâr was'naethu'r Iôn,
Gwnewch am ei fawredd sanctaidd sôn,
Bendithiwch byth ei enw pur :
O godiad haul hyd fachlud hwn,
Trwy barthau'r byd i gyd yn grwn,
Ei allu traethed môr a thir.

2 Nid amser, lle, na phellder chwaith,
Rydd derfyn i'w arglwyddiaeth faith,
Ei fawredd sydd goruwch y nef :
Na foed i un creadur byw,
Gystadlu a'n tragwyddol Dduw,
Nerth digrëedig sy iddo Ef.

3 Ymostwng ei fawrhydi Ef,
I edrych gwaith angylion nef,
A meddwl am drigolion byd :
Fe gwyd y tlawd o'r llwch difael,
A'r rheidus prudd o'r domen wael,
A chyda phendefigion dyd.

- 4 Yr hon yn anmhlantadwy fu,
 Yn ddiffrwyth, heb etifedd eu
 I gadw'i henw hi mewn bod,
 Yn llawen fam i blant ; a hon
 A'i mola megis Hannah'n llon :
 Boed i bob oes ddyrchafu'i glod.

O SALMAU EDMUND PRYS.

69. *Molwch yr Arglwydd.* (8, 7.)

- 1 CENWCH, a churwch ddwyllaw 'nghyd,
 Holl bobl y byd cyfanedd ;
 A llafar genwch i Dduw'r nef,
 Gan leisio a llef gorfoledd.
- 2 O cenwch, cenwch glod ein Duw,
 Ein Brenin yw, O cenwch :
 Duw dros y byd sy'n Frenin call,
 Drwy ddeall ymhyfrydwch.
- 3 O bobloedd, molwch Dduw ar gais,
 A moeswch lais ei foliant ;
 Hwn sy'n dal bywyd yn ein gwaed,
 A ddeil ein traed na lithrant.

70. *Duw yn Sion.* (8, 7.)

- 1 MAWR ei enw'n ninas ein Duw,
 A hynod yw yr Arglwydd ;
 A'i drigfan Ef yno y sydd
 Yn mynydd ei sancteiddrwydd.
- 2 Tegwch bro, a llawenydd gwlad,
 Yw Sion lathriad fynydd ;

Yn ystlysau y gogledd lawr,
Tre'r Brenin mawr tragywydd.

3 Ewch, ewch oddiamgylch Sion sail,
Ei thyrau adail rhifwch ;
Ei chadarn fur, a'i phlasau draw,
I'r oes a ddaw mynegwch.

4 Can's ein Duw byth yw y Duw hwn,
Hyd angeu credwn ynddo ;
Ac wedi angeu, Ef a fydd
Yn dragywydd i'n t'wyso.

71. *Ymbil am nawdd a ffafwr Duw.* (8, 7.)

1 DY rās, dy nawdd, fy Nuw im' dod,
Sef ynot ymddiriedaf :
Nes myned heibio'r aflwydd hyn,
Dan d'edyn ymgysgodaf.

2 Ymddiried f'enaid ar Dduw sydd,
Ar Dduw drwy ffydd y galwaf ;
Efe gwblhâ ei air yn iawn,
Can's cyfiawn yw'r Goruchaf.

3 Ymddyrycha, Dduw, y nef uwchlaw,
Oddiyno daw d'arwyddion ;
A bydded dy ogoniant ar
Y ddaear a'i thrigolion.

72. *Duw yn wrthddrych mawl a gweddi.* (8, 7.)

1 I TI, O Dduw, y gweddai mawl,
Yn y sancteiddiawl Sion ;
I ti y telir, trwy holl grêd,
Bob gwir adduned calon.

- 2 Pawb sydd yn pwyso atad ti,
A wrendy weddi dostur ;
Ac atad ti y daw pob cnawd
I gael gollyngdawd llafur.
- 3 Gorchfygodd pethau anwir mawr,
Myfi i'r llawr bwriasant ;
Ond ti, O Dduw, ro'i am gamwedd
Drugaredd, a maddeuant.

73.

Cariad brawdol.

(8, 7.)

- 1 WELE, fod brodyr yn byw 'nghyd,
Mor dda, mor hyfryd, ydoedd !
Tebyg i olew o fawr werth,
Mor brydferth ar y gwisgoedd.
- 2 Fel pe dysgynai draw o'r nen,
'Rhyd barf a phen offeiriad ;
Sef barf Aaron, a'i wisg i gyd,
Yn hyfryd ei arogliaid.
- 3 Fel pe dysgynai gwllith Hermon,
Yn dô dros Sion fynydd ;
Lle rhwymodd Duw fywyd, a gwllith
Ei fendith, yn dragywydd.

74.

Addoliad cyhoeddus.

(8, 7.)

- 1 I DY'R Arglwydd pan dd'wedent, Awn,
I'm llawen iawn oedd gwrando :
Sai'n traed o fewn Caersalem byrth,
Yr un ni syrth oddiyno.
- 2 Caersalem lân ein dinas ni,
Ei sail sydd ynddi'i hunan :

A'i phobl sydd ynnddi yn gytûn,
A Duw ei hun a'i drigfan.

3 Can's yno daw y llwythau 'nghyd,
Yn unfryd, llwythau'r Arglwydd :
Tystiolaeth Israel a'i drig-fod,
A chlod i'w fawr sancteiddrwydd.

4 Yno gorseddfa barn y sydd,
Eisteddfod Dafydd yno ;
Erchwch i'r ddinas hedd a mawl,
A llwydd i'r sawl a'i caro.

5 O fewn dy gaerau heddwch boed,
I'th lysoedd doed yr hawddfyd ;
Er mwyn fy mrodyr mae'r arch hon,
A'm cymydogion hefyd.

75. *Mawl am fendithion tymhorol ac ysbrydol. (8, 7.)*

1 MOLWCH yr Arglwydd, can's da yw,
Canu i Dduw yn llafar ;
O herwydd hyfryd yw ei glod,
A da yw bod yn ddiolchgar.

2 Cäersalem dinas gyflawn fydd,
Yr Arglwydd sydd i'w darpar ;
Gan gasglu Israel ynghyd,
A fu trwy'r byd ar wasgar.

3 Yr unig Arglwydd sy'n iachâu
Yn rhydd o friwiau'r galon ;
Yr Arglwydd rwym eu briwiau'n iawn,
Y rhai dolurlawn cleifion.

4 Wele, mae llygaid yr holl fyd
Yn dysgwyl wrthyd, Arglwydd ;

Tithau a'u porthi hwynt i gyd,
Bawb yn ei bryd, yn ebrwydd.

- 5 Fy enaid, traetha fendith rwydd,
A mawl yr Arglwydd nefol :
A phob cnawd rhoed i'w enw, y Sant,
Ogoniant yn dragwyddol.

76.

Diolch yn wastad.

(8, 7.)

- 1 DIOLCHAF fi, a chalon rwydd,
I'r Arglwydd bob amserau ;
Ei foliant Ef a'i wir fawrhâd,
Fo'n wastad yn fy ngenau.
- 2 Y sawl a edrych arno Ef,
A llewyrch nef eglurir ;
Ni waradwyddir honynt neb,
A'u hwyneb ni ch'wilyddir.
- 3 Wele, y truan a roes lef
A Duw o'r nef yn gwrando ;
Ac a'i gwardododd o'i holl ddrwg,
A'i waedd oedd amlwg iddo.
- 4 O profwch, gwelwch, ddäed yw,
Yr Arglwydd byw i'r eiddo ;
A gwyn ei fyd pob dyn a gred,
Roi ei ymddiried ynddo.

77.

Yr Arglwydd yw fy Mugail.

(8, 7.)

- 1 YR Arglwydd yw fy Mugail clau,
Ni âd byth eisieu arnaf ;
Mi gâf orwedd mewn porfa frâs,
Ar làn dwfr gloew lân araf.

- 2 Fe goledd f'enaïd, ac a'm dwg
 Rhyd llwybrau diddrwg cyfion ;
 Er mwyn ei enw mawr dilys,
 Fe'm tywys ar yr union.
- 3 O'th nawdd y daw y doniau hyn,
 I'm canlyn byth yn hylwydd ;
 A minnau a breswyliaf byth,
 A'm nyth yn nhÿ yr Arglwydd.

78. *Fy Anwylyd sydd eiddof fi.* (8, 7, D.)

- 1 WYNEB siriol fy Anwylyd
 Yw fy mywyd yn y byd ;
 Ffarwel bellach bob eilunod,
 Iesu Mhriod aeth a'm bryd :
 Brawd mewn myrdd o gyfyngderau,
 Ffrynd mewn môr o ofid yw,
 Ni chais f'enaïd archolledig
 Neb yn feddyg ond fy Nuw.
- 2 Teimlaf f'enaïd 'nawr yn caru
 'R Oen ogwyddodd troswy'i ben ;
 D'wedodd Iesu mawr " Gorphenwyd,"
 Wrth dalu 'nyled ar y pren :
 'Rwy'n caru hardd lyth'renau'i enw,
 Efe fu farw yn fy lle ;
 'Does gyfaill yn y byd 'rwy' ynddo,
 A bery'n ffyddlon ond Efe. M. R.

79. *Iawn a maddeuant.* (8, 8, 8.)

- 1 GWNAED concwest ar Galfaria fryn,
 Am dani canodd myrdd cyn hyn,
 Fe faeddwyd uffern faith i gyd :

Fe brynwyd gwael golledig ddyn,
 Fe wnaed y ddwyblaid ddig yn un,
 A gwaed Iachawdwr mawr y byd.

- 2 Wel dyma'r cyfaill goreu gaed,
 Mae'n ganmil gwell na mam na thad,
 Y'mhob caledi ffyddlon yw :
 Mae'n medru maddeu a chuddio bai,
 Ac o'i wirfodd yn trugarhâu,
 Wrth bechaduriaid gwael eu rhyw. M. R.

80.

Rhyddid i'r caethion.

(7, 6.)

- 1 AGORODD ddrws i'r caethion
 I dd'od o'r cystudd mawr ;
 A'i werthfawr waed fe dalodd
 Ein dyled oll i lawr :
 Nid oes dim darnedigaeth
 I neb o'r duwiol hâd ;
 Y gwardedigion canant
 Am rinwedd mawr ei waed.

- 2 Wel dyma'r un sy'n maddeu
 Pechodau rif y gwllith ;
 'Does mesur ar ei gariad,
 Na therfyn iddo byth :
 Mae'n 'mofyn lle i dosturio,
 Mae'n hoffi trugarhâu ;
 Trugaredd i'r amddifad
 Sydd ynddo i barhâu. M. R.

81.

Heddwch trwy'r gwaed.

(11au.

O GARIAD, o gariad, anfeidrol ei faint,
 Bod llwch mor annheilwng yn cael y fath fraint ;

Cael heddwch cydwybod, a'i chànu trwy'r gwaed,
A chorff y farwolaeth, sef llygredd, tan draed.

Ni allai'r holl foroedd, byth olchi fy mriw,
Na gwaed y cre'duriaid, er amled eu rhyw;
Ond gwaed y Messiah a'm gwella'n ddiboen—
Rhyfeddol yw rhinwedd marwolaeth yr Oen.

Cydganed y ddaear a'r nefoedd y'nghyd,
Ogoniant tragwyddol i Brynwr y byd;
Molianned pob enaid fy Arglwydd ar gân,
Am achub anhydyn bentewyn o'r tân. M. R.

82. *Dyddanwch pen y daith.* (9, 8.)

- 1 O FRYNIAU Caersalem ceir gweled
Holl daith yr anialwch i gyd;
Pryd hyny daw troion yr yrfa
Yn felus i lanw ein bryd:
Cawn edrych ar stormydd ac ofnau,
Ac angeu dychrynlyd a'r bedd,
A ninnau'n ddiangol o'u cyrhaedd
Yn nofio mewn cariad a hedd.
- 2 Cawn esgyn o'r dyrus anialwch,
I'r beraidd baradwys i fyw;
Ein henaid lluddedig gaiff orphwys
Yn dawel, ar fynwes ein Duw:
Diangfa dragwyddol geir yno
Ar bechod, cystuddiau, a phoen;
A gwledda i oesoedd diderfyn,
Ar gariad annhraethol yr Oen.
- 3 Mae ffrydiau gorfoledd yn tarddu,
O ddysglaer orseddfainge y Ne';

Ac yno esgynodd yr Iesu,
 Ac yno yr eiriol Efe :
 Y gwaed a foddlonodd gyfiawnder,
 Daenellwyd ar orsedd ein Duw,
 Sydd yno yn beraidd yn erfyn,
 I ni y troseddwyr gael byw. D. C.

83. *Dylanwadau yr Ysbryd.* (8, 7, 4, 7.)

- 1 NERTHOEDD y tragwyddol Ysbryd,
 Yn haeddiannau'r dwyfol Iawn,
 Wna i'r fynwes ddiffffaeth galed
 I ffrwythloni'n hyfryd iawn :
 O rasmusau, &c.
 Pêr blannigion nefol wlad.
- 2 Creigiau tanllyd Salem waedlyd,
 Rhai fu'n bloeddio âg un llef,
 Am Dywygog mawr y bywyd,
 "Ymaith, O croeshoelie'r Ef!"
 Gwnaeth i'r rhai'ny, &c.
 Wylo edifeirwch pur.
- 3 Os dysgyni, addfwyn Ysbryd,
 I fynwesau fel rhai hyn,
 A'u haddurno â phur ddelw
 Y gŵr fu farw ar y bryn ;
 Mawl a seinia, &c.
 Trwy'r holl nefoedd fawr am hyn.

84. *Y dyfroedd bywiol.* (8, 7, 4, 7.)

- 1 LLIFED ffrwd y dyfroedd bywiol,
 Ddaeth tan riniog teml Iôn,

Afon bur o'r orsedd rasol,
 Glan orseddfainge Duw a'r Oen :
 Ei rhinweddau, &c.
 Sy'n dwyn bywyd llawn a hedd.

2 Ar ei glanau y mae'n tyfu,
 Bywiol bren a'i ffrwythau'n llawn ;
 Ffrwyth a dail i wir ddiwallu
 Lluoedd, â'u rhinweddol ddawn :
 Dail er iechyd, &c.
 I'r cenedloedd yw y rhai'n.

3 Aed effeithiol addewidion,
 Dwyfol, hyd eithafoedd byd ;
 Aent i gasglu gwardigion
 Iesu ato Ef y'nghyd :
 Ffrwyth o'i lafur, &c.
 I'w ddiwallu byth, Amen.

T. J.

85.

Rhagoroldeb Iesu.

(8, 8.)

1 NID yw hardd wrthddrychau daear
 Oll ond dim wrth Iesu hawddgar ;
 Nid yw'r nefoedd i'w chydbrisio,
 Pe ba'i nefoedd i'w chael hebdo.

2 Iesu'i hunan yw fy nefoedd,
 Tros fy oes, ac yn oes oesoedd ;
 Nef fy nefoedd fydd ei garu,
 Ei fwynhâu a'i bur foliannu.

3 O na allwn garu'r Iesu
 Yn fwy ffyddlawn, a'i was'naethu !
 D'weyd yn dda mewn gair am dano,
 Rhoi fy hun yn gwbl iddo.

T. J.

86.

O flaen pregeth.

(M. C.)

- 1 TYR'D, Ysbryd Sanctaidd, dangos rym
Dy nerthol lym wirionedd ;
Rho rasol fendith yma 'nawr,
I fwrw i lawr anwiredd.
- 2 Rho ddawn a goleu, Arglwydd Iôr,
I draethu'r cynghor dwyfol ;
Ac agor di y galon gau
I dderbyn d'eiriau nefol.
- 3 Perffeithia Iôr dy nerth sy' fawr,
Yn wyneb dirfawr wendid ;
Rho i'r newynog tlawd a chaeth,
Ysbrydol faeth a rhyddid.

T. J.

87.

Addewidion y cyfammod.

(M. C.)

- 1 MAE addewidion melus wledd,
Yn gyflawn ac yn rhâd,
Yn dy gyfammod pur o hedd,
Tragwyddol ei barhâd.
- 2 'Rwyf finnau yn dymuno d'od
I'r wledd ddanteithiol frâs ;
Ac felly mi gâf seinio clod
Am ryfedd rym dy râs.
- 3 O rhwyma fi wrth byst dy byrth,
I aros tra b'wyf byw ;
I edrych ar dy wedd a'th wyrth,
A'th foli di fy Nuw.

T. J.

88.

Y Messiah.

(8, 7, 6, 7.)

- 1 WELE cawsom y Messiah,
Cyfaill gwerthfawroca 'rioed ;

Darfu i Moses a'r prophwydi,
 Dd'weyd am dano cyn ei dd'od :
 Iesu yw, gwir Fab Duw,
 Ffrynd a Phrynwr dynolryw.

2 Hwn yw'r Oen ar ben Calfaria,
 Aeth i'r lladdfa yn ein lle ;
 Swm ein dyled mawr fe'i talodd,
 Rhodd foddlonrwydd llawn i'r Ne' :
 Trwy ei waed i ni caed,
 Bythol heddwch a rhyddhâd.

3 Dyma gyfaill haeddai'i garu,
 A'i glodfori'n fwy nag un ;
 Prynu'n bywyd, talu'n dyled,
 A'n glanhâu a'i waed ei hun :
 Frodyr dewch, llawenhewch,
 Diolchwch iddo, byth na thewch. D. J.

89. *Cariad a grâs Crist.* (8, 8. D.)

1 PA feddwl, pa 'madrodd, pa ddawn,
 Pa dafod all osod i maes,
 Mor felus, mor helaeth, mor llawn,
 Mor gryfed ei gariad a'i râs !
 Afonydd sy'n rhedeg mor gryf,
 Nas dichon i bechod na bai
 Wrthsefyll yn erbyn eu llif,
 A'u llanw ardderchog didrai.

2 Fel fflamau angherddol o dân,
 Yw cariad f'Anwylyd o hyd ;
 Fe losgodd bob rhwystrau o'i flaen,
 Fe yfodd o'r afon i gyd

Ymaflodd mewn dyn ar y llawr,
 Fe'i dygodd â'r Duwdod yn un !
 Y pellder oedd rhyngddynt oedd fawr,
 Fe'i llanwodd â'i haeddiant ei hun. J. W.

90.

Cyfaill yn angeu.

(8, 7. D.)

- 1 YN y dyfroedd mawr a'r tonau,
 Nid oes neb a ddeil fy mhen,
 Ond y ffyddlawn Archoffeiriad,
 A fu farw ar y pren :
 Cyfaill yw yn afon angeu,
 Ddeil fy mhen uwchlaw y dôn ;
 Golwg arno wna i mi ganu
 Yn yr afon ddofn hon.
- 2 O anfeidrol rym y cariad !
 Anorchfygol ydyw'r gras !
 Digyfnewid yw'r addewid,
 Pery byth o hyn i maes ;
 Hyn yw'm hanghor ar y cefnfor,
 Na chyfnewid meddwl Duw,
 Fe addawodd na chawn farw,
 Y'nglwyfau'r Oen y cawn i fyw. D. W.

91.

Bendithion y groes.

(2, 8.)

- 1 DAETH trwy,
 Fy Iesu glân a'i farwol glwy',
 Fendithion fyrdd daw etto fwy ;
 Mae ynddo faith ddiderfyn stôr,
 Ni gawsom rai defnynau i lawr,
 Beth am yr awr cawn fyn'd i'r môr ?

2 Brydnawn,
 Ar y ddedwyddaf awr a gawn,
 Y talodd Iesu'n eithaf llawn,
 Y Dwyfol Iawn i'm hanwyl Dad :
 Palmantodd ffordd o Galfari,
 I'r nefoedd fry trwy rin ei waed. G.

92. *Cân y Gwardigion.* (2, 8.)

1 FE gân
 Y gwardigion fawr a mân,
 Dragwyddol glod i'w priod glân :
 Pan ddelo'r tân i losgi'r tir,
 Cânt godi'u penau a llawenhau,
 Eu poenus wae â heibio'n wir.

2 Eu cân
 Fydd am Galfaria fawr a mân,
 Ac oll yn gariad, oll yn dân ;
 Yn gwel'd yn lân lwyr gwblhau
 Bob gair a ddaeth o'i enau Ef,
 A'i gariad Ef byth yn parhau.

3 Mae braint,
 Yn awr yn eiddo i bawb o'r saint,
 'Does dafod byth fynega'i maint,
 Can's diange wnant o wlad y boen,
 I'r nefol wledd o faith barhâd,
 Bwrcasodd gwaed yr addfwyn Oen. G.

93. *Hyder am waredigaeth.* (6, 6, 8.)

1 PLANT caethion Babilon,
 D'ont adre o dòn i dòn,
 Cânt wledda'n llon, mae'r dydd gerllaw

Y'ngwydd eu Harglwydd da,
O sŵn y byd a'i bla,
O ddedwydd ha', pa bryd y daw ?

2 Anghenus wyf o hyd,
Mewn trallodedig fyd,
Ac nid oes fythol ddim i'w gael
Gyflawna'm heisieu i gyd,
A'm cana i oll y'nghyd,
Ond haeddiant drud fy Iesu hael.

3 Mi wna' fy nghartre' mwy
Dan gysgod marwol glwy' ;
'Does noddfa addas tan y nef
I'r euog gael glanhad,
Ond yn y ffynnon rad
O ddwfr a gwaed a gollodd Ef. G.

94. *Gwahoddiad at Grist.* (8, 7, 4, 7.)

1 DEUWCH bechaduriaid tlodion,
Clwyfus, cleifion o bob rhyw ;
Iesu parod yw'ch gwaredu,
Llawn tosuri yw Mab Duw :
Nac ammheuwch, &c.
Abl ac ewyllysgar yw.

2 De'weh flinderus a thrwmlwythog,
Drwy y cwymp ga'dd farwol friw ;
Os aroswech nes i'ch wella,
Byth ni ddeuwch tra b'och byw :
Pechaduriaid, &c.
Nid rhai cyfiawn eilw Duw. DIF. CYS.

95.

Ei adnabod Ef.

(M. B. D.)

- 1 Ei 'nabod Ef yn iawn
Yw'r bywyd llawn o hedd,
A gwel'd ei iachawdwriaeth lawn
Sydd yn dragwyddol wledd:
Cael teimlo gwaed ei grces
Yn dofi'r loes a'r cur,
A wnaeth i filoedd o bob oes
I seinio'r anthem bur.
- 2 Mae ynddo fôr didrai
O gariad ac o hedd;
Mae cariad Iesu yn parhau
Tu yma a thraw i'r bedd:
Fe glyw ein cri a'n cwyn
Yn addfwyn, er ei glod;
Ein beichiau parod yw i'w dwyn,
Ffyddlonaf fu erioed.
- 3 Pa'm digalonwn mwy?
Ni gawsom ryfedd fraint;
Mae breintiau etto 'nol sy' fwy
Nas gwyddom ni pa faint;
Rhoed ini yma le
O dan y ne'n ei dŷ;
Ar fyr fe ddenfyn Iesu i'n hol
I'w gôl i Salem frŷ.

DIF. CYS.

96.

Ar farw.

(M. B.)

- 1 Ai marw raid i mi,
A rhoi'r corff hwn i lawr?
A raid i'm henaid ofnus fyn'd
I dragwyddoldeb mawr?

- 2 Beth ddaw o honof fi,
 'Nol gada daear lawr ?
 Tragwyddol wae, neu hedd dilyth,
 A fydd fy rhan yn awr.
- 3 Deffroir fy nghysglyd lwch,
 Pan seinio udgorn Duw ;
 Y byd ar dân, a'r nef yn ffoi
 Rhag Barnwr meirw a byw.
- 4 Mewn galar ai mewn hedd
 Ca'i godi o'r bedd i'r lan ?
 Pa un mewn gwynfyd ai mewn poen,
 Bydd fy nhragwyddol ran ?
- 5 Ni chrewyd f'enaïd drud
 I fyn'd i'r bythol boen ;
 Can's dros bechodau'r euog fyd,
 Bu farw'r addfwyn Oen.

DIF. CYS.

97.

Ffynnon i aflendid.

(M. C.)

- 1 AGORWYD ffynnon i'n glanhau
 Gan Iesu, frenin nef ;
 A'i frydiau i olchi ffwrdd ein bai
 Trwy rym ei gariad Ef.
- 2 Llawenydd sydd i lawer un
 O herwydd agor hon :
 Mae lle i minnau lawenhau
 Bod imi groesaw llon.
- 3 Mi ganaf fi tra fyddwyf byw
 Am rinwedd gwaed yr Oen ;
 Ond mi gâf ganu cyn b'o hir
 Mewn rhyw felysach dôn.

- 4 Mor beraidd odiaeth fydd fy nghainc,
 Mewn anllygredig wedd ;
 Pan fyddo'r tafod musgrell hwn
 Yn ddystaw yn y bedd. DIF. CYS.

98. *Jubili'r efengyl.* (6, 6, 8, 8.)

- 1 UDGENWCH, weision Duw,
 Yr udgorn arian mawr ;
 Gan ddwyn i ddynolryw,
 Newyddion da yn awr :
 Blwyddyn y Jubili a ddaeth,
 A rhyddid cu i'r enaid caeth.
- 2 Dadgenwch oll ar goedd
 Dros wyneb daear lās,
 A llawen uchel floedd,
 Anrhydedd Crist a'i rās :
 Blwyddyn y Jubili a ddaeth,
 A rhyddid cu i'r enaid caeth.
- 3 Mae gwaredigaeth hael
 Trwy rinwedd gwaed yr Oen ;
 I bechaduriaid gwael,
 Sy'n byw tan bwysfawr boen :
 Blwyddyn y Jubili a ddaeth,
 A rhyddid cu i'r enaid caeth.
- 4 Eneidiau ofnus, de'wch
 Yn rhwydd at Iesu Grist ;
 Ammheuon ymaith rho'wch,
 Daeth cysur i rai trist :
 Daeth blwyddyn fawr y Jubili,
 I ro'i tragwyddol hedd i ni.

99.

Bywha dy waith.

(M. H.)

- 1 O ARGLWYDD Dduw, bywha dy waith
Trwy holl derfynau'r ddaear faith :
Tros dir a môr dysgleiried grâs,
Gan lwyr orchfygu pechod câs.
- 2 Eglwysi hardd fel gwinwydd îr,
Flaguro'n dêg drwy'r gogledd dir ;
A theyrnas Crist trwy'r dehau crâs,
Flodeuo ar led fel Eden lân.
- 3 Clodfored pob creadur byw
Yr unig ddoeth anfarwol Dduw ;
Gwna'r ddaear hon yn ddelw gu
O'r nefoedd ogoneddus fry.

B. F.

100.

Bendithion yr efengyl.

(8, 7, D.)

- 1 DEFFRO f'enaïd, deffro 'nhafod,
Seinia glod yr Iesu glân ;
Cydfolianna â llu'r nefoedd,
Seinia'n gyhoedd nefol gân :
Do, dysgleiriodd dwyfol gariad,
Fel tywyniad haul y nef,
Ar ein daear dywell anial,
Yn ei hael fendithion Ef.
- 2 Gwir oleuni a chyfiawnder
O'r uchelder ddaeth i lawr ;
Gwych a dirfawr iachawdwriaeth,
A hedd melus, helaeth, mawr :
Do, dysgynodd nefoedd newydd
O lawenydd ar y wlad,
Llonodd Crist ein trist eneidiau
Trwy rinweddu'i gariad rhad.

B. F.

101. *Mor hawddgar yw dy bebyll.* (8, 7.)

1 MOR deg yw'th bebyll di, O Dduw,
Mor hawddgar yw'th gynteddoedd!
Nid oes fath gu balasau gwych
Tu yma i entrych nefoedd.

2 Preswylfa hardd y Brenin mawr
Yw Sion werthfawr hylwydd:
Ac yno bydd ei orsedd lân,
A'i drigfan yn dragywydd.

3 Y mae un diwrnod yno'n well
Na mil yn mhebyll gwagedd;
Cawn yn dy dŷ gysuron da,
Gwir felus, a gorfoledd.

4 Gwyn fyd a drig o fewn dy dŷ,
Gan dy foliannu beunydd;
Cânt wisgo hardd ogoniant gwiw
Fry gyda Duw'n dragywydd.

B. F.

102. *Ar yr un testun.* (M. H.)

1 MOR hardd, mor deg, mor hyfryd yw,
Dy babell sanctaidd di, O Dduw!
Mor loew y dysgleiria hi
Gan lewyrch dy wynebpryd di!

2 Rhagori mae ei chywrain waith
Ar holl balasau'r ddaear faith:
A'r nef a edrych oddi draw
Ar adail lân dy ddwyfol law.

3 Pan welsom yno'th anwyl wedd,
Pan brofom yno'th hyfryd hedd,

Cydganu wnawn ar lawen lef,
 "Ti'n dygaist ni i borth y nef."

- 4 Rho' imi'r fraint o'th wel'd ar frys
 O fewn dy lân fendigaid lys;
 Prydferthwch mwya'th babell yw,
 Dy bresenoldeb di ein Duw.

B. F.

103.

Mwynhau Cariad Duw.

(8, 7, D.)

- 1 RHO' dy gariad, Arglwydd ini,
 I'n gwresogi oll yn fawr;
 'Rhwn sy'n lloni'r glân angelion,
 Doed i'n calon bawb yn awr:
 Arglwydd Iesu, cariad rhyfedd,
 A thrugaredd ydwyt ti,
 Ti yn llenwi'n hymysgaroedd,
 Grëai nefoedd ynom ni.

- 2 Ti a ddichon lwyr orchfygu
 Grym a gallu pechod câs;
 Brysia, Arglwydd, ei ddinystrio,
 A'n sancteiddio ni â'th râs:
 Pura'n hollol ein calonau,
 Fel bo'nt demlau glân i ti;
 Boed i'th Ysbryd Glân gartrefu
 A theyrnasu ynom ni.

J. B.

104.

Ffordd sanctaidd.

(M. H.)

- 1 FY anwyl Iesu aeth i'r nef,
 Mae'm holl ymddiried ynddo Ef;
 Yn ol ei draed mi gerdda'n hy',
 Nes im' gael golwg arno fry.
- 2 Hon ydyw ffordd prophwydi Duw,
 A ffordd ddyogel bywyd yw;

Prif ffordd sancteiddrwydd, 'rhyd-ddi âf,
Can's ynndi hedd a chysur câf.

- 3 Ymdrechu bu'm â'r gelyn câs,
A llithro fwyfwy ar y maes ;
Nes imi glywed galwad Crist,
" Myfi yw'r ffordd, tyr'd enaid trist."
- 4 Fendigaid Oen, mi wela'th glwyf,
Ti a'm derbyni fel yr wyf ;
Bechadur euog yn ei waed,
Sy'n d'od am brawf o'th gariad rhad.
- 5 Caiff pechaduriaid glywed sôn,
Am fy nglanhâd y'ngwaed yr Oen ;
Dangosaf Brynwr dynolryw,
A gwaeddaf, " Wele'r ffordd at Dduw." J. L.

105. *Ymdeithydd tua'r nefoedd.* (M. C.)

- 1 YMDEITHYDD wyf mewn dyrys daith,
A'm ffordd sydd drom a phell ;
Mae tynfa f'enaid egwan llaith
I wlad a thrigfa well.
- 2 'Rwyf weithiau'n gwel'd trwy ddrych o ffydd,
Ryw faint o'r hyfryd wlâd :
A thyna pa'm yr wyf bob dydd
A'm cais am dŷ fy Nhad.
- 3 Paid, f'enaid gwan, a llwfrhau,
Er twymned ydyw'r dydd ;
Mae tragwyddoldeb yn nesâu,
O hyfryd foreu ddydd !
- 4 O Sion nefol ! drigfan wiw !
Paradwys Brenin ne' ;

Lle y mae seintiau lu yn byw,
Ddiangodd draw i dre'.

D. LL.

106.

Gogoneddu Duw.

(7, 6, D.)

1 O DDUW, rho rym i redeg
Yn addas er dy glod ;
A chadw'm golwg egwan
Yn gywir at y nôd ;
Nes gwawrio'r hyfryd foreu,
Câf ddodi nghroesau i lawr,
A chanu Haleluia
Yn mhlith y dyrfa fawr.

2 Enwaeda di fy nghalon
I'th garu'n ffyddlon iawn ;
Ac i dy wir addoli,
O dyro gymhorth llawn :
Dysg imi orfoleddu
Yn Iesu Grist a'i groes,
A llwyr ymddiried ynddo
Tra paro dyddiau f'oes.

W. H.

107.

Y gair a'r efengyl.

(8, 7.)

1 Y'NGAIR yr Arglwydd ddydd a nos,
Bo'n aros fy myfyrdod,
Ac yno boed fy meddwl I
'Ncartrefu hyd fy meddrod.

2 Mae hyfryd lais efengyl lon
Yn tirion alw beunydd,
Ar bechaduriaid gwael eu rhyw
Dd'od at eu Duw a'u Harglwydd.

C. J.

108. *Ymostwng i drefn Duw.* (7, 6, D.)

1 YN nyfnder moroedd mawrion
 Mae ffordd fy Arglwydd Dduw,
 Er hyny doeth a sanctaidd,
 A rhyfedd berffaith yw :
 Y tonau sy' debycaf
 I suddo f'enaïd gwan,
 A'm taflant I yn nesnes
 I'm cartref hyfryd fan.

2 Am hyn boed f'ysbryd egwan
 Yn isel wrth ei draed,
 Yn syn ryfeddu dyfais
 Yr iachawdwriaeth rad ;
 A'm calon f'on blygedig
 I'w 'wyllys yn mhob man,
 Nes iddo'm dwyn o'r diwedd,
 O'r cystudd mawr i'r làn.

MOR. J.

109. *Drwg pechod.* (8, 7, D.)

1 MI gyfarfum a gofidiau,
 Amryw weithiau ar fy nhaith ;
 Rhai addawyd i'm goddiwes,
 Ereill grëais lawer gwaith :
 Ond o bobpeth chwerw brofais,
 Pechod gefais chwerwa' i gyd,
 Hwn a wnaeth i'm Duw i wgu,
 A minnau grynu aml bryd.

2 Cystudd natur, trwm orthrymder,
 Barodd flinder lawer pryd ;
 Gwg rhagluniaeth, gwawd gelynion,
 Ro'es im dwyfron ofid drud :

Er hyn oll—a satan greulon,
 Pall cyfeillion, byd a'i w'g,
 Ni bu dim ro'es im fath loesion
 A bod genyf galon ddrwg.

- 3 Pechod ydyw gwreiddyn chwerw
 'N trallod garw oll i gyd;
 Hwn sy'n peri uchel ochain,
 Gwaeau uffern boeth a'r byd:
 Hwn oedd achos angeu Iesu,
 A'i galedi mawr i gyd;
 Mawl diderfyn f'o i'r Duwdod,
 Concrodd bechod yr un pryd. D. J—S.

110. *Dyoddefaint a buddugoliaeth Crist.* (M. H.)

- 1 PAN oedd ein Prynwr ar y pren,
 Yr haul ymguddiodd, fföai'r wawr;
 A phan ogwyddodd ef ei ben,
 Galarai'r nefoedd, crynai'r llawr.
- 2 Wrth weled Crist o dan fy mhwn,
 O'm llygaid rhed y dagrau'n lli';
 Ei werthfawr waed tywalltodd hwn
 Yn ffrydiau mawrion drosof fi.
- 3 Wel, dyma gariad uwch pob gradd,
 Bu farw'r Oen dros euog rai!
 Ond llawenhawn; er cael ei ladd,
 Mae heddyw'n fyw i faddeu bai.
- 4 Gadawai'r bedd; Iôr cadarn oedd;
 Esgynodd adref at ei Dad;
 Angelion fyrdd, â llawen floedd,
 Croesawent ef i'r nefol wlad.

- 5 O! Sion wan, bydd lawen iawn
Wrth gofio ymdrech Iesu cu;
Eannillodd fuddugoliaeth lawn
Ar uffern fawr ac angeu du.
- 6 Byth, byth teyrnasa, Frenin hedd;
Achub fyrddiynau trwy dy waed:
Darostwng uffern, myn y bedd,
A'th holl elynion dan dy draed.

P. J.

111. *Esgyniad Crist i'r nefoedd.* (M. H.)

- 1 I'R lan o'r bedd ein Harglwydd daeth;
Esgynodd frÿ tu draw i'r llen:
Galluoedd uffern dug yn gaeth
Trwy'r awyr lâs hyd entrych nen.
- 2 O flaen ei gerbyd dysglaer ef,
Bloeddiar angelion ar bob llaw,
Codwch eich penau, byrth y nef:
Chwi ddrysau oesawl, ciliwch draw.
- 3 Yn llydan gwnewch y ffordd yn rhydd,
A throwch yn ol, chwi follltau'r gwawl;
Gwiw Frenin y gogoniant sydd
Yn d'od i mewn, mae ganddo hawl.
- 4 Pwy ydyw'r Iôr gogonawl? pwy?
Yr Arglwydd nerthol, cryf mewn cād:
Ei holl elynion, maeddodd hwy,
Yn awr mae'n esgyn at ei Dad.
- 5 Crist Iesu yw derbyniwch ef;
Mae'n Frenin mawr, i fewn fe ddaw;
Codwch eich penau, byrth y nef;
Chwi ddrysau oesawl, ciliwch draw.

6 Pwy ydwy'r Brenin enwog? pwy?
 Arglwydd y lluoedd, ef yw'r Pen:
 Hwn gaiff y mawl a'r enw mwy;
 Bendigaid fydd byth, byth: Amen. P. J.

112.

Supper yr Arglwydd.

(M. H.)

- 1 O! TYR'D yn mlaen fy enaid trist,
 I gofio chwerw angeu Crist:
 Fe roes ei hunan yn fy lle;
 A phwy a gofias ond efe?
- 2 Ei gorff a'i enaid ar y groes
 Yn aberth dros ein beiau rhoes;
 A dwfr a gwaed i'n golchi'n wyn
 A ddaeth o'i ystlys ar y bryn.
- 3 Fe 'i drylliwyd ef i'n cadw'n fyw,
 A chlwyfau'r Oen ein lloches yw:
 Trwy iawn cymmododd ni â'i Dad;
 Diolchwn am ei gariad rhâd.
- 4 Rhyfeddol oedd i'r Oen di fai
 Gymeryd cosp yr euog rai:
 Ti gei'r gogoniant, Iesu mawr,
 Byth, byth am gofio llwch y llawr.
- 5 Diolchus gôf a fydd o hyd
 Am angeu Crist tra paro'r byd;
 A chenir am ei loesion ef
 I dragwyddoldeb yn y nef.
- 6 Maddeuant sydd trwy'r aberth hedd,
 Ac arno cawn dragwyddol wledd;
 A newydd win, ffrwyth cariad rhâd,
 Cawn yfed gyd â Crist a'i Dad. P. J.

113. *Marwolaeth Crîst yn Iawn am bechod.* (M. H.)

- 1 FE ga'dd y gyfraith berffaith iawn
Yn angeu Iesu un prydawn :
Y mae cyfiawnder pur y nef
Yn foddlon yn ei aberth ef.
- 2 Os gofyn deddf berffeithrwydd im',
A minnau'r gwael heb feddu dim,
Dangosaf iddi'r hwn a roes
Ei hunan dros of ar y groes.
- 3 Trwy angeu Crist ar Galfari,
Daeth bywyd llawn a hedd i ni ;
O'i dristwch dwfn a'i loesion ef
Y tardd llawenydd pena'r nef.
- 4 Mae adgyfodiad Crist o'r bedd
Yn dangos bod y nef mewn hedd :
Gollyngai'r Tad y Meichiau'n rhydd
O rwymau angeu'r trydydd dydd. P. J.

114. *Galwad ar Ieuengctyd.* (M. H.)

- 1 O! FILWYR ieuaingc, de'wch i gyd
Yn erbyn satan, cnawd a byd :
Os de'wch dan faner Crist yn wir,
Cewch ranu'r yspail cyn b'o hir.
- 2 Mae'r ieuaingc yn aberthau byw,
A chymeradwy iawn gan Dduw :
A llawen gan angelion nef
Wel'd plant o dan ei faner ef.
- 3 O! cofiwch eich Crëawdwr mawr,
A rho'wch eich hunain iddo'n awr :

Mae'n caru plant, a mebyd yw
Yr amser hoffaf gan ein Duw.

- 4 Mae gan Dduw winllan yn y byd ;
De'wch, gweithiwch ynddi, mae'n llawn bryd :
Ar fyr cawn orphwys frŷ mewn hedd,
A'n galw i'r dragwyddol wledd. P. J.

115.

Galwad ar Ieuengctyd.

(M. H.)

1 CYSSEGRWN flaenffrwyth dyddiau'n hoes
I garu'r hwn fu ar y groes :
Mae mwy o bleser yn ei waith
Na dim a fedd y ddaear faith.

2 Cael bod yn fore dan yr iau
Sydd gan mil gwell na phleser gau :
Mae ffyrdd doethineb oll i gyd
Yn gysur ac yn hedd o hyd.

3 Y plant a wasanaethont Grist,
Cânt ddiange byth rhag uffern drist :
Mae myrdd o ie'ngctyd yn y nef,
Yn berlau yn ei goron ef.

4 O ! na threuliaswn yn ddi goll
O dan iau Crist, fy mebyd oll :
Mae'r hwn a'm prynodd ar y groes
Yn deilwng o bob awr o'm hoes. P. J.

116.

Y Sabboth.

(M. H.)

1 Y SABBOTH, gwyl nefolaidd yw ;
Ar hwn cyfododd Iesu'n fyw :
Clodforwn ninnau Frenin hedd,
Mae wedi perarogli'r bedd.

- 2 O! f'enaïd, nac anghofia'r dydd
Y daeth y Meichiau mawr yn rhydd :
Agorwyd ini borth y nef
Trwy rin ei fuddugoliaeth ef.
- 3 Mor hyfryd cael un dydd o'r saith
I'w dreulio'n hollol gyd â'th waith ;
Gorphwysfa dawel f'enaïd trist,
A gwledd yw cofio angeu Crist.
- 4 Gwaith rhyfedd oedd creu nef a llawr,
A threfnu'r grëadigaeth fawr :
Ond gwaith rhyfeddaf Duw ei hun
Oedd gorphen iachawdwriaeth dyn.
- 5 Y mae gorphwysfa'n ôl i'r saint,
Mewn gwlad o hedd, O ryfedd fraint !
Lle cânt fwynâu, heb gur na phoen,
Dragwyddol Sabboth gyd â'r Oen. P. J.

117. *Annogaeth i foliannu Duw.* (M. C.)

- 1 YN nhÿ ein Duw clodforwn ef,
Lle rhydd ei hedd a'i răs ;
Dyrchafwn lais hyd byrth y nef
Mewn hyfryd hwyl a blăs.
- 2 Yn wiw deffroed pob nwyd a dawn
I ganmol Duw'n ddi lyth :
Ond rhyfeddodau grăs yn llawn,
Nis gallwn ddatgan byth.
- De'wn a moliannwn Frenin hedd ;
Ei glod a seinio'n mhell :
Ond gyd âg ef, tu draw i'r bedd,
Ni gawn ei foli'n well. P. J.

118. *Iawn ac Eiriolaeth Crist.* (7, 4.)

- 1 ANGEU ac eiriolaeth Crist yw ngorfoledd ;
Hyn a ddwg i'm henaid trist lawn dangnefedd :
Collai'r ddeddf ei damniol rym ar Galfaria ;
Dofwyd llid cyfiawnder llym ; Haleluia.
- 2 Iesu yw dyfyrwch f'oes yn fy mlinfyd ;
Ac ymfrostiaf yn ei groes dros fy mywyd :
Tan ei gysgod, nos a dydd, gwnaf fy nhrigfa ;
Fy nhwr cadarn-byth a fydd ; Haleluia.
- 3 Iesu a'i gyflawnder ef yw fy mywyd ;
Fe'm cymhwysa' i deyrnas nef, trwy ei Ysbryd :
Golchir fi o'm pen i'm traed, fel yr eira,
Trwy rinweddau dwyfol waed ; Haleluia.
- 4 Mae fy Mhrynwr heddyw'n fyw, ac yn eiriol :
Sail eiriolaeth dros of yw Iawn digonol :
Ei waith ynof yn y màn, a berffeithia :
Gorfoleddaf yn fy rhan ; Haleluia. P. J.

119. *Crist yn neddfle pechadur.* (M. H.)

- 1 RHYFEDDAF byth i D'wysog ne'
Fyn'd dan law'r lleiddiaid yn fy lle :
Dan hoelion dur, ar Galfari,
Gwnaed ef yn felldith dros of fi.
- 2 Hosanna byth ! rhyfeddol yw,
Troseddwyr euog yn cael byw ;
A'r Iesu glân, yr Oen di fai,
Yn marw dros yr euog rai.
- 3 O'i gariad rhâd, ei hunan rhoes
Yn aberth drosom ar y groes :

Am hyn dadseinia nef y nef
Gan fawl ei brynedigion ef.

- 4 Yr aberth a foddlonai'r nef
Yw sail a grym eiriolaeth gref:
Y gwaed a roddodd iawn i'r Tad
A rydd i minnau wir iachâd.
- 5 Fy nghyfoeth a'm bywioliaeth lawn
Yw angeu Crist a'i berffaith iawn:
Fy ngwisg yw ei gyfiawnder ef,
O flaen gorseddfaine bur y nef.

P. J.

120.

Gorphenwyd.

(M. H.)

- 1 GORPHENWYD, medd ein Iesu mawr;
A'i fywyd rhoes o'i fodd i lawr:
Gorphenwyd! do, fe gaed y dydd;
Fe dalwyd iawn, daw'r caeth yn rhydd.
- 2 Gorphenwyd—cynghor Duw heb goll,
Y deddf, a'r addewidion oll;
Cyflawnwyd nôd y rhai'n i gyd
Yn Iesu, Prynwr mawr y byd.
- 3 Gorphenwyd! clywch y gair i gyd;
O! hyfryd sain, amgylcha'r byd:
Gorphenwyd! aed yr adsain lon
Trwy nef y nef a'r ddaear gron.

P. J.

121.

Cwyp Anghrist.

(9, 8.)

- 1 MAE'R Jubili hyfryd yn nesu,
Ac eisoes fe dorodd y wawr:
Pan ddryllir y tynion garcharau,
Bydd canu trwy'r nefoedd a'r llawr:

Daw Sion yn llwyr o'r caethiwed,
 Ac fel llu banerog y bydd;
 Fe enir cref genedl ar unwaith;
 Hosanna, prysured y dydd!

- 2 Daw angel cyn hir i ehedeg
 Yn ddysglaer yn nghanol y nef,
 A chando'r efengyl dragwyddol,
 Yn nerthol a pheraidd ei lef:
 Preswylwyr y ddaear a glywant
 Am rês y Gwardedwr i gyd;
 Gau grefydd ac eilun-addoliaeth
 A fwrir yn hollol o'r byd.
- 3 Haul dysglaer cyfiawnder a gyfyd,
 Ymleda'r goleuni fwy fwy;
 Ni thwylla'r gau brophwyd na'r hwystfil
 Genedloedd y ddaear yn hwy:
 Caiff annghrist ei lwyr ddadymchwelyd,
 Fe gwympa hen Babilon fawr;
 Ceir clywed y floedd orfoleddus,
 "Hi syrthiodd, hi syrthiodd i lawr!" P.J.

ADBIGION O HYMNAU WILLIAMS.

122. *Tegwch, haeddiant a mawredd Crist.* (8, 8, 8.)

- 1 NI welodd llygaid dyn erioed,
 Ni chlywodd clust o dan y rhod,
 Am neb cyffelyb iddo Ef:
 O rosyn Saron hardd ei liw!
 Pwy ddatgan byth rinweddau'm Duw?
 Efe yw bywyd nef y nef.

- 2 Mae yn ei glwyfau drysor drud,
I faddeu beiau pena'r byd,
O flaen yr orsedd buraf sydd ;
Ni all euogrwydd yno ddim,
Fe gyll y ddeddf ei damniol rym,
Maddeuant perffaith garia'r dydd.
- 3 Fe ddaw y diwrnod, doed pan ddel,
Y llygaid hyn eu hunain wél,
Pan ymddangoso'i fawredd Ef ;
Mewn rhwysg a harddwch, parch a bri,
Y'mhlith cwmpeini aneirif ri',
Bydd yn rhyfeddod dae'r a nef.

123.

Ar yr un testun.

(8, 8, 8.)

- 1 O ! F'ENAID edrych arno'n awr,
Yn llanw'r nef, yn llanw'r llawr,
Yn holl ogoniant dwr a thir :
Nid oes, ni fu erioed, ni ddaw,
O'r dwyrain i'r gorllewin draw,
Gyffelyb i'm Hanwylyd pur.
- 2 Mi garaf fy Anwylyd mwy,
Dyoddefodd trosol farwol glwy',
Agorodd ffynnon loëw fyw ;
I olchi hen archollion wnaed,
Gan bechod câs o'm pen i'm traed,
Y dyfroedd dardd tan groes fy Nuw.

124.

Ffynnonau bywiol o ddyfroedd. (8. 7, 4, 7.)

- 1 CHWI ffynnonau bywiol hyfryd,
Craig agorwyd ar y pren,

- I iachau archollion dyfnion
 Dynion aflan is y nen :
 Dyma'r euog, &c.
 Sydd ag eisieu'r dyfroedd byw.
- 2 Dacw'r ffynnon i'w dymuno,
 Fywiol, sy'n yr anial dir ;
 Dacw'r unig ddŵr sy'n rhoddi
 Hedd, ac anfarwoldeb pur :
 Ar Galfaria, &c.
 Tardd yr afon loëw i maes.
- 3 Yno'r âf i 'mofyn pleser,
 Unig bleser i barhau :
 Yno câf fi lawn faddeuant
 Am bob trosedd, am bob bai :
 Yno'n unig, &c.
 Câf fy nisychedi'n llawn.

125.

Pwyso ar Dduw.

(6, 6, 8, 8.)

- 1 Fy enaid at dy Dduw,
 Fel gwrthddrych mawr dy gred,
 Trwy gystudd o bob rhyw,
 A phob temtasiwn rhed :
 Câf ganddo Ef gysuron gwir,
 Fwy nag ar foroedd nag ar dir.
- 2 O ! na allwn roddi mhwys
 Ar dy ardderchog law :
 A gado'i gystudd dd'od
 Oddiyma ac o draw :
 A byw tan nawdd y dwyfol waed
 Y'ngolwg hyfryd dŷ fy Nhad.

- 3 Mi fyddaf lawen iawn,
 A ngofid tan fy nhraed,
 O fore hyd brydnawn
 Tan aden gwir fwynhâd :
 Mae dy fwynhâu a phrofi'th hedd,
 Yn wastad imi'n hyfryd wledd.

126.

Ofnau ac ymbiliau.

(8, 7, D.)

- 1 DYMA'R tlawd, a dyma'r truan,
 Sydd er's trist flynyddau hir,
 Ol a gwrthol yn ymddrysu
 'Rhyd y dyrus anial dir :
 Creigydd Pihahiroth yma,
 Baalsephon oddi draw,
 Aipht o mewn, ac Aipht oddiallan
 Sy'n fy nghuro ar bob llaw.
- 2 Mae'm gelynion yn gynddeiriog,
 Cynddeirioca glywyd sôn :
 Ar fy neulin 'rwyf yn ymladd,
 Weithiau â phleser, weithiau â phoen :
 Addfwyn Iesu tyr'd i'r frwydr,
 Pob rhyw elyn gwymp i lawr,
 Byd, a chnawd, ac uffern dywyll,
 Sy'n arswydo'th enw mawr.

127.

Duw sy'n noddfa a nerth.

(8, 7, D.)

- 1 DUW, nid oes ond ti dy hunan
 Feiddia sefyll o fy nhu ;
 Trech na'r cwbl arall enwir
 Yw'm gelynion mawr eu rhi' :

Gwn y cwmpaf yn eu dwylaw
 Oni sefi yn fy rhan,
 Wrth dy ystlys cryf a chadarn
 Ydyw'r eiddil mwyaf gwan.

- 2 Achub, achub, mae'n ddiweddar,
 Nid oes geny' ond byr brydnawn :
 Ac mae'r fyddin sydd i'm herbyn
 Yn cynnyddu'n danbaid iawn :
 Danfon allan saethau'r nefoedd,
 Cyfod, dod fi yn dy gôl,
 A thro'r llu sy'n erbyn Sion
 Gan ryw ddychryn yn eu hol.

128.

Gweled gogoniant Duw.

(M. H.)

- 1 TYDI fy Nuw, tydi dy hun,
 Yw gwraidd fy nghysur oll yn un ;
 Meddyliau am danat sy'n rho'i blas
 Ar ragluniaethau chwerwa'i maes.
- 2 Pan caffwyf wel'd dy nefol wedd,
 A phrofi blas dy ddwyfol hedd ;
 'Rwy'n gwel'd gogoniant pena'r byd
 Fel peth annheilwng o fy mryd.
- 3 'Rwy'n gwel'd dirgelion yn ei waed
 Na chafwyd etto eu mwynhâd ;
 Grâs a gogoniant ynddo'i hun,
 Uwchlaw erioed feddyliodd dyn.
- 4 Gâd yma i'm fyw, fan oreu 'rioed,
 Heb wel'd, heb glywed beth sy'n bod :
 Heb wybod beth mae'r werin fawr
 Yn wneyd ar wyneb daear lawr.

5 Ond boed fy nghlustiau'n gwrando o hyd
 Ddirgelion dystaw nefol fyd;
 A'm pleser unig ddydd a nos
 Yn nyfnion wirioneddau'r groes.

129. *Seren Bethlehem.*—Caniad. (11au.)

FE gododd rhyw seren tu dwyrain i'r nen,
 Mae'n agos i'r ddaear, mae'n oleu, mae'n wen;
 Mae'n cerdded yn araf fel colofn o dân,
